# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 03/12/2013

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Canlyniadau Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr
Urgent Question: The Programme for International Student Assessment Results

Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon
Questions to the Minister for Culture and Sport

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Ymatebion i'r Papur Gwyn 'Rhentu Cartrefi'
Statement: Responses to the 'Renting Homes' White Paper

Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg (Cymru)
Debate on the General Principles of the Education (Wales) Bill

Cynnig i Gytuno ar y Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â Bil Addysg (Cymru)
Motion to Agree the Financial Resolution in respect of the Education (Wales) Bill

Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)
Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)
Standing Order 26.47 Motion to Approve the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill

Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Cyllid y GIG (Cymru)
Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the NHS Finance (Wales) Bill

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Cyllid y GIG (Cymru)
Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the NHS Finance (Wales) Bill

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Trefn, trefn. The National Assembly is now in session.

Trefn, trefn. Dyma ddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Plismona

### Policing

13:30

### Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch plismona yng Nghymru? OAQ(4)1374(FM)*

*1. What recent discussions has the First Minister had in relation to policing in Wales? OAQ(4)1374(FM)*

13:30

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have not had any recent discussions personally, but my colleague Lesley Griffiths, the Minister for Local Government and Government Business, holds regular meetings with the chief constables and police and crime commissioners.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau diweddar yn bersonol, ond mae fy nghydweithiwr Lesley Griffiths, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r prif gwnstabliaid a'r comisiynwyr heddlu a throseddu.

13:30 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With policing devolved to Scotland and Northern Ireland, as well as to the Länder in Germany and to the Spanish regions—excluding items such as border control and terrorism—do you agree that policing should be devolved to Wales now?

Gan fod plismona wedi ei ddatganoli i'r Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag i'r Länder yn yr Almaen ac i ranbarthau Sbaen—ac eithrio eitemau fel rheoli ffiniau a therfysgaeth—a ydych chi'n cytuno y dylai plismona gael ei ddatganoli i Gymru bellach?

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I think that there is a very strong case for devolving policing to Wales. It is the only emergency service—on land, at least—that has not been devolved. It makes sense, as the fire service and, of course, the ambulance service have been devolved, for policing to follow suit. That is the evidence that the Welsh Government has given to the Silk commission.

Ydw, rwy'n credu bod achos cryf iawn dros ddatganoli plismona i Gymru. Dyma'r unig wasanaeth brys—ar y tir o leiaf—nad yw wedi ei ddatganoli. Mae'n gwneud synnwyr, gan fod y gwasanaeth tân ac, wrth gwrs, y gwasanaeth ambiwlans wedi eu datganoli, i'r un peth ddigwydd o ran plismona. Dyna'r dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i gomisiwn Silk.

13:31 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, could you confirm to the Chamber whether you participated, in any form, in Lord Stevens's commission for the Labour Party into the future of policing, and, specifically, whether you agree with the Labour Party recommendation of having only one police force in Wales?

Brif Weinidog, a allech chi gadarnhau i'r Siambr pa un a wnaethoch chi gymryd rhan, mewn unrhyw ffordd, yng nghomisiwn yr Arglwydd Stevens ar gyfer y Blaid Lafur i ddyfodol plismona, ac, yn benodol, a ydych chi'n cytuno ag argymhelliad y Blaid Lafur o gael dim ond un heddlu yng Nghymru?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are three recommendations. One recommendation is that there should be one police force for Wales; I do not think that we can go that far. What is required first is the devolution of policing, and it will then be a matter for the Assembly to decide what the shape of the constabularies in Wales would be in the future.

Ceir tri argymhelliad. Un argymhelliad yw y dylai fod un heddlu ar gyfer Cymru; nid wyf yn credu y gallwn fynd mor bell â hynny. Yr hyn sydd ei angen gyntaf yw datganoli plismona, ac yna bydd yn fater i'r Cynulliad benderfynu beth fyddai ffurf heddluoedd yng Nghymru yn y dyfodol.

13:31 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Roeddwn yn falch o glywed eich ateb funud yn ôl, Brif Weinidog. Roeddwn yn cael trafodaeth gydag un o uwch-swyddogion Heddlu Gogledd Cymru rai dyddiau yn ôl a oedd yn dweud eu bod yn awyddus i gydweithio llawer mwy â'r gwasanaeth tân, ond bod teimlad nad oedd Llywodraeth Cymru am weld hynny'n digwydd oherwydd mai dim ond un ohonynt, sef y gwasanaeth tân, a oedd wedi cael ei ddatganoli. O ystyried eich cefnogaeth i ddatganoli'r heddlu, onid yw'n gwneud synnwyr, felly, y byddai datganoli'r heddlu, ynghyd â'r system gyfiawnder troseddol, yn helpu'r math hwnnw o gydweithredu ar bob lefel?

I was pleased to hear your response just a few moments ago, First Minister. I was having a discussion with a senior officer in North Wales Police a few days ago who said that they were eager to collaborate a lot more with the fire service, but that there was a feeling that the Welsh Government did not want to see that happening because only one of those services, namely the fire service, had been devolved. Given your support to the devolution of policing, does it not make sense, therefore, that devolving policing, along with the criminal justice system, would assist in that sort of collaboration at all levels?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae cydweithio'n digwydd yn awr, wrth gwrs. Maent yn siarad â'i gilydd, ac mae'r gwasanaethau argyfwng yn rhan o'r 'resilience forum' hefyd—mae'n bwysig pwysleisio hynny. Yn ogystal â hyn, mae'r heddlu'n gweithio'n agos gyda ni, fel Llywodraeth. Dyna pam, yn ein barn ni, ei bod yn beth call i symud i sefyllfa lle bo'r hyn sy'n digwydd yn awr yn cael ei wneud yn ffurfiol yn y dyfodol.

Collaboration happens now, of course. They communicate with each other, and emergency services are part of the resilience forum—it is important to emphasise that fact. In addition it this, the police work very closely with us, as a Government. That is why, in our opinion, it would be wise to move to a situation where what happens now is done formally in the future.

## Torfaen

## Torfaen

13:32 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt yr amgylchedd yn Nhorfaen? OAQ(4)1385(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for the environment in Torfaen? OAQ(4)1385(FM)*

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The programme for government and the Minister for Natural Resources and Food's autumn statement set out our priorities for the environment across Wales.

Mae'r rhaglen ar gyfer llywodraethu a datganiad yr hydref y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer yr amgylchedd ledled Cymru.

13:32 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, will you join me in commending the Minister for Housing and Regeneration for doing the right thing by the people of Varteg, and rejecting plans to opencast that would have threatened the viability of a school, jeopardised the UNESCO world heritage site, and blighted an entire community? However, as we look to the future, will you now work with the Minister to draw upon the very important lessons from this case, ensuring that communities such as Varteg never again have to endure years of crippling uncertainty, particularly when we have a minerals technical advice note in place that is meant to protect them?

Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i ganmol y Gweinidog Tai ac Adfywio am wneud yr hyn sy'n iawn ar gyfer pobl Farteg, a gwrthod cynlluniau cloddio brig a fyddai wedi bygwth hyfywedd ysgol, peryglu safle treftadaeth y byd UNESCO, a difetha cymuned gyfan? Fodd bynnag, wrth i ni edrych i'r dyfodol, a wnewch chi weithio gyda'r Gweinidog bellach i ddysgu gwersi pwysig iawn yr achos hwn, gan sicrhau na fydd yn rhaid i gymunedau fel Farteg ddioddef blynyddoedd o ansicrwydd andwyol fyth eto, yn enwedig pan fo gennym nodyn cyngor technegol mwynau ar waith sydd i fod i'w hamddiffyn?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am very much aware of the number of occasions on which the Member has raised the issue of Varteg in the Chamber. She has made the views of her constituents very clearly known. She will appreciate, of course, that, given that we are within the six-week period for a legal challenge of the Minister's decision, I cannot comment on the application itself. However, nevertheless, with regard to the planning system generally, we have the planning reform Bill that is being taken forward now, and further consideration will be given to a planning Bill in the future, during the course of this Assembly as well.

Rwy'n gwbl ymwybodol o'r nifer o weithiau y mae'r Aelod wedi codi mater Farteg yn y Siambr. Mae hi wedi gwneud safbwyntiau ei hetholwyr yn eglur iawn. Bydd yn gwerthfawrogi, wrth gwrs, o ystyried ein bod o fewn y cyfnod o chwe wythnos ar gyfer her gyfreithiol i benderfyniad y Gweinidog, na allaf gynnig sylwadau ar y cais ei hun. Fodd bynnag, serch hynny, o ran y system gynllunio yn gyffredinol, mae'r Bil diwygio cynllunio gennym sy'n cael ei symud ymlaen ar hyn o bryd, a bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i Fil cynllunio yn y dyfodol, yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn hefyd.

13:33 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Torfaen County Borough Council is today quite likely to agree its local development plan, which provides for a large number of housing. It is difficult to quite see why it needs so many within the plan, although it does extend for many years. Much of that housing is on greenfield sites. How does that conflict with your environmental policies?

Brif Weinidog, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn bur debygol o gytuno ar ei gynllun datblygu lleol heddiw, sy'n darparu ar gyfer nifer fawr o dai. Mae'n anodd gweld yn union pam mae angen cymaint arno o fewn y cynllun, er ei fod yn ymestyn am flynyddoedd lawer. Mae llawer o'r tai hynny ar safleoedd maes glas. Sut mae hynny'n gwrthdaro â'ch polisïau amgylcheddol chi?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We, of course, have to examine any potential LDP, and it is for the Minister to decide what action he may or may not wish to take with regard to any LDP during the adoption process.

Mae'n rhaid i ni, wrth gwrs, archwilio unrhyw CDLl posibl, a mater i'r Gweinidog yw penderfynu pa gamau y mae'n dymuno neu nad yw'n dymuno eu cymryd o ran unrhyw CDLl yn ystod y broses fabwysiadu.

13:34 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I have a similar question to that of my colleague William Graham. So far, Torfaen has a good rating for air quality. However, with the prospect of a further almost 5,000 homes to be built in Torfaen, what safeguards can be put in place to ensure that the degree of air pollution in Torfaen will not seriously deteriorate?

Brif Weinidog, mae gennyf gwestiwn tebyg i un fy nghydweithiwr William Graham. Hyd yn hyn, mae gan Torfaen sgôr da ar gyfer ansawdd aer. Fodd bynnag, gyda'r posibilrwydd y bydd bron i 5,000 o gartrefi ychwanegol yn cael eu hadeiladu yn Nhorfaen, pa fesurau diogelwch y gellir eu rhoi ar waith i sicrhau na fydd graddau'r llygredd aer yn Nhorfaen yn dirywio'n ddifrifol?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not see how there is necessarily a correlation between housing and air pollution. If people are able to live closer to where they work, that will reduce air pollution. We would, of course, expect any local authority when developing its LDP to assess the need for housing in any particular area and, of course, to produce an LDP that takes into account all of the planning guidance that the Welsh Government has issued.

Nid wyf yn gweld bod cysylltiad rhwng tai a llygredd aer o reidrwydd. Os yw pobl yn gallu byw yn nes at ble maen nhw'n gweithio, bydd hynny'n lleihau llygredd aer. Byddem, wrth gwrs, yn disgwyl i unrhyw awdurdod lleol asesu'r angen am dai mewn unrhyw ardal benodol wrth ddatblygu ei CDLl ac, wrth gwrs, i gynhyrchu CDLl sy'n cymryd yr holl ganllawiau cynllunio y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cyhoeddi i ystyriaeth.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions without Notice from the Party Leaders

13:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call the party leaders to question the First Minister. The leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Galwaf nawr ar arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog. Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:35 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, today we had the very disappointing news that the Programme for International Student Assessment results have been depressingly bad again. The Organisation for Economic Co-operation and Development says that today's education is tomorrow's economy. With the figures that we have seen today and the successive falls in our performance, does it not make for bleak reading and, in particular, a bleak future for our economy?

Brif Weinidog, cawsom y newyddion siomedig iawn heddiw bod canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr wedi bod yn ddigalon o wael eto. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn dweud mai addysg heddiw yw economi yfory. O ystyried y ffigurau yr ydym ni wedi eu gweld heddiw a'r gostyngiadau olynol i'n perfformiad, onid yw'n creu newyddion llwm ac, yn arbennig, dyfodol llwm i'n heconomi?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, I have to say that even though we have seen some improvement, particularly in reading, the figures are disappointing overall. That cannot be got away from. Nevertheless, we should remember that the PISA results are with regard to a particular set of tests and not a reflection of the education system as a whole. What I can do is to remind Members of what has been put in place since the last set of PISA results in 2009. This includes the national literacy and numeracy programme; the national support programme and the fact that every school in Wales now has an NSP partner who acts as a mentor; the changes that have been made to supporting professional development, particularly performance management of teachers from January 2012; the development of the induction process for newly qualified teachers; and, of course, Teach First Wales, which has been contracted to deliver a school improvement employment-based teacher training system across Wales. In addition, 150 trainees have been placed into secondary schools that have been targeted as having a high percentage of pupils living in deprived communities. We have focused on leadership development, particularly the revision of the national professional qualification for headship, and we have published new leadership standards and developed leadership capacity. We have strengthened school accountability through school banding and the termly stocktakes. We have Learning Wales, launched in September 2012, the national model for regional working and, of course, the—[Interruption.]—well, the Plaid Cymru benches complain that I do not give answers. This, I suspect, is an answer that they want, so I would suggest that there is no point in complaining about it. So, we have, of course, the improvements that have been made in terms of attendance and behaviour.

Yn gyntaf oll, mae'n rhaid i mi ddweud, er ein bod wedi gweld rhywfaint o welliant, yn enwedig o ran darllen, bod y ffigurau'n siomedig ar y cyfan. Ni ellir dianc rhag hynny. Serch hynny, dylem gofio bod y canlyniadau PISA yn ymwneud â chyfres benodol o brofion ac nid yw'n adlewyrchiad o'r system addysg yn ei chyfanrwydd. Yr hyn y gallaf ei wneud yw atgoffa'r Aelodau o'r hyn a roddwyd ar waith ers y gyfres ddiwethaf o ganlyniadau PISA yn 2009. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen llythrennedd a rhifedd genedlaethol; y rhaglen gymorth genedlaethol a'r ffaith fod gan bob ysgol yng Nghymru Bartner Cymorth Cenedlaethol bellach, sy'n gweithredu fel mentor; y newidiadau a wnaed i gefnogi datblygiad proffesiynol, yn enwedig rheoli perfformiad athrawon o fis Ionawr 2012; datblygiad y broses sefydlu ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso; ac, wrth gwrs, Teach First Cymru, a gontractiwyd i ddarparu system hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth er mwyn gwella ysgolion ledled Cymru. Hefyd, rhoddwyd 150 o athrawon dan hyfforddiant mewn ysgolion uwchradd sydd wedi cael eu targedu fel rhai sydd â chanran uchel o ddisgyblion sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig. Rydym ni wedi canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth, yn enwedig diwygio'r cymhwyster proffesiynol cenedlaethol ar gyfer prifathrawiaeth, ac rydym ni wedi cyhoeddi safonau arweinyddiaeth newydd a datblygu gallu arweinyddiaeth. Rydym ni wedi cryfhau atebolrwydd ysgol trwy fandio ysgolion a thrwy'r archwiliadau tymhorol. Mae gennym Dysgu Cymru, a lansiwyd ym mis Medi 2012, y model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol ac, wrth gwrs, y—[Torri ar draws.]—wel, mae meinciau Plaid Cymru yn cwyno nad wyf yn rhoi atebion. Mae hwn, rwy'n amau, yn ateb y maen nhw ei eisiau, felly byddwn yn awgrymu nad oes unrhyw bwynt cwyno am y peth. Felly, mae gennym, wrth gwrs, y gwelliannau a wnaed o ran presenoldeb ac ymddygiad.

Now, it will take some time for these measures to bear full fruit. The previous Minister for education and the present one have both said that we wish to be in the top 20 by 2015. Michael Gove, of course, has said that it will take 10 years to improve the situation in England. We think that that is an overestimation.

Nawr, bydd yn cymryd cryn amser i'r mesurau hyn ddwyn ffrwyth yn llawn. Mae'r Gweinidog addysg blaenorol a'r un presennol wedi dweud ein bod yn dymuno bod yn yr 20 uchaf erbyn 2015. Mae Michael Gove, wrth gwrs, wedi dweud y bydd yn cymryd 10 mlynedd i wella'r sefyllfa yn Lloegr. Mae hynny'n oramcan yn ein barn ni.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think that that is the longest answer that I have ever had in First Minister's questions. Even though you started by saying that there has been some improvement, whichever way you cut it, First Minister, these figures today are depressingly bad, but, unfortunately, depressingly familiar to a Labour First Minister, whose party has been running education in Wales for 14 years. The previous Minister for education, in a letter that he put out in 2010, clearly thought the same when he said,

Rwy'n credu mai dyna'r ateb hiraf yr wyf erioed wedi ei gael yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog. Er i chi ddechrau trwy ddweud y bu rhywfaint o welliant, pa bynnag ffordd yr edrychwch chi ar y sefyllfa, Brif Weinidog, mae'r ffigurau hyn heddiw yn ddigalon o wael, ond, yn anffodus, yn ddigalon o gyfarwydd i Brif Weinidog Llafur, y mae ei blaid wedi bod yn rhedeg addysg yng Nghymru es 14 mlynedd. Roedd y Gweinidog addysg blaenorol, mewn llythyr a gyhoeddodd yn 2010, yn amlwg o'r un farn pan ddywedodd:

'These results cannot be argued away or excused.'

Ni ellir dadlau dros nac esgusodi'r canlyniadau hyn.

He went on to say that the results could not be excused on the basis of low socioeconomic status or the bilingual nature of our nation or education system. The list that you just gave us could, no doubt, have been read at any juncture when previous PISA results have been reported. The problem is, First Minister, that educationalists, students and parents are fed up of listening to Labour's excuses. How can we genuinely have confidence that what you outlined in your answer to me will make a difference this time around?

Aeth ymlaen i ddweud na ellid esgusodi'r canlyniadau ar sail statws economaidd-gymdeithasol isel na natur ddwyieithog ein cenedl neu ein system addysg. Gellid bod wedi darllen y rhestr yr ydych chi newydd ei rhoi i ni, heb os, ar unrhyw adeg pan gyhoeddwyd canlyniadau PISA blaenorol. Y broblem yw, Brif Weinidog, fod addysgwyr, myfyrwyr a rhieni wedi cael llond bol o wrando ar esgusodion Llafur. Sut y gallwn ni fod yn wirioneddol hyderus y bydd yr hyn a amlinellwyd gennych yn eich ateb i mi yn gwneud gwahaniaeth y tro hwn?

13:38

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

You clearly did not listen to the answer that I gave. I said that this is what has been put in place since 2009. The second point that I would make to him is that we have constantly said that it will take time for these measures to have an effect. What some people in Wales would like to know, perhaps, is what exactly he quibbles with in terms of what I have just read out as an answer to him. What would he have done differently? How does he explain to the people of Wales that his party wants to cut education spending by between 12% and 20%? How would that help to improve PISA results in the future? Maybe if he had some credibility on this point in terms of a developed alternative, if he had some credibility in terms of wanting to increase school spending—as we are doing, of course, through our manifesto commitment to protecting school spending in Wales—then he might have some credibility. It would be interesting for the Chamber to understand what he disagrees with in terms of what the Government is doing and why he thinks that education spending should be cut.

Mae'n amlwg na wnaethoch chi wrando ar yr ateb a roddais. Dywedais mai dyma'r hyn a roddwyd ar waith ers 2009. Yr ail bwynt yr hoffwn ei wneud iddo yw ein bod wedi dweud yn gyson y bydd yn cymryd amser i'r mesurau hyn gael effaith. Yr hyn yr hoffai rhai pobl yng Nghymru ei wybod, efallai, yw beth yn union y mae'n anghytuno ag ef o ran yr hyn yr wyf newydd ei ddarllen fel ateb iddo. Beth fyddai ef wedi ei wneud yn wahanol? Sut y mae'n mynd i esbonio i bobl Cymru fod ei blaid ef eisiau torri rhwng 12% ac 20% ar wariant ar addysg? Sut y byddai hynny'n helpu i wella canlyniadau PISA yn y dyfodol? Efallai pe byddai ganddo rywfaint o hygrededd ar y pwynt hwn o ran dewis amgen datblygedig, pe byddai ganddo rywfaint o hygrededd o ran yr awydd i gynyddu gwariant ar ysgolion —fel yr ydym ni'n ei wneud, wrth gwrs, drwy ein hymrwymiad maniffesto i ddiogelu gwariant ar ysgolion yng Nghymru—yna efallai y byddai ganddo rywfaint o hygrededd. Byddai'n ddiddorol i'r Siambr ddeall yr hyn y mae'n anghytuno ag ef o ran yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud a pham mae'n credu y dylai gwariant ar addysg gael ei dorri.

13:39

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that it is quite shameful that, on a day when we have had more damning evidence of educational failure under Labour, you cannot show any humility to the people of Wales who have depended on education as a route out of poverty, a route to good jobs, and, above all, a route to develop an economy fit for the twenty-first century. Are you seriously telling me, First Minister, that the previous Ministers for education before 2009 got it wholly wrong? If you are, will you apologise on their behalf as the leader of Welsh Labour? What can we expect when the new results come out in 2015? Will you now take control and ultimately put your reputation on the line by saying that we will see the improvement that we require in 2015 to make the economic prospects of this country far better? If you will not, you really should reflect on your position, First Minister.

Rwy'n meddwl ei bod yn eithaf cywilyddus, ar ddiwrnod pan yr ydym ni wedi cael mwy o dystiolaeth ddamniol o fethiant addysgol dan y Blaid Lafur, na allwch chi ddangos unrhyw ostyngeiddrwydd i bobl Cymru sydd wedi dibynnu ar addysg fel llwybr allan o dlodi, llwybr i swyddi da, ac, yn anad dim, llwybr i ddatblygu economi addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. A ydych chi'n dweud wrthyf o ddifrif, Brif Weinidog, fod y Gweinidogion addysg blaenorol cyn 2009 wedi cael pethau'n gwbl anghywir? Os ydych chi, a wnewch chi ymddiheuro ar eu rhan fel arweinydd Llafur Cymru? Beth y gallwn ni ei ddisgwyl pan gyhoeddir y canlyniadau newydd yn 2015? A wnewch chi gymryd rheolaeth nawr a rhoi eich enw da yn y fantol yn y pen draw, trwy ddweud y byddwn yn gweld y gwelliant sydd ei angen arnom yn 2015 i wneud rhagolygon economaidd y wlad hon yn well o lawer? Os na wnewch chi, yna dylech chi wir ystyried eich sefyllfa, Brif Weinidog.

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

In response to the leader of the opposition, I would like to say that I went to a comprehensive school. I have a stake in the state system, and that is what I am proud of. It is a shameful reflection of the UK that of all the Prime Ministers and First Ministers there have ever been, only one has come from a comprehensive school and that is me. That is a shameful reflection, and his party has made it worse. He sits with his old Etonian Prime Minister and the private school boys who sit on those benches, and he lectures us about state education. [Interruption.] He did not listen to what I said. There is no point in whining about it at the top of his voice.

I ymateb i arweinydd yr wrthblaid, hoffwn ddweud mai i ysgol gyfun yr es i. Rwyf yn rhandeiliad yn system y wladwriaeth, a dyna beth rwy'n falch ohono. Mae'n adlewyrchiad cywilyddus o'r DU, o'r holl Brif Weinidogion a fu erioed, dim ond un sydd wedi dod o ysgol gyfun a fi yw hwnnw. Mae hwnnw'n adlewyrchiad cywilyddus, ac mae ei blaid ef wedi ei wneud yn waeth. Mae'n eistedd gyda'i Brif Weinidog a aeth i Eton a'r bechgyn ysgol breifat sy'n eistedd ar y meinciau hynny, ac mae'n pregethu i ni am addysg y wladwriaeth. [Torri ar draws.] Ni wrandawodd ar yr hyn a ddywedais. Nid oes diben cwyno am y peth ar dop ei lais.

These results are not good enough. These results have to be improved on. Yes, reading has improved, but we still have to make sure that there is improvement in the future. I offered him the opportunity to comment on what we as a Government are doing, but he could give no view. I offered him the opportunity to justify the appalling cuts that he wants to impose on schools in Wales, but he failed to justify those cuts. He makes a lot of noise, but he has no substance and no policies.

Nid yw'r canlyniadau hyn yn ddigon da. Mae'n rhaid gwella'r canlyniadau hyn. Ydy, mae darllen wedi gwella, ond mae'n dal yn rhaid i ni sicrhau y bydd gwelliant yn y dyfodol. Rhoddais y cyfle iddo gynnig sylwadau ar yr hyn yr ydym ni fel Llywodraeth yn ei wneud, ond ni allai gynnig unrhyw farn. Rhoddais y cyfle iddo gyfiawnhau'r toriadau brawychus y mae eisiau eu gorfodi ar ysgolion yng Nghymru, ond methodd â chyfiawnhau'r toriadau hynny. Mae'n gwneud llawer o sŵn, ond nid oes ganddo unrhyw sylwedd nac unrhyw bolisïau.

We accept our responsibilities. We accept that we must work with teachers and parents to continue to improve the education system in Wales, and we have seen an improvement in GCSE results this year, and that is why we will continue to deliver for the people of Wales, even as the party opposite shouts and does not want to do anything more than cut education spending. It suggests the phrase 'class war' and what it wants to do is to cut spending for the poorest in society and on state schools, and that is exactly what the Tories stand for. We will stand up for our responsibilities; we accept responsibilities for these results and we have put in place a system that will help to improve education in Wales, whereas what we get from the Conservative benches is empty rhetoric.

Rydym ni'n derbyn ein cyfrifoldebau. Rydym ni'n derbyn bod yn rhaid i ni weithio gydag athrawon a rhieni i barhau i wella'r system addysg yng Nghymru, ac rydym ni wedi gweld gwelliant i ganlyniadau TGAU eleni, a dyna pam y byddwn yn parhau i gyflawni dros bobl Cymru, hyd yn oed wrth i'r blaid gyferbyn weiddi heb fod eisiau gwneud dim mwy na thorri gwariant ar addysg. Mae'n awgrymu'r ymadrodd 'rhyfel dosbarth' a'r hyn y mae eisiau ei wneud yw torri gwariant ar gyfer y tlotaf mewn cymdeithas ac ar ysgolion y wladwriaeth, a dyna'n union y mae'r Torïaid yn sefyll drosto. Byddwn yn sefyll dros ein cyfrifoldebau; rydym yn derbyn cyfrifoldebau am y canlyniadau hyn, ac rydym ni wedi sefydlu system a fydd yn helpu i wella addysg yng Nghymru, ond y cwbl yr ydym ni'n ei gael gan feinciau'r Ceidwadwyr yw rhethreg wag.

13:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order. I have said before that this is not a library and far less a monastery, but there is far too much shouting going on and not enough listening, and that is not good scrutiny. I now call the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Trefn. Rwyf wedi dweud o'r blaen nad llyfrgell yw hon, ac yn sicr nid yw'n fynachlog, ond mae llawer gormod o weiddi yn cael ei wneud a dim digon o wrando, ac nid yw hynny'n graffu da. Galwaf nawr ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:43 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you are the leader of this country, and you are failing to show leadership on this. You said that your term of office would be all about delivery, and you told us that you expected to see improvement in our PISA results in December. It is now December. Today, you have delivered the worst set of PISA results in western Europe. Are you now going to take full responsibility for those results?

Brif Weinidog, chi yw arweinydd y wlad hon, ac rydych chi'n methu â dangos arweinyddiaeth ar hyn. Dywedasoch mai cyflawni fyddai thema eich cyfnod yn y swydd, ac rydych chi wedi dweud wrthym eich bod yn disgwyl gweld gwelliant i'n canlyniadau PISA ym mis Rhagfyr. Mae'n fis Rhagfyr bellach. Heddiw, rydych chi wedi darparu'r gyfres waethaf o ganlyniadau PISA yng ngorllewin Ewrop. A ydych chi'n mynd i gymryd cyfrifoldeb llawn am y canlyniadau hynny nawr?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

As I said to the leader of the opposition, we accept as a Government that there needs to be improvement with regard to PISA, as, indeed, your party did when you were in Government between 2007 and 2011. There has been some improvement; it is far from enough. There needs to be more improvement in terms of reading and maths—we know that that is true of the whole of the UK, incidentally. Things have not been particularly good in England, Scotland or Northern Ireland either. I do not use that as excuse, because I see the figures in front of me, as far as Wales is concerned. However, I have already outlined in some detail what we as a Government have put forward in order to deal with the situation and to improve the PISA results in 2015. Unless there is something in the Government's programme that you disagree with or that you think should be improved, which I am all ears about, this is what we plan to do as a Government to improve things.

Fel y dywedais wrth arweinydd yr wrthblaid, rydym ni'n derbyn fel Llywodraeth bod angen gwelliant o ran PISA, fel, yn wir, y gwnaeth eich plaid chi pan yr oeddech chi yn y Llywodraeth rhwng 2007 a 2011. Bu rhywfaint o welliant; mae'n bell o fod yn ddigon. Mae angen mwy o welliant o ran darllen a mathemateg—rydym yn gwybod bod hynny'n wir am y DU gyfan, gyda llaw. Nid yw pethau wedi bod yn arbennig o dda yn Lloegr, yr Alban na Gogledd Iwerddon ychwaith. Nid wyf yn defnyddio hynny fel esgus, gan fy mod i'n gweld y ffigurau o fy mlaen, cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn. Fodd bynnag, rwyf eisoes wedi amlinellu'n fanwl yr hyn yr ydym ni fel Llywodraeth wedi ei gyflwyno er mwyn ymdrin â'r sefyllfa a gwella'r canlyniadau PISA yn 2015. Oni bai bod rhywbeth yn rhaglen y Llywodraeth yr ydych chi'n anghytuno ag ef, neu yr ydych chi'n credu y dylai gael ei wella, ac rwy'n gwrando'n astud, dyma'r hyn yr ydym ni'n bwriadu ei wneud fel Llywodraeth i wella pethau.

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, Wales is No. 43 on the list in terms of maths, No. 41 in terms of reading and No. 36 in terms of science. As a parent, I do not accept that any of our children are any less capable than the children in Scotland, Ireland or England. Scotland also has large pockets of deprivation, but it substantially outperforms Wales, even though it has the same set of tools for delivering those results. If the Scottish Government can deliver good results, why cannot you? That is the challenge for us, and we have to ensure that, by 2015, we deliver those results. In fairness, the two Ministers for education have said that what we have put in place will take some time to work its way through. Michael Gove was talking about 10 years. I think that that is an overestimate of what it will take, although who knows what they need to do in England? As far as Wales is concerned, we have consistently said that what was put in place after PISA 2009 would take some time to have its fullest effect. We have seen an improvement in reading, but, let us face it, overall it is not good. We need to make sure that things improve in 2015.

Brif Weinidog, mae Cymru yn Rhif 43 ar y rhestr o ran mathemateg, Rhif 41 o ran darllen a Rhif 36 o ran gwyddoniaeth. Fel rhiant, nid wyf yn derbyn bod unrhyw un o'n plant yn llai galluog na'r plant yn yr Alban, Iwerddon neu Loegr. Mae gan yr Alban ardaloedd helaeth o amddifadedd hefyd, ond mae'n perfformio'n sylweddol well na Chymru, er bod ganddi'r un offerynnau ar gyfer sicrhau'r canlyniadau hynny. Os gall Llywodraeth yr Alban sicrhau canlyniadau da, pam na allwch chi? Dyna'r her i ni, ac mae'n rhaid i ni sicrhau, erbyn 2015, ein bod yn cyflawni'r canlyniadau hynny. A bod yn deg, mae'r ddau Weinidog addysg wedi dweud y bydd yr hyn yr ydym ni wedi ei roi ar waith yn cymryd cryn amser i gael effaith. Roedd Michael Gove yn siarad am 10 mlynedd. Mae hynny'n goramcanu'r cyfnod y bydd yn ei gymryd yn fy marn i, er pwy a ŵyr beth mae angen iddyn nhw ei wneud yn Lloegr? Cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn, rydym ni wedi dweud yn gyson y byddai'r hyn a roddwyd ar waith ar ôl PISA 2009 yn cymryd cryn amser i gael ei effaith lawn. Rydym ni wedi gweld gwelliant o ran darllen, ond, mae'n rhaid i ni wynebu'r ffaith nad yw'r sefyllfa'n dda yn gyffredinol. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod pethau'n gwella yn 2015.

Let us look at the question of implementation, then, shall we? There have been delays in the implementation of your policies, such as regional consortia and the recently introduced national literacy and numeracy framework. These delays mean that we will miss your Government's 2015 improvement targets. Is it not the case, First Minister, that if your Government was a local authority it would now be in special measures? Can you tell us why parents should continue to trust your Government with their children's education?

Gadewch i ni edrych ar y cwestiwn o weithredu, felly, ie? Bu oediadau wrth roi eich polisïau ar waith, fel consortia rhanbarthol a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae'r oediadau hyn yn golygu y byddwn yn methu targedau gwella 2015 eich Llywodraeth. Onid yw'n wir, Brif Weinidog, pe byddai eich Llywodraeth yn awdurdod lleol y byddai'n destun mesurau arbennig bellach? A allwch chi ddweud wrthym pam y dylai rhieni barhau i gael ffydd yn eich Llywodraeth gydag addysg eu plant?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is because we have delivered the foundation phase; because we have delivered the Welsh baccalaureate; because we have protected school spending in a way that is not there in the rest of the UK; because we have seen the improvement in GCSE results in Wales and the gap with England being closed; because we have seen the education maintenance allowance being kept in Wales, when it disappeared in England; and because we have ensured that students in Wales are able to go to university without an enormous debt hanging around their heads when they leave university. So, we have to remember that the PISA results are a reflection of part of the system in Wales, namely children's ability to take tests, and we have to rectify that, but it would not be right to say that education in Wales is in some kind of crisis. We have the foundation phase and all the other figures that show that things are moving in the right direction. However, there is a need for Government, working with teachers, parents and local authorities—because Government cannot deliver it alone—to ensure that there are improvements in the future. The reality is that we have a programme in place. Other parties can say what is wrong with those programmes or what they would do differently. The Conservatives have failed signally to do that; the leader of the opposition sits there moaning away to himself, but when he is given the chance to talk, he always runs away from it. We have put in place a programme for government that contains an education programme that will move us towards improvement in 2015, and we are confident in that. I speak as someone who came from the system, whereas others in this Chamber who complain the most did not.

Oherwydd ein bod wedi cyflwyno'r cyfnod sylfaen; oherwydd ein bod wedi cyflwyno bagloriaeth Cymru; oherwydd ein bod wedi diogelu gwariant ar ysgolion mewn ffordd nad yw'n wir yng ngweddill y DU; oherwydd ein bod wedi gweld y gwelliant i ganlyniadau TGAU yng Nghymru a'r bwlch rhwng Cymru a Lloegr yn cael ei gau; oherwydd ein bod wedi gweld y lwfans cynhaliaeth addysg yn cael ei gadw yng Nghymru, pan ddiflannodd yn Lloegr; ac oherwydd ein bod wedi sicrhau y gall myfyrwyr yng Nghymru fynd i'r brifysgol heb fod ganddynt ddyled enfawr o amgylch eu gyddfau pan fyddant yn gadael y brifysgol. Felly, mae'n rhaid i ni gofio mai adlewyrchu rhan o'r system yng Nghymru y mae'r canlyniadau PISA, sef gallu plant i gyflawni profion, ac mae'n rhaid i ni unioni hynny, ond ni fyddai'n iawn dweud bod addysg yng Nghymru mewn rhyw fath o argyfwng. Mae gennym y cyfnod sylfaen a'r holl ffigyrau eraill sy'n dangos bod pethau'n symud i'r cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, mae angen i'r Llywodraeth, gan weithio gydag athrawon, rhieni ac awdurdodau lleol—gan na all y Llywodraeth ei gyflawni ar ei phen ei hun—sicrhau y bydd gwelliannau yn y dyfodol. Y gwir amdani yw bod gennym raglen ar waith. Gall y pleidiau eraill ddweud beth sydd o'i le â'r rhaglenni hynny neu beth y byddent yn ei wneud yn wahanol. Mae'r Ceidwadwyr wedi methu'n lân â gwneud hynny; mae arweinydd yr wrthblaid yn eistedd yno'n cwyno wrtho'i hun, ond pan fydd yn cael y cyfle i siarad, mae'n rhedeg i ffwrdd bob tro. Rydym ni wedi sefydlu rhaglen ar gyfer llywodraethu sy'n cynnwys rhaglen addysg a fydd yn ein symud tuag at welliant yn 2015, ac rydym ni'n hyderus yn hynny o beth. Rwy'n siarad fel rhywun a ddaeth o'r system, er na wnaeth eraill yn y Siambr hon sy'n cwyno fwyaf.

13:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I must say that we have a very generous procedure in this Chamber for the leaders of the non-Government parties to question, and I do not particularly want to hear heckling from the leaders in stereo while I am trying to listen to the response of the First Minister.

Mae'n rhaid i mi ddweud bod gennym drefn hael iawn yn y Siambr hon i arweinwyr y pleidiau nad ydynt yn y Llywodraeth ofyn cwestiynau, ac nid wyf yn arbennig o awyddus i glywed heclo gan yr arweinwyr mewn stereo tra fy mod i'n ceisio gwrando ar ymateb y Prif Weinidog.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you say that PISA has shone a spotlight on education performance across the world. On that international stage, under the glare of that spotlight, the abject failure of Labour's education policies have been exposed for everyone to see. As a Labour Assembly Member for 14 years, as a Cabinet Member for 13 years and now as the First Minister of our nation, are you not ashamed?

Brif Weinidog, rydych chi'n dweud bod PISA wedi tynnu sylw at berfformiad addysg ar draws y byd. Ar y llwyfan rhyngwladol hwnnw, dan bwysau'r sylw hwnnw, mae methiant truenus polisïau addysg Llafur wedi ei amlygu i bawb ei weld. Fel Aelod Cynulliad Llafur ers 14 mlynedd, fel Aelod Cabinet ers 13 mlynedd a nawr fel Prif Weinidog ein cenedl, onid oes gennych chi gywilydd?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No.

Nac oes.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Complacent, complacent, complacent. You have said that it was your ambition to be in the top 20 by 2015. We are barely scraping into the top 40. Why have you consistently promised me, this Chamber and the Welsh public when questioned that we would see improvements this year?

Hunanfodlon, hunanfodlon, hunanfodlon. Rydych chi wedi dweud mai eich uchelgais oedd bod yn yr 20 uchaf erbyn 2015. Prin y gallwn ni gyrraedd y 40 uchaf. Pam yr ydych chi wedi addo'n gyson i mi, y Siambr hon a'r cyhoedd yng Nghymru wrth gael eich holi y byddem yn gweld gwelliannau eleni?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We saw an improvement, but not enough this year, and I have said that very clearly. As the leader of the Liberal Democrats sneered away and asked that question, I would remind her of that. Let us go through it again, because she did not listen the first time round. The national literacy and numeracy programme, the national support programme, supporting professional developments, Teach First Wales, leadership development, strengthening accountability, Learning Wales, a national model for regional working and dealing with attendance and behaviour have all been put in place since 2009. As I said, it will take a little more time for these improvements to have their full force. I say to the leader of the Liberal Democrats, as I have said to the leaders of the other parties, if you do not like it, what would you change?

Rydym ni wedi gweld gwelliant, ond nid digon ohono y flwyddyn hon, ac rwyf wedi dweud hynny'n eglur iawn. Gan fod arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwawdio wrth ofyn y cwestiwn yna, byddwn yn ei hatgoffa o hynny. Gadewch i ni fynd drwy hyn eto, gan nad oedd hi'n gwrando y tro cyntaf. Mae'r rhaglen llythrennedd a rhifedd genedlaethol, y rhaglen gymorth genedlaethol, cefnogi datblygiadau proffesiynol, Teach First Cymru, datblygiad arweinyddiaeth, cryfhau atebolrwydd, Dysgu Cymru, model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol ac ymdrin â phresenoldeb ac ymddygiad i gyd wedi cael eu rhoi ar waith ers 2009. Fel y dywedais, bydd yn cymryd ychydig mwy o amser i'r gwelliannau hyn gael eu heffaith lawn. Dywedaf wrth arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, fel rwyf wedi dweud wrth arweinwyr y pleidiau eraill, os nad ydych chi'n fodlon, beth fyddech chi'n ei newid?

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, let us be clear about the improvements. The reading scores take us back to where we were in 2006. Just two months ago in this Chamber, you said to me

Brif Weinidog, gadewch i ni fod yn eglur ynghylch y gwelliannau. Mae'r sgoriau darllen yn mynd â ni yn ôl i le'r oeddem yn 2006. Dim ond dau fis yn ôl yn y Siambr hon, dywedasoch wrthyf

'I expect to see an improvement in our PISA results in December…If you see what we have done, as a Government…you will understand why I believe that we are making that improvement.'

Rwy'n disgwyl gweld gwelliant yn ein canlyniadau PISA ym mis Rhagfyr... Os ydych chi'n gweld yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud, fel Llywodraeth ... byddwch yn deall pam rwy'n credu ein bod yn cyflawni'r gwelliant hwnnw.

How can you, as the First Minister, be so out of touch, ignorant and blissfully unaware of the reality of the situation, and what is going on that you could make that statement two months ago that is so off the mark?

Sut y gallwch chi, fel y Prif Weinidog, wybod cyn lleied am beth sy'n digwydd, bod mor anwybodus, ac mor ddedwydd anymwybodol o wirionedd y sefyllfa, a beth sy'n digwydd fel y gallech chi wneud y datganiad hwnnw ddau fis yn ôl sydd mor bell o'i le?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I have never heard a more arrogant statement in this Chamber—somehow, the leader of the Liberal Democrats is in tune with public opinion and I am not. Like her, I have children in school. I do not go on and on about it like she does, but I have children in school as well. The reality of the situation is that her party is completely detached from reality in London and has completely lost its support base, and yet she talks to us about being detached from reality. I deal with people, I hold my constituency surgeries, I meet with people on the weekend and I see what my children have in school; all these things make me more than aware of the education system. I came through the state system as well. I am aware of what the state system is able to deliver and our aspirations for it in the future.

Nid wyf erioed wedi clywed datganiad mwy trahaus yn y Siambr hon—rywsut, mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn deall barn y cyhoedd a minnau ddim. Fel hithau, mae gen i blant yn yr ysgol. Nid wyf i'n mynd ymlaen ac ymlaen am y peth fel y mae hi'n ei wneud, ond mae gen i blant yn yr ysgol hefyd. Gwirionedd y sefyllfa yw bod ei phlaid hi yn gwbl ar wahân i realiti yn Llundain ac mae wedi colli sail ei chefnogaeth yn gyfan gwbl, ac eto mae'n dweud ein bod ni wedi datgysylltu oddi wrth realiti. Rwy'n ymdrin â phobl, rwy'n cynnal fy nghymorthfeydd etholaeth, rwy'n cyfarfod â phobl ar y penwythnos ac rwy'n gweld beth mae fy mhlant yn ei gael yn yr ysgol; mae'r holl bethau hyn yn fy ngwneud i'n fwy nag ymwybodol o'r system addysg. Fe ddes i drwy system y wladwriaeth hefyd. Rwy'n ymwybodol o'r hyn y gall system y wladwriaeth ei darparu a'n dyheadau ar ei chyfer yn y dyfodol.

The opposition parties have, quite rightly, of course, held me to account in terms of the PISA results, and I accept that. It is my responsibility to explain to the people of Wales what we are doing in order to improve results in the future. However, it is also the responsibility of the opposition parties to outline what they would do differently. Not once have we heard a suggestion as to how things would be done differently. We accept our responsibilities; they do not. In that regard, they have signally failed.

Mae'r gwrthbleidiau, yn gwbl gywir, wrth gwrs, wedi fy nwyn i gyfrif o ran y canlyniadau PISA, ac rwy'n derbyn hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw esbonio i bobl Cymru yr hyn yr ydym ni'n ei wneud i wella canlyniadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae hefyd yn gyfrifoldeb ar y gwrthbleidiau i amlinellu'r hyn y bydden nhw'n ei wneud yn wahanol. Nid ydym ni wedi clywed yr un awgrym ynghylch sut y byddai pethau'n cael eu gwneud yn wahanol. Rydym ni'n derbyn ein cyfrifoldebau; nid ydyn nhw. Yn hynny o beth, maen nhw wedi methu'n llwyr.

### Ardrethi Busnes

### Business Rates

13:51 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefel yr ardrethi busnes yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)1372(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the level of business rates in south east Wales? OAQ(4)1372(FM)*

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The level of non-domestic rates in south-east Wales is determined on the same basis as elsewhere in Wales, by multiplying the rateable value by the national NDR multiplier.

Gwnaf. Penderfynir ar lefel ardrethi annomestig yn ne-ddwyrain Cymru ar yr un sail â mannau eraill yng Nghymru, trwy luosi'r gwerth ardrethol gyda'r lluosydd Ardreth Annomestig Genedlaethol .

13:52 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for the reply, First Minister. The proposed redevelopment of Newport city centre is greatly welcomed and will benefit businesses in the long term. However, the current demolition work has caused major disruption to pedestrian access and bus stop locations, thereby reducing footfall. Will the First Minister join me in supporting Newport's chamber of trade in its efforts to get business rates reduced for city centre traders adversely affected by this redevelopment work?

Diolch yn fawr iawn am yr ateb, Brif Weinidog. Croesewir ailddatblygiad arfaethedig canol dinas Casnewydd yn fawr a bydd o fudd i fusnesau yn yr hirdymor. Fodd bynnag, mae'r gwaith dymchwel presennol wedi tarfu'n helaeth ar fynediad i gerddwyr ac ar leoliadau safle bws, gan leihau nifer yr ymwelwyr o'r herwydd. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i gefnogi siambr masnach Casnewydd yn ei hymdrechion i ostwng ardrethi busnes masnachwyr canol y ddinas sy'n cael eu heffeithio'n andwyol gan y gwaith ailddatblygu hwn?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are matters for it to discuss with the city council in Newport. I am sure that the city council will consider affordable proposals that will help to regenerate the city centre.

Materion i'w trafod gyda chyngor y ddinas yng Nghasnewydd yw'r rhain. Rwy'n siŵr y bydd cyngor y ddinas yn ystyried cynigion fforddiadwy a fydd yn helpu i adfywio canol y ddinas.

13:52 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I am sure that you will be aware that this weekend marks the first Small Business Saturday in the UK. I hope that you would also agree that increased financial powers for Wales give us an opportunity to revitalise our town centres. In the run-up to Christmas, are you willing to give some cheer to small high-street shops by committing to increasing rate relief?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol y cynhelir y Dydd Sadwrn Busnesau Bach cyntaf yn y DU y penwythnos hwn. Rwy'n gobeithio y byddech yn cytuno hefyd bod mwy o bwerau ariannol i Gymru yn rhoi cyfle i ni adfywio canol ein trefi. Yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig, a ydych chi'n barod i roi rhywfaint o newyddion da i siopau bach ar y stryd fawr trwy ymrwymo i gynyddu gostyngiadau i ardrethi?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We cannot do it at this moment in time, clearly. What will change things will be the full devolution of business rates to Wales. That will enable us to have more tools at our disposal to help small businesses and others. I know that the Minister for Economy, Science and Transport is actively considering how we can take forward those new powers, when we get them.

Ni allwn wneud hynny ar hyn o bryd, yn amlwg. Yr hyn a fydd yn newid pethau fydd datganoli ardrethi busnes yn llawn i Gymru. Bydd hynny'n ein galluogi i gael mwy o ddulliau ar gyfer helpu busnesau bach ac eraill. Gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wrthi'n ystyried yn ymarferol sut y gallwn fwrw ymlaen â'r pwerau newydd hynny, pan fyddwn ni'n eu cael.

## Cyflog Byw

## Living Wage

13:53 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo cyflog byw ymysg cyflogwyr yng Nghymru? OAQ(4)1373(FM)*

*4. What is the Welsh Government doing to promote the living wage among employers in Wales? OAQ(4)1373(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We encourage employers to adopt the living wage as one of a range of positive actions to help alleviate the problems caused by low wages in Wales.

Rydym yn annog cyflogwyr i fabwysiadu'r cyflog byw fel un o amrywiaeth o gamau cadarnhaol i helpu i leddfu'r problemau a achosir gan gyflogau isel yng Nghymru.

13:53 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, First Minister. The Welsh Government is currently consulting on a draft public services workforce Bill. What assurances can you give that guidance from the Welsh Government on paying staff in the public sector a living wage will be a key element in the eventual Bill? Can you make it clear in your procurement policy that employers in Wales who pay a living wage to staff will be given priority for securing contracts?

Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar Fil gweithlu gwasanaethau cyhoeddus drafft ar hyn o bryd. Pa sicrwydd allwch chi ei roi y bydd canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar dalu cyflog byw i aelodau staff yn y sector cyhoeddus yn elfen allweddol yn y Bil terfynol? A allwch chi ei gwneud yn eglur yn eich polisi caffael y bydd cyflogwyr yng Nghymru sy'n talu cyflog byw i aelodau staff yn cael blaenoriaeth ar gyfer sicrhau contractau?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The public services workforce Bill is not primarily to do with the living wage; it is more to do with the two-tier code. What I can say to the Member is that the workforce partnership council has agreed to bring the living wage in the public sector under the remit of the council itself, where it can be considered in the strategic context of broader issues with both trade unions and public sector employees. I can further tell the Member that, at the council meeting yesterday, it considered a paper that looked at the living wage, in the context of broader issues. Of course, there are some possibilities that the council may consider in the future, such as support for the lowest paid employees, flexible working, learning and development opportunities, sharing best practice and management. So, we look now to the council itself to move forward with the living wage across Wales.

Nid yw Bil y gweithlu gwasanaethau cyhoeddus yn ymwneud â'r cyflog byw yn bennaf; mae'n fwy i'w wneud â'r cod dwy haen. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrth yr Aelod yw bod cyngor partneriaeth y gweithlu wedi cytuno i wneud y cyflog byw yn y sector cyhoeddus yn rhan o gylch gwaith y cyngor ei hun, lle y gellir ei ystyried yng nghyd-destun strategol materion ehangach gydag undebau llafur a chyflogwyr sector cyhoeddus. Gallaf ddweud wrth yr Aelod hefyd, yng nghyfarfod cyngor ddoe, ystyriwyd papur a oedd yn edrych ar y cyflog byw, yng nghyd-destun materion ehangach. Wrth gwrs, ceir rhai posibiliadau y gallai'r cyngor eu hystyried yn y dyfodol, fel cefnogaeth i'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf, gweithio hyblyg, cyfleoedd dysgu a datblygu, rhannu arfer gorau a rheoli. Felly, rydym yn disgwyl nawr i'r cyngor ei hun fwrw ymlaen â'r cyflog byw ledled Cymru.

13:55 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

First Minister, I welcome your answer that your Government is encouraging employers to deliver on the minimum wage, but I am sure that you would agree that we must ensure that that does not lead to other detrimental costs to businesses. Would you agree that the fact is that the amount of income tax paid by someone on the national minimum wage has actually fallen by 70% since the UK coalition Government came into power in 2010? Do you support the UK Government's continued efforts to change the tax system to benefit the lower paid?

Brif Weinidog, rwy'n croesawu eich ateb bod eich Llywodraeth yn annog cyflogwyr i ddarparu'r isafswm cyflog, ond rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod yn rhaid i ni sicrhau nad yw hynny'n arwain at gostau niweidiol eraill i fusnesau. A fyddech chi'n cytuno mai'r ffaith amdani yw bod cyfanswm y dreth incwm a delir gan rywun sy'n derbyn yr isafswm cyflog cenedlaethol wedi gostwng 70% mewn gwirionedd ers i Lywodraeth glymblaid y DU ddod i rym yn 2010? A ydych chi'n cefnogi ymdrechion parhaus Llywodraeth y DU i newid y system dreth er lles y rhai ar gyflogau is?

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that those changes would have more effect if more was done to help them with living costs. We know that food inflation has been astronomical, and energy inflation has been astronomical over the past five years. We also know that, where people have seen even modest pay increases, they have been more than swallowed up by the cost of living increases that they have had to pay out. The reality is that people's incomes continue to be squeezed, as they have been for the past four years. There is a duty on the UK Government to make sure that people see real increases in their wage rates in the future. Simply doing it through the tax system is not enough; more must be done to help people with the basic costs of living. That is why I very much applaud what my own party has done with regard to energy costs.

Rwy'n meddwl y byddai'r newidiadau hynny yn cael mwy o effaith pe byddai mwy'n cael ei wneud i'w helpu gyda chostau byw. Rydym yn gwybod bod chwyddiant bwyd wedi bod yn anhygoel o uchel, a bod chwyddiant ynni wedi bod yn anhygoel o uchel yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rydym hefyd yn gwybod, hyd yn oed pan fo pobl wedi cael codiadau bach yn eu cyflog, eu bod wedi cael eu llyncu'n gyfan gwbl gan y cynnydd i'r costau byw y maen nhw wedi gorfod ei dalu. Y gwir amdani yw bod incwm pobl yn parhau i gael ei wasgu, fel sydd wedi digwydd am y pedair blynedd diwethaf. Mae dyletswydd ar Lywodraeth y DU i wneud yn siŵr bod pobl yn gweld cynnydd gwirioneddol i'w cyfraddau cyflog yn y dyfodol. Nid yw ei wneud drwy'r system dreth yn unig yn ddigon; mae'n rhaid gwneud mwy i helpu pobl gyda chostau byw sylfaenol. Dyna pam rwy'n cymeradwyo'n llwyr yr hyn y mae fy mhlaid fy hun wedi ei wneud o ran costau ynni.

**Maes Awyr Caerdydd**

**Cardiff Airport**

13:56 **Julie Morgan** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*5. Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gynyddu ystod y teithiau hedfan o Faes Awyr Caerdydd? OAQ(4)1386(FM)*

*5. What plans does the First Minister have to increase the range of flights at Cardiff Airport? OAQ(4)1386(FM)*

13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Operational matters are the responsibility of the ariport board, but discussions have taken place with a variety of airlines. Indeed, we have seen an increase in the number of Aer Lingus flights and, most recently, the four new routes announced by Flybe to ski destinations.

Cyfrifoldeb bwrdd y maes awyr yw materion gweithredol, ond cynhaliwyd trafodaethau gydag amrywiaeth o gwmnïau hedfan. Yn wir, rydym ni wedi gweld cynnydd i nifer y teithiau Aer Lingus ac, yn fwyaf diweddar, y pedwar llwybr newydd a gyhoeddwyd gan Flybe i gyrchfannau sgïo.

13:56 **Julie Morgan** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you. Is the First Minister aware that Gareth Bale, who is from Cardiff North and attended Whitchurch High School, scored a wonderful hat trick over the weekend in Spain, and that there is great public interest in his move to Real Madrid but there are no direct flights for football fans to go there? What could the First Minister do to ensure that some football fans from Cardiff could fly directly to Madrid?

Diolch. A yw'r Prif Weinidog yn ymwybodol bod Gareth Bale, sy'n dod o Ogledd Caerdydd ac a fynychodd Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, wedi sgorio tair gôl wych yn Sbaen dros y penwythnos, a bod diddordeb mawr ymhlith y cyhoedd yn ei drosglwyddiad i Real Madrid, ond nad oes unrhyw deithiau hedfan uniongyrchol i gefnogwyr pêl-droed fynd yno? Beth allai'r Prif Weinidog ei wneud i sicrhau y gallai rhai cefnogwyr pêl-droed o Gaerdydd hedfan yn syth i Madrid?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I would hope that fans from Madrid come to watch Cardiff City and Swansea City as well, of course. It must be a two-way flight, if I can put it that way. It is right to say that there is no current direct route. I know that the airport discusses many routes with many operators. It has to be a commercial route, of course. In the meantime, it is possible for fans to travel via Amsterdam with KLM, or indeed, with Vueling through the Barcelona hub.

Byddwn yn gobeithio bod cefnogwyr o Madrid yn dod i wylio Dinas Caerdydd a Dinas Abertawe hefyd, wrth gwrs. Mae'n rhaid iddi fod yn daith ddwy ffordd, os caf ei roi felly. Mae'n gywir i ddweud nad oes llwybr uniongyrchol ar hyn o bryd. Gwn fod y maes awyr yn trafod llawer o lwybrau gyda llawer o weithredwyr. Mae'n rhaid iddo fod yn llwybr masnachol, wrth gwrs. Yn y cyfamser, mae'n bosibl i gefnogwyr deithio trwy Amsterdam gyda KLM, neu yn wir, gyda Vueling trwy Barcelona.

13:57 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Some two years ago, First Minister, you came back from your visit to China and said that it would be relatively easy to establish an air link with China and that you were going to make sure that this was going to be a key priority for you, from Cardiff Airport. What progress has the Government made in doing this given that, as you said, it is relatively easy and it was a key priority some two years ago?

Tua dwy flynedd yn ôl, Brif Weinidog, daethoch yn ôl o'ch ymweliad â Tsieina gan ddweud y byddai'n gymharol hawdd sefydlu cyswllt awyr gyda Tsieina a'ch bod yn mynd i wneud yn siŵr bod hyn yn mynd i fod yn flaenoriaeth allweddol i chi, o Faes Awyr Caerdydd. Pa gynnydd y mae'r Llywodraeth wedi ei wneud yn hyn o beth, o gofio, fel y dywedasoch, ei fod yn gymharol hawdd ac yn flaenoriaeth allweddol tua dwy flynedd yn ôl?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We continue to discuss this with a number of airlines, but there is an issue with regard to the need to widen the runway in order to accept a fully laden A380 jet. That was a remarkable question from the Tories, who wanted the airport to close. They were quite happy to see it close, with Byron Davies talking about a £20 million-hole in the pension scheme, which did not exist in reality; that was his invention, of course. We also had the leader of the opposition party saying, 'If it closes, tough luck. That is market forces; let the jobs go and let British Airways Maintenance go'. What have we seen since it was bought? We have seen an 8% increase in passenger numbers. We have seen investment in the airport and further investment planned for next year. That is action, compared with the idleness of the Tories.

Rydym yn parhau i drafod hyn gyda nifer o gwmnïau hedfan, ond ceir problem o ran yr angen i ledu'r rhedfa er mwyn derbyn jet A380 â llwyth llawn. Roedd hwnna'n gwestiwn anhygoel gan y Torïaid, a oedd eisiau i'r maes awyr gau. Roeddent yn gwbl hapus i'w weld yn cau, wrth i Byron Davies siarad am fwlch o £20 yn y cynllun pensiwn, nad oedd yn bodoli mewn gwirionedd; ei ddychymyg ef oedd hynny, wrth gwrs. Cawsom arweinydd yr wrthblaid yn dweud hefyd, Os bydd yn cau, hen dro. Dyna rymoedd y farchnad; gadewch i'r swyddi fynd a gadewch i British Airways Maintenance fynd'. Beth ydym ni wedi ei weld ers iddo gael ei brynu? Rydym ni wedi gweld cynnydd o 8% yn nifer y teithwyr. Rydym ni wedi gweld buddsoddiad yn y maes awyr ac mae buddsoddiad ychwanegol yn yr arfaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gweithredu yw hynny, o'i gymharu â segurdod y Torïaid.

13:58 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, it was very disappointing that long-haul air passenger duty was not included in the tax-varying powers recommended for devolution by the UK Government, especially when we have seen how Belfast airport has benefited from such powers. I wonder whether you regret that, when Plaid Cymru colleagues in Westminster put forward an amendment in the finance Bill to transfer long-haul APD to Wales, only one Labour MP in the whole of the UK supported that amendment. If another such amendment on the devolution of air passenger duty is put forward again, will you make sure that you guarantee at least some of your Labour party colleagues will be there in Westminster to support you the next time around?

Brif Weinidog, roedd yn siomedig iawn nad oedd y dreth teithwyr awyr siwrnai hir wedi ei chynnwys yn y pwerau amrywio trethi a argymhellir ar gyfer datganoli gan Lywodraeth y DU, yn enwedig pan ein bod ni wedi gweld sut mae maes awyr Belfast wedi elwa o bwerau o'r fath. Tybed a ydych chi'n gresynu, pan gyflwynodd cydweithwyr Plaid Cymru yn San Steffan welliant i'r Bil cyllid i drosglwyddo treth teithiau hir i Gymru, mai dim ond un AS Llafur yn y Deyrnas Unedig gyfan wnaeth gefnogi'r gwelliant hwnnw. Os cyflwynir gwelliant arall o'r fath ar ddatganoli treth teithwyr awyr eto, a wnewch chi wneud yn siŵr y bydd o leiaf rhai o'ch cydweithwyr Plaid Lafur yno yn San Steffan i'ch cefnogi chi y tro nesaf?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The reality is that we, as a Government, have made it very clear that we support the devolution of all air passenger duty actually, and not just long-haul. It raises under a million pounds in Wales. We could cut it substantially and it would have a real effect on the airport. It would not have much of an effect on Bristol. Bristol does not have that much long-haul traffic, in reality. Bristol's traffic profile is mainly short-haul business destinations and charter destinations, so it would not have affected Bristol. Therefore, when the Conservatives argued, as they did, that it would be unfair on Bristol—Bristol, of course, takes priority over Wales in the thinking of the Secretary of States particularly—that was not an argument that we accepted. We want to see the full devolution of air passenger duty, at least with regard to long-haul—something that I am afraid that the present UK Government has failed to deliver.

Y gwir amdani yw ein bod ni, fel Llywodraeth, wedi ei gwneud yn eglur iawn ein bod yn cefnogi datganoli'r holl drethi teithwyr awyr a dweud y gwir, ac nid dim ond teithiau hir. Mae'n codi llai na miliwn o bunnoedd yng Nghymru. Gallem ni ei dorri'n sylweddol a byddai'n cael effaith go iawn ar y maes awyr. Ni fyddai'n cael fawr o effaith ar Fryste. Nid oes gan Fryste lawer o draffig teithiau hir, mewn gwirionedd. Teithiau busnes byr a theithiau siarter yw proffil traffig Bryste yn bennaf, felly ni fyddai wedi effeithio ar Fryste. Felly, pan ddadleuodd y Ceidwadwyr, fel y gwnaethant, y byddai'n annheg ar Fryste—mae Bryste, wrth gwrs, yn cael blaenoriaeth dros Gymru yn ystyriaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn arbennig—nid oedd honno'n ddadl yr oeddem ni'n ei derbyn. Rydym ni eisiau gweld treth teithwyr awyr yn cael ei datganoli'n llawn, o ran teithiau hir o leiaf—rhywbeth rwy'n ofni bod Llywodraeth bresennol y DU wedi methu â'i ddarparu.

14:00 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I was glad to see the seasonal flights returning to Cardiff, but the sad fact remains that passenger numbers at the airport are half what they were five years ago. What is your benchmark for success in terms of route development? How many new routes will you want to see delivered by the end of 2014 before you can say that you believe that this policy has been a success?

Brif Weinidog, roeddwn i'n falch o weld y teithiau tymhorol yn dychwelyd i Gaerdydd, ond y ffaith drist o hyd yw bod nifer y teithwyr yn y maes awyr yn hanner yr hyn yr oedd bum mlynedd yn ôl. Beth yw eich meincnod ar gyfer llwyddiant o ran datblygu llwybrau? Faint o lwybrau newydd y byddwch chi eisiau iddynt gael eu darparu erbyn diwedd 2014 cyn y gallwch ddweud eich bod yn credu bod y polisi hwn wedi bod yn llwyddiant?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The first thing that it has to do is to make a profit and increase its passenger numbers. It will have gone beyond 1 million in the last year with an 8% rise, as I said. We have seen new routes that have never been flown before from Cardiff, either in charter or scheduled, coming into play, such as Lyon and Grenoble. That is encouraging. It is a very tough market out there—there is no question about that-but I know that the airport board is extremely able and extremely willing, particularly, to look at new routes. An 8% increase in a year is not to be sniffed at in a very competitive market.

Y peth cyntaf y mae'n rhaid iddo ei wneud yw gwneud elw a chynyddu niferoedd y teithwyr. Bydd wedi mynd y tu hwnt i 1 filiwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda chynnydd o 8%, fel y dywedais. Rydym ni wedi gweld llwybrau newydd nad ydynt erioed wedi cael eu hedfan o Gaerdydd o'r blaen, ar ffurf llwybrau siarter neu wedi eu trefnu, yn cael eu cyflwyno, fel Lyon a Grenoble. Mae hynny'n galonogol. Mae'n farchnad anodd iawn—nid oes amheuaeth am hynny—ond rwy'n gwybod bod bwrdd y maes awyr yn alluog iawn ac yn ymroddgar iawn, yn enwedig i ystyried llwybrau newydd,. Mae cynnydd o 8% mewn blwyddyn yn gymharol dda mewn marchnad gystadleuol iawn.

## Mesuryddion Rhagdalu

## Prepayment Meters

14:01 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y bobl sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu ar gyfer biliau ynni yn Islwyn? OAQ(4)1375(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the number of people using prepay meters for energy bills in Islwyn? OAQ(4)1375(FM)*

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Information on the number of electric and gas prepayment meter accounts is produced by Ofgem annually for Wales, Scotland and England. In 2012, there were 270,094 households in Wales on electric prepayment meters and 197,815 on gas prepayment meters. Ofgem figures, unfortunately, are not provided for constituency or local authority areas.

Gwnaf. Cynhyrchir gwybodaeth am nifer y cyfrifon mesuryddion trydan a nwy talu ymlaen llaw gan Ofgem yn flynyddol ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr. Yn 2012, roedd 270,094 o gartrefi yng Nghymru yn defnyddio mesuryddion trydan talu ymlaen llaw a 197,815 yn defnyddio mesuryddion nwy talu ymlaen llaw. Yn anffodus, ni ddarperir ffigurau Ofgem ar gyfer etholaethau nac ardaloedd awdurdodau lleol unigol.

14:02 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. First Minister, independent experts estimate that prepayment meters can cost customers up to an extra £300 a year in fuel costs. Do you agree that this is unacceptable and is hurting some of the most vulnerable households in our communities?

Diolch i chi am yr ateb yna. Brif Weinidog, mae arbenigwyr annibynnol yn amcangyfrif y gall mesuryddion talu ymlaen llaw gostio hyd at £300 yn ychwanegol y flwyddyn i gwsmeriaid mewn costau tanwydd. A ydych chi'n cytuno bod hyn yn annerbyniol ac yn niweidio rhai o'r cartrefi mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is wholly unacceptable for those who are finding it the most difficult to pay their fuel costs. The figure does seem high, but I can say that my officials meet regularly with Ofgem, and I have asked them to raise with Ofgem the issue of what action it is taking to protect prepayment meter customers and ensure that they are not paying more than they need to for energy.

Mae hynny'n gwbl annerbyniol i'r rhai sy'n ei chael hi'n fwyaf anodd i dalu eu costau tanwydd. Mae'r ffigur yn ymddangos yn uchel, ond gallaf ddweud bod fy swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd ag Ofgem, ac rwyf wedi gofyn iddynt godi gydag Ofgem y mater o ba gamau mae'n eu cymryd i ddiogelu cwsmeriaid mesuryddion talu ymlaen llaw a sicrhau nad ydynt yn talu mwy nag y mae angen iddynt ei dalu am ynni.

14:02 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the First Minister agree that the recent announcement made by the UK Government to reduce energy bills by an average of £50 a year is a practical step to offset rising household costs, which will benefit tens of thousands of households across Wales? Does he also agree that the onus is now on the energy companies to do more to help families this winter, particularly those with low incomes and those who are on prepaid tariffs?

A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod y cyhoeddiad diweddar a wnaed gan Lywodraeth y DU i leihau biliau ynni o £50 y flwyddyn ar gyfartaledd yn gam ymarferol i gydbwyso costau cartref cynyddol, a fydd o fudd i ddegau o filoedd o gartrefi ledled Cymru? A yw hefyd yn cytuno bod y cyfrifoldeb ar y cwmnïau ynni bellach i wneud mwy i helpu teuluoedd y gaeaf hwn, yn enwedig y rhai ar incwm isel a'r rhai sydd ar dariffau talu ymlaen llaw?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the announcement by the UK Government is a direct response to the policy announced by my party in September about freezing energy prices. In a fit of panic, suddenly, we get an announcement that there will be a £50 decrease. That is to be welcomed, of course, but when the average energy bill is £1,300 a year, it is hardly a substantial amount to contribute to people's pockets, particularly on a monthly basis. It is far better to freeze prices, as proposed by a very sensible Labour Government in waiting, rather than the knee-jerk reaction of a dying Government in Westminster.

Wrth gwrs, mae'r cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU yn ymateb uniongyrchol i'r polisi a gyhoeddwyd gan fy mhlaid i ym mis Medi ynglŷn â rhewi prisiau ynni. Mewn ffit o banig, yn sydyn, rydym ni'n cael cyhoeddiad y bydd gostyngiad o £50. Mae hynny i'w groesawu, wrth gwrs, ond pan fo'r bil ynni cyfartalog yn £1,300 y flwyddyn, nid yw'n swm sylweddol i'w gyfrannu i bocedi pobl, yn enwedig ar sail fisol. Mae'n llawer gwell rhewi prisiau, fel y cynigiwyd gan ddarpar Lywodraeth Lafur synhwyrol iawn, yn hytrach nag adwaith difeddwl Llywodraeth sy'n marw yn San Steffan.

14:03 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, are you aware that the UK Government will be redefining fuel poverty and that that will result in about 800,000 people suddenly no longer being classed as fuel poor. Of course, they will not be any warmer and they will not be any better off. Can you give us assurances that your Government will not be manipulating the figures by redefining and developing a new definition of the fuel poor?

Brif Weinidog, a ydych chi'n ymwybodol y bydd Llywodraeth y DU yn ailddiffinio tlodi tanwydd ac y bydd hynny'n golygu na fydd 800,000 o bobl yn cael eu hystyried i fod mewn tlodi tanwydd mwyach? Wrth gwrs, ni fyddant yn ddim cynhesach ac ni fyddant yn well eu byd. A allwch chi roi sicrwydd i ni na fydd eich Llywodraeth yn trin y ffigurau trwy ailddiffinio a datblygu diffiniad newydd o'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd?

14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

That is not something that we will be looking to do. Of course, we know that the Conservatives have form on this. They did this in the 1980s with unemployment figures. Where figures are awkward, get rid of the figures: that seems to be the way that the Conservatives have always operated.

Nid yw hynny'n rhywbeth yr ydym yn bwriadu ei wneud. Wrth gwrs, rydym yn gwybod bod y Ceidwadwyr wedi gwneud hyn o'r blaen. Gwnaethant hyn yn y 1980au gyda ffigurau diweithdra. Pan fo ffigurau yn lletchwith, mae'n rhaid cael gwared ar y ffigurau: mae'n ymddangos mai dyna sut mae'r Ceidwadwyr wedi gweithredu erioed.

### Diogelu Pobl Hŷn

### Safeguarding Older People

14:04 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*7. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn diogelu pobl hyn yn eu cartrefi? OAQ(4)1380(FM)*

*7. How is the Welsh Government safeguarding older people in their homes? OAQ(4)1380(FM)*

14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We are taking a range of actions to further safeguard older people in their homes, including strengthening safeguarding arrangements, action on rogue traders and doorstep crime and support for police community support officers.

Rydym yn cymryd amrywiaeth o gamau i ddiogelu pobl hŷn ymhellach yn eu cartrefi, gan gynnwys cryfhau trefniadau diogelu, camau ar fasnachwyr twyllodrus a throsedd ar garreg y drws a chefnogaeth i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu.

14:04 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

How will you respond to the call by Age Cymru for the Welsh Government to actively intervene to tackle the inconsistent provision and enforcement of cold-calling zones across Wales to protect older people from scams and swindles on the doorstep? Its research shows that Torfaen has at least 45 zones, but Swansea has only four; Cardiff has not introduced a new one since 2010; and although Flintshire has 64, there have apparently been no prosecutions.

Sut y byddwch chi'n ymateb i'r galwad gan Age Cymru i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn ymarferol er mwyn mynd i'r afael â'r ddarpariaeth anghyson a gorfodi o ran ardaloedd dim galw diwahoddiad ledled Cymru i amddiffyn pobl hŷn rhag sgamiau a thwyll ar garreg y drws? Mae ei waith ymchwil yn dangos bod o leiaf 45 ardal yn Nhorfaen, ond dim ond pedwar sydd yn Abertawe; nid yw Caerdydd wedi cyflwyno un newydd ers 2010; ac er bod 64 yn Sir y Fflint, mae'n ymddangos na fu unrhyw erlyniadau.

14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The programme for government sets out our plans to extend no-cold-calling zones to deter rogue traders and cold callers. Residents in no-cold-calling zones who receive a cold caller should report it to the local trading standards department, which should take follow-up action. It is right to say that the figures vary across the whole of Wales, but nevertheless most local authorities have a substantial number of dwellings that are included in our no-cold-calling zones. The figure is 38,500 dwellings, roughly, across the whole of Wales.

Mae'r rhaglen ar gyfer llywodraethu yn nodi ein cynlluniau i ymestyn ardaloedd dim galw diwahoddiad i atal masnachwyr twyllodrus a galwyr diwahoddiad. Dylai trigolion mewn ardaloedd dim galw diwahoddiad sy'n derbyn galwr diwahoddiad hysbysu'r adran safonau masnach leol, a ddylai gymryd camau dilynol. Mae'n iawn dweud bod y ffigurau'n amrywio ledled Cymru gyfan, ond serch hynny ceir nifer sylweddol o anheddau yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol sydd wedi eu cynnwys yn ein hardaloedd dim galw diwahoddiad. Tua 38,500 o anheddau yw'r ffigur, yn fras, ledled Cymru gyfan.

14:05 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un o ganlyniadau'r technegau ymosodol hyn o werthu yw bod pobl—pobl hŷn yn arbennig—yn llai parod i newid darparwyr ynni, er enghraifft, oherwydd y profiad a gânt o deimlo dan fygythiad pan fo'r cynnig hwnnw'n cael ei roi o'u blaenau. O ganlyniad, wrth gwrs, maent yn talu mwy am eu hynni nag y dylent. A ydych yn credu bod pwerau presennol awdurdodau lleol yn y maes hwn yn ddigon cryf? Os felly, pam y gwelir y sefyllfa hon yn codi mor gyson, fel mae adroddiad Age Cymru wedi'i ddangos?

One of the outcomes of these aggressive methods of selling is that people—particularly older people—are less willing to change energy providers, for example, because of their experience of feeling threatened when that offer is made to them. As a result, they pay more for that energy than they should. Do you believe that the current powers of local authorities in this area are sufficiently robust? If you do, why does this situation arise so frequently, as the Age Cymru report has demonstrated?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Y broblem yw pobl yn ffonio ac yn cynnig cytundeb i bobl—dyna'r broblem fawr. Nid oes modd rheoli hynny ar lefel leol nac ar lefel Cymru. Mae system TPS ar gael, ond nid yw pob cwmni yn rhan o hynny. Mae pobl yn dueddol o gael tair neu bedair galwad bob nos; rwyf i'n un ohonynt, ond rwyf i'n rhoi'r ffôn i lawr. Mae'n broblem y dylid ei hystyried ar lefel Brydeinig er mwyn sicrhau, os yw pobl yn dweud nad ydynt am gael pobl yn ffonio, nad oes neb yn ffonio. Ar hyn o bryd, system wirfoddol sydd gennym ac nid wyf yn credu bod hynny'n ddigon i'r dyfodol, fel un sy'n derbyn galwadau o'r fath yn aml iawn.

The problem is telephone calls with offers of agreements—that is the big problem. That cannot be controlled on a local level or on a Wales-wide level. We do have the TPS system, but not every company is part of that. People tend to get three or four calls each evening; I am one of those people, but I just put the phone down. It is a problem that should be considered on a British level in order to ensure that we have a situation whereby, if people say that they do not want anyone to ring them up, that does not happen. At present, it is a voluntary system. As one who receives these calls fairly frequently, I do not believe that that is adequate for the future.

14:07 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae'r diffiniad arfaethedig yn y Bil newydd yn sôn am oedolion dan risg, ac mae'n rhaid iddynt fod yn derbyn gofal neu gefnogaeth. Mae Age Cymru wedi dweud bod y diffiniad hwn yn rhy gaeth. A fyddech yn barod i ailystyried y diffiniad, gan feddwl efallai am oedolyn sydd dan fygythiad yn y cartref ond nad yw'n cael cefnogaeth o unrhyw fath? Ar hyn o bryd, ni fydd y diffiniad newydd yn codi.

First Minister, the proposed definition in the new Bill mentions at-risk adults, who must be in recepit of care or support. Age Cymru has said that this is too narrow a definition. Would you be willing to reconsider this definition, bearing in mind that there could be an adult who is under threat in the home but who does not receive support of any sort. At present, the new definition would not apply.

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn ddigon parod, wrth gwrs, i drafod rhannau o'r Bil gydag unrhyw blaid. Mae mwy na 500 o welliannau wedi'u cyflwyno i'r Bil. Rydym yn deall ei bod yn bwysig cael cefnogaeth plaid arall neu bleidiau eraill er mwyn sicrhau bod y Bil yn cael ei basio, felly rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ddigon parod i wrando ar unrhyw sylwadau neu syniadau sydd gan bleidiau eraill.

Naturally, we are happy to discuss parts of the Bill itself with any party. In excess of 500 amendments have been tabled to the Bill. We understand that it is important to have the support of another party or other parties in order to ensure that the Bill is passed, so I am sure that the Minister will be happy to listen to any comments or ideas put forward by other parties.

## Cymorthdal y Cyfrif Refeniw Tai

## Housing Revenue Account Subsidy

14:08 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gydag arweinwyr awdurdodau lleol ynghylch Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai? OAQ(4)1384(FM)*

*8. What discussions has the First Minister had with local authority leaders regarding the Housing Revenue Account Subsidy? OAQ(4)1384(FM)*

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Carl Sargeant sy'n arwain y diwygiadau i gymhorthdal y cyfrif refeniw tai. Mae'n cyfarfod ag arweinwyr tai awdurdodau lleol yn rheolaidd, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn gyson.

HRAS reforms have been led by Carl Sargeant, who regularly meets with local authority housing leaders and has kept them informed of progress.

14:08 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae dwy ochr i hyn, wrth gwrs, Brif Weinidog. Yn y lle cyntaf, mae'n rhaid i awdurdodau lleol geisio gweld lle'n union y maent yn sefyll gyda'r newidiadau yn y cyfrfif refeniw ac, os oes ganddynt ddyledion, beth yw eu sefyllfa ariannol, ac mae negodi hynod bwysig yn digwydd gyda'r Trysorlys. A fydd y Gweinidog yn arwain y trafodaethau hynny, er mwyn sicrhau buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru, a'u galluogi i ailfuddsoddi arian mewn adeiladu tai i'w rhentu?

There are two sides to this, of course, First Minister. First, local authorities must see where they stand in terms of the changes to the HRAS, and, if they have debts, what their financial situation is, and there are some very important negotiations taking place with the Treasury. Will the Minister lead those negotiations in order to safeguard the interests of local authorities in Wales, and enable those local authorities to reinvest in building homes for rent?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, mae cyfle gwych gan awdurdodau lleol mewn perthynas â'r newidiadau hyn. Byddwn yn eu hannog i adeiladu tai ac i arbed arian yn y pen draw. Gall hynny ddigwydd, o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

Of course, local authorities have a wonderful opportunity as a result of these changes. We will encourage them to build homes and, ultimately, to save money. That can happen as a result of these changes.

14:09 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r Aelod dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr wedi sôn am y ddyled. Beth fydd y sefyllfa o ran y ddyled a ddelir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, a beth fydd rôl Llywodraeth Cymru yn hynny o beth?

The Member for Carmarthen East and Dinefwr has mentioned the debt. What will be the situation with regard to the debt currently held by local authorities in Wales, and what role will the Welsh Government play in that regard?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Bydd y newidiadau yn sicrhau bod trosglwyddo £73 miliwn o refeniw tai o awdurdodau yng Nghymru i Lywodraeth y Deyrnas Unedig bob blwyddyn yn dod i ben. Bydd hyn yn sicrhau y bydd awdurdodau lleol yn gallu hunan-gyllido yn y dyfodol a hefyd rydym yn credu y bydd ffordd o arbed tua £30 miliwn bob blwyddyn.

The changes will ensure that the transfer of £73 million in housing revenue every year from Welsh local authorities to the UK Government comes to an end. This will mean that local authorities will, in future, be able to self-finance and we also believe that it will be possible to save about £30 million per annu,

## Polisïau Iechyd

## Health Policies

14:10 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu effaith polisïau iechyd Llywodraeth Cymru ar Ddwyrain De Cymru? OAQ(4)1379(FM)*

*9. Will the First Minister outline the impact of Welsh Government health policies on South Wales East? OAQ(4)1379(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The impact of our policies can be seen by the improvement in life expectancy, treatment outcomes and high levels of patient satisfaction.

Gellir gweld effaith ein polisïau drwy'r gwelliant i ddisgwyliad oes, canlyniadau triniaeth a lefelau uchel o fodlonrwydd cleifion.

14:10 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am grateful to the First Minister for his reply, but he will know that Torfaen and Monmouth consistently have among the worst ambulance response times to emergency calls. The A&E unit at the Royal Gwent Hospital, in the opinion of the community health council, is a place where patients' privacy and dignity are compromised. The Aneurin Bevan Local Health Board has the highest number of patients waiting over 14 weeks for specified diagnostic and therapy services. The Royal College of Surgeons called for urgent action in relation to elective cardiac surgery. First Minister, when can we expect improvements to the quality of service in south-east Wales?

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb, ond bydd yn gwybod y ceir rhai o amseroedd ymateb ambiwlansys gwaethaf i alwadau brys yn Nhorfaen a Sir Fynwy yn gyson. Mae'r uned damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Gwent, ym marn y cyngor iechyd cymuned, yn fan lle mae preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael ei beryglu. Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan sydd â'r nifer uchaf o gleifion sy'n aros dros 14 wythnos am wasanaethau diagnostig a therapi penodedig. Galwodd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon am gamau brys o ran llawdriniaeth gardiaidd ddewisol. Brif Weinidog, pryd allwn ni ddisgwyl gwelliannau i ansawdd y gwasanaeth yn ne-ddwyrain Cymru?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The Member will know that we have seen the target for ambulance response times being hit. We are now in a position where cancer research times have improved and are the same as in England, in effect. What will make a real difference to healthcare in the south-east of Wales is the specialist and critical care centre. There is a limit to what can be achieved in the Royal Gwent Hospital, considering the amount of space that is available and the age of the building. The Minister for Health and Social Services has approved the outline business case for the development and the health board is preparing a robust full business case. That will ensure that the development takes into account the outcomes of the south Wales programme.

Bydd yr Aelod yn gwybod ein bod wedi gweld y targed ar gyfer amseroedd ymateb ambiwlansys yn cael ei gyrraedd. Rydym ni bellach mewn sefyllfa lle mae amseroedd ymchwil canser wedi gwella a'u bod yr un fath ag yn Lloegr, mewn gwirionedd. Yr hyn fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ofal iechyd yn ne-ddwyrain Cymru yw'r ganolfan gofal arbenigol a chritigol. Ceir terfyn o ran yr hyn y gellir ei gyflawni yn Ysbyty Brenhinol Gwent, o ystyried faint o le sydd ar gael ac oed yr adeilad. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymeradwyo'r achos busnes amlinellol ar gyfer y datblygiad ac mae'r bwrdd iechyd yn paratoi achos busnes llawn cadarn. Bydd hynny'n sicrhau bod y datblygiad yn cymryd canlyniadau rhaglen de Cymru i ystyriaeth.

## Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol

## Individual Patient Funding Requests

14:11 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithdrefn asesu Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol y GIG yng Nghymru? OAQ(4)1376(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on the Welsh NHS procedure for assessing Individual Patient Funding Requests? OAQ(4)1376(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The IPFR process is generally working effectively and is enabling appropriate access to medicines not recommended for routine use. The Minister for Health and Social Services recently announced a review of relevant aspects of the scheme.

Mae'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol yn gweithio'n effeithiol yn gyffredinol ac yn galluogi mynediad priodol at feddyginiaethau na argymhellir ar gyfer defnydd fel mater o drefn. Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adolygiad o agweddau perthnasol ar y cynllun yn ddiweddar.

14:12 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, First Minister. You will know the concerns raised by your constituent, Beth Margetson, about the implementation of this particular process in her own case. She has queried how the decision was reached to refuse her application for Afinitor, which is one of 24 non-NHS cancer drugs that are readily prescribed in England because of the cancer drugs fund—which is something that your Labour Government and Plaid Cymru deny Welsh patients, like Mrs Margetson. First Minister, in response to my written question, your Minister for health stated that he has announced a review of the IPFR process but not its extent. Will you confirm today that it will cover all drugs that have not been approved for routine NHS use by the National Institute for Health and Clinical Excellence or the all-Wales medicines strategy group?

Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd gan eich etholwr, Beth Margetson, am weithrediad y broses benodol hon yn ei hachos ei hun. Mae hi wedi cwestiynu sut y cafodd y penderfyniad ei wneud i wrthod ei chais am Afinitor, sy'n un o 24 o gyffuriau canser y tu allan i'r GIG sydd ar gael yn rhwydd ar bresgripsiwn yn Lloegr oherwydd y gronfa cyffuriau canser—sy'n rhywbeth nad yw eich Llywodraeth Llafur chi a Phlaid Cymru yn fodlon i gleifion yng Nghymru, fel Mrs Margetson, ei gael. Brif Weinidog, mewn ymateb i fy nghwestiwn ysgrifenedig, dywedodd eich Gweinidog iechyd ei fod wedi cyhoeddi adolygiad o'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol ond nid ei ehangder. A wnewch chi gadarnhau heddiw y bydd yn cwmpasu'r holl gyffuriau nad ydynt wedi eu cymeradwyo gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal na grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan i'w defnyddio fel mater o drefn gan y GIG?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Afinitor is no more widely available in England than it is in Wales. The fact that it is paid for under the cancer drugs fund rather than the Welsh fund is neither here nor there. The impression is given by the Member that Afinitor is available on application: that is not the case. I can tell the Member about the drug, in terms of its treatment of advanced cancer—it is available in Wales, but not for breast cancer. In England, there are seven criteria that have to be satisfied on application for the drug to be made available. It has to be made by the first cycle of systemic anti-cancer therapy to be prescribed by a specifically trained consultant specialist; there are specifications in term of the genetic make-up of the tumour; there must be no symptomatic visceral disease; it must be used in combination with exemestane; previous treatment with a non-steroidal aromatase inhibitor; there must be no previous treatment with exemestane for metastatic breast cancer; and no more than one line of chemotheraphy for the treatment of advanced breast cancer. As I am not a medic, I am not going to pretend that I understand what all those drugs are meant to do, nor do I know the situation with regard to any particular individual. It is distressing when somebody has cancer—we all understand that—but the impression must not be given that Afinitor is available in England at the drop of a hat on prescription; it is not. There are seven quite difficult criteria that have to be met in England via the cancer drugs fund. The impression is sometimes given that the cancer drugs fund just provides funding for drugs, no questions asked. It does not do that. We know, based on the figures that have been produced by NHS England, that the cancer drugs fund is less successful in terms of approving non-approved drugs for treatment than the system that we have in Wales. My point would be that what needs to happen is that the system in England needs to catch up with the system in Wales to give people more of a chance in England.

Nid yw Afinitor ar gael yn fwy eang yn Lloegr nag y mae yng Nghymru. Does wnelo'r ffaith y telir amdano dan y gronfa cyffuriau canser yn hytrach na chronfa Cymru ddim â'r peth. Rhoddir yr argraff gan yr Aelod bod Afinitor ar gael ar gais: nid yw hynny'n wir. Gallaf ddweud wrth yr Aelod am y cyffur, o ran ei driniaeth o ganser datblygedig—mae ar gael yng Nghymru, ond nid ar gyfer canser y fron. Yn Lloegr, ceir saith o feini prawf y mae'n rhaid eu bodloni wrth wneud cais i'r cyffur gael ei roi ar gael. Mae'n rhaid iddo gael ei wneud erbyn y cylch cyntaf o therapi gwrth-ganser systemig i gael ei ragnodi gan arbenigwr ymgynghorol a hyfforddwyd yn benodol; ceir manylebau o ran cyfansoddiad genetig y tiwmor; mae'n rhaid nad oes clefyd symptomatig ymysgarol; mae'n rhaid ei ddefnyddio mewn cyfuniad ag ecsemestan; triniaeth flaenorol gydag atalydd aromatas ansteroidaidd; mae'n rhaid na fu unrhyw driniaeth flaenorol gydag ecsemestan ar gyfer canser metastatig y fron; a dim mwy nag un llinell o gemotherapi ar gyfer trin canser datblygedig y fron. Gan nad wyf yn feddyg, nid wyf yn mynd i esgus fy mod yn deall beth y mae'r holl gyffuriau hynny i fod i'w wneud, ac nid wyf yn gwybod am y sefyllfa o ran unrhyw unigolyn penodol. Mae'n dorcalonnus pan fydd gan rywun ganser—mae pob un ohonom yn deall hynny—ond ni ddylid rhoi'r argraff bod Afinitor ar gael ar bresgripsiwn yn Lloegr yn syth bin; nid ydyw. Ceir saith maen prawf eithaf anodd y mae'n rhaid eu bodloni yn Lloegr drwy'r gronfa cyffuriau canser. Rhoddir yr argraff weithiau fod y gronfa cyffuriau canser yn darparu cyllid ar gyfer cyffuriau, heb ofyn dim cwestiynau. Nid yw'n gwneud hynny. Rydym yn gwybod, yn seiliedig ar y ffigurau a gynhyrchwyd gan y GIG yn Lloegr, fod y gronfa cyffuriau canser yn llai llwyddiannus o ran cymeradwyo cyffuriau nad ydynt wedi'u cymeradwyo ar gyfer triniaeth na'r system sydd gennym yng Nghymru. Fy mhwynt i yw mai'r hyn sy'n rhaid digwydd yw i'r system yn Lloegr ddal i fyny â'r system yng Nghymru er mwyn rhoi mwy o siawns i bobl yn Lloegr.

## Undebau Credyd

## Credit Unions

14:14 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar undebau credyd? OAQ(4)1371(FM)*

*11. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's policy on credit unions? OAQ(4)1371(FM)*

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We want to see a sustainable, financially resilient credit union movement in Wales that works together in a collaborative and effective way, and we want credit unions to offer a range of services to support those who are financially excluded, and ultimately, of course, to support our tackling poverty agenda.

Rydym eisiau gweld mudiad undebau credyd cynaliadwy, ariannol wydn yng Nghymru sy'n cydweithio mewn ffordd gydweithredol ac effeithiol, ac rydym ni eisiau i undebau credyd gynnig amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi'r rhai sydd wedi eu hallgáu'n ariannol, ac yn y pen draw, wrth gwrs, cefnogi ein hagenda trechu tlodi.

14:15 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. You will know that, in a letter to the Communities, Equality and Local Government Committee, the relevant Minister made it clear that the amount of money available for credit unions next year is roughly half what is available this year. Given the ambitions that you have for credit unions, and given the large number of credit unions, many of which are not sustainable in the medium term, do you actually have a plan as to how you can make these credit unions sustainable, so as to meet the objectives that you have with them, given that, at the same time, you are cutting funding for them?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod, mewn llythyr i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, bod y Gweinidog perthnasol wedi ei gwneud yn eglur bod y swm o arian sydd ar gael ar gyfer undebau credyd y flwyddyn nesaf tua hanner yr hyn sydd ar gael eleni. O ystyried yr uchelgeisiau sydd gennych ar gyfer undebau credyd, ac o ystyried y nifer fawr o undebau credyd, llawer ohonynt nad ydynt yn gynaliadwy yn y tymor canol, a oes gennych chi gynllun mewn gwirionedd o ran sut y gallwch wneud yr undebau credyd hyn yn gynaliadwy, er mwyn bodloni'r amcanion sydd gennych â nhw, o ystyried, ar yr un pryd, eich bod yn torri cyllid ar eu cyfer?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are committed, of course, to supporting Welsh credit unions to improve their financial viability. They must be financially viable in the end; they cannot forever be supported, otherwise there are difficult issues there. What I can say was that a letter was issued to credit unions last week stating that the Welsh Government is prepared to continue to offer financial support to credit unions, but can only do so if there is a clear desire on the part of the credit unions to work with the Welsh Government in order to achieve their long-term financial sustainability.

Rydym ni wedi ymrwymo, wrth gwrs, i gefnogi undebau credyd Cymru i wella eu hyfywedd ariannol. Mae'n rhaid iddynt fod yn ariannol hyfyw yn y pen draw; ni ellir eu cefnogi am byth, neu ceir problemau anodd yn hynny o beth. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod llythyr wedi'i anfon i undebau credyd yr wythnos diwethaf yn datgan bod Llywodraeth Cymru yn barod i barhau i gynnig cymorth ariannol i undebau credyd, ond gall ond gwneud hynny os oes awydd eglur ar ran yr undebau credyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol hirdymor.

14:16

## Cwestiwn Brys: Canlyniadau Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr

## Urgent Question: The Programme for International Student Assessment Results

Y

Senedd.tv Fideo Video

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Aled Roberts to ask the urgent question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Aled Roberts i ofyn y cwestiwn brys.

14:16 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*O ystyried y dirywiad yng nghanlyniadau Cymru mewn perthynas â'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella, ar fyrder, y safonau addysg a chyrhaeddiad yng Nghymru? EAQ(4)0363(ESK)*

*Given the deterioration in Wales's Programme for International Student Assessment results, what steps is the Minister taking to urgently improve educational standards and attainment in Wales? EAQ(4)0363(ESK)*

Given the PISA results this afternoon, can you underline the urgent task that you will be undertaking as a Government?

O ystyried y canlyniadau PISA y prynhawn yma, a allwch chi danlinellu'r dasg frys y byddwch yn ymgymryd â hi fel Llywodraeth?

14:16 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv Fideo Video

Everybody working in and around the Welsh education sector needs today to take a long, hard look in the mirror. The PISA results are stark, and the message is very clear: we must improve educational attainment and standards. We have the right reforms in place and will not be deflected.

Mae angen i bawb sy'n gweithio yn sector addysg Cymru ac o'i gwmpas edrych ar eu hunain yn ofalus heddiw. Mae'r canlyniadau PISA yn llwm, ac mae'r neges yn eglur iawn: mae'n rhaid i ni wella cyrhaeddiad a safonau addysgol. Mae'r diwygiadau cywir gennym ar waith ac ni fydd ein sylw'n cael ei dynnu oddi ar y gwaith.

14:16 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I accept that this is a long-term issue, and perhaps the roots have been there for decades, but the impression has been given that the reforms are in place, and it is merely a case of looking at those reforms working out. I was very concerned over the weekend to learn that there are many system leaders who are not yet in place within the consortia, and furthermore that some of the system leaders who are already in place have very little experience of senior leadership within our schools.

Weinidog, rwy'n derbyn bod hwn yn fater hirdymor, ac efallai bod y gwreiddiau wedi bod yno ers degawdau, ond rhoddwyd yr argraff bod y diwygiadau ar waith, ac mae dim ond achos o ddisgwyl i'r diwygiadau hynny weithio yw hi. Roeddwn i'n bryderus iawn dros y penwythnos o ddarganfod bod llawer o arweinwyr systemau nad ydynt wedi eu penodi o fewn y consortia eto, a hefyd mai ychydig iawn o brofiad o arweinyddiaeth uwch yn ein hysgolion sydd gan rai o'r arweinwyr systemau sydd wedi eu penodi eisoes.

14:17 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member will be aware of course that, during the past few months I have acted swiftly and with determination, I hope, in order to sort out the rather half-hearted contribution that some partners and colleagues have been making towards the consortium system for school improvement, as recommended by Robert Hill. I am satisfied that, by April next year—and I have laid this before the Chamber more than one—we will have an operational, efficient and understandable school improvement consortium system for every corner of Wales.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol, wrth gwrs, fy mod yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, wedi gweithredu'n gyflym a chyda phenderfyniad, rwy'n gobeithio, i ddatrys y cyfraniad braidd yn glaear y mae rhai partneriaid a chydweithwyr wedi bod yn ei wneud at y system consortiwm ar gyfer gwella ysgolion, fel yr argymhellwyd gan Robert Hill. Rwy'n fodlon, erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf—ac rwyf wedi cyflwyno hyn gerbron y Siambr sawl gwaith—y bydd gennym system consortiwm gwella ysgolion gweithredol, effeithlon a dealladwy ar gyfer pob cornel o Gymru.

14:18 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I appreciate that you are undertaking a curriculum review at present. However, the question that I wish to ask is: do you think that this will be sufficient to ensure the quite staggering leap that you are looking forward to over the next three years, from being fortieth in the PISA results to twentieth or better? Is that curriculum review going to be strong enough to be able to enhance the learning experience for eight to 14-year-olds, who appear to be in the age group where the issues arise?

Weinidog, rwy'n sylweddoli eich bod yn cynnal adolygiad o'r cwricwlwm ar hyn o bryd. Fodd bynnag, y cwestiwn yr hoffwn ei ofyn yw: a ydych chi'n credu y bydd hyn yn ddigon i sicrhau'r naid eithaf syfrdanol yr ydych chi'n edrych ymlaen ati dros y tair blynedd nesaf, o fod yn ddeugeinfed yn y canlyniadau PISA i fod yn ugeinfed neu well? A yw'r adolygiad cwricwlwm yna'n mynd i fod yn ddigon cryf i allu gwella'r profiad dysgu i blant wyth i 14 mlwydd oed, sef y grŵp oedran lle y mae'n ymddangos bod y problemau'n codi?

14:18 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course the curriculum review will not on its own, of itself, turn around the issues as they relate to PISA. Apart from anything else, PISA does not really test the grasp of a particular curriculum; it tests the application of the understanding of that curriculum to a real-life problem, if you like. We are engaged here, I would say, in what is to my mind undoubtedly the largest and most ambitious raft of educational reform that Wales has seen since the coming of comprehensive education in the 1950s and 1960s. There is real ambition shot throughout that platform of reform.

Wrth gwrs, ni fydd yr adolygiad o'r cwricwlwm ar ei ben ei hun, ynddo'i hun, yn datrys y problemau fel y maent yn berthnasol i PISA. Ar wahân i unrhyw beth arall, nid yw PISA wir yn profi'r ddealltwriaeth o gwricwlwm penodol; mae'n profi'r defnydd o'r ddealltwriaeth o'r cwricwlwm hwnnw i broblem go iawn, os mynnwch chi. Rydym yn ymwneud yma, byddwn i'n dweud heb amheuaeth, â'r gyfres fwyaf a mwyaf uchelgeisiol o ddiwygio addysgol yng Nghymru ers dyfodiad addysg gyfun yn y 1950au a'r 1960au. Mae gwir uchelgais yn treiddio trwy bob rhan o'r llwyfan diwygio hwnnw.

What we need to ensure now, in the wake of PISA today, is that challenge and grit are also shot throughout that reform process, and that everyone in the system accepts the part that they have to play, and buys into, first of all, the realisation that PISA is showing us something that we need to take urgent notice of, and, secondly, the realisation that every professional in the system, from my office right through to the classroom teacher actually delivering on the ground, needs to understand and accept their role in reform.

Yr hyn mae angen i ni ei sicrhau nawr, yn sgil PISA heddiw, yw bod her a phenderfyniad yn treiddio trwy gydol y broses ddiwygio honno, a bod pawb yn y system yn derbyn y rhan sydd ganddynt i'w chwarae, ac ymrwymo, yn gyntaf oll, i sylweddoli bod PISA yn dangos rhywbeth i ni y mae angen i ni gymryd sylw ohono ar frys, ac, yn ail, y sylweddoli bod angen i bob gweithiwr proffesiynol yn y system, o fy swyddfa i hyd at yr athro a'r athrawes ddosbarth sy'n darparu ar lawr gwlad, ddeall a derbyn ei swyddogaeth yn y gwaith o ddiwygio.

14:19 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the Minister agree with me that no single policy, whether it be the Liberal Democrats talking about system leaders or the Conservatives talking about the curriculum, will produce the changes that are necessary? What matters is the programme of reform that has been drawn up and introduced over recent years; the embedding of that; the support that has been given to schools in terms of how the PISA assessment works; and, the work that has been done within the qualifications review to look at the lessons of PISA. It is no use people looking for single solutions. What we need to have is the step change that is embedded in our policies. Will he keep on that course?

A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi na fydd unrhyw bolisi unigol, pa un a yw'n ymwneud â'r Democratiaid Rhyddfrydol yn sôn am arweinwyr systemau neu'r Ceidwadwyr yn siarad am y cwricwlwm, yn llwyddo i gyflawni'r newidiadau sy'n angenrheidiol? Yr hyn sy'n bwysig yw'r rhaglen o ddiwygio a luniwyd ac a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf; sefydlu hynny; y cymorth a roddwyd i ysgolion o ran sut mae'r asesiad PISA yn gweithio; ac, y gwaith sydd wedi ei wneud yn yr adolygiad cymwysterau i edrych ar wersi PISA. Nid oes diben i bobl chwilio am atebion unigol. Yr hyn mae angen i ni ei gael yw'r newid sylweddol sydd wedi ei ymgorffori yn ein polisïau. A fydd ef yn cadw at y trywydd hwnnw?

14:20 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would agree; yes, I would. There is no single policy announcement that can turn around what is a very complex situation. We have to keep a grasp on the central importance of delivery on literacy and numeracy. We need to understand that leadership plays a very important role and we need to enhance the role and the ability of leaders within our system. Leighton Andrews is quite right: opposition parties searching for magic bullets to somehow put right this system will search in vain—not that I have heard a lot of ammunition being fired by the opposition this afternoon. We have not heard one single iota of disagreement in terms of the policy reform platform that is being put in place and that I am pursuing. There has been no fundamental disagreement with any of it and no suggestions on top of it to enhance it—not one; not a single one.

Byddwn yn cytuno; byddwn, mi fyddwn. Nid oes unrhyw gyhoeddiad polisi unigol sy'n gallu gweddnewid sefyllfa sy'n gymhleth iawn. Mae'n rhaid i ni gadw gafael ar bwysigrwydd canolog cyflawni o ran llythrennedd a rhifedd. Mae angen i ni ddeall bod arweinyddiaeth yn cyflawni swyddogaeth bwysig iawn ac mae angen i ni ehangu swyddogaeth a gallu arweinwyr yn ein system. Mae Leighton Andrews yn llygad ei le: bydd gwrthbleidiau sy'n chwilio am fwledi hud i drwsio'r system hon mewn rhyw foddd, yn chwilio'n ofer—nid fy mod i wedi clywed llawer o anghytuno gan y gwrthbleidiau y prynhawn yma. Nid ydym wedi clywed yr un achos o anghytuno â'r llwyfan diwygio polisi sy'n cael ei roi ar waith ac yr wyf yn ei ddilyn. Ni fu unrhyw anghytuno sylfaenol ag unrhyw ran ohono a dim awgrymiadau ychwanegol i'w wella—dim un; dim un o gwbl.

14:21 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, Minister, it is your delivery that is being questioned here today, not individual policies. I heard the First Minister talk so much about being educated through the state system, but I am not sure why he wanted to emphasise that so much, considering that two previous Labour Ministers for education were privately educated. However, as we were both successfully educated, Minister, through the state system by Labour local authorities, what do you think has gone wrong since devolution to change a successful education system? Is it local government's fault? Is it Welsh Government's fault? Is it the teachers' fault? What leadership question is at fault here? Is your target of becoming a top-20 PISA country by 2015 really now truly credible?

Na, Weinidog, eich darpariaeth chi sy'n cael ei chwestiynu yma heddiw, nid polisïau unigol. Clywais y Prif Weinidog yn siarad cymaint am gael ei addysgu trwy system y wladwriaeth, ond nid wyf yn siŵr pam yr oedd eisiau pwysleisio hynny gymaint, o ystyried bod dau o Weinidogion addysg blaenorol Llafur wedi cael eu haddysgu'n breifat. Fodd bynnag, gan ein bod ni'n dau wedi cael ein haddysgu'n llwyddiannus, Weinidog, drwy system y wladwriaeth gan awdurdodau lleol Llafur, beth ydych chi'n ei gredu sydd wedi mynd o'i le ers datganoli i newid system addysg lwyddiannus? Ai llywodraeth leol sydd ar fai? Ai Llywodraeth Cymru sydd ar fai? Ai'r athrawon sydd ar fai? Pa gwestiwn arweinyddiaeth sydd ar fai yma? A yw eich targed o fod yn wlad yn 20 uchaf PISA erbyn 2015 yn wirioneddol gredadwy erbyn hyn?

14:22 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are those who may want to spend today reflecting upon the PISA results and engaging in the allocation of blame or encouraging people to face the situation with some degree of panic or alarm. I am not one of those people. I will not be encouraging people to displace their activity and waste their time in that regard.

Mae rhai a allai fod eisiau treulio heddiw yn myfyrio ar y canlyniadau PISA a chymryd rhan mewn proses o osod bai neu annog pobl i wynebu'r sefyllfa gyda rhywfaint o banig neu ofn. Nid wyf i'n un o'r bobl hynny. Ni fyddaf yn annog pobl i gael eu gwrthdynnu o'u gweithgarwch a gwastraffu eu hamser yn hynny o beth.

I will say this about the PISA results and our ambitions and the level of attainment that we wish to see in our schools and educational system more widely: I am also not going to spend today trying to explain some kind of reason why we should lower our targets in the face of the PISA results. What this system needs now is encouragement from the centre to ensure that we aim for the very highest and very best that we can achieve within the system. That means, for today, tomorrow and the day after, making sure that we stick to that commitment around our attainment as regards PISA, but also more widely in terms of all the other measures of success within educational attainment. I am not going to send a negative message from this Chamber today to our teachers, pupils and students. We can do this. Other countries have shown in their PISA journey that they were capable of doing it and there is no reason why we should not too.

Rwyf am ddweud hyn am ganlyniadau PISA a'n huchelgeisiau a lefel y cyrhaeddiad yr ydym ni'n dymuno ei weld yn ein hysgolion a'n system addysg yn ehangach: nid wyf yn mynd i dreulio heddiw yn ceisio egluro rhyw fath o reswm pam y dylem ostwng ein targedau yng ngoleuni'r canlyniadau PISA. Yr hyn sydd ei angen ar y system hon nawr yw anogaeth o'r canol i sicrhau mai'r uchaf a'r gorau posibl y gallwn ni ei gyflawni fydd ein nod o fewn y system. Mae hynny'n golygu, heddiw, yfory a'r diwrnod ar ôl hynny, gwneud yn siŵr ein bod yn cadw at yr ymrwymiad hwnnw o ran ein cyrhaeddiad yng nghyswllt PISA, ond hefyd yn ehangach o ran yr holl fesurau eraill o lwyddiant o fewn cyrhaeddiad addysgol. Nid wyf yn mynd i anfon neges negyddol o'r Siambr hon heddiw i'n hathrawon, disgyblion a myfyrwyr. Gallwn wneud hyn. Mae gwledydd eraill wedi dangos yn eu taith PISA eu bod nhw'n gallu ei wneud ac nid oes unrhyw reswm pam na ddylem ninnau hefyd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

## Questions to the Minister for Culture and Sport

Y

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Trosglwyddwyd cwestiwn 1, OAQ(4)0100(CS), i'w ateb yn ysgrifenedig.

Question 1, OAQ(4)0100(CS), has been transferred for written answer.

**Llyfrgelloedd**

**Libraries**

14:24 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol llyfrgelloedd yng Nghymru? OAQ(4)0092(CS)*

*2. Will the Minister make a statement on the future of libraries in Wales? OAQ(4)0092(CS)*

14:24 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

As outlined in my written statement issued this morning, libraries have a key role in our communities, helping to improve literacy, delivering digital inclusion, tackling poverty and creating stronger communities.

Fel yr amlinellwyd yn fy natganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd y bore yma, mae gan lyfrgelloedd swyddogaeth allweddol yn ein cymunedau, gan helpu i wella llythrennedd, darparu cynhwysiant digidol, trechu tlodi a chreu cymunedau cryfach.

14:24 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your written statement, which I thought was rather cheekily issued at midday today, when I was due to ask you a question on libraries this afternoon. As you know, many residents in Gilwern are concerned by the closure of their library, especially the apparent lack of consultation. What guidance has your Government issued to local authorities on how to balance cuts in public spending with the need to maintain important community services such as libraries? Would you be willing to meet with the residents of Gilwern to discuss their particular situation?

Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad ysgrifenedig, yr wyf yn credu iddo gael ei gyhoeddi braidd yn ddigywilydd, am hanner dydd heddiw, a minnau i fod i ofyn cwestiwn i chi am lyfrgelloedd y prynhawn yma. Fel y gwyddoch, mae llawer o drigolion yng Ngilwern yn pryderu bod eu llyfrgell wedi cael ei chau, ac yn enwedig am y diffyg ymgynghori ymddangosiadol. Pa ganllawiau mae eich Llywodraeth wedi eu cyflwyno i awdurdodau lleol ar sut i gydbwyso toriadau mewn gwariant cyhoeddus gyda'r angen i gynnal gwasanaethau cymunedol pwysig fel llyfrgelloedd? A fyddech chi'n barod i gyfarfod â thrigolion Gilwern i drafod eu sefyllfa benodol hwy?

14:25 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I first of all assure the Member that our written statement had been in the planning for some time? It does set out many of the key issues around this agenda. Obviously, it is a very difficult time for local authorities in terms of their own funding positions. I think that every Member here today understands that. At the same time, of course, it is a statutory provision in terms of libraries and there are certain processes that should be gone through before any cuts are made. That is why the statement talks of consultation and due process. I am working very closely with the Welsh Local Government Association to understand issues and to understand the plans that local authorities are considering at the current time, so that we can work together to find the best way through these very difficult situations.

Yn gyntaf oll, a gaf i sicrhau'r Aelod bod ein datganiad ysgrifenedig wedi bod yn cael ei gynllunio ers cryn amser? Mae'n nodi llawer o'r materion allweddol ynghylch yr agenda hon. Yn amlwg, mae'n gyfnod anodd iawn i awdurdodau lleol o ran eu sefyllfaoedd cyllido eu hunain. Rwy'n credu bod pob Aelod yma heddiw yn deall hynny. Ar yr un pryd, wrth gwrs, mae'n ddarpariaeth statudol o ran llyfrgelloedd a cheir prosesau penodol y dylid mynd drwyddynt cyn gwneud unrhyw doriadau. Dyna pam mae'r datganiad yn sôn am ymgynghori a'r drefn briodol. Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddeall problemau ac i ddeall y cynlluniau y mae awdurdodau lleol yn eu hystyried ar hyn o bryd, fel y gallwn gydweithio i ddod o hyd i'r ffordd orau drwy'r sefyllfaoedd anodd iawn hyn.

14:26 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I heard your comments about consultation with the appropriate bodies. May I raise with you the concerns that have been represented to me most strongly by staff at the National Library of Wales? There is a lot of talk about senior management having to go. I wondered first of all how you might respond to those concerns and, secondly, what further impact do you think there will be on staffing at the National Library of Wales, in the light of the 4% revenue budget cut?

Weinidog, clywais eich sylwadau am ymgynghori â'r cyrff priodol. A gaf i godi gyda chi y pryderon a hysbyswyd gryfaf i mi gan aelodau o'r staff yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru? Ceir llawer o sôn y bydd yn rhaid i uwch reolwyr adael. Roeddwn i'n meddwl yn gyntaf tybed sut y byddech chi'n ymateb i'r pryderon hynny ac, yn ail, pa effaith bellach fydd ar staffio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn eich barn chi, yng ngoleuni'r toriad o 4% i gyllideb refeniw?

14:26 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, I think that we all understand the very difficult financial situation that we all exist in at the moment and that does apply, unfortunately, to the national library as well. It is a difficult situation. It has to manage within the available resource. I must say that, with the co-operation of the Minister for Finance, we have been able to provide substantial additional capital moneys to the national library in terms of the fire and the forward plans that it has for the building. However, in terms of revenue, yes, it is a difficult situation. What we can say, I think, is that the national library is very keen to build partnerships and to understand the opportunities that exist in furthering those partnerships at the current time, as well as looking at possible additional funding sources.

Unwaith eto, rwy'n credu ein bod i gyd yn deall y sefyllfa ariannol anodd iawn yr ydym ni i gyd yn bodoli ynddi ar hyn o bryd ac mae hynny'n berthnasol, yn anffodus, i'r llyfrgell genedlaethol hefyd. Mae'n sefyllfa anodd. Mae'n rhaid iddi ymdopi yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n rhaid i mi ddweud, gyda chydweithrediad y Gweinidog Cyllid, ein bod wedi gallu darparu arian cyfalaf ychwanegol sylweddol i'r llyfrgell genedlaethol o ran y tân a'r blaengynlluniau sydd ganddi ar gyfer yr adeilad. Fodd bynnag, o ran refeniw, ydy, mae'n sefyllfa anodd. Yr hyn y gallwn ni ei ddweud, rwy'n credu, yw bod y llyfrgell genedlaethol yn awyddus iawn i ddatblygu partneriaethau ac i ddeall y cyfleoedd sy'n bodoli i hybu'r partneriaethau hynny ar hyn o bryd, yn ogystal ag ystyried ffynonellau cyllid ychwanegol posibl.

I was at Merthyr last week, looking at and hearing about just such an outreach programme that the national library is taking forward. I think that what I can say is that the national library is intent on making itself more relevant across Wales, working with a range of partners, and the Welsh Government will be very supportive with regard to those endeavours.

Roeddwn i ym Merthyr yr wythnos diwethaf, yn edrych ar ac yn clywed am yn union yr un fath o raglen allgymorth ag y mae'r llyfrgell genedlaethol yn ei datblygu. Rwy'n meddwl mai'r hyn y gallaf ei ddweud yw bod y llyfrgell genedlaethol yn benderfynol o wneud ei hun yn fwy perthnasol ledled Cymru, gan weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, a bydd Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn o ran yr ymdrechion hynny.

14:28 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I have read your statement with interest. Wrexham County Borough Council is proposing to close three of its 12 libraries this year. Its risk assessment outlines that it will be unable to meet national standards in five of the areas, despite currently performing and only failing on two. What is the point of national standards if local authorities can pay lip service to them in any risk assessment?

Weinidog, rwyf wedi darllen eich datganiad gyda diddordeb. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn bwriadu cau tair o'i 12 llyfrgell eleni. Mae ei asesiad risg yn amlinellu na fydd yn gallu bodloni safonau cenedlaethol ym mhump o'r meysydd, er gwaethaf y ffaith ei fod yn perfformio a dim ond yn methu ar ddau ar hyn o bryd. Beth yw pwynt safonau cenedlaethol os gall awdurdodau lleol esgus cydymffurfio â nhw mewn unrhyw asesiad risg?

14:28 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that those national standards are a very important framework for the improvement of our library services in Wales. In fact, they have achieved that improvement over a period of time. We have seen substantial progress, which I think that Members here would be familiar with. Those standards are an important part of the picture, but, of course, they are not statutory in terms of the statutory requirements on local authorities. That is why I have published this statement today, to set out considerations in the round as to what the responsibilities of the Welsh Government and local government are and how we can work together in dealing with the difficult circumstances that we all face.

Rwy'n credu bod y safonau cenedlaethol hynny'n fframwaith pwysig iawn ar gyfer gwella ein gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru. Yn wir, maen nhw wedi sicrhau'r gwelliant hwnnw dros gyfnod o amser. Rydym ni wedi gweld cynnydd sylweddol, yr wyf yn credu y bydd yr Aelodau yma'n gyfarwydd â nhw. Mae'r safonau hynny yn rhan bwysig o'r darlun, ond, wrth gwrs, nid ydynt yn statudol o ran y gofynion statudol ar awdurdodau lleol. Dyna pam yr wyf i wedi cyhoeddi'r datganiad hwn heddiw, i gyflwyno ystyriaethau yn gyffredinol o ran beth yw cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd wrth ymdrin â'r amgylchiadau anodd sy'n ein hwynebu i gyd.

## Perchenogaeth Gymunedol

## Community Ownership

14:29 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar berchenogaeth gymunedol o chwaraeon? OAQ(4)0089(CS)*

*3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's policy on community ownership of sport? OAQ(4)0089(CS)*

14:29 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The primary aim of our policy and investments is to support sport at grass-roots level and to encourage communities to engage in the delivery of, as well as participating in, sport and physical activity.

Prif nod ein polisi a'n buddsoddiadau yw cefnogi chwaraeon ar lawr gwlad ac annog cymunedau i gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu, yn ogystal â chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

14:29 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I am sure that you will give your support to the co-operative mutual models, particularly with clubs such as Merthyr and Wrexham. I wonder whether the Welsh Government will be considering the implementation of sections 87 and 88 of the Localism Act 2011 to enable communities in Wales to list community sports fields and buildings as assets of community value, as is already the case in England.

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn rhoi eich cefnogaeth i'r modelau cydfuddiannol cydweithredol, yn enwedig gyda chlybiau fel Merthyr a Wrecsam. Tybed a fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gweithredu adrannau 87 ac 88 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 i alluogi cymunedau yng Nghymru i restru meysydd ac adeiladau chwaraeon cymunedol fel asedau o werth cymunedol, fel sydd eisoes yn digwydd yn Lloegr.

14:30 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Localism Act 2011 is, I think, chiefly a matter for other Ministers in the Welsh Government. However, as Minister for sports, I am very keen to look at community assets and at how they can support our strategies and policies for sport. I think that community ownership is a very powerful model that is very progressive and does produce results. So, I think that, in the round, we will work with Sport Wales, through its community sport programme, and will look at facilities in terms of community-focused schools, which I think is very important, at the roll out of 3G and how that can be enjoyed by a variety of partners and communities, as well as at the issues that the Member mentions.

Rwy'n credu mai mater i Weinidogion eraill yn Llywodraeth Cymru yw Deddf Lleoliaeth 2011 yn bennaf. Fodd bynnag, fel y Gweinidog chwaraeon, rwy'n awyddus iawn i edrych ar asedau cymunedol a sut y gallant gefnogi ein strategaethau a'n polisïau ar gyfer chwaraeon. Rwy'n credu bod perchenogaeth gymunedol yn fodel pwerus iawn sy'n flaengar iawn ac sy'n cyflawni canlyniadau hefyd. Felly, rwy'n credu, yn gyffredinol, y byddwn yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru, trwy ei raglen chwaraeon cymunedol, ac yn edrych ar gyfleusterau o ran ysgolion bro, yr wyf o'r farn eu bod yn bwysig iawn, ar gyflwyno 3G a sut y gall hynny gael ei fwynhau gan amrywiaeth o bartneriaid a chymunedau, yn ogystal ag ar y materion y mae'r Aelod yn sôn amdanynt.

14:30 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the Localism Act 2011 can identify sports clubs and their facilities as assets of community value, giving communities the right to bid for the ownership of these assets. What action has the Minister taken to raise awareness of these powers so that sports amenities that are under threat and that play a vital role in local life can be saved by community groups?

Weinidog, gall Deddf Lleoliaeth 2011 nodi clybiau chwaraeon a'u cyfleusterau fel asedau o werth cymunedol, gan roi hawl i gymunedau wneud cais i fod yn berchen ar yr asedau hyn. Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r pwerau hyn fel y gall amwynderau chwaraeon sydd dan fygythiad ac sy'n chwarae rhan hanfodol mewn bywyd lleol gael eu hachub gan grwpiau cymunedol?

14:31 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I have just said in answer to Mick Antoniw, these are chiefly matters for my ministerial colleagues. I know that they are aware of those matters and are considering them.

Fel rwyf newydd ei ddweud wrth ateb Mick Antoniw, mae'r rhain yn faterion i'm cydweithwyr gweinidogol yn bennaf. Rwy'n gwybod eu bod yn ymwybodol o'r materion hynny a'u bod yn eu hystyried.

14:31 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the Minister believe that Welsh sport would benefit from more clubs following the Swansea City Football Club model, with the supporters' trust having part ownership of the club, having a director, and having an involvement in running the club?

A yw'r Gweinidog yn credu y byddai chwaraeon Cymru yn elwa pe byddai mwy o glybiau yn dilyn model Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe, lle mae'r ymddiriedolaeth cefnogwyr yn berchen ar y clwb yn rhannol, ac yn cymryd rhan yn y gwaith o redeg y clwb?

14:31 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that we can say that Swansea City FC is an outstanding success for the area, and, indeed, for Wales as a whole. On and off the field, I think that the club's style of football, and its sustainable business model, has won many admirers. I am sure that these achievements, and that success, are attracting a great deal of interest within and beyond Wales.

Rwy'n credu y gallwn ddweud bod Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn llwyddiant ysgubol i'r ardal, ac, yn wir, i Gymru gyfan. Ar y maes ac oddi arno, rwy'n credu bod y math o bêl-droed y mae'r clwb yn ei chwarae, a'i fodel busnes cynaliadwy, wedi ennill llawer o edmygwyr. Rwy'n siŵr bod y llwyddiannau hyn, a'r llwyddiant hwnnw, yn denu llawer iawn o ddiddordeb yng Nghymru a thu hwnt.

14:32 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ar ôl canmol y model hwnnw o berchnogaeth yng nghyd-destun clybiau pêl-droed Cymru, sydd yn llwyddiant mawr, a gytunwch fod yr amser wedi dod i rai o dimau rhanbarthol rygbi Cymru ystyried modelau o'r fath?

Having praised that model of ownership in the context of Welsh football clubs, which is a great success, would you agree that the time has now come for some of the Welsh regional rugby teams to consider such models?

14:32 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very keen on community ownership and Supporters Direct. I think that such schemes have much to offer, and to spread involvement, and, indeed, ownership, to a wider number of people must be very healthy indeed.

Rwy'n hoff iawn o berchnogaeth gymunedol a Supporters Direct. Rwy'n meddwl bod gan gynlluniau o'r fath lawer i'w gynnig, ac mae lledaenu cyfranogiad, ac, yn wir, perchnogaeth, i nifer ehangach o bobl yn sicr yn iachus dros ben.

## Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon

## Vision for Sport

14:32 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon? OAQ(4)0095(CS)*

*4. Will the Minister outline the Welsh Government's vision for sport? OAQ(4)0095(CS)*

14:32 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government's vision is to increase rates of participation in sport, especially among young people, and to provide better quality, sustainable opportunities for people to take part in sport, irrespective of their social circumstances. In addition, we aim to support and nurture our more talented sportsmen and women.

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cynyddu cyfraddau cyfranogiad mewn chwaraeon, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, ac i ddarparu cyfleoedd cynaliadwy, o ansawdd gwell i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, waeth beth yw eu hamgylchiadau cymdeithasol. Hefyd, ein nod yw cefnogi a meithrin ein hathletwyr mwy talentog.

14:33 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. It would be difficult to disagree with anything that you said there. May I ask you about your vision for developing sport locally, at the grass roots? I listened carefully to your response to Mick Antoniw when he asked you about developing grass-roots sports. Eight years ago, the then Welsh Government's 'Climbing Higher' document contained the community activity challenge, which aimed to work through voluntary organisations and community organisations to use village halls and social clubs, particularly in rural areas, to develop sports at the grass roots. I recently saw a constituent who expressed great concern that this vision simply had not been realised. Can you give us any solid examples of where this is working, and, if it is not measuring up to the vision that was set out then, how are you going to make sure that the vision in 'Climbing Higher' of locally developed, locally grown sport at the grass roots really will be developed and sustained?

Diolch yn fawr am yr ateb yna, Weinidog. Byddai'n anodd anghytuno ag unrhyw beth yr ydych chi newydd ei ddweud. A gaf i ofyn i chi am eich gweledigaeth ar gyfer datblygu chwaraeon yn lleol, ar lawr gwlad? Gwrandewais yn astud ar eich ymateb i Mick Antoniw pan ofynnodd i chi am ddatblygu chwaraeon ar lawr gwlad. Wyth mlynedd yn ôl, roedd dogfen 'Dringo'n Uwch' Llywodraeth Cymru ar y pryd yn cynnwys her gweithgareddau cymunedol, a oedd â'r nod o weithio trwy sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ddefnyddio neuaddau pentref a chlybiau cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i ddatblygu chwaraeon ar lawr gwlad. Gwelais etholwr yn ddiweddar a fynegodd bryder mawr nad oedd y weledigaeth hon wedi ei gwireddu. A allwch chi roi unrhyw enghreifftiau cadarn o ble mae hyn yn gweithio, ac, os nad yw'n cyflawni'r weledigaeth a gyflwynwyd bryd hynny, sut yr ydych chi'n mynd i wneud yn siŵr bod y weledigaeth yn 'Dringo'n Uwch' o chwaraeon a ddatblygwyd yn lleol, a dyfwyd yn lleol ar lawr gwlad yn cael eu datblygu a'u cynnal mewn gwirionedd?

14:34 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can assure the Member that our mainstream funding through Sport Wales is very much along the lines of community participation and community grass-roots sport and physical activity. A substantial amount of that funding is dedicated to Sport Wales's community strategy. That reaches out right across Wales to a number of grass-roots organisations. I do think that we need more of a community focus, as I mentioned earlier, with more community-focused schools, for example. I know that we have a huge volunteer base, which is rightly valued and central to that community sport strategy.

Gallaf sicrhau'r Aelod bod ein cyllid prif ffrwd trwy Chwaraeon Cymru yn sicr ar sail cyfranogiad cymunedol a chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol ar lawr gwlad. Mae swm sylweddol o'r cyllid hwnnw wedi ei neilltuo i strategaeth gymunedol Chwaraeon Cymru. Mae hynny'n ymestyn i bob cwr o Gymru i nifer o sefydliadau llawr gwlad. Rwyf yn credu bod angen mwy o bwyslais cymunedol arnom, fel y soniais yn gynharach, gyda mwy o ysgolion bro, er enghraifft. Rwy'n gwybod bod gennym sail enfawr o wirfoddolwyr, sy'n cael ei werthfawrogi'n iawn ac sy'n ganolog i'r strategaeth chwaraeon gymunedol sydd gennym.

14:34 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder what you can tell us about what the Welsh Government, and local authorities, are doing with regard to the Olympic legacy in Wales? I ask because this week we have found out that not only Paralympian training will be going from Swansea pool, but the elite athletes will be leaving Swansea too, going to Manchester. How can we secure a legacy in Wales if these provisions disappear?

Weinidog, tybed beth allwch chi ei ddweud wrthym am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru, ac awdurdodau lleol, yn ei wneud o ran etifeddiaeth y Gemau Olympaidd yng Nghymru? Rwy'n gofyn hyn oherwydd yr wythnos hon, rydym wedi darganfod y bydd hyfforddiant Paralympaidd yn gadael pwll nofio Abertawe ac y bydd yr athletwyr elît yn gadael Abertawe hefyd, gan symud i Fanceinion. Sut allwn ni sicrhau etifeddiaeth yng Nghymru os bydd y darpariaethau hyn yn diflannu?

14:35 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Like the Member, and other Members, I am concerned about the situation regarding the Swansea pool, and I have written to British Swimming and Disability Swimming to make the appropriate points. I think we do have, thankfully, a strong Olympic legacy in general. We have seen impressive increases in participation in a number of sports as part of that Olympic legacy. The challenge will be to sustain that over time. However, we also have the young ambassadors as a direct Olympic legacy, doing great work in schools and communities right across Wales, making sure that that Olympic legacy continues into the future.

Fel yr Aelod, ac Aelodau eraill, rwy'n pryderu am y sefyllfa o ran pwll nofio Abertawe, ac rwyf wedi ysgrifennu at Nofio Prydain a Nofio Anabledd i wneud y pwyntiau priodol. Rwy'n credu bod gennym, diolch byth, etifeddiaeth Olympaidd gref yn gyffredinol. Rydym ni wedi gweld cynnydd trawiadol mewn cyfranogiad mewn nifer o chwaraeon yn rhan o'r etifeddiaeth Olympaidd honno. Cynnal hynny dros amser fydd yr her. Fodd bynnag, mae'r cenhadon ifanc gennym hefyd fel etifeddiaeth Olympaidd uniongyrchol, sy'n gwneud gwaith gwych mewn ysgolion a chymunedau ym mhob cwr o Gymru, gan wneud yn siŵr bod yr etifeddiaeth Olympaidd yn parhau i'r dyfodol.

14:36 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. I wanted to pick up on the word 'participation'. I know that getting women and young women into sport is a very difficult challenge here in Wales. We will all want to congratulate Non Stanford, from my area, from Swansea, who is world triathlon champion at the moment. She is nominated for the BBC Cymru Wales Sports Personality of the Year award, which takes place on Monday. How can we use people such as her in a positive way to try to get young girls and women into sport? If we do not get more people active in Wales, our obesity levels will rocket, and we will be in a very serious situation here in Wales.

Diolch i chi am yr ateb yna. Roeddwn i eisiau sôn am y gair 'cyfranogiad'. Gwn fod cael menywod a menywod ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon yn her anodd iawn yma yng Nghymru. Bydd pob un ohonom yn awyddus i longyfarch Non Stanford, o fy ardal i, o Abertawe, sy'n bencampwr triathlon y byd ar hyn o bryd. Mae hi wedi ei henwebu ar gyfer Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn BBC Cymru Wales, a gynhelir ddydd Llun. Sut y gallwn ni ddefnyddio pobl fel hi mewn ffordd gadarnhaol i geisio cael merched ifanc a menywod i gymryd rhan mewn chwaraeon? Os na fyddwn yn cael mwy o bobl i gymryd rhan yng Nghymru, bydd ein lefelau gordewdra yn cynyddu'n enfawr, a byddwn mewn sefyllfa ddifrifol iawn yma yng Nghymru.

14:36 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree with the Member that we face challenges in making sure that all sections of our society take part in sport and have the benefits that brings, and that role models, such as Non, are very powerful indeed. Sport Wales, and our national governing bodies, very much work with our elite sportspeople to use them in that role-model capacity to get many more people taking part in sport. Some of them may go on to become elite athletes, but, if not, they get the health, the enjoyment and the social benefits of taking part in sport.

Rwy'n cytuno â'r Aelod ein bod yn wynebu heriau o ran sicrhau bod pob rhan o'n cymdeithas yn cymryd rhan mewn chwaraeon ac yn mwynhau'r manteision y mae hynny'n eu cynnig, ac mae rhywun sy'n gosod esiampl, fel Non, yn bwerus iawn yn wir. Mae Chwaraeon Cymru, a'n cyrff llywodraethu cenedlaethol, yn gweithio'n ddiwyd gyda'n hathletwyr elît i'w defnyddio yn y swyddogaeth honno o osod esiampl i gael llawer mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon. Efallai y bydd rhai ohonynt yn mynd yn eu blaenau i fod yn athletwyr elît, ond, os na fyddant, byddant yn cael y manteision iechyd, y mwynhad a'r manteision cymdeithasol o gymryd rhan mewn chwaraeon.

14:37 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae chwaraeon i ferched wedi bod yn uchel ar agenda Llanelli eleni, gyda phencampwriaeth menywod UEFA o dan 19. Mae arolwg ysgolion Chwaraeon Cymru yn dangos cynnydd da mewn lefelau cyfranogiad ymysg plant a phobl ifanc yn gyffredinol, ond mae merched yn dal y tu ôl i fechgyn. Rwyf wedi cwrdd â Chwaraeon Cymru am ei ymgyrch o'r enw 'Sut Mae'ch Symud Chi?', sy'n cynnwys canolfan hamdden Llanelli, ac rwy'n ymwybodol o gardiau ffyddlondeb Sir Gâr—rhaglenni da sy'n targedu merched. Sut mae Llywodraeth Cymru'n gweithio ar y cyd â'r rhaglenni wedi eu targedu hyn ac yn defnyddio'r dulliau sydd gyda ni i sicrhau bod merched yn Llanelli yn cyrraedd yr un lefel gyfranogiad â bechgyn?

Women's sport has been high on Llanelli's agenda this year, with the UEFA under-19s women's championship. Sports Wales's schools survey shows good progress in participation levels among children and young people in general, but girls are still behind boys. I have met Sport Wales about its campaign, called 'What Moves You?', which includes Llanelli leisure centre, and I am aware of the loyalty card scheme in Carmarthenshire—good programmes, targeting girls. How is the Welsh Government working jointly on these targeted programmes and using the methods that we have in place to ensure that girls in Llanelli reach the same level of participation as boys?

14:38 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I attended the UEFA women's football event, and I must say that it was very enjoyable and impressive. There are now about 6,000 registered women and girl football players in Wales, and, six or so years ago, that figure was only 4,000. Therefore, we are seeing substantial progress. I also agree with the Member that the schools sport survey of Sport Wales shows encouraging progress, but there is still much to be done. The schemes that the Member mentions are important and useful, but what Sport Wales is about now is working more strongly with a range of partners. I think that its 'What Moves You?' campaign is important in terms of tackling barriers to girls taking part in sport, but it is by working with a range of partners that we will make the progress that we would all like to see.

Es i i ddigwyddiad pêl-droed menywod UEFA, ac mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn bleserus iawn, a'i fod wedi gwneud cryn argraff arnaf. Ceir tua 6,000 o chwaraewyr pêl-droed sy'n fenywod ac yn ferched yng Nghymru bellach, a, tua chwe blynedd yn ôl, dim ond 4,000 oedd y ffigur. Felly, rydym ni'n gweld cynnydd sylweddol. Rwyf hefyd yn cytuno gyda'r Aelod bod arolwg chwaraeon mewn ysgolion Chwaraeon Cymru yn dangos cynnydd calonogol, ond mae llawer i'w wneud o hyd. Mae'r cynlluniau y mae'r Aelod yn sôn amdanynt yn bwysig ac yn ddefnyddiol, ond nod Chwaraeon Cymru nawr yw gweithio'n gryfach gydag amrywiaeth o bartneriaid. Rwy'n meddwl bod ei ymgyrch 'Sut Mae'ch Symud Chi?' yn bwysig o ran mynd i'r afael â rhwystrau i ferched gymryd rhan mewn chwaraeon, ond trwy weithio ag amrywiaeth o bartneriaid y byddwn yn gwneud y cynnydd y byddem i gyd yn hoffi ei weld.

14:39 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I have raised concerns with you before about the future of leisure provision in Brecon. Will you urge Powys County Council to publish any cost-benefit analysis or impact assessments on participation so that, should the new leisure centre be built, and the much loved facility demolished, it will achieve the goals of increasing levels of participation in sport in the Brecon area and provide good value for taxpayers' money?

Weinidog, rwyf wedi codi pryderon gyda chi o'r blaen am ddyfodol y ddarpariaeth hamdden yn Aberhonddu. A wnewch chi annog Cyngor Sir Powys i gyhoeddi unrhyw ddadansoddiad cost a budd neu asesiadau effaith ar gyfranogiad fel y bydd yn cyflawni'r amcanion o gynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon yn ardal Aberhonddu ac yn darparu gwerth da am arian trethdalwyr, os bydd y ganolfan hamdden newydd yn cael ei hadeiladu, a'r cyfleuster poblogaidd iawn yn cael ei ddymchwel?

14:39 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What I can say is that, of course, it is very important that local authorities work with the Welsh Government, Sport Wales and a range of partners to make sure that facilities are everything that they need to be to take forward participation, for all of the reasons that we have already mentioned. In general, it is important for public bodies to be as open and accountable as possible and to set out the case for change that they propose to take forward.

Yr hyn y gallaf ei ddweud, wrth gwrs, yw ei bod yn bwysig iawn bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau bod cyfleusterau yn gwneud popeth y mae angen iddynt ei wneud o ran cynyddu cyfranogiad, am yr holl resymau yr ydym ni wedi eu crybwyll eisoes. Yn gyffredinol, mae'n bwysig i gyrff cyhoeddus fod mor agored ac atebol â phosibl ac i gyflwyno'r achos dros y newid y maen nhw'n bwriadu ei wneud.

### Sector Treftadaeth

### Heritage Sector

14:40 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Sut y mae'r Gweinidog yn gweithio gydag adrannau Gweinidogol eraill i gynorthwyo sector treftadaeth Cymru? OAQ(4)0099(CS)*

*5. How is the Minister working with other Ministerial departments to support Wales' heritage sector? OAQ(4)0099(CS)*

14:40 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am in regular discussion with Cabinet colleagues on all matters within my portfolio. This includes the implementation of the tourism strategy, where heritage is centre stage.

Rwy'n cael trafodaethau rheolaidd gyda chydweithwyr yn y Cabinet ar bob mater o fewn fy mhortffolio. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r strategaeth twristiaeth, lle mae treftadaeth yn ganolog.

14:40

## David Rees [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you for that answer, Minister. I am sure that you will recognise that the heritage sector depends very much on the structures and the buildings within that sector, and therefore the maintenance and development of those buildings is critical. What are you doing to help support the development of heritage skills so that we can build up the workforce in Wales to deliver that heritage sector?

Diolch yn fawr am yr ateb yna, Weinidog. Rwy'n siŵr y byddwch yn cydnabod bod y sector treftadaeth yn dibynnu'n fawr ar yr adeiledd a'r adeiladau yn y sector hwnnw, ac felly mae'r gwaith o gynnal a chadw a datblygu'r adeiladau hynny yn hanfodol. Beth ydych chi'n ei wneud i helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau treftadaeth fel y gallwn ddatblygu 'r gweithlu yng Nghymru i gyflenwi'r sector treftadaeth?

14:40

## John Griffiths [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

These are important matters, and I have had a number of meetings recently with practitioners in the field and with my ministerial colleagues the Minister for Education and Skills and his Deputy Minister to discuss how we take forward heritage skills. There is a recognition of the importance of this agenda in Wales, where we have so many pre-1919 buildings in our general housing stock, for example, so it is not just about the built heritage, important though that is. There is a general sense that we need to make sure that those skills are not some sort of add-on but absolutely integrated and central to our general training programmes. I look forward to making progress along those lines, together with ministerial colleagues.

Mae'r rhain yn faterion pwysig, ac rwyf wedi cael nifer o gyfarfodydd yn ddiweddar gydag ymarferwyr yn y maes a chyda fy nghydweithwyr gweinidogol, y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'i Ddirprwy Weinidog i drafod sut i fwrw ymlaen â sgiliau treftadaeth. Ceir cydnabyddiaeth o bwysigrwydd yr agenda hon yng Nghymru, lle mae gennym gymaint o adeiladau a adeiladwyd cyn 1919 yn ein stoc tai cyffredinol, er enghraifft, felly nid yw'n ymwneud â'r dreftadaeth adeiledig yn unig, er mor bwysig yw hynny. Ceir teimlad cyffredinol bod angen i ni wneud yn siŵr nad yw'r sgiliau hynny yn rhyw fath o ychwanegiad, ond yn gwbl integredig ac yn ganolog i'n rhaglenni hyfforddiant cyffredinol. Edrychaf ymlaen at wneud cynnydd yn hynny o beth, ynghyd â chydweithwyr gweinidogol.

14:41

## Suzy Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, Natural Resources Wales has inherited some responsibility for the protection of heritage in its work. How much weight would you prefer to see it give to special landscape areas in its work in the planning process, and how does the delivery unit ensure that your views on SLAs impact on policy as implemented?

Weinidog, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi etifeddu rhywfaint o gyfrifoldeb am ddiogelu treftadaeth yn ei waith. Faint o bwyslais fyddai'n well gennych ei weld yn ei roi ar ardaloedd tirwedd arbennig yn ei waith yn y broses gynllunio, a sut mae'r uned gyflawni yn sicrhau bod eich barn ar ATAau yn effeithio ar bolisi fel y'i gweithredwyd?

14:41

## John Griffiths [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

These are matters for my ministerial colleagues Alun Davies, on my left, and Carl Sargeant, with his planning responsibilities. I deal with tangential issues in terms of some of my responsibilities, but those matters are essentially for ministerial colleagues.

Mae'r rhain yn faterion i'm cydweithwyr gweinidogol Alun Davies, ar fy chwith, a Carl Sargeant, gyda'i gyfrifoldebau cynllunio. Rwyf i'n ymdrin â materion ymylol o ran rhai o fy nghyfrifoldebau, ond materion ar gyfer cydweithwyr gweinidogol yw'r rheini yn y bôn.

14:42

## Suzy Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you. The question was about how you work with other departments, so I am not sure how helpful that answer was, actually. I am sure that you do work closely with colleagues in Westminster and the other devolved administrations, so can you tell me whether you have discussed with any of them the repatriation of items of importance to Welsh heritage, on loan or permanently? The 'mantell aur' made a brief visit this year, so it is possible, but I am keen to know how much Government-led active co-operation there is between those responsible for the various collections throughout the UK.

Diolch. Roedd y cwestiwn yn ymwneud â sut yr ydych chi'n gweithio gydag adrannau eraill, felly nid wyf yn siŵr pa mor ddefnyddiol oedd yr ateb yna, a dweud y gwir. Rwy'n siŵr eich bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn San Steffan a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, felly a allwch chi ddweud wrthyf a ydych chi wedi trafod dychwelyd eitemau o bwysigrwydd i dreftadaeth Cymru, ar fenthyg neu'n barhaol, gydag unrhyw un ohonynt? Gwnaeth y 'fantell aur' ymweliad byr eleni, felly mae hyn yn bosibl, ond rwy'n awyddus i wybod faint o gydweithrediad ymarferol dan arweiniad y Llywodraeth sy'n bodoli rhwng y rhai sy'n gyfrifol am y gwahanol gasgliadau ledled y DU.

14:42 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

These are fraught and controversial matters the world over, of course. We have general discussions, and they are two-way in some respects in terms of items we may have that others may wish to see move on to their ownership and custodianship, as well as items that we may wish to bring back to Wales. Some of them have been here, of course, as the Member mentions, but I know that there are many who would want to see more permanent arrangements. These are matters that are discussed from time to time by Ministers, officials and, indeed, some of our national institutions.

Mae'r rhain yn faterion cymhleth a dadleuol ledled y byd, wrth gwrs. Rydym ni'n cynnal trafodaethau cyffredinol, ac maen nhw'n rhai dwyffordd mewn rhai ffyrdd o ran eitemau sydd gennym ni efallai, yr hoffai eraill eu gweld yn symud ymlaen i'w perchnogaeth a'u gwarchodaeth nhw, yn ogystal ag eitemau yr hoffem iddynt gael eu dychwelyd i Gymru. Mae rhai ohonynt wedi bod yma, wrth gwrs, fel y mae'r Aelod yn ei grybwyll, ond rwy'n gwybod bod yna lawer a fyddai eisiau gweld trefniadau mwy parhaol. Mae'r rhain yn faterion a drafodir o bryd i'w gilydd ymhlith Gweinidogion, swyddogion ac, yn wir, rhai o'n sefydliadau cenedlaethol.

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, rwy'n croesawu unrhyw ffordd y gallwn wneud ein treftadaeth yn fwy hygyrch i bobl, felly, yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n croesawu'n fawr ddatblygiad 'app' newydd o'r enw 'Archwilio' sy'n caniatau edrych i mewn i'r ymddiriedolaethau archeolegol gwahanol yng Nghymru. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog addysg a Gweinidogion eraill i hyrwyddo'r defnydd o 'apps' fel hyn, ac a oes datblygiad pellach yn y maes technoleg newydd sy'n gallu agor ein treftadaeth i'r rhychwant mwyaf posibl o bobl?

Minister, I welcome any way in which we can make our heritage more accessible to people, therefore, in that context, I warmly welcome the development of a new app, 'Archwilio', which allows people to look into the various archaeological trusts in Wales. What discussions have you had with the Minister for education and other Ministers to promote the use of such apps, and are there further developments in new technology that could open up our heritage to the widest possible range of people?

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I am in discussion with colleagues such as the Minister for education as to how heritage and culture can be taken more forward more effectively in conjunction with our mainstream education system. There are new possibilities such as Hwb, which I think does offer considerable room for thought and action on these matters. Archwilio is very positive, because it not only informs people in Wales and those who visit Wales much more about our archaeological heritage, but it also supports amateur archaeologists across Wales and beyond to input discoveries that they might make of our archaeological heritage onto the system. So, the new technologies bring a range of new possibilities, and, working with ministerial colleagues, I am very keen to address those.

Rwyf mewn trafodaethau gyda chydweithwyr fel y Gweinidog addysg ynghylch sut y gellir datblygu treftadaeth a diwylliant yn fwy effeithiol mewn cydgysylltiad â'n system addysg brif ffrwd. Ceir posibiliadau newydd fel Hwb, sydd, yn fy marn i, yn cynnig lle sylweddol i feddwl a gweithredu ar y materion hyn. Mae Archwilio yn gadarnhaol iawn, gan ei fod yn dweud llawer mwy am ein treftadaeth archeolegol wrth bobl yng Nghymru a'r rhai sy'n ymweld â Chymru, yn ogystal â chefnogi archeolegwyr amatur ledled Cymru a thu hwnt i ychwanegu darganfyddiadau y maen nhw'n eu gwneud o ran ein treftadaeth archeolegol i mewn i'r system. Felly, mae'r technolegau newydd yn cynnig amrywiaeth o bosibiliadau newydd, a, chan weithio gyda chydweithwyr gweinidogol, rwy'n awyddus iawn i fynd i'r afael â'r rheini.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, you know that there is quite a lot of concern across the heritage sector about the future of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales. When are you likely to make an announcement as to what your decision on the future of that body will be?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod cryn dipyn o bryder ar draws y sector treftadaeth am ddyfodol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Pryd ydych chi'n debygol o wneud cyhoeddiad ynghylch eich penderfyniad ar ddyfodol y corff hwnnw?

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I look forward to making an announcement in short order, hopefully early next year at the latest. The case will be coming to me very soon. I will, of course, give it very serious consideration, given the importance of these matters. Then I will make a decision as quickly as possible.

Edrychaf ymlaen at wneud cyhoeddiad yn fuan, yn gynnar y flwyddyn nesaf fan bellaf gobeithio. Bydd yr achos yn dod ataf i yn fuan iawn. Byddaf, wrth gwrs, yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn iddo, o ystyried pwysigrwydd y materion hyn. Yna byddaf yn gwneud penderfyniad cyn gynted â phosibl.

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. I think that you understand the need for some sort of cross-party consensus on this issue, given that you do not have a majority in the Chamber. A lot of people are concerned that, if this body is brought in to the Welsh Government, it will lose a number of advantages that it has at the moment. Will you be giving sufficient weight to those considerations when you come to make your decision?

Diolch yn fawr am yr ateb yna, Weinidog. Rwy'n credu eich bod yn deall yr angen am ryw fath o gonsensws trawsbleidiol ar y mater hwn, o ystyried nad oes gennych fwyafrif yn y Siambr. Mae llawer o bobl yn poeni, os caiff y corff hwn ei ymgorffori i Lywodraeth Cymru, y bydd yn colli nifer o fanteision sydd ganddo ar hyn o bryd. A fyddwch chi'n rhoi digon o sylw i'r ystyriaethau hynny pan ddaw'r amser i wneud eich penderfyniad?

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

We have had a consultation on our heritage Bill and, as part of that, many responses will deal with the situation regarding the royal commission. It is always important to work across party political boundaries, and, as Minister for Culture and Sport, I am very keen to do that. I look forward to having further consultations with colleagues such as Peter Black across the parties to address these matters and decide on the best way forward.

Rydym ni wedi cael ymgynghoriad ar ein Bil treftadaeth ac, yn rhan o hynny, bydd llawer o ymatebion yn ymdrin â'r sefyllfa o ran y comisiwn brenhinol. Mae bob amser yn bwysig gweithio ar draws ffiniau pleidiau gwleidyddol, ac, fel y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, rwy'n awyddus iawn i wneud hynny. Edrychaf ymlaen at gael ymgynghoriadau pellach gyda chydweithwyr fel Peter Black ar draws y pleidiau i fynd i'r afael â'r materion hyn a phenderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

### Hyrwyddo Digwyddiadau Chwaraeon

### Promoting Sports Events

14:46 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnydd Llywodraeth Cymru o gyrff o'r tu allan i Gymru i hyrwyddo digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)0097(CS)*

*6. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's use of bodies outside Wales to promote sports events in Wales? OAQ(4)0097(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag amrediad o bartneriaid i hyrwyddo digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru.

The Welsh Government is working with a range of partners to promote sports events in Wales.

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Mae yna gwmnïau ardderchog yng ngogledd-orllewin Cymru sy'n arbenigo ym maes digwyddiadau chwaraeon awyr agored fel rasys seiclo, treiathlon, rhedeg, ac ati. Bûm yn ddiweddar mewn dathliad o flwyddyn ardderchog arall i gwmni Camu i'r Copa, neu Always Aim High Events, ond mae yna bryder o hyd bod cwmnïau o'r tu allan i Gymru yn cael eu dewis i drefnu a hyrwyddo digwyddiadau rasys ac ati yng Nghymru, er gwaetha'r ffaith bod gennym ni'r arbenigedd yma. Pa gamau y mae'r Gweinidog am eu cyflwyno i sicrhau bod cwmnïau o Gymru yn cael y flaenoriaeth?

There are excellent companies in north-west Wales that specialise in outdoor sports events such as cycling races, triathlon, running, and so on. I recently attended a celebration of another excellent year for the Camu i'r Copa company, or Always Aim High Events, but there is still a concern that companies from outwith Wales are selected to organise and promote races and so on in Wales, despite the fact that we have the expertise here in Wales. What steps is the Minister going to take to ensure that Welsh companies are given a priority?

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Our major events strategy has brought outstanding success to Wales, both economically and in terms of driving participation in sport and a range of other Welsh Government priorities. That major events strategy is the responsibility of the First Minister and the Minister for Economy, Science and Transport. I will work with those ministerial colleagues in terms of participation and the more direct sports example. We have a great deal of success, and I think that we should acknowledge that. However, it is always necessary to look at where improvements might be made.

Mae ein strategaeth digwyddiadau mawr wedi dod â llwyddiant ysgubol i Gymru, yn economaidd ac o ran sbarduno cyfranogiad mewn chwaraeon ac amrywiaeth o flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru. Cyfrifoldeb y Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw'r strategaeth digwyddiadau mawr. Byddaf i'n gweithio gyda'r cydweithwyr gweinidogol hynny o ran cyfranogiad a'r esiampl chwaraeon mwy uniongyrchol. Rydym ni wedi cael llawer iawn o lwyddiant, ac rwy'n meddwl y dylem gydnabod hynny. Fodd bynnag, mae angen ystyried lle gellid gwneud gwelliannau bob amser.

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the Rugby World Cup is less than two years away. The Rugby Football Union of England is the hosting union, but the Millennium Stadium here in Cardiff will be playing a big supporting role; I think it is eight matches in total. What role is the Welsh Government, alongside the Welsh Rugby Union, undertaking in engaging with the Rugby Football Union and other bodies across the whole of the United Kingdom, to make sure that Wales is promoted fully and that we capture as much capital value as possible, with people spending when they come over for that tournament?

Weinidog, mae Cwpan Rygbi'r Byd yn llai na dwy flynedd i ffwrdd. Undeb Rygbi Lloegr yw'r undeb sy'n ei chynnal, ond bydd Stadiwm y Mileniwm yma yng Nghaerdydd yn cyflawni swyddogaeth ategol fawr; cyfanswm o wyth gêm i gyd rwy'n credu. Pa swyddogaeth mae Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr ag Undeb Rygbi Cymru, yn ei chyflawni o ran ymgysylltu ag Undeb Rygbi Lloegr a chyrff eraill ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei hyrwyddo'n llawn a'n bod yn sicrhau cymaint o werth cyfalaf â phosibl , wrth i bobl wario pan fyddant yn dod draw ar gyfer y gystadleuaeth honno?

14:48 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Andrew R.T. Davies mentions a good example of the success of the major events strategy, because many major events have been brought to Wales. Of course, many are in the pipeline, bringing that economic and social benefit. The First Minister and the Minister for Economy, Science and Transport will be working with the bodies that Andrew R.T. Davies mentions to make sure that that event is another example of this outstanding success for Wales.

Mae Andrew R.T. Davies yn crybwyll enghraifft dda o lwyddiant y strategaeth digwyddiadau mawr, gan y denwyd llawer o ddigwyddiadau mawr i Gymru. Wrth gwrs, mae llawer ar y gweill, gan gynnig y manteision economaidd a chymdeithasol hynny. Bydd y Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gweithio gyda'r cyrff y mae Andrew R.T. Davies yn eu crybwyll i sicrhau bod y digwyddiad hwnnw'n enghraifft arall o'r llwyddiant ysgubol hwn i Gymru.

## Cofrestr o Feysydd Brwydrau Hanesyddol

## Register of Historic Battlefields

14:49 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd o ran llunio Cofrestr o Feysydd Brwydrau Hanesyddol yng Nghymru? OAQ(4)0091(CS)*

*7. Will the Minister make a statement on progress in compiling a Register of Historic Battlefields in Wales? OAQ(4)0091(CS)*

14:49 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The recent 'the future of our past' consultation included the proposal to create and maintain a register of historic battlefields and to publish the criteria against which candidate sites are assessed. I am currently considering the responses to that consultation, before deciding on the best way forward.

Roedd ymgynghoriad diweddar 'dyfodol ein gorffennol' yn cynnwys y cynnig i greu a chynnal cofrestr o feysydd brwydrau hanesyddol ac i gyhoeddi'r meini prawf yr asesir safleoedd arfaethedig yn eu herbyn. Rwyf wrthi'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw ar hyn o bryd, cyn penderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

14:49 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I see, Minister. So, I take it that you have yet to decide whether we will be having a register of battlefields. Minister, when can we expect you to make that decision? Perhaps in your consideration you will give weight to the tourist and wider economy implications of having the register.

Rwy'n gweld, Weinidog. Felly, rwy'n cymryd nad ydych chi wedi penderfynu eto pa un a fyddwn yn cael cofrestr o feysydd brwydrau. Weinidog, pryd allwn ni ddisgwyl i chi wneud y penderfyniad hwnnw? Wrth i chi ystyried, efallai y byddwch yn rhoi pwyslais ar y goblygiadau i dwristiaeth ac i'r economi ehangach o gael y gofrestr.

14:50 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will give consideration to those matters. They are of prime importance when deciding on what the future should hold. There is a great deal of interest in Wales in battlefields, and opinions as to where they were, which sometimes vary. So, we can draw on the interest, which is there for our heritage in general, in considering the consultation responses and deciding on the best way forward. That will be an important part of my consideration of the response to the consultation in general, and, indeed, of what requires legislation and what does not moving forward.

Byddaf yn rhoi ystyriaeth i'r materion hynny. Maen nhw'n hollbwysig wrth benderfynu ar yr hyn a ddylai ddigwydd yn y dyfodol. Ceir llawer iawn o ddiddordeb mewn meysydd brwydrau yng Nghymru, a'r farn ynghylch lle'r oedden nhw, sydd weithiau'n amrywio. Felly, gallwn fanteisio ar y diddordeb, sydd yno yn ar gyfer ein treftadaeth yn gyffredinol, wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfynu ar y ffordd orau ymlaen. Bydd hynny'n rhan bwysig o'm hystyriaeth o'r ymateb i'r ymgynghoriad yn gyffredinol, ac, yn wir, o'r hyn sydd angen deddfwriaeth a'r hyn na fydd ei angen wrth symud ymlaen.

14:50 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope that you will produce such a register. If you produce such a register, could I ask that it includes battle sites from the unification of Wales?

Rwy'n gobeithio y byddwch yn cyflwyno cofrestr o'r fath. Os byddwch yn cyflwyno cofrestr o'r fath, a gaf i ofyn ei bod yn cynnwys meysydd brwydrau o gyfnod uno Cymru?

14:51 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Officials in Cadw are in the process of examining battlefields of primary and secondary significance, and any battlefields that meet its criteria will obviously be eligible for registration.

Mae swyddogion Cadw wrthi'n archwilio meysydd brwydrau o arwyddocâd cynradd ac eilaidd, a bydd unrhyw feysydd brwydrau sy'n bodloni ei feini prawf yn amlwg yn gymwys i gael eu cofrestru.

In 2009 the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales created a list of all of the primary, secondary and tertiary sites, known and alleged. I think that there are over 160 in total. That is from the Roman period through to 1797. I know that Cadw is currently considering each battle on a case-by-case basis.

Yn 2009, lluniodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru restr o bob un o'r safleoedd cynradd, eilaidd a thrydyddol, hysbys a honedig. Rwy'n credu bod cyfanswm o fwy na 160. Mae hynny o gyfnod y Rhufeiniaid hyd at 1797. Gwn fod Cadw wrthi'n ystyried pob brwydr fesul achos ar hyn o bryd.

14:51 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Just as Owain Glyndŵr fought for a Norman king against the Scots, it is now understood that Scottish nobles, including the Bruce family, were in the Norman army that defeated Prince Madog ap Llywelyn at the battle of Maes Moydog in Powys in 1295, after which Prince Madog surrendered in Snowdonia. Given these interesting stories that go alongside the battles, what proposals do you have to ensure that a narrative is included in the proposed register, rather than simply dates, times and names?

Yn union fel y brwydrodd Owain Glyndŵr dros frenin y Normaniaid yn erbyn yr Albanwyr, deallir bellach bod uchelwyr yr Alban, gan gynnwys teulu Bruce, yn y fyddin Normanaidd a drechodd y Tywysog Madog ap Llywelyn ym mrwydr Maes Maidog ym Mhowys ym 1295, a arweiniodd at ildiad y tywysog Madog yn Eryri. O ystyried y straeon diddorol hyn sy'n cyd-fynd â'r brwydrau, pa gynigion sydd gennych chi i sicrhau bod naratif yn cael ei gynnwys yn y gofrestr arfaethedig, yn hytrach na dim ond dyddiadau, amseroedd ac enwau?

14:52 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that Cadw and our heritage tourism project are taking forward important work in terms of linking different sites across Wales, building the narrative and telling the story. I am sure that it will incorporate the matters that the Member mentions. As well as battlefields, there are many examples of skirmishes in Wales, where a guerrilla war was fought, perhaps more so than in other parts of the UK. Therefore, as well as battlefields, we need to tell that wider history.

Rwy'n credu bod Cadw a'n prosiect twristiaeth treftadaeth yn gwneud gwaith pwysig o ran cysylltu gwahanol safleoedd ledled Cymru, gan ddatblygu'r naratif ac adrodd yr hanes. Rwy'n siŵr y bydd yn cynnwys y materion y mae'r Aelod yn eu crybwyll. Yn ogystal â meysydd brwydrau, ceir llawer o enghreifftiau o ysgarmesoedd yng Nghymru, lle yr ymladdwyd rhyfel gerila, efallai'n fwy felly nag mewn rhannau eraill o'r DU. Felly, yn ogystal â meysydd brwydrau, mae angen i ni adrodd yr hanes ehangach hwnnw.

**Rhandiroedd**

**Allotments**

14:52 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Sut y mae'r Gweinidog yn hyrwyddo'r defnydd effeithiol o randiroedd? OAQ(4)0101(CS)*

*8. How does the Minister promote effective use of allotments? OAQ(4)0101(CS)*

14:52 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The effective use of available allotments is the responsibility of their managing local authorities. I intend to publish proposals shortly on the potential to modernise allotment legislation with the aim of improving opportunities for communities to get involved in gardening and growing.

Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol sy'n eu rheoli yw'r defnydd effeithiol o randiroedd sydd ar gael. Rwy'n bwriadu cyhoeddi cynigion ar y potensial i foderneiddio deddfwriaeth rhandiroedd yn fuan, gyda'r nod o wella cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan mewn garddio a thyfu.

14:53 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Given the publication last week of the Public Health Wales report on the numbers of children eating fruit and vegetables at only 30%, we clearly have some radical issues that we have to address. I wondered how we are going to get more young people interested in growing their own food. As of March this year, only 34 schools have achieved the Welsh healthy schools national quality award, which promotes vegetable gardening in schools. What can the Minister do to ensure that we are getting more young people interested in fruit and vegetables, those who will then be the allotment growers of the future?

O ystyried cyhoeddiad adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yr wythnos diwethaf mai dim ond 30% o blant sy'n bwyta ffrwythau a llysiau, mae'n amlwg bod gennym broblemau sylfaenol y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â nhw. Roeddwn i'n meddwl tybed sut ydym ni'n mynd i ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc mewn tyfu eu bwyd eu hunain. Ym mis Mawrth eleni, dim ond 34 o ysgolion oedd wedi ennill dyfarniad ansawdd cenedlaethol ysgolion iach Cymru, sy'n hyrwyddo garddio llysiau mewn ysgolion. Beth all y Gweinidog ei wneud i sicrhau ein bod yn ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc mewn ffrwythau a llysiau, sef tyfwyr rhandir y dyfodol?

14:53 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I share the Member's passion for allotments and I know that a number of Members here do so as well. I think that allotments take forward some very important aspects of life in Wales, and I have seen some very good examples, which includes schools. However, I am sure that, as the Member mentions, it could be more comprehensive. Therefore, I am working with the Department for Education and Skills here, the Minister Huw Lewis, and the Federation of City Farms and Community Gardens to see how we can develop support mechanisms and encourage more schools and local communities. There are good examples. One is in Riverside in Cardiff, where local schools are working well with the Riverside community allotment project.

Rwy'n rhannu angerdd yr Aelod am randiroedd fel y gwn y mae nifer o Aelodau yma. Rwy'n credu bod rhandiroedd yn datblygu agweddau pwysig iawn ar fywyd yng Nghymru, ac rwyf wedi gweld rhai enghreifftiau da iawn, sy'n cynnwys ysgolion. Fodd bynnag, rwy'n siŵr, fel y mae'r Aelod yn sôn, y gallai fod yn fwy cynhwysfawr. Felly, rwy'n gweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau yma, y Gweinidog Huw Lewis, a'r Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol i weld sut y gallwn ddatblygu dulliau cefnogi ac annog mwy o ysgolion a chymunedau lleol. Ceir enghreifftiau da. Ceir un yng Nglan yr Afon yng Nghaerdydd, lle mae ysgolion lleol yn gweithio'n dda gyda phrosiect rhandiroedd cymunedol Glan yr Afon.

14:54 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we know that two of the issues around allotments are the waiting lists and the fact that there is no dedicated funding stream to support allotment creation and provision. However, the Tidy Towns project did support clearance for the reuse of a small number of allotments. Of the 50 local authority-led Tidy Towns projects for 2012-14, only one made any reference to clearing for allotments. Given the benefits that allotments offer, what have you done, Minister, to ensure that local authorities look at using this funding to provide more allotments?

Weinidog, rydym yn gwybod mai dwy o'r problemau yn ymwneud â rhandiroedd yw rhestrau aros a'r ffaith nad oes ffrwd ariannu benodol i gefnogi'r gwaith o greu a darparu rhandiroedd. Fodd bynnag, fe wnaeth y prosiect Trefi Taclus gefnogi gwaith clirio ar gyfer ailddefnyddio nifer fach o randiroedd. O'r 50 o brosiectau Trefi Taclus a arweiniwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer 2012-14, dim ond un a gyfeiriodd at glirio ar gyfer rhandiroedd. O ystyried y manteision y mae rhandiroedd yn eu cynnig, beth ydych chi wedi ei wneud, Weinidog, i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried defnyddio'r cyllid hwn i ddarparu mwy o randiroedd?

14:55 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We work with local authorities across Wales in looking at allotment provision and taking forward enhancement of existing allotments and further provision of allotments with a range of partners, and we will, of course, continue to do that. However, the consultation on the Green Paper that we will have in Wales early next year in terms of access and allotments will provide opportunities to feed in a range of ideas to help take matters further forward.

Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i ystyried y ddarpariaeth o randiroedd a bwrw ymlaen â gwella rhandiroedd presennol a'r ddarpariaeth bellach o randiroedd gydag amrywiaeth o bartneriaid, a byddwn, wrth gwrs, yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, bydd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd a fydd gennym yng Nghymru yn gynnar y flwyddyn nesaf o ran mynediad a rhandiroedd yn cynnig cyfleoedd i gyfrannu amrywiaeth o syniadau i helpu i symud materion ymlaen ymhellach.

14:55 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae angen cadw tir o fewn trefi ar gyfer rhandiroedd a gofod gwyrdd yn fwy cyffredinol. Pa arweiniad neu ganllawiau mae eich Llywodraeth chi yn rhoi i awdurdodau lleol i sicrhau nad yw rhandiroedd, gofod gwyrdd neu gaeau chwarae o fewn perchnogaeth gyhoeddus yn cael eu targedu a'u caniatáu ar gyfer datblygiadau tai anaddas?

Minister, there is a need to keep land within towns for allotments and green spaces more generally. What guidance or leadership is your Government giving to local authorities to ensure that allotments, green spaces or playing fields within public ownership are not targeted and given over to inappropriate housing developments?

14:56 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Of course, there is legislative protection in place for allotments to some extent, which is very useful. However, again, I think that the Green Paper and the consultation on that will help us decide on the best way forward to make sure that supply meets demand to a greater extent in terms of allotments, but more broadly in terms of community growing space and green space in urban environments.

Wrth gwrs, mae amddiffyniad deddfwriaethol ar waith ar gyfer rhandiroedd i ryw raddau, sy'n ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, unwaith eto, rwy'n credu y bydd y Papur Gwyrdd a'r ymgynghoriad ar hynny yn ein helpu i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen i wneud yn siŵr bod y cyflenwad yn bodloni'r galw i fwy o raddau o ran rhandiroedd, ond yn fwy cyffredinol o ran lle tyfu cymunedol a mannau gwyrdd mewn amgylcheddau trefol.

Senedd.tv
Fideo Video

### Gweithgareddau Artistig

### Artistic Activities

14:56 **William Graham** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog amlinellu mesurau i annog pobl ifanc i gyfranogi mewn gweithgareddau artistig? OAQ(4)0090(CS)*

*9. Will the Minister outline measures to encourage young people to participate in artistic activities? OAQ(4)0090(CS)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:57 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Increasing opportunities for young people and others to participate in artistic activities is a key Welsh Government objective. The Arts Council of Wales's 'Young Creators' strategy sets out its approach to engaging with young people. Our response to Dai Smith's review into arts in education will also complement this strategy.

Mae cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc ac eraill gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru. Mae strategaeth 'Creawdwyr Ifainc' Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyflwyno ei ddull o ymgysylltu â phobl ifanc. Bydd ein hymateb i adolygiad Dai Smith o'r celfyddydau mewn addysg hefyd yn cyd-fynd â'r strategaeth hon.

Senedd.tv
Fideo Video

14:57 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I am grateful to the Minister for his answer. I trust that he will join with me in applauding Beth Reeks from Newport, whose pen name is Beth Reekles, who has been named by 'Time' magazine as one of the 16 most influential teenagers in the world? Beth has published her novel online, highlighting a need to promote internet entrepreneurial skills to Welsh artists to assist them to gain access to global markets.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ateb. Hyderaf y bydd yn ymuno â mi i ganmol Beth Reeks o Gasnewydd, sydd â'r ffugenw Beth Reekles, sydd wedi ei henwi'n un o'r 16 o bobl ifanc yn eu harddegau mwyaf dylanwadol yn y byd gan gylchgrawn 'Time'? Mae Beth wedi cyhoeddi ei nofel ar-lein, gan amlygu'r angen i hyrwyddo sgiliau entrepreneuraidd y rhyngrwyd i artistiaid o Gymru i'w cynorthwyo i gael mynediad at farchnadoedd byd-eang.

Senedd.tv
Fideo Video

14:57 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Along with William Graham, I have read in the local press of Beth's success and exploits, and they have been very impressive indeed. I think that that is a very good example of the talent and the drive that we have in our young people in Wales, and I hope that many more of our young people look to the example that Beth sets.

Ynghyd â William Graham, rwyf wedi darllen yn y wasg leol am lwyddiant a gorchestion Beth, ac maen nhw wedi bod yn drawiadol iawn. Rwy'n credu fod honno'n enghraifft dda iawn o'r dalent a'r ysgogiad sydd gennym ymhlith ein pobl ifanc yng Nghymru, ac rwy'n gobeithio y bydd llawer mwy o'n pobl ifanc yn edrych ar yr esiampl a osodir gan Beth.

Senedd.tv
Fideo Video

14:58 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, you and I, and, indeed, you, Dirprwy Lywydd, attended the Welsh jazz history event in the Senedd yesterday. What measures can the Welsh Government take to help more children from ethnic minority backgrounds to improve their life chances by participating in creative activities? You mentioned the Arts Council of Wales and its child poverty and the arts agenda, which refers to children becoming young creators. I think that that captures the very spirit of these questions, and I wonder what additional help you can give..

Weinidog, roeddech chi a minnau, ac, yn wir, chithau, Ddirprwy Lywydd, yn bresennol yn y digwyddiad hanes jazz Cymru yn y Senedd ddoe. Pa gamau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu mwy o blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wella eu cyfleoedd bywyd trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol? Soniasoch am Gyngor Celfyddydau Cymru a'i agenda tlodi plant a'r celfyddydau, sy'n cyfeirio at blant yn datblygu i fod yn greawdwyr ifainc. Rwy'n credu bod hynny'n cyfleu union ysbryd y cwestiynau hyn, ac roeddwn i'n meddwl tybed pa gymorth ychwanegol y gallwch chi ei gynnig.

Senedd.tv
Fideo Video

14:58 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I must say that the women in jazz exhibition was very impressive, and I am very pleased that my colleague Julie James was there, who explained all about it to those of us who attended, along with the women directly involved. I think that it is important that we have a sense of which organisations in Wales can bring something to the table in terms of widening participation by young people and ethnic minorities. The archive that that organisation, Jazz Heritage Wales, possesses is very extensive and important and can be used for outreach in all sorts of ways, making links to the history of slavery and efforts to combat it, for example. Therefore, those organisations bring resource, experience and potential. I think that it is incumbent on all of us to work with them to take forward the effort that the Member rightly states is so important.

Mae'n rhaid i mi ddweud bod yr arddangosfa menywod ym myd jazz yn drawiadol iawn, ac rwy'n falch iawn bod fy nghydweithiwr Julie James yno, a esboniodd bopeth am y pwnc i'r rhai ohonom a oedd yno, ynghyd â'r menywod a gymerodd ran uniongyrchol. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod gennym synnwyr o ba sefydliadau yng Nghymru all gynnig rhywbeth o ran ehangu cyfranogiad ymhlith pobl ifanc a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r archif sydd gan y sefydliad hwnnw, Treftadaeth Jazz Cymru, yn eang a phwysig iawn a gellir ei ddefnyddio ar gyfer allgymorth mewn pob math o ffyrdd, gan wneud cysylltiadau â hanes caethwasiaeth ac ymdrechion i frwydro yn ei erbyn, er enghraifft. Felly, mae'r sefydliadau hynny yn cynnig adnoddau, profiad a photensial. Rwy'n meddwl ei bod yn ddyletswydd ar bob un ohonom i weithio gyda nhw i fwrw ymlaen â'r ymdrech y mae'r Aelod yn nodi'n gywir sydd mor bwysig.

**Treftadaeth Grefyddol Cymru**

**Wales's Religious Heritage**

14:59 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu treftadaeth grefyddol Cymru? OAQ(4)0087(CS)*

*10. What action is the Welsh Government taking to safeguard Wales's religious heritage? OAQ(4)0087(CS)*

14:59 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wales's religious heritage is important, of course. Cadw helps safeguard it through listing and, where possible, through grants. Cadw is developing new guidance for the care, conservation and sustainable development of places of worship.

Mae treftadaeth grefyddol Cymru yn bwysig, wrth gwrs. Mae Cadw yn helpu i'w diogelu trwy restru a, phan fo'n bosibl, trwy grantiau. Mae Cadw yn datblygu canllawiau newydd ar gyfer gofal, cadwraeth a datblygiad cynaliadwy mannau addoli.

15:00 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response, Minister. Cadw is involved in the support of listed buildings in particular, but there are many non-listed chapels that have an important part to play in our nonconformist history in Wales. What support might you be able to extend to those nonconformist chapels that are currently not listed in order to safeguard their future given the potential impact and benefits for the Welsh economy, particularly of visitors from overseas?

Diolch yn fawr am yr ateb yna, Weinidog. Mae Cadw yn cymryd rhan yn y gwaith o gefnogi adeiladau rhestredig yn benodol, ond ceir llawer o gapeli nad ydynt wedi eu rhestru sydd â swyddogaeth bwysig i'w chyflawni yn ein hanes o anghydffurfiaeth yng Nghymru. Pa gefnogaeth allech chi ei rhoi i'r capeli anghydffurfiol hynny nad ydynt wedi eu rhestru ar hyn o bryd er mwyn diogelu eu dyfodol o ystyried yr effaith a'r manteision posibl i economi Cymru, yn enwedig o ran ymwelwyr o dramor?

15:00 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the aspects of the consultation that I have already mentioned a number of times in respect of next year's Bill in terms of heritage will be about local listing because, rightly, local people identify strongly with their local buildings, chapels and others. Sometimes, they do not want listing but, nonetheless, they are of considerable local importance. So, we are looking at, perhaps, a local listing scheme that would recognise that and provide a focus for those buildings and necessary work to sustain and improve them.

Bydd un o'r agweddau ar yr ymgynghoriad yr wyf eisoes wedi ei chrybwyll nifer o weithiau yng nghyswllt Bil y flwyddyn nesaf o ran treftadaeth yn ymwneud â rhestru lleol oherwydd, yn gywir, mae pobl leol yn uniaethu'n gryf â'u hadeiladau lleol, capeli ac eraill. Weithiau, nid oes angen eu rhestru ond, serch hynny, maen nhw o bwysigrwydd lleol sylweddol. Felly, rydym yn ystyried, efallai, cynllun rhestru lleol a fyddai'n cydnabod hynny ac yn darparu canolbwynt ar gyfer yr adeiladau hynny a'r gwaith angenrheidiol i'w cynnal a'u gwella.

15:01 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae Darren Millar yn gwbl gywir i ddweud bod gan rai adeiladau, sef capeli ac eglwysi, stori bwysig iawn i'w dweud o ran ein treftadaeth grefyddol. Serch hynny, mae nifer o gapeli yn wynebu sefyllfa o ddirywiad yn nifer yr aelodau, gan orfod wynebu cau. Dros y degawd nesaf, byddwn yn sôn am ddegau a channoedd o gapeli yn cau. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i gyd-Weinidogion a gyda chyrff sy'n cynrychioli capeli er mwyn sicrhau bod y broses honno'n digwydd yn fwy cyflym o lawer nag ar hyn o bryd?

Darren Millar is quite right in saying that some buildings, such as chapels and churches, have an important story to tell in terms of our religious heritage. However, a number of chapels face a situation of decline in their membership and must face closure. Over the next decade, we will be talking about tens or hundreds of such chapels closing. Therefore, what discussions has the Minister had with his fellow Ministers and with the bodies representing these chapels to ensure that that process is far swifter than it is at present?

15:01 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, these are matters not just for me but for ministerial colleagues such as Carl Sargeant with his planning responsibilities, for example. I think that there is recognition that, to a much greater extent, we need to find quicker and better alternative uses for buildings. I know that that has been the case with chapels and other religious buildings across Wales. That will be a focus for me and for other Ministers as we move forward.

Wrth gwrs, mae'r rhain yn faterion nid yn unig i mi, ond i gydweithwyr gweinidogol fel Carl Sargeant gyda'i gyfrifoldebau cynllunio, er enghraifft. Rwy'n meddwl bod cydnabyddiaeth, i raddau llawer mwy helaeth, bod angen i ni ddod o hyd i ddefnyddiau amgen cyflymach a gwell ar gyfer adeiladau. Gwn fod hynny wedi bod yn wir yn achos capeli ac adeiladau crefyddol eraill ledled Cymru. Bydd hynny'n ganolbwynt i mi ac i Weinidogion eraill wrth i ni symud ymlaen.

### Diddordebau Hanesyddol

### Historic Interest

15:02 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod safleoedd o ddiddordeb hanesyddol yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)0094(CS)*

*11. Will the Minister make a statement on the protection of sites of historic interest in Montgomeryshire? OAQ(4)0094(CS)*

15:02 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Historic buildings and monuments give communities their character and should be valued. Over 4,000 ancient monuments are scheduled and some 30,000 buildings across Wales, including Montgomeryshire, are protected through listing. Grants are available for historic building repair and restoration from Cadw, the Welsh Government and other organisations.

Adeiladau hanesyddol a henebion sy'n rhoi cymeriad i gymunedau a dylid eu gwerthfawrogi. Mae dros 4,000 o henebion hynafol wedi eu rhestru ac mae tua 30,000 o adeiladau ledled Cymru, gan gynnwys Sir Drefaldwyn, wedi eu gwarchod trwy restru. Mae grantiau ar gael ar gyfer atgyweirio ac adfer adeiladau hanesyddol gan Cadw, Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill.

15:02 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I am pleased to hear that answer. The Minister will be aware that the Owain Glyndwr building in Machynlleth, in my constituency, is under extreme financial pressure to survive. The local community is rallying and doing what it can to raise vital funds. In fact, it has a Christmas fundraiser this Friday and still has tickets available, as I understand. Does the Minister agree that such a historic building, as Wales's first parliament, cannot and should not be allowed to operate in such an unsustainable way?

Diolch i chi, Weinidog. Rwy'n falch o glywed yr ateb yna. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod adeilad Owain Glyndŵr ym Machynlleth, yn fy etholaeth i , dan bwysau ariannol eithriadiol i oroesi. Mae'r gymuned leol yn gwneud ymdrech ac yn gwneud popeth o fewn ei gallu i godi arian hanfodol. A dweud y gwir, mae'n cynnal digwyddiad codi arian Nadolig y dydd Gwener hwn ac mae tocynnau ar gael o hyd, fel rwy'n deall. A yw'r Gweinidog yn cytuno na ellir ac na ddylid caniatáu i adeilad mor hanesyddol, fel senedd gyntaf Cymru, weithredu mewn ffordd mor anghynaladwy?

15:03 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I agree with the Member that the Owain Glyndwr parliament building in Machynlleth is an important building for Wales. The Welsh Government, via Cadw, gave in excess of £300,000, I think, under a previous programme for essential building works on the fabric of the building to take forward conservation, retail and interpretation. My officials in Cadw would be very pleased to work, and are working, with the owners of the building to find a sustainable solution for public access, as well as conservation work. I am very pleased to work with Members and local groups to make sure that, together, we find a solution that we would all like to see.

Rwy'n cytuno gyda'r Aelod bod adeilad senedd Owain Glyndŵr ym Machynlleth yn adeilad pwysig i Gymru. Rhoddodd Llywodraeth Cymru, trwy Cadw, fwy na £300,000, rwy'n credu, dan raglen flaenorol ar gyfer gwaith adeiladu hanfodol ar ffabrig yr adeilad i fwrw ymlaen â gwaith cadwraeth, manwerthu a dehongli. Byddai fy swyddogion yn Cadw yn falch iawn o weithio, ac maen nhw'n gweithio, gyda pherchnogion yr adeilad i ddod o hyd i ateb cynaliadwy ar gyfer mynediad cyhoeddus, yn ogystal â gwaith cadwraeth. Rwy'n falch iawn o weithio gydag Aelodau a grwpiau lleol i wneud yn siŵr, gyda'n gilydd, ein bod yn dod o hyd i ateb yr hoffai pob un ohonom ei weld.

Senedd.tv
Fideo Video

### Blaenoriaethau

### Priorities

15:04 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

*12. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yng Nghymru ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0088(CS)*

*12. Will the Minister outline his priorities for sport in Wales for the remainder of this Assembly term? OAQ(4)0088(CS)*

Senedd.tv
Fideo Video

15:04 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Our priorities for sport are set out in our programme for government. Our aim is to see more young people, in particular, taking part in sport and to develop and nurture our more talented sportsmen and women so that we can gain success at international competitions.

Nodir ein blaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yn ein rhaglen ar gyfer llywodraethu. Ein nod yw gweld mwy o bobl ifanc, yn arbennig, yn cymryd rhan mewn chwaraeon a datblygu a meithrin ein hathletwyr mwy talentog fel y gallwn gael llwyddiant mewn cystadlaethau rhyngwladol.

Senedd.tv
Fideo Video

15:04 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Thank you for that reply, Minister. Recently, you said,

Diolch am yr ateb yna, Weinidog. Yn ddiweddar, dywedasoch:

'If we are to become a healthier nation we have to see more women and girls getting involved in sport.'

Os ydyn ni am fod yn genedl iach, mae'n rhaid i ni weld mwy o fenywod a merched yn cymryd rhan mewn chwaraeon.

Do you agree that the television coverage of women's team sports is, at best, inconsistent and sometimes non-existent? What discussions have you had to increase this coverage, which would give a boost to women and girls' participation in sports in Wales?

A ydych chi'n cytuno bod sylw teledu i chwaraeon tîm menywod yn anghyson, a dweud y lleiaf, ac weithiau ddim ar gael o gwbl? Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael i gynyddu'r sylw hwn, a fyddai'n rhoi hwb i gyfranogiad menywod a merched mewn chwaraeon yng Nghymru?

Senedd.tv
Fideo Video

15:05 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I agree with the Member that it is very important that media coverage reflects the importance of women and girls' participation in sport. I am very willing to raise those matters with the broadcasters when we next meet.

Rwy'n cytuno â'r Aelod ei bod yn bwysig iawn bod sylw yn y cyfryngau yn adlewyrchu pwysigrwydd cyfranogiad menywod a merched mewn chwaraeon. Rwy'n barod iawn i godi'r materion hynny gyda'r darlledwyr y tro nesaf y byddwn yn cyfarfod.

Senedd.tv
Fideo Video

### Y Celfyddydau mewn Addysg

### Arts in Education

15:05 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr Adolygiad o'r Celfyddydau mewn Addysg? OAQ(4)0098(CS)*

*13. Will the Minister make a statement on the Arts in Education Review? OAQ(4)0098(CS)*

Senedd.tv
Fideo Video

15:05 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Minister for Education and Skills and I are currently considering Professor Smith's report on arts in education in our schools. Our formal response to the report's 12 recommendations will be published in the coming months.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau wrthi'n ystyried adroddiad yr Athro Smith ar y celfyddydau mewn addysg yn ein hysgolion ar hyn o bryd. Bydd ein hymateb ffurfiol i 12 o argymhellion yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn y misoedd nesaf.

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

The arts in education review shows that only 26.2% of school-age children in Wales participated in revenue-funded organisation activity. The review further found that such organisations are finding it increasingly difficult to engage with schools to provide arts-based education, with arts either seen as low priority or non-essential. What is the Welsh Government doing to extend the arts to all areas?

Mae'r adolygiad celfyddydau mewn addysg yn dangos mai dim ond 26.2% o blant oedran ysgol yng Nghymru a gymerodd ran mewn gweithgarwch sefydliadau a ariennir gan refeniw. Canfu'r adolygiad hefyd bod sefydliadau o'r fath yn ei chael hi'n fwyfwy anodd ymgysylltu ag ysgolion i ddarparu addysg sy'n seiliedig ar y celfyddydau, gan fod y celfyddydau naill ai'n cael eu hystyried yn flaenoriaeth isel neu heb fod yn hanfodol. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ymestyn y celfyddydau i bob ardal?

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Professor Smith's arts in education review deals with these issues, both in setting out the current position and the evidence base for practice elsewhere in the world, and in making recommendations to take matters forward. As I stated in my initial answer, together with the Minister for Education and Skills, we will be formally responding in due course.

Mae adolygiad celfyddydau mewn addysg yr Athro Smith yn ymdrin â'r materion hyn, o ran nodi'r sefyllfa bresennol a'r sail dystiolaeth ar gyfer arfer mewn rhannau eraill o'r byd, ac o ran gwneud argymhellion i symud materion yn eu blaenau. Fel y dywedais yn fy ateb gwreiddiol, ynghyd â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, byddwn yn ymateb yn ffurfiol maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

## Pencampwriaethau a Gwyliau Chwaraeon

## Sports Events and Championships

15:06 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddenu pencampwriaethau a gwyliau chwaraeon i Gymru? OAQ(4)0096(CS)*

*14. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to attract sports events and championships to Wales? OAQ(4)0096(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

15:07 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Mae Llywodraeth Cymru yn yn gweithio gyda ffederasiynau a sefydliadau chwaraeon yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a rhai rhyngwladol er mwyn adnabod cyfleoedd i ddenu portffolio cytbwys o ddigwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru. Mae'r Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gyfrifol am ddigwyddiadau mawr.

The Welsh Government is working with Welsh, UK and international sporting federations and organisations in order to identify opportunities in attracting a balanced portfolio of major sporting events to Wales. The First Minister and the Minister for Economy, Science and Transport are responsible for major events.

Senedd.tv Fideo Video

15:07 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Diolch, Weinidog. Mae un bencampwriaeth sydd o ddiddordeb arbennig i ni yn Ynys Môn, sef Gemau'r Ynysoedd. Bydd unrhyw un sydd wedi gallu cymryd rhan yng Ngemau'r Ynysoedd dros y blynyddoedd yn gwybod cymaint o fudd y maent hwy wedi ei gael yn bersonol o gymryd rhan ond hefyd wedi gweld y budd sy'n dod i'r lleoedd sydd wedi cael cynnal y gemau. Gyda ffenestr posibl ar gyfer gwneud cais i ddod â'r gemau i Ynys Môn yn 2025, pa lefel o gefnogaeth mewn egwyddor ac yn ymarferol all y Gweinidog ei gynnig i'r syniad cynnar hwnnw am roi cais i mewn?

Thank you, Minister. There is one championship that is of particular interest to us in Anglesey, namely the Island Games. Anyone who has been able to participate in the Island Games over the years will know how much benefit they gain personally from that participation and will have seen the benefit that comes to those places that host the event. With a possible window for making a bid to bring the games to Anglesey in 2025, what level of support in principle and on a practical level can the Minister offer to that early proposal for making a bid?

Senedd.tv Fideo Video

15:08 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am well aware of the Island Games and have had various discussions over the years about what they could bring to Ynys Môn, for example, and to Wales as a whole. My role in this is around sport and participation and how major events can drive that up, but, as I said, the main responsibility rests with the First Minister and the Minister for the Economy, Science and Transport. I will discuss these matters with them following the Member's question.

Rwy'n ymwybodol iawn o Gemau'r Ynysoedd ac rwyf wedi cael trafodaethau amrywiol dros y blynyddoedd am yr hyn y gallent ei gynnig i Ynys Môn, er enghraifft, ac i Gymru gyfan. Mae fy swyddogaeth i yn hyn o beth yn ymwneud â chwaraeon a chyfranogiad a sut y gall digwyddiadau mawr sbarduno hynny, ond, fel y dywedais, y Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb. Byddaf yn trafod y materion hyn gyda nhw yn dilyn cwestiwn yr Aelod.

### Adeiladau Hanesyddol

### Historic Buildings

15:08 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod adeiladau hanesyddol yng Nghymru? OAQ(4)0093(CS)*

*15. Will the Minister make a statement on the preservation of historic buildings in Wales? OAQ(4)0093(CS)*

15:08 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Historic buildings and monuments give communities their character and deserve our appreciation and protection. Over 4,000 ancient monuments are scheduled and some 30,000 buildings across Wales are protected through listing. Grants are available for historic building repair and restoration from Cadw, other parts of the Welsh Government and other organisations.

Adeiladau hanesyddol a henebion sy'n rhoi cymeriad i gymunedau ac maent yn haeddu ein gwerthfawrogiad a'n gwarchodaeth. Mae dros 4,000 o henebion wedi eu rhestru ac mae tua 30,000 o adeiladau ledled Cymru wedi eu gwarchod trwy restru. Mae grantiau ar gael ar gyfer atgyweirio ac adfer adeiladau hanesyddol gan Cadw, rhannau eraill o Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill.

15:09 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. Minister, people in Islwyn are rightly proud of their miners institutes. Will you join me in congratulating Caerphilly council, which has invested over £600,000 in Blackwood institute, helping to restore it to its former glory days?

Diolch i chi am yr ateb yna. Weinidog, mae pobl yn Islwyn yn haeddiannol falch o'u canolfannau glowyr. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch cyngor Caerffili, sydd wedi buddsoddi dros £600,000 yng nghanolfan y Coed Duon, gan helpu i'w adfer i ogoniant y dyddiau a fu?

15:09 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much join the Member in wholeheartedly welcoming local authority investment in arts and cultural services, and this is a very good example of that. It helps to switch young people and local communities onto learning and provides opportunities that can open avenues that might otherwise be closed. It is also about first-class entertainment. It brings many benefits and I very much join the Member in thanking all those who helped to deliver this project.

Rwy'n sicr yn ymuno â'r Aelod i groesawu'n llwyr buddsoddiad awdurdodau lleol mewn gwasanaethau celfyddydol a diwylliannol, ac mae hon yn enghraifft dda iawn o hynny. Mae'n helpu i annog pobl ifanc a chymunedau lleol i ddysgu ac yn cynnig cyfleoedd sy'n gallu agor llwybrau a allai fod ar gau fel arall. Mae hefyd yn ymwneud ag adloniant o'r radd flaenaf. Mae'n cynnig llawer o fanteision ac rwy'n sicr yn ymuno â'r Aelod i ddiolch i bawb a helpodd i gyflawni'r prosiect hwn.

## 15:10 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers and which are available to Members electronically.

Nid oes gennyf ddim newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymysg papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

15:10 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have just a call for a single statement following the announcement last week by the UK Government of additional funding for the Post Office, with a clear commitment to maintain a UK network of over 11,500 branches and to support vital community and outreach branches, rather than a post office closure programme, building towards a commercially sustainable future. How will the Welsh Government, given its own previous support for post offices, and its own activities in this area, work to complement this initiative?

Rwyf am alw am un datganiad yn sgil cyhoeddiad Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf am gyllid ychwanegol i Swyddfa'r Post, gydag ymrwymiad clir i gynnal rhwydwaith o dros 11,500 o ganghennau yn y DU ac i gefnogi canghennau cymunedol ac allgymorth hanfodol, yn hytrach na rhaglen i gau swyddfeydd post, gan adeiladu tuag at ddyfodol cynaliadwy o safbwynt masnachol. Sut y bydd Llywodraeth Cymru, ac ystyried ei chefnogaeth flaenorol i swyddfeydd post, a'i gweithgareddau ei hunan yn y maes hwn, yn gweithio i ategu'r fenter hon?

15:11 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is something that the Minister for Communities and Tackling Poverty is looking at following the UK Government's statement, and I am sure that, when he has made a decision, he will come forward with a statement to the Chamber.

Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi'n edrych arno yn sgil datganiad Llywodraeth y DU, ac rwyf yn siŵr, pan fydd wedi gwneud penderfyniad, y bydd yn cyflwyno datganiad i'r Siambr.

15:11 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wanted to ask whether we could bring forward a debate in Government time, or a statement, about higher education, specifically about the disparity in higher education in terms of pay. This morning I went and spoke at a rally organised by UNISON, Unite and UCU about the derisory 1% pay offer that they have been given, as compared with what higher earners within the managerial structure are getting, which is phenomenal. I wonder whether we could have a debate, because I did promise to raise it here in our national institution, given that they are very angry at the fact that they are having to strike today and feel that they are not respected by those higher up in their institutions.

Weinidog, roeddwn am ofyn a allem gyflwyno dadl yn amser y Llywodraeth, neu ddatganiad, am addysg uwch, ac yn benodol am y gwahaniaethau rhwng cyflogau mewn addysg uwch. Y bore yma bûm yn siarad mewn rali a drefnwyd gan UNSAIN, Unite ac Undeb y Prifysgolion a'r Colegau am y cynnig cyflog pitw o 1% a wnaed iddynt, o'i gymharu â'r hyn y mae pobl ar gyflogau uwch yn y strwythur rheoli'n ei gael, sy'n enfawr. Tybed a allem gael dadl, oherwydd addewais y byddwn yn codi hyn yma yn ein sefydliad cenedlaethol; maent yn ddig iawn oherwydd bod yn rhaid iddynt fynd ar streic heddiw a'u bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu parchu gan y bobl mewn swyddi uwch yn eu sefydliadau?

15:12 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We do have a lot of debates on education in Government time, and given that the Minister for Education and Skills will answer questions tomorrow, it might be appropriate for you to raise it during that session.

Rydym yn cynnal llawer o ddadleuon am addysg yn amser y Llywodraeth, ac o ystyried y bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau'n ateb cwestiynau yfory, efallai y byddai'n briodol ichi godi hynny yn ystod y sesiwn honno.

15:12 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder whether you would prepare time for a statement on bedblocking. I am particularly concerned about this issue in my constituency. I know that the Minister for health has made great strides to try to address the issue but, again, I have been contacted by relatives of a constituent whose brother is languishing in a hospital bed in Llandrindod. He does not need to be there for medical reasons, but because of the failure of Powys County Council to arrange a care package. We are receiving other evidence from Hereford district general hospital, which wants to discharge Powys patients back to Llandrindod hospital but cannot because the beds there are all full, or back to the community and cannot because of a lack of care packages. This is a source of grave concern in the Radnorshire area, and I wonder whether your Government would be good enough to investigate these concerns and bring a statement to the Chamber on what can be done with regard to bedblocking in mid Wales.

Weinidog, tybed a fyddech yn fodlon neilltuo amser i roi datganiad am flocio gwelyau. Rwyf yn arbennig o bryderus am y mater hwn yn fy etholaeth. Gwn fod y Gweinidog iechyd wedi cymryd camau breision i geisio ymdrin â'r mater ond, unwaith eto, cysylltodd perthnasau etholwr â mi sydd â brawd yn gorwedd mewn gwely mewn ysbyty yn Llandrindod. Nid oes angen iddo fod yno am resymau meddygol; mae yno oherwydd methiant Cyngor Sir Powys i drefnu pecyn gofal. Rydym yn clywed tystiolaeth hefyd o ysbyty cyffredinol dosbarth Henffordd, sy'n awyddus i ryddhau cleifion Powys yn ôl i ysbyty Llandrindod ond yn methu â gwneud hynny am fod y gwelyau yno i gyd yn llawn, neu yn ôl i'r gymuned ac yn methu â gwneud hynny oherwydd nad oes pecynnau gofal wedi'u trefnu. Mae hyn yn destun pryder mawr yn ardal sir Faesyfed, a tybed a fyddai eich Llywodraeth cystal ag ymchwilio i'r pryderon hyn a chyflwyno datganiad i'r Siambr am yr hyn y gellir ei wneud o ran blocio gwelyau yn y canolbarth.

15:13 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

As you say, we have made great strides in relation to delays in transfers of care, and I know that the meetings that I have held alongside the Minister for Health and Social Services and the Deputy Minister for Social Services have shown that all local authorities are working hard with health boards to reduce the number. I know that the Minister is aware of the specific case you refer to in Llandrindod Wells, and he is very happy to work with you to resolve the case.

Fel y dywedwch, rydym wedi cymryd camau breision o ran oedi wrth drosglwyddo gofal, a gwn fod y cyfarfodydd yr wyf wedi'u cynnal ochr yn ochr â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dangos bod pob awdurdod lleol yn gweithio'n galed gyda'r byrddau iechyd i leihau'r niferoedd. Gwn fod y Gweinidog yn ymwybodol o'r achos penodol y cyfeiriwch ato yn Llandrindod, ac mae'n hapus iawn i gydweithio â chi i ddatrys yr achos.

Senedd.tv
Fideo Video

15:13 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

The first annual report for the 'Together for Mental Health' strategy is due to be published imminently. I would welcome the opportunity to explore progress towards meeting the needs of people with mental ill health and improving services and support, and particularly tackling stigma. I would be grateful for the opportunity to do so, either through a debate here in the Chamber or a statement from the Minister.

Disgwylir i adroddiad blynyddol cyntaf y strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' gael ei gyhoeddi gyda hyn. Byddwn yn croesawu'r cyfle i archwilio'r cynnydd a wnaed o ran bodloni anghenion pobl â salwch meddwl a gwella gwasanaethau a chymorth, ac yn enwedig o ran mynd i'r afael â stigma. Byddwn yn ddiolchgar o gael cyfle i wneud hynny, naill ai mewn dadl yma yn y Siambr neu drwy gael datganiad gan y Gweinidog.

Senedd.tv
Fideo Video

15:13 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I understand that the 'Together for Mental Health' annual report will be published before Christmas and will include an update on action to reduce stigma and discrimination. I know that the Minister for Health and Social Services is minded to have a Plenary debate on the issue in the spring, if we can find a spot. If not, this will be done via a written statement.

Rwyf ar ddeall y caiff adroddiad blynyddol 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' ei gyhoeddi cyn y Nadolig ac y bydd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gamau i leihau stigma a gwahaniaethu. Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o blaid cael dadl yn y Cyfarfod Llawn am y mater yn y gwanwyn, os gallwn neilltuo lle iddi. Os na allwn, gwneir hyn drwy gyfrwng datganiad ysgrifenedig.

Senedd.tv
Fideo Video

15:14 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

I would like a statement from the Minister for Economy, Science and Transport on what imminent contingency plans are in place to protect the vulnerable disabled and elderly community in Conwy following the potential winding up of the Conwy community transport scheme, which is possibly going to happen tomorrow. This scheme has been in place for almost 10 years, during which time many of my elderly or disabled constituents have come to rely on this scheme as a means of accessing vital services and amenities across our rural communities. Having first raised the issue of the financial mismanagement of this scheme over a year ago, I would like a statement on what safeguards are in place for when funding is given from this Welsh Government scheme to provide such a much needed facility. It should include, from the Welsh Government and Taith, what steps are in place to ensure that they have the proper mechanisms in place to hold people to account when an issue like this arises, because this is going to affect a lot of my constituents. I am particularly concerned to know what contingency plans are in place now, so that those people are not left stranded.

Hoffwn gael datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am unrhyw gynlluniau wrth gefn sydd ar waith i amddiffyn cymuned y bobl agored i niwed, pobl anabl a'r henoed yng Nghonwy ar ôl dirwyn i ben cynllun trafnidiaeth gymunedol Conwy; mae'n bosibl y bydd hynny'n digwydd yfory. Mae'r cynllun hwn wedi bod ar waith ers bron i 10 mlynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae llawer o fy etholwyr oedrannus neu anabl wedi dod i ddibynnu ar y cynllun hwn fel modd o gael gafael ar wasanaethau ac amwynderau hanfodol ar draws ein cymunedau gwledig. Codais fater camreoli ariannol y cynllun hwn gyntaf dros flwyddyn yn ôl, a hoffwn gael datganiad am y mesurau diogelu sydd ar waith pan gaiff cyllid ei roi drwy'r cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfleuster y mae ei angen yn fawr. Dylai gynnwys, oddi wrth Lywodraeth Cymru a Taith, pa gamau sydd ar waith i sicrhau bod y mecanweithiau priodol ar waith ganddynt i ddwyn pobl i gyfrif pan fydd mater fel hyn yn codi, oherwydd bydd hyn yn effeithio ar lawer o fy etholwyr. Rwyf yn arbennig o awyddus i gael gwybod pa gynlluniau wrth gefn sydd ar waith yn awr, fel na chaiff y bobl hynny eu gadael yn ddiymgeledd.

Senedd.tv
Fideo Video

15:15 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Continuity of service for community transport users is a priority for Conwy council. The Minister for Economy, Science and Transport has asked Community Transport Association Cymru to continue to work closely with the council to ensure minimal impact on users.

Mae parhad gwasanaeth i ddefnyddwyr cludiant cymunedol yn flaenoriaeth i gyngor Conwy. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi gofyn i Gymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru barhau i gydweithio'n agos â'r cyngor i sicrhau y bydd cyn lleied o effaith â phosibl ar ddefnyddwyr.

Senedd.tv
Fideo Video

15:15 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, on 30 September this year, Derek Vaughan MEP tabled a draft report on EU member states' preparedness for an effective and timely start to the new cohesion policy programming period. This report will be heard by the committee on regional development on 18 December. Although the report includes a number of interesting suggestions, one of the recommendations is that there should be a single operational programme at a member state level. That has major implications for Wales. My understanding is that Derek Vaughan discussed this report with the Welsh European Funding Office. I am not clear whether he had discussions with Government Ministers. It is not my understanding that the policy of the Welsh Government is to have a single operational programme, which would mean that we would lose control of that operational programme. We should have an urgent statement from the Minister for Finance or the First Minister so that we are clear about the policy of the Welsh Government and whether there were any discussions with Derek Vaughan before he tabled this report.

Weinidog, ar 30 Medi eleni, cyflwynodd Derek Vaughan ASE adroddiad drafft am barodrwydd aelod-wladwriaethau'r UE at ddechrau effeithiol ac amserol i'r cyfnod rhaglennu polisi cydlyniant newydd. Caiff yr adroddiad hwn ei glywed gan y pwyllgor datblygu rhanbarthol ar 18 Rhagfyr. Er bod yr adroddiad yn cynnwys nifer o awgrymiadau diddorol, un o'r argymhellion yw y dylai fod rhaglen weithredol sengl ar lefel aelod-wladwriaethau. Mae hynny'n creu goblygiadau mawr i Gymru. Rwyf ar ddeall bod Derek Vaughan wedi trafod yr adroddiad hwn â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid wyf yn glir a gafodd drafodaethau â Gweinidogion y Llywodraeth. Nid wyf ar ddeall mai polisi Llywodraeth Cymru yw cael rhaglen weithredol sengl, a fyddai'n golygu y byddem yn colli rheolaeth dros y rhaglen weithredol honno. Dylem gael datganiad brys gan y Gweinidog Cyllid neu'r Prif Weinidog er mwyn cael gwybod yn iawn am bolisi Llywodraeth Cymru ac a fu unrhyw drafodaethau â Derek Vaughan cyn iddo gyflwyno'r adroddiad hwn.

I had an opinion adopted in the Committee of the Regions earlier this year on synergies between European budgets, member-state budgets and sub-state budgets. We addressed a number of bottlenecks that exist. This was not one of them. Indeed, I took evidence from Derek Vaughan while preparing that opinion and he did not mention the idea of a single operational programme to me at that time. So, we now need clarity, as Derek Vaughan is a Labour MEP, on whether he put this report forward with the backing of the Welsh Government.

Yn gynharach eleni, mabwysiadodd Pwyllgor y Rhanbarthau fy marn am synergeddau rhwng cyllidebau Ewropeaidd, cyllidebau aelod-wladwriaethau a chyllidebau is-wladwriaethau. Aethom i'r afael â nifer o dagfeydd sy'n bodoli. Nid oedd hyn yn un ohonynt. Yn wir, clywais dystiolaeth gan Derek Vaughan wrth baratoi'r farn honno ac ni soniodd wrthyf am raglen weithredol sengl ar y pryd. Felly, mae angen eglurder arnom yn awr, gan fod Derek Vaughan yn ASE Llafur, ynghylch a oedd ganddo gefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r adroddiad hwn.

15:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not aware of any specific discussions that Derek Vaughan may have had with either of the Ministers to you whom you refer, but I will ensure that the relevant Minister writes to you regarding those points and specifically in response to whether the report was put forward with their knowledge.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau penodol y gallai Derek Vaughan fod wedi'u cael â'r naill na'r llall o'r Gweinidogion yr ydych yn sôn amdanynt, ond byddaf yn sicrhau bod y Gweinidog perthnasol yn ysgrifennu atoch ynglŷn â'r pwyntiau hynny ac yn nodi'n benodol a oeddent yn ymwybodol o gyflwyno'r adroddiad.

15:18 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week, I raised with you the case of the complaints procedure within the NHS. On Friday, the Betsi Cadwaladr University Local Health Board met to discuss the unanswered backlog of complaints that are outstanding. There are 74 incidents from April 2012 to 2013 that have not been dealt with. In 2013-14, so far, 95 incidents are overdue for closure. Following the significant increase in reported incidents, a 128% increase is expected, with 161 complaints being received last month.

Weinidog, yr wythnos diwethaf, soniais wrthych am y drefn gwyno o fewn y GIG. Ddydd Gwener, cyfarfu Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i drafod ôl-groniad cwynion heb eu hateb nad ydynt wedi cael sylw. Mae 74 o ddigwyddiadau o fis Ebrill 2012 hyd 2013 nad ydynt wedi cael sylw. Yn 2013–14, hyd yma, mae 95 o ddigwyddiadau'n hwyr yn cael eu cau. Yn sgil y cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion yr adroddir amdanynt, disgwylir cynnydd o 128%; cafwyd 161 o gwynion y mis diwethaf.

Additionally, board notes record 25 'never' incidents, which are required to be reported to the Betsi Cadwaladr health board and to Welsh Government. It appears that Welsh Government was aware of the situation in the Betsi Cadwaladwr health board on 7 October. The backlog of complaints, as I understand it, currently amounts to over 300 complaints, with 134 further complaints that have been answered but not to the satisfaction of those complaining. Given this catalogue of incidents—some so serious, as I said, that they are required to be reported immediately to Welsh Government and to the board—can we now have a statement from the Minister for health on complaints in the NHS? These are normally supposed to be answered within 30 days. Some people have been waiting for over 18 months for answers to their cases.

Hefyd, mae nodiadau'r bwrdd yn cofnodi 25 o ddigwyddiadau 'byth', y mae'n ofynnol adrodd amdanynt i fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ac i Lywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r sefyllfa ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ar 7 Hydref. Mae 300 o gwynion ar hyn o bryd wedi ôl-gronni, yn ôl a ddeallaf, ac mae 134 o gwynion pellach sydd wedi cael eu hateb ond heb fodloni'r rheini a gwynodd. Ac ystyried y catalog hwn o ddigwyddiadau—rhai mor ddifrifol, fel y dywedais, nes ei bod yn ofynnol adrodd amdanynt ar unwaith i Lywodraeth Cymru ac i'r bwrdd—a gawn ni yn awr ddatganiad gan y Gweinidog iechyd am gwynion yn y GIG? Fel arfer, mae'r rhain i fod i gael eu hateb o fewn 30 diwrnod. Mae rhai pobl wedi bod yn aros dros 18 mis am atebion i'w hachosion.

15:20

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know that the Minister for Health and Social Services has had discussions with chairs and chief executives on the importance of these being addressed as quickly as possible. Clearly, Betsi Cadwaladr University Local Health Board was doing that on Friday. I do not think that it is a matter for the Minister to bring forward a statement at this time.

Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael trafodaethau â chadeiryddion a phrif weithredwyr am bwysigrwydd rhoi sylw i'r rhain cyn gynted ag y bo modd. Yn amlwg, roedd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gwneud hynny ddydd Gwener. Nid wyf yn credu ei fod yn fater i'r Gweinidog gyflwyno datganiad amdano ar hyn o bryd.

15:20

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd ddoe, cefais gyfle i wrando ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn lansio strategaeth fwyd newydd. A all y Gweinidog busnes sicrhau y bydd trafodaeth arni yn y Senedd hon yn ystod tri mis y cyfnod ymgynghori, er mwyn i ni, fel Aelodau Cynulliad, gyfrannu i'r drafodaeth ar y strategaeth eang sydd wedi cael ei chyflwyno?

At the Winter Show in Builth Wells yesterday, I had the opportunity of listening to the Minister for Natural Resources and Food launching a new food strategy. Can the Minister for business ensure that there will be a debate on it in this Senedd during the three-month consultation period, so that we, as Assembly Members, can contribute to the discussion on the broad strategy that has been announced?

15:21

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you say, 'Delivering Growth: An action plan for the Food and Drinks Industry 2014-2020' was launched yesterday. That has now gone out to public consultation. I would encourage everybody to submit responses to that consultation during the said period.

Fel y dywedwch, cafodd 'Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020' ei lansio ddoe. Erbyn hyn, mae'n destun ymgynghoriad cyhoeddus. Hoffwn annog pawb i gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw yn ystod y cyfnod dan sylw.

15:21

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Many Assembly Members have taken the opportunity today to nip outside Tŷ Hywel to have their photo taken by the Small Business Saturday bus, which was parked outside at lunchtime. Small Business Saturday takes place this coming weekend and—in contrast to other days such as cyber Monday and black Friday—encourages shoppers to do a proportion of their shopping locally. I wonder whether we could hear from the Welsh Government how it is supporting the aspirations of Small Business Saturday. Could we also have an update from the Minister for Economy, Science and Transport as to the implementation of the recommendations of the Enterprise and Business Committee's inquiry into town-centre regeneration?

Mae llawer o Aelodau Cynulliad wedi manteisio ar y cyfle heddiw i bicio y tu allan i Dŷ Hywel i dynnu eu llun wrth y bws Dydd Sadwrn Busnesau Bach, a oedd wedi'i barcio y tu allan yn ystod amser cinio. Mae Dydd Sadwrn Busnesau Bach yn digwydd y penwythnos nesaf hwn ac—yn wahanol i ddiwrnodau eraill megis dydd Llun seiber a dydd Gwener du—yn annog siopwyr i wneud cyfran o'u siopa'n lleol. Tybed a gawn ni glywed gan Lywodraeth Cymru sut y mae'n cefnogi dyheadau Dydd Sadwrn Busnesau Bach? A gawn ni hefyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch gweithredu argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i adfywio canol trefi?

15:22

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, it was very good to see so many colleagues outside supporting the Small Business Saturday event. The Minister will bring forward a statement on town centres, as you suggest, at the most appropriate time. I will raise it with her specifically to get a date.

Oedd, roedd yn braf iawn gweld cynifer o gydweithwyr y tu allan yn cefnogi'r digwyddiad Dydd Sadwrn Busnesau Bach. Bydd y Gweinidog yn cyflwyno datganiad am ganol trefi, fel yr awgrymwch, ar yr adeg fwyaf priodol. Codaf hynny gyda hi'n benodol i drefnu dyddiad.

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 15:22.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 15:22.*

15:22

## Datganiad: Ymatebion i'r Papur Gwyn 'Rhentu Cartrefi'

## Statement: Responses to the 'Renting Homes' White Paper

Senedd.tv
Fideo Video

### Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

Members may recall that, in May this year, I published a White Paper setting out proposals to improve the law that applies to renting a home. In place of what one circuit judge described as 'an impenetrable forest' of housing law, we aim to create a fairer and clearer legal basis for renting.

Dichon bod aelodau'n cofio imi gyhoeddi Papur Gwyn ym mis Mai eleni yn amlinellu cynigion i wella'r gyfraith sy'n berthnasol i rentu cartref. Yn lle'r hyn a ddisgrifiodd un barnwr cylchdaith fel 'coedwig anhreiddiadwy' cyfraith tai, rydym yn anelu at greu sail gyfreithiol decach a chliriach ar gyfer rhentu.

Our consultation on the White Paper ended in mid August. As well as the written consultation, my officials presented the proposals at more than 20 events, at which stakeholders across Wales engaged. In all, these activities reached over 1,000 individuals and organisations.

Daeth ein hymgynghoriad ar y Papur Gwyn i ben ganol mis Awst. Yn ogystal â'r ymgynghoriad ysgrifenedig, cyflwynodd fy swyddogion y cynigion mewn mwy nag 20 o ddigwyddiadau, lle bu rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru'n cymryd rhan. At ei gilydd, cyrhaeddodd y gweithgareddau hyn dros 1,000 o unigolion a sefydliadau.

I am really encouraged by the 173 formal responses to the consultation. As well as housing interests, we have had responses from organisations such as Hywel Dda Local Health Board, British Gas, student unions, Dyfed Powys Police, the National Trust and the children and older people's commissioners. We had 50 responses from local authorities and housing associations, 30 from private landlords and letting agents and 27 from tenants and other individuals. I am grateful for their time and the efforts made by everybody, both in attending events and in submitting responses. I would also like to thank colleagues at the Law Commission, as well as all the other stakeholders who have been working on the development of the proposals.

Roedd y 173 o ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad yn galondid mawr imi. Yn ogystal â buddiannau tai, rydym wedi cael ymatebion gan sefydliadau fel Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, Nwy Prydain, undebau'r myfyrwyr, Heddlu Dyfed Powys, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r comisiynwyr plant a phobl hŷn. Cawsom 50 o ymatebion gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, 30 gan landlordiaid preifat ac asiantau gosod a 27 gan denantiaid ac unigolion eraill. Rwyf yn ddiolchgar am eu hamser a'r ymdrechion a wnaeth pawb i fynychu digwyddiadau ac i gyflwyno ymatebion. Hoffwn hefyd ddiolch i gydweithwyr yng Nghomisiwn y Gyfraith, yn ogystal â'r holl randdeiliaid eraill sydd wedi bod yn gweithio i ddatblygu'r cynigion.

It is not appropriate for me to go into the details of all of the responses received today, but I have forwarded a link to Members in order for them to be able to look at the full consultation process. I would like to take the opportunity, however, to make some comments on the consultation process.

Nid yw'n briodol imi fanylu ar yr holl ymatebion a gafwyd heddiw, ond rwyf wedi anfon dolen at yr Aelodau er mwyn iddynt allu edrych ar y broses ymgynghori lawn. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn, fodd bynnag, i wneud rhai sylwadau am y broses ymgynghori.

First, I am pleased at the strong overall support shown for the proposals. Many respondents commented on the complexity of the current law and the problems that this causes. It was also widely agreed that the two-contract model we proposed makes sense—one contract based on the local authority secure tenancy and the other on the assured short-hold tenancy.

Yn gyntaf, mae'n dda gennyf weld y gefnogaeth gyffredinol gref i'r cynigion. Gwnaeth llawer o ymatebwyr sylwadau am gymhlethdod y gyfraith ar hyn o bryd a'r problemau y mae hyn yn eu hachosi. Cytunwyd hefyd yn gyffredinol bod y model dau gontract a gynigwyd gennym yn gwneud synnwyr—un contract yn seiliedig ar denantiaeth ddiogel awdurdod lleol a'r llall ar y denantiaeth fyrddaliol sicr.

The proposal to require a 'prohibited conduct term' in every contract was welcomed by the vast majority of respondents. I want to help landlords take action against the minority of households that cause misery for neighbours, and we will work with stakeholders to ensure that the proposal has maximum effect. I also propose to take tougher action against perpetrators of domestic abuse. Anyone breaching the term could be liable to eviction, while the victim and children would be able to remain in their home if they wished to do so. This is an extremely important step, enabling housing to play its role in tackling and preventing domestic abuse.

Cafodd y cynnig i fynnu 'teler ymddygiad gwaharddedig' ym mhob contract ei groesawu gan y mwyafrif helaeth o ymatebwyr. Rwyf am helpu landlordiaid i gymryd camau gweithredu yn erbyn y lleiafrif o aelwydydd sy'n achosi diflastod i gymdogion, a byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod y cynnig yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Rwyf hefyd yn bwriadu cymryd camau llymach yn erbyn y rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig. Gellid troi allan unrhyw un sy'n torri'r teler, tra byddai'r dioddefwr a'r plant yn gallu aros yn eu cartref pe baent yn dymuno gwneud hynny. Mae hwn yn gam hynod o bwysig; mae'n galluogi'r sector tai i wneud ei ran o safbwynt ymdrin â cham-drin domestig a'i atal.

We also want to level-up the rights of housing association tenants to those of local-authority tenants. This would include removing the option for housing associations to use ground 8, which seeks to evict a tenant for eight weeks' rent arrears without the court being able to consider, for example, a problem with housing-benefit payments. The proposal had near unanimous support from local authorities and tenant groups. Most housing associations, though, wanted to retain ground 8. I understand why; due to the UK Government's welfare reforms, especially the bedroom tax, housing associations are worried about rent arrears. However, I also know that many feel strongly that ground 8 does not fit into the idea of social housing. I will carefully consider the issue before deciding what to bring forward in the forthcoming Bill.

Rydym hefyd am roi'r un hawliau i denantiaid cymdeithasau tai â thenantiaid awdurdodau lleol. Byddai hyn yn cynnwys cael gwared ar yr opsiwn i gymdeithasau tai i ddefnyddio sail 8, sy'n ceisio troi tenant allan am ôl-ddyledion rhent o wyth wythnos heb i'r llys allu ystyried, er enghraifft, problem â thaliadau budd-dal tai. Cafodd y cynnig gefnogaeth unfrydol bron gan awdurdodau lleol a grwpiau tenantiaid. Roedd y rhan fwyaf o gymdeithasau tai, fodd bynnag, yn awyddus i gadw sail 8. Rwyf yn deall pam; oherwydd diwygiadau lles Llywodraeth y DU, yn enwedig y dreth ystafell wely, mae cymdeithasau tai'n poeni am ôl-ddyledion rhent. Fodd bynnag, gwn hefyd fod sawl un yn teimlo'n gryf nad yw sail 8 yn cyd-fynd â chysyniad tai cymdeithasol. Byddaf yn ystyried y mater yn ofalus cyn penderfynu beth i'w gyflwyno yn y Bil sydd ar ddod.

The proposal to make renting by 16 and 17-year-olds easier was generally supported. Some respondents, including the children's commissioner, stressed that clear guidance should accompany any proposed change, and I wholeheartedly agree. Standardising the right to take over a tenancy when the current tenant dies was also strongly supported. This is most relevant to social housing, so it is worth noting that all local authorities and the majority of housing associations were supportive of this proposal.

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i'w gwneud yn haws i bobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed rentu. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y comisiynydd plant, yn pwysleisio y dylai canllawiau clir fynd law yn llaw ag unrhyw newid arfaethedig, ac rwyf yn cytuno'n llwyr. Cafwyd cefnogaeth gref hefyd i safoni'r hawl i gymryd tenantiaeth pan fydd y tenant presennol yn marw. I dai cymdeithasol y mae hyn fwyaf perthnasol, felly mae'n werth nodi bod pob awdurdod lleol a'r rhan fwyaf o gymdeithasau tai'n cefnogi'r cynnig hwn.

Another proposal in the White Paper was to require landlords to ensure that there are no serious health and safety hazards in the property. This was supported in principle, but some had concerns about how it would take place in practice. I want to drive up the quality of rented homes so that we will be looking at how we can get the right balance in the forthcoming Bill. The White Paper also proposed removing the current block on a court issuing a no-fault possession order within the first six months of tenancy. This allows tenancies with minimal protection at present, such as where someone's home is linked to their work, to be protected under the Bill. Since most landlords prefer the security of income from a six or twelve-month minimum contract, during which the no-fault option is not available anyway, this proposal could increase flexibility where it makes sense, without reducing security of tenancy and tenure for the majority. While most respondents supported this change, some did express concerns regarding a loss of statutory protection. I will give that further consideration. There were also suggestions that the legislation should prevent retaliatory eviction, where a landlord seeks to evict a tenant who complains of disrepair or health and safety problems, and I will also give that further consideration.

Cynnig arall yn y Papur Gwyn oedd mynnu bod landlordiaid yn sicrhau nad oes dim peryglon iechyd a diogelwch difrifol yn yr eiddo. Cefnogwyd hyn mewn egwyddor, ond roedd rhai'n pryderu am sut y byddai'n digwydd yn ymarferol. Rwyf yn awyddus i wella ansawdd cartrefi ar rent felly byddwn yn edrych ar sut y gallwn sicrhau'r cydbwysedd cywir yn y Bil sydd ar ddod. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnig cael gwared ar y gwaharddiad presennol ar lysoedd rhag cyhoeddi gorchymyn meddiant dim bai o fewn chwe mis cyntaf tenantiaeth. Mae hyn yn caniatáu i denantiaethau heb fawr ddim amddiffyniad ar hyn o bryd, megis lle mae cartref rhywun yn gysylltiedig â'u gwaith, gael eu diogelu o dan y Bil. Gan ei bod yn well gan y rhan fwyaf o landlordiaid gael sicrwydd incwm contract chwe mis neu ddeuddeg mis, lle nad yw'r opsiwn dim bai ar gael beth bynnag, gallai'r cynnig hwn gynyddu hyblygrwydd pan fo'n gwneud synnwyr, heb leihau sicrwydd tenantiaethau a deiliadaethau i'r mwyafrif. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y newid hwn, roedd rhai'n mynegi pryderon ynglŷn â cholli diogelwch statudol. Rhoddaf ystyriaeth bellach i hynny. Cafwyd awgrymiadau hefyd y dylai'r ddeddfwriaeth atal troi allan dialgar, lle mae landlord yn ceisio troi tenant allan os yw'n cwyno am ddiffyg atgyweirio neu broblemau iechyd a diogelwch, a rhoddaf ystyriaeth bellach i hynny hefyd.

We also propose to establish, for the first time, a legal framework that reflects the particular needs of supported housing. There was strong support for the broad structure proposed, but also concerns expressed about the practical implications. My officials will continue to work with the sector on how to deal with the detail, ensuring that we get it right. The balance between the rights of landlords and tenants is a priority for me here.

Rydym hefyd yn bwriadu sefydlu, am y tro cyntaf, fframwaith cyfreithiol sy'n adlewyrchu anghenion penodol tai â chymorth. Cafwyd cefnogaeth gref i'r strwythur cyffredinol a gynigiwyd, ond mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y goblygiadau ymarferol. Bydd fy swyddogion yn parhau i gydweithio â'r sector ynghylch sut i ymdrin â'r manylion, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n iawn. Mae'r cydbwysedd rhwng hawliau landlordiaid a thenantiaid yn flaenoriaeth imi yma.

The White Paper also proposed bringing housing association Rent Act 1977 tenancies under the renting homes framework, while continuing to leave private sector rent Act tenancies as they are. Again, this was broadly supported, and we will look to ensure that tenants are not unfairly penalised as a result.

Roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnig y dylid cynnwys tenantiaethau cymdeithasau tai Deddf Rhenti 1977 yn y fframwaith rhentu cartrefi, a gadael tenantiaethau deddf rhentu'r sector preifat fel y maent. Unwaith eto, cafodd hyn gefnogaeth ar y cyfan, a byddwn yn ceisio sicrhau nad yw tenantiaid yn cael eu cosbi'n annheg o ganlyniad i hynny.

Looking ahead, my officials will continue to work with stakeholders to bring forward the Bill, which is planned to come to this Assembly in 2015. Under the proposals, Wales will have a fairer, simpler and more effective legal framework for renting a home, with the rights and responsibilities of landlords and tenants clear to all. I look forward to working with Members and all other parties to make this White Paper consultation a reality.

Ac edrych tua'r dyfodol, bydd fy swyddogion yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid i gyflwyno'r Bil; y bwriad yw dod ag ef i'r Cynulliad hwn yn 2015. Dan y cynigion, bydd gan Gymru fframwaith cyfreithiol tecach, symlach a mwy effeithiol ar gyfer rhentu cartrefi, a bydd hawliau a chyfrifoldebau landlordiaid a thenantiaid yn glir i bawb. Edrychaf ymlaen at gydweithio â'r Aelodau ac â phob carfan arall i wireddu'r ymgynghoriad hwn ar y Papur Gwyn.

15:29 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have long supported single tenure for social tenants. However, how would you respond to the concern expressed by Community Housing Cymru, the not-for-profit representative umbrella body for not-for-profit housing associations and community mutuals, that the resource burden on landlords in the residential landlord sector of implementing changes will be significant, at a time when capital and revenue budgets are being hit? How also do you respond to its call for the local authorities' ability to change all their tenancies at the same time, to ensure consistency, to be extended to registered social landlords, to ensure that consistency for all tenants? Equally, and given your comments about ground 8, how do you respond to its statement that the proposal to remove ground 8 is of concern to Community Housing Cymru? It proposes that it should be retained as an option for serious cases of arrears.

Rydym yn cefnogi deiliadaeth sengl i denantiaid cymdeithasol ers peth amser. Fodd bynnag, sut y byddech yn ymateb i'r pryder a fynegwyd gan Dai Cymunedol Cymru, y corff ymbarél cynrychiadol dielw ar gyfer cymdeithasau tai dielw a chwmnïau cymunedol cydfuddiannol, y bydd baich sylweddol o ran adnoddau ar landlordiaid yn y sector landlordiaid preswyl yn sgil gweithredu'r newidiadau, ar adeg pan fo cyllidebau cyfalaf a refeniw'n cael eu taro? Hefyd, sut ydych chi'n ymateb i'w galwad ar i allu'r awdurdodau lleol i newid eu holl denantiaethau ar yr un pryd, er mwyn sicrhau cysondeb, gael ei roi i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hefyd, er mwyn sicrhau cysondeb i'r holl denantiaid? Yn yr un modd, ac o ystyried eich sylwadau am sail 8, sut ydych chi'n ymateb i'w datganiad fod y cynnig i gael gwared ar sail 8 yn peri pryder i Dai Cymunedol Cymru? Mae'n cynnig y dylid ei chadw fel opsiwn ar gyfer achosion difrifol o ôl-ddyledion.

In terms of your closing comments about supported housing, how do you respond to CHC's statement that the current proposals around supported housing do not adequately reflect the practicalities of working in a supported housing environment, dealing with very short-term, longer term, and general supported accommodation?

O ran eich sylwadau cloi am dai â chymorth, sut ydych chi'n ymateb i ddatganiad Tai Cymunedol Cymru nad yw'r cynigion presennol ynghylch tai â chymorth yn adlewyrchu'n ddigonol agweddau ymarferol ar weithio ym maes tai â chymorth, ac ymdrin â llety tymor byr iawn, llety tymor hwy, a llety â chymorth cyffredinol?

Moving on from Community Housing Cymru, how do you respond to the concern that has been expressed by the Residential Landlords Association over costs? Has the Welsh Government undertaken its own assessment of the costs of introducing tenure change in Wales, in the light of the Residential Landlords Association's estimate that the proposed schemes would cost up to £45 million?

I symud ymlaen o Dai Cymunedol Cymru, sut ydych chi'n ymateb i'r pryder sydd wedi ei fynegi gan y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl ynglŷn â chostau? A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ei hasesiad ei hun o gostau cyflwyno newidiadau i ddeiliadaethau yng Nghymru, yng ngoleuni amcangyfrif y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl y byddai'r cynlluniau arfaethedig yn costio hyd at £45 miliwn?

Moving on to the Country Land and Business Association, and comments about enforcement under the housing health and safety rating system, how do you respond to concerns that have been expressed that enforcement among many local authorities has been very poor, notwithstanding the need to protect the golden rule of safeguarding developments so that housing supply should not be adversely affected among reputable landlords?

I symud ymlaen at y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, a sylwadau am orfodi o dan y system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai, sut ydych chi'n ymateb i bryderon a fynegwyd bod gorfodi wedi bod yn wael iawn ymysg llawer o awdurdodau lleol, er gwaethaf yr angen i warchod rheol aur diogelu datblygiadau fel nad effeithir yn andwyol ar y cyflenwad tai ymhlith landlordiaid cyfrifol?

I have three more concerns from the CLA, and I will then finish my questions. How do you respond to its concern about the Rent (Agriculture) Act 1976 tenancies, which remain a dominant tenure in the countryside, given your comments about private Rent Act 1977 tenancies being excluded? How do you respond to its concern about the extent to which the position of agricultural workers needs to be considered? Similarly, there is the fact that the White Paper did not mention assured agricultural occupants under the Housing Act 1988, where it is envisaged that occupiers of a type of an assured tenancy would have their rights agreements converted, under the new secure contract. However, again, your proposals do not appear to address that, so far. Thank you.

Mae gennyf dri phryder arall gan y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, a byddaf yn gorffen fy nghwestiynau wedyn. Sut ydych chi'n ymateb i'w pryder am denantiaethau Deddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976, sy'n parhau i fod yn ddeiliadaethau amlwg yng nghefn gwlad, ac ystyried eich sylwadau am eithrio tenantiaethau preifat Deddf Rhenti 1977? Sut ydych chi'n ymateb i'w pryder ynghylch i ba raddau y mae angen ystyried sefyllfa gweithwyr amaethyddol? Yn yr un modd, mae'r ffaith nad oedd y Papur Gwyn yn sôn am feddianwyr amaethyddol sicr o dan Ddeddf Tai 1988, lle rhagwelir y byddai cytundebau hawliau deiliaid math penodol o denantiaeth sicr yn cael eu trosi, o dan y contract diogel newydd. Fodd bynnag, unwaith eto, nid yw'n ymddangos bod eich cynigion yn ymdrin â hynny, hyd yma. Diolch.

15:32

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your comments. There were a lot of detailed questions there. Of course, this is the response to the consultation process, and I will be using your comments—and those of other interested stakeholders—in the framing of the Bill, as we move forward.

Diolch am eich sylwadau. Roedd llawer o gwestiynau manwl yno. Wrth gwrs, ymateb i'r broses ymgynghori yw hyn, a byddaf yn defnyddio eich sylwadau—a rhai rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb—wrth fframio'r Bil, wrth inni symud ymlaen.

I will pick up on a couple of the points that the Member raised. I also share the concern regarding the issue around consistency of approach. The rights of individuals in tenancies are important to me, and I will be doing my utmost to ensure that we have a consistent approach through the Bill. That is why the simplification of the tenancy agreements is an important part of this.

Rhoddaf sylw i rai o'r pwyntiau a gododd yr Aelod. Rwyf innau'n rhannu'r pryder ynglŷn â materion yn ymwneud â chysondeb yr ymagwedd. Mae hawliau unigolion mewn tenantiaethau'n bwysig imi, a byddaf yn gwneud fy ngorau glas i sicrhau bod gennym ymagwedd gyson drwy'r Bil. Dyna pam y mae symleiddio'r cytundebau tenantiaeth yn rhan bwysig o hyn.

I do not accept the view of Community Housing Cymru on the ground 8 rules. I think that the Member approached this on the basis of serious issues. I think that that is an arbitrary way of measurement, in terms of the interpretation of that. We believe that we are acting responsibly in the process of removing the ground 8 ruling. However, the Member—and others—will, of course, be quite within their rights to scrutinise further, through the process of the Bill in 2015.

Nid wyf yn derbyn barn Tai Cymunedol Cymru am reolau sail 8. Credaf i'r Aelod fynd i'r afael â hyn ar sail materion difrifol. Rwyf yn meddwl ei bod yn ffordd fympwyol o fesur, o ran dehongli hynny. Rydym o'r farn ein bod yn gweithredu'n gyfrifol drwy gael gwared ar y dyfarniad sail 8. Fodd bynnag, wrth gwrs, bydd gan yr Aelod—ac eraill—berffaith hawl i graffu ymhellach, drwy broses y Bil yn 2015.

In terms of the RLA figures that the Member raises, around millions of pounds in terms of the funding of this arrangement, may I stress that I am very keen to improve the standards of rental properties across Wales? Of course, the Housing (Wales) Bill, the 'Renting Homes' White Paper, and a future Bill are all about that whole process. I do not recognise the figures that the Member mentions that the RLA has raised with him. I am not entirely sure where those numbers come from, but they are something that I do not recognise.

O ran ffigurau'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl y mae'r Aelod yn eu crybwyll, ynglŷn â miliynau o bunnoedd o ran ariannu'r trefniant hwn, hoffwn bwysleisio fy mod yn awyddus iawn i wella safonau eiddo ar rent ledled Cymru. Wrth gwrs, mae Bil Tai (Cymru), y Papur Gwyn 'Rhentu Cartrefi', a Bil yn y dyfodol yn ymwneud â'r union broses honno. Nid wyf yn adnabod y ffigurau y mae'r Aelod yn dweud bod y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl wedi eu codi gydag ef. Nid wyf yn hollol siŵr o ble y daw'r ffigurau hynny, ond nid wyf yn eu hadnabod.

The issue around agricultural workers is something that I will ask my team to look at closely, in terms of ensuring that, wherever you are in Wales, tenancy is important to all, and that is something that I hope the Bill will address.

Mae'r mater ynghylch gweithwyr amaethyddol yn rhywbeth y byddaf yn gofyn i'm tîm edrych arno'n ofalus, o ran sicrhau, ble bynnag yr ydych yng Nghymru, fod tenantiaethau'n bwysig i bawb, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn gobeithio y bydd y Bil yn rhoi sylw iddo.

15:35 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Jocelyn Davies, llefarydd Plaid Cymru ar dai.

I call on Jocelyn Davies, the Plaid Cymru spokesperson on housing.

15:35 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As everyone has recognised, the private rented sector is vital to our long-term housing ambitions, and it is important therefore that we have a framework that strikes the balance between protection for tenants and fairness for landlords. The Law Commission should be commended for the work that it has done on this issue. The private rented sector may very well be a choice for many, particularly in the financial context that we now live in, but as a result of welfare reform, specifically the changes to housing benefit, some people are being pushed into renting privately with some reluctance.

Fel y mae pawb wedi'i gydnabod, mae'r sector rhentu preifat yn allweddol i'n huchelgeisiau hirdymor o ran tai, ac mae'n bwysig felly fod gennym fframwaith sy'n cadw'r ddysgl yn wastad rhwng diogelwch i denantiaid a thegwch i landlordiaid. Dylid canmol Comisiwn y Gyfraith am y gwaith y mae wedi'i wneud ar y mater hwn. Efallai'n wir fod y sector rhentu preifat yn rhywbeth y mae llawer o bobl yn ei ddewis, yn enwedig yn y cyd-destun ariannol yr ydym yn byw ynddo yn awr, ond yn sgil diwygio lles, ac yn benodol y newidiadau i'r budd-dal tai, mae rhai pobl yn cael eu gwthio i rentu'n breifat â rhywfaint o amharodrwydd.

I have some specific questions that I would like to ask the Minister in terms of the responses that he has received as part of the consultation, although I would have welcomed a little more time between the publication of the responses and his statement today. I mentioned the importance of striking a balance between the rights and responsibilities of tenants, and one of the elements relates to anti-social behaviour that poses significant harm to other tenants. It is important that the Minister gives us more information on what he means by 'significant harm'. The enforcement of the new framework is important, and it is therefore necessary that tenants and landlords are clear about what that term means.

Mae gennyf rai cwestiynau penodol yr hoffwn eu gofyn i'r Gweinidog ynglŷn â'r ymatebion y mae wedi'u cael yn rhan o'r ymgynghoriad, er y byddai'n dda gennyf fod wedi cael ychydig mwy o amser rhwng cyhoeddi'r ymatebion a'i ddatganiad heddiw. Soniais am bwysigrwydd cadw'r ddysgl yn wastad rhwng hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid, ac mae un o'r elfennau'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n achosi niwed sylweddol i denantiaid eraill. Mae'n bwysig bod y Gweinidog yn rhoi mwy o wybodaeth inni am yr hyn y mae'n ei olygu wrth 'niwed sylweddol'. Mae gorfodi'r fframwaith newydd yn bwysig, ac felly mae'n rhaid i denantiaid a landlordiaid fod yn glir am ystyr y term hwnnw.

I also seek the Minister's views on long-term tenancies because security for tenants is important, but I found in my experience in Government that international examples tend to indicate that mandatory longer term tenancies can often be counter-productive, because it sometimes means that landlords will not take those seeking such tenancies in the first place, preferring to choose people who they think will stay for shorter periods, such as those without families. How do you intend to overcome this?

Hoffwn hefyd gael barn y Gweinidog am denantiaethau hirdymor oherwydd mae diogelwch i denantiaid yn bwysig, ond o'm profiad i yn y Llywodraeth gwelais fod enghreifftiau rhyngwladol yn tueddu i ddangos bod tenantiaethau tymor hwy gorfodol yn aml yn gallu bod yn wrthgynhyrchiol, oherwydd mae hynny weithiau'n golygu na fydd landlordiaid yn derbyn pobl sy'n chwilio am denantiaethau o'r fath yn y lle cyntaf, a'u bod yn dewis pobl y maent yn credu y byddant yn aros am gyfnodau byrrach, megis pobl heb deuluoedd. Sut ydych chi'n bwriadu goresgyn hyn?

From the responses that the Government has received to the consultation on the White Paper, it is obvious that there is overwhelming support for improving the legal framework, and I think that simplification is desired across the sector; housing law is found in far too many places. However, there seems to be some concern in the private and social sectors as to the timing of the introduction of the new framework in terms of ensuring, for example, that England-based landlord with properties here have time to familiarise themselves with the new framework in this country. We must also be mindful of the ongoing impact of welfare reform. Perhaps you would enlighten us on your plans.

O'r ymatebion y mae'r Llywodraeth wedi'u cael i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, mae'n amlwg bod cefnogaeth aruthrol i wella'r fframwaith cyfreithiol, a chredaf fod symleiddio'n rhywbeth y mae ar bobl ei eisiau ar draws y sector; mae cyfraith tai i'w chael mewn gormod o lefydd o lawer. Fodd bynnag, ymddengys bod rhywfaint o bryder yn y sectorau preifat a chymdeithasol am amseriad cyflwyno'r fframwaith newydd o ran sicrhau, er enghraifft, fod landlord sydd wedi'i leoli yn Lloegr ac sydd ag eiddo yma yn cael amser i ymgyfarwyddo â'r fframwaith newydd yn y wlad hon. Rhaid inni hefyd fod yn ymwybodol o effaith barhaus diwygio lles. Efallai y gallwch ein rhoi ar ben y ffordd ynglŷn â'ch cynlluniau.

I very much welcome the incorporation of domestic abuse as an element of prohibited conduct. There are those who have said that the definition in the White Paper is too narrow. Will the Minister agree to add the other things that he normally refers to as 'domestic abuse'—psychological, emotional, financial and sexual abuse—as criteria for domestic abuse?

Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y ffaith fod cam-drin domestig wedi'i ymgorffori'n elfen o ymddygiad gwaharddedig. Mae rhai pobl wedi dweud bod y diffiniad yn y Papur Gwyn yn rhy gul. A wnaiff y Gweinidog gytuno i ychwanegu'r pethau eraill y bydd fel arfer yn cyfeirio atynt fel 'cam-drin domestig'—cam-drin seicolegol, emosiynol, ariannol a rhywiol—fel meini prawf ar gyfer cam-drin domestig?

There were interesting responses to the consultation in relation to renting by young people aged between 16 and 18, with many respondents raising concerns about the broader needs of that age group. I noted that the Children's Commissioner for Wales stressed the need for accompanying guidance on the provision of effective tenancy support. I would be interested to hear if you have given that any thought.

Cafwyd ymatebion diddorol i'r ymgynghoriad ynglŷn â rhentu gan bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed; roedd llawer o'r ymatebwyr yn mynegi pryderon am anghenion ehangach y grŵp oedran hwnnw. Nodais fod Comisiynydd Plant Cymru'n pwysleisio bod angen canllawiau cysylltiedig ar ddarparu cymorth effeithiol i denantiaethau. Byddai gennyf ddiddordeb clywed a ydych wedi ystyried hynny o gwbl.

I very much welcome the proposal on joint tenancies, and I am sure that many Members here have helped constituents try to get a tenancy assigned to them when the other joint tenant has left the property, often after a relationship breakdown and they have absolutely no interest in helping the remaining tenant to stay in the property. Much time, effort and court time has been devoted to this matter, which I am pleased to see that you will be finally resolving.

Rwyf yn croesawu'n fawr y cynnig ar denantiaethau ar y cyd, ac rwyf yn siŵr bod llawer o Aelodau yma wedi helpu etholwyr i geisio cael tenantiaeth wedi'i neilltuo iddynt pan fydd y cyd-denant arall wedi gadael yr eiddo, yn aml ar ôl i berthynas chwalu pan na fydd ganddynt ddim diddordeb o gwbl mewn helpu'r tenant sydd ar ôl i aros yn yr eiddo. Mae llawer o amser, ymdrech ac amser y llys wedi eu neilltuo i'r mater hwn, ac rwyf yn falch o weld y byddwch yn ei ddatrys o'r diwedd.

The standardisation of eviction for rent arrears between housing associations and local authorities is to be welcomed, but you have yet to decide about ground 8. Perhaps you would outline to us why you are still undecided, and what factors you will be taking into account in coming to a conclusion on that. We also very much welcome the fact that you are confronting the issue of retaliatory evictions, and I would like to know how you are going to afford tenants statutory protections in that regard.

Dylid croesawu safoni gweithdrefnau troi allan am ôl-ddyledion rhent rhwng cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol, ond nid ydych wedi gwneud penderfyniad am sail 8 eto. Efallai y gallech amlinellu pam eich bod yn dal heb benderfynu, a pha ffactorau y byddwch yn eu hystyried wrth lunio casgliad am hynny. Rydym hefyd yn croesawu'n fawr y ffaith eich bod yn mynd i'r afael â mater troi allan dialgar, a hoffwn wybod sut yr ydych yn mynd i roi diogelwch statudol i denantiaid yn hynny o beth.

Many promises have been made in relation to what is going to come in housing legislation in the future, including dealing with service charges. Will this Bill, therefore, address unreasonable service charges for leaseholders?

Mae llawer o addewidion wedi eu gwneud ynglŷn â'r hyn a fydd mewn deddfwriaeth tai yn y dyfodol, gan gynnwys ymdrin â thaliadau gwasanaeth. A fydd y Bil hwn, felly, yn rhoi sylw i daliadau gwasanaeth afresymol i lesddeiliaid?

15:40 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her broad support and comprehensive list of questions. I will try to deal with as many as I possibly can.

Diolch i'r Aelod am ei chefnogaeth gyffredinol a'i rhestr gynhwysfawr o gwestiynau. Ceisiaf roi sylw i gynifer ag y gallaf.

I will start with the issue around ground 8. I thought that I was quite clear on that. I support the removal of ground 8. If I said something different to Mark Isherwood, I apologise for that. To be very clear, we are keen to remove the ground 8 provision. The RSLs are concerned about that, but I am convinced in my own mind that that will be part of the Bill moving forward.

Rwyf am ddechrau â'r materion sy'n ymwneud â sail 8. Roeddwn yn meddwl fy mod yn eithaf clir ar hynny. Rwyf o blaid cael gwared ar sail 8. Os dywedais rywbeth yn wahanol wrth Mark Isherwood, rwyf yn ymddiheuro am hynny. A bod yn glir iawn, rydym yn awyddus i gael gwared ar ddarpariaeth sail 8. Mae'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn pryderu am hynny, ond rwyf i'n argyhoeddedig y bydd hynny'n rhan o'r Bil wrth symud ymlaen.

I will pick up on the issue of implementation. In terms of the final detail of when this will be implemented, the Bill will hopefully be undertaking its passage in 2015. We will look very carefully at the handling to ensure that, in the case of tenancy agreements with landlords outside Wales, landlords fully understand the consequences of the law. We will look at the implementation process and profile of that during the passage of the Bill.

Rhoddaf sylw i fater rhoi hyn ar waith. O ran y manylion terfynol ynglŷn â phryd y caiff hyn ei roi ar waith, y gobaith yw y bydd y Bil yn pasio yn 2015. Byddwn yn edrych yn ofalus iawn ar y ffordd y caiff ei drin er mwyn sicrhau, yn achos cytundebau tenantiaeth â landlordiaid y tu allan i Gymru, fod landlordiaid yn deall yn iawn beth yw canlyniadau'r gyfraith. Byddwn yn edrych ar y broses o roi hynny ar waith, a phroffil hynny, wrth i'r Bil fynd rhagddo.

I thank the Member particularly for her support around the issues of anti-social behaviour and domestic abuse. The proposals on statutory prohibited conduct to address housing-related anti-social behaviour were strongly supported and 95% of the respondents were supportive of this process. We welcome the increasing legal remedies available to landlords that help to deliver a victim-centred approach to tackling anti-social behaviour, and that is why this 'prohibited conduct' term will be in every rental contract. In terms of domestic abuse, the proposed prohibited conduct term will also include provision to deal more effectively with domestic abuse. I will be working very closely with the Minister for Local Government and Government Business, who will be introducing the ending violence against women Bill. So, the definition will play an important part. We want to make sure that we are introducing legislation that is fit for purpose for the future and that we complement each other in terms of taking this very important issue forward.

Diolch yn arbennig i'r Aelod am ei chefnogaeth i faterion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig. Cafodd y cynigion ar ymddygiad gwaharddedig statudol i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai eu cefnogi'n gryf ac roedd 95% o'r rhai a ymatebodd yn gefnogol i'r broses hon. Rydym yn croesawu'r nifer cynyddol o atebion cyfreithiol sydd ar gael i landlordiaid i'w helpu i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, a dyna pam y bydd y teler 'ymddygiad gwaharddedig' ym mhob contract rhentu. O ran cam-drin domestig, bydd y teler ymddygiad gwaharddedig arfaethedig hefyd yn cynnwys darpariaeth i ymdrin yn fwy effeithiol â cham-drin domestig. Byddaf yn cydweithio'n agos iawn â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, a fydd yn cyflwyno'r Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod. Felly, bydd y diffiniad yn chwarae rhan bwysig. Rydym am wneud yn siŵr ein bod yn cyflwyno deddfwriaeth sy'n addas at ei diben ar gyfer y dyfodol, a'n bod yn ategu ein gilydd o ran symud ymlaen â'r mater pwysig iawn hwn.

Finally, I will touch on the issue that the Member raised around renting by younger people. The proposal was supported by three out of four respondents, but several respondents also raised concern regarding the appropriateness of a 16 to 17-year-old, predominantly around the guidance issue, which I will be seeking to include in the legislation process as we move forward. I think that it is important that we work alongside the Children's Commissioner for Wales, so that we can fully understand the needs of younger persons in the renting of homes. That is something that I will take on board as we move forward with the progress of the Bill.

Yn olaf, soniaf am y mater a gododd yr Aelod ynglŷn â rhentu gan bobl iau. Cafodd y cynnig ei gefnogi gan dri o bob pedwar o ymatebwyr, ond cododd nifer o ymatebwyr bryder hefyd ynghylch priodoldeb pobl ifanc 16 i 17 mlwydd oed, yn bennaf o ran mater canllawiau; byddaf yn ceisio cynnwys hynny yn y broses ddeddfwriaeth wrth inni symud ymlaen. Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn gweithio ochr yn ochr â Chomisiynydd Plant Cymru, er mwyn inni allu deall yn iawn beth yw anghenion pobl ifanc o ran rhentu cartrefi. Mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn ei ystyried wrth inni symud ymlaen â hynt y Bil.

15:43 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru ar dai, Peter Black.

I call on the Welsh Liberal Democrats' spokesperson on housing, Peter Black.

15:43 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I start by welcoming the response to this consultation. The Welsh Liberal Democrats support the proposals in this White Paper and we certainly support the need to take this forward into legislation. I would certainly hope that, if this legislation goes through before the end of the Assembly's term in 2016, it will make a huge difference to the way that tenants are able to interact in privately rented and socially rented accommodation.

Weinidog, rwyf am ddechrau drwy groesawu'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cefnogi'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn ac yn sicr yn cefnogi'r angen i fwrw ymlaen â hyn mewn deddfwriaeth. Byddwn yn sicr yn gobeithio, os caiff y ddeddfwriaeth hon ei chwblhau cyn diwedd tymor y Cynulliad yn 2016, y bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r ffordd y mae tenantiaid yn gallu rhyngweithio mewn llety rhent preifat a rhent cymdeithasol.

Most of the questions that I had have been asked, so I will limit myself to two queries. In your statement, you talked about legislation preventing retaliatory eviction, where a landlord seeks to evict a tenant who has complained of disrepair or a health and safety problem. You say that you will give that matter further consideration—it was near the end of your statement. I very much support that. The issue for many tenants—apart from that particular issue—is how they go about getting those repairs done. Often, when a complaint is made to an environmental health department, it can require quite protracted work on behalf of the environmental health officer in terms of serving notices et cetera. If there was some mechanism built in to the standard contract that would give the tenant a way of getting these repairs done more quickly, I am sure that would be something that would be worthwhile and worth considering.

Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau a oedd gennyf wedi eu gofyn, felly cadwaf at ddau ymholiad. Yn eich datganiad, soniasoch am ddeddfwriaeth i atal troi allan dialgar, lle mae landlord yn ceisio troi allan tenant sydd wedi cwyno am ddiffyg atgyweirio neu broblem iechyd a diogelwch. Rydych yn dweud y byddwch yn ystyried y mater ymhellach—roedd hynny'n agos at ddiwedd eich datganiad. Rwyf yn cefnogi hynny'n fawr iawn. Y broblem i nifer o denantiaid—ar wahân i'r mater penodol hwnnw—yw sut i fynd ati i gael rhywun i wneud y gwaith atgyweirio hwnnw. Yn aml, pan fo cwyn yn cael ei gwneud i adran iechyd yr amgylchedd, gall fod angen i'r swyddog iechyd yr amgylchedd wneud gwaith eithaf hirfaith o ran cyflwyno hysbysiadau ac ati. Pe bai rhyw fath o fecanwaith wedi'i gynnwys yn y contract safonol a fyddai'n cynnig ffordd i'r tenant sicrhau bod yr atgyweiriadau hyn yn cael eu gwneud yn gynt, rwyf yn siŵr y byddai hynny'n rhywbeth a fyddai'n werth chweil ac yn werth ei ystyried.

My second and final query is in relation to anti-social behaviour. Again, I very much welcome the fact that a prohibited conduct term is to be considered for every contract and that that has been welcomed by the vast majority of respondents. Again, though, the issue is one of implementation. I have had a number of cases in my time as an elected representative where a tenant has been guilty of anti-social behaviour, but the burden of proof has been very difficult in terms of getting an eviction as a result. I think it is worthwhile looking at what burden of proof will be required by the landlord to secure an eviction where anti-social behaviour is becoming intolerable for the person's neighbours, especially where, in some instances, it turns out that the easiest way is to move the person who is suffering as a result of that anti-social behaviour. I think it is worth looking at how that can be improved upon.

Mae fy ail ymholiad, a'r olaf, yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Unwaith eto, rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith y caiff teler ymddygiad gwaharddedig ei ystyried ar gyfer pob contract a bod mwyafrif llethol yr ymatebwyr wedi croesawu hynny. Unwaith eto, fodd bynnag, mae'n fater o weithredu. Rwyf wedi gweld nifer o achosion yn fy amser fel cynrychiolydd etholedig lle mae tenantiaid wedi bod yn euog o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond lle mae'r baich profi wedi bod yn anodd iawn o ran eu troi allan o ganlyniad. Rwyf yn credu ei bod yn werth edrych ar ba faich profi y bydd ei angen ar y landlord i sicrhau y gellir troi pobl allan pan fo ymddygiad gwrthgymdeithasol yn mynd yn annioddefol i'w cymdogion, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos, mewn rhai achosion, mai'r ffordd symlaf yw symud yr unigolyn sy'n dioddef o ganlyniad i'r ymddygiad gwrthgymdeithasol. Credaf ei bod yn werth edrych ar sut y gellir gwella hynny.

15:45

## Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for your very constructive questions this afternoon. I will bear them in mind in the drafting of the Bill. I want to pick up on two very important points that the Member raises about the relationship between tenants and landlords and how they go about repairs when they feel at risk for making the claim on that.

Diolch am eich cwestiynau adeiladol iawn y prynhawn yma. Byddaf yn eu cofio wrth ddrafftio'r Bil. Rwyf am gyfeirio at ddau bwynt pwysig iawn y mae'r Aelod yn eu codi am y berthynas rhwng tenantiaid a landlordiaid a sut y maent yn mynd ati i drefnu atgyweiriadau pan fyddant yn teimlo eu bod mewn perygl am iddynt hawlio hynny.

This proposal within the White Paper and the future Bill is part of a suite of tools, including the housing Bill, where the licensing regime of landlords and contracts are really important. That is why we will look to see that where there is an agreement through the simplified contract between the landlord and the tenant that will and must be adhered to. That will have an effect on the licensing of the individual who has a tenancy agreement, subject to failure to comply. That is being worked through with my team across this element of the Bill and the housing Bill.

Mae'r cynnig hwn yn y Papur Gwyn a'r Bil yn y dyfodol yn rhan o gyfres o offer, gan gynnwys y Bil tai, lle mae cyfundrefn drwyddedu landlordiaid a chontractau yn bwysig iawn. Dyna pam y byddwn yn ceisio sicrhau, lle mae cytundeb drwy'r contract symlach rhwng y landlord a'r tenant, fod yn rhaid glynu ato a bod hynny'n digwydd. Bydd hynny'n effeithio ar drwyddedu'r unigolyn sydd â chytundeb tenantiaeth, os yw'n methu â chydymffurfio. Mae fy nhîm yn gweithio drwy hynny ar draws yr elfen hon ar y Bil a'r Bil tai.

With regard to anti-social behaviour, I am very keen to ensure that we have safe homes for individuals wherever they are in Wales. I am very keen to ensure that we tackle the issues around anti-social behaviour and domestic violence that happen across Wales. We have a review on anti-social behaviour policy. I am doing some further work with major organisations that deal with this very effectively, and I will bring more detail to the Assembly when we have some more evidence available to look at the issues around burden of proof et cetera, which is tricky, but is not beyond the realms. Some organisations deal with this very effectively and that is what I seek to help with this Bill and other elements of the suite of tools that we have within the housing division.

O ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, rwyf yn awyddus iawn i sicrhau bod gennym gartrefi diogel i unigolion ble bynnag y maent yng Nghymru. Rwyf yn awyddus iawn i sicrhau ein bod yn ymdrin â'r materion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig sy'n digwydd ledled Cymru. Mae gennym adolygiad o bolisi ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rwyf yn gwneud rhywfaint o waith pellach gyda sefydliadau mawr sy'n ymdrin â hyn yn effeithiol iawn, a byddaf yn dod â mwy o fanylion i'r Cynulliad pan fydd gennym fwy o dystiolaeth er mwyn edrych ar y materion sy'n ymwneud â baich profi ac ati, sy'n anodd, ond nid yn amhosibl. Mae rhai sefydliadau'n ymdrin â hyn yn effeithiol iawn a dyna'r hyn yr wyf yn ceisio ei helpu â'r Bil hwn ac elfennau eraill ar y gyfres o offer sydd gennym o fewn yr is-adran tai.

15:47

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome your statement. Minister, your 'prohibited conduct term' in every contract, so that a small minority acting anti-socially can be dealt with, will be very warmly welcomed in my constituency. I also warmly welcome the requirement for landlords to ensure that there are no serious health and safety problems.

Croesawaf eich datganiad. Weinidog, bydd croeso cynnes iawn yn fy etholaeth i i'ch 'teler ymddygiad gwaharddedig' ym mhob contract, er mwyn gallu ymdrin â lleiafrif bach sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Rwyf hefyd yn croesawu'r gofyniad i landlordiaid sicrhau nad oes problemau iechyd a diogelwch difrifol.

I have two questions. In Swansea, we have a lot of landlords who live outside the area, often in the south of England and, occasionally, outside of Europe. Will they have a duty to deal with serious anti-social behaviour via the prohibited conduct term? My second question is: will electrical safety—the cause of 68% of accidental fires—be treated with the same level of seriousness as gas safety?

Mae gennyf ddau gwestiwn. Yn Abertawe, mae gennym lawer o landlordiaid sy'n byw y tu allan i'r ardal, yn aml yn ne Lloegr ac, weithiau, y tu allan i Ewrop. A fydd yn ddyletswydd arnynt i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol drwy'r teler ymddygiad gwaharddedig? Fy ail gwestiwn yw hyn: a gaiff diogelwch trydanol—sy'n achosi 68% o danau damweiniol—ei drin yr un mor ddifrifol â diogelwch nwy?

15:48

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absent landlords—those outside of Wales—will still have a duty in terms of what they are expected to do as a landlord. That is why I mentioned to Peter Black earlier the licensing scheme and being a fit-and-proper person to be in charge of a licensing tenancy. In terms of health and safety, for far too long we have had places that people rent, and have had tenancy agreements with unscrupulous landlords for, that are, quite frankly, dangerous. We are very lucky that many more people have not been killed by dangerous properties—many of them students across Wales, who leave home for the first time and are placed in accommodation that just is not fit for purpose.

Bydd gan landlordiaid absennol—rhai y tu allan i Gymru—ddyletswydd o hyd o ran yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud fel landlord. Dyna pam y soniais wrth Peter Black yn gynharach am y cynllun trwyddedu ac am fod yn berson addas a phriodol i fod yn gyfrifol am denantiaeth trwyddedu. O ran iechyd a diogelwch, am yn rhy hir o lawer mae pobl wedi bod yn rhentu lleoedd, dan gytundebau tenantiaeth â landlordiaid diegwyddor, sydd, a dweud y gwir, yn beryglus. Rydym yn ffodus iawn nad oes mwy o lawer o bobl wedi cael eu lladd gan eiddo peryglus—llawer ohonynt yn fyfyrwyr ledled Cymru, sy'n gadael cartref am y tro cyntaf ac yn cael eu rhoi mewn llety sydd, a dweud y gwir, yn anaddas at y diben.

We hope that the housing Bill will help to address that. Complemented by the 'Renting Homes' White Paper and future Bill, this will be about having responsible landlords—and there are many across Wales and the UK. However, there are some who, quite frankly, should not be licensed and should not be having people in their homes and offering accommodation to anybody in terms of renting a property in the future. We will tackle these issues, along with anti-social behaviour and domestic abuse.

Rydym yn gobeithio y bydd y Bil tai yn helpu i ymdrin â hynny. Law yn llaw â'r Papur Gwyn 'Rhentu Cartrefi' a'r Bil yn y dyfodol, bydd hyn yn fater o sicrhau bod gennym landlordiaid cyfrifol—ac mae llawer ohonynt ar draws Cymru a'r DU. Fodd bynnag, mae rhai, a dweud y gwir, na ddylid bod wedi'u trwyddedu ac na ddylent fod yn rhoi pobl yn eu cartrefi nac yn cynnig llety i neb o ran rhentu eiddo yn y dyfodol. Byddwn yn ymdrin â'r materion hyn, ynghyd ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig.

15:49 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your statement this afternoon, Minister. I am particularly pleased that the Welsh Government is taking radical action to reform and reshape the private rented sector in Wales and I also particularly welcome the announcements that you have made about tackling domestic violence and anti-social behaviour. I just wanted to touch on the point that Jocelyn Davies raised. I am grateful for your clarification to her that the Welsh Government is indeed committed to abolishing mandatory ground 8, and I very much welcome that stance. I wonder whether you could say today, Minister, whether you agree that it is essential that courts have the discretion that ground 8 takes from them in dealing with arrears, particularly in the current climate where people are being hit from all directions by welfare reform, and that it is absolutely essential that, where tenants are engaging with social landlords, they should be able to remain in their properties.

Diolch am eich datganiad y prynhawn yma, Weinidog. Rwyf yn arbennig o falch bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau radical i ddiwygio ac ail-lunio'r sector rhentu preifat yng Nghymru ac rwyf hefyd yn croesawu'n arbennig y cyhoeddiadau yr ydych wedi'u gwneud am ymdrin â thrais yn y cartref ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Hoffwn sôn am y pwynt a gododd Jocelyn Davies. Rwyf yn ddiolchgar am eich eglurhad iddi fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddileu sail 8 orfodol, a chroesawaf y safiad hwnnw'n fawr iawn. Tybed a allech ddweud heddiw, Weinidog, a ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol fod gan lysoedd y disgresiwn y mae sail 8 yn ei gymryd oddi arnynt wrth ymdrin ag ôl-ddyledion, yn enwedig yn yr hinsawdd bresennol lle mae'r diwygiadau lles yn taro pobl o bob cyfeiriad, a'i bod yn gwbl hanfodol, pan fo tenantiaid yn ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol, y dylent allu aros yn eu heiddo?

15:50 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her continued support and approach to tackling the issue of ground 8. I think that I have been very clear in terms of what my intention will be when we draft the Bill in the future, but I think that the key to resolving this issue is engagement of the tenant. There are two elements to dealing with this: the tenant and the landlord relationship, and I think that the engagement part of that will give some comfort to organisations that are concerned about ground 8 being removed. I am more confident that we can work better together with the courts having some discretion in the process, moving forward.

Diolch i'r Aelod am ei chefnogaeth barhaus ac am ei hymagwedd tuag at ymdrin â sail 8. Rwyf yn meddwl fy mod wedi bod yn glir iawn o ran beth fydd fy mwriad pan fyddwn yn drafftio'r Bil yn y dyfodol, ond credaf mai'r hyn sy'n allweddol er mwyn datrys y mater hwn yw ymgysylltu â'r tenant. Mae dwy elfen i ymdrin â hyn: y berthynas â thenantiaid a'r berthynas â landlordiaid, ac rwyf yn meddwl y bydd yr ymgysylltiad hwnnw'n rhoi rhywfaint o gysur i sefydliadau sy'n pryderu am gael gwared ar sail 8. Rwyf yn fwy hyderus y gallwn gydweithio'n well drwy roi rhywfaint o ddisgresiwn i'r llysoedd yn y broses, wrth symud ymlaen.

## Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg (Cymru)

## Debate on the General Principles of the Education (Wales) Bill

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw William Graham.*

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of William Graham.*

Cynnig NDM5376 Huw Lewis

Motion NDM5376 Huw Lewis

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Addysg (Cymru).

Agrees to the general principles of the Education (Wales) Bill.

15:51 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to have the opportunity to open the debate on the general principles of the Education (Wales) Bill; which I introduced in July. As I said in my statement earlier today on this year's PISA results, it is important that we now continue with the job of work that we have started to improve educational standards and attainment in our schools. I believe that this Bill will, in many important and significant ways, help us to do just that.

Rwyf yn falch o gael y cyfle i agor y ddadl am egwyddorion cyffredinol Bil Addysg (Cymru), a gyflwynais ym mis Gorffennaf. Fel y dywedais yn fy natganiad yn gynharach heddiw am ganlyniadau PISA eleni, mae'n bwysig ein bod yn awr yn parhau â'r gwaith yr ydym wedi'i ddechrau i wella safonau a chyrhaeddiad addysgol yn ein hysgolion. Rwyf yn credu y bydd y Bil hwn, mewn llawer o ffyrdd pwysig ac arwyddocaol, yn ein helpu i wneud hynny.

I am grateful to Ann Jones and members of the Children and Young People Committee and David Melding and members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee for their thorough scrutiny and the reports of their findings. Each of the committees' 31 recommendations will be considered carefully on their merits as we move towards Stage 2.

Rwyf yn ddiolchgar i Ann Jones ac aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac i David Melding ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu gwaith craffu trylwyr ac am yr adroddiadau ar eu canfyddiadau. Caiff pob un o 31 o argymhellion y pwyllgorau eu hystyried yn ofalus yn ôl eu rhinweddau wrth inni symud tuag at Gyfnod 2.

I would, however, like to start by quashing a few myths about this Bill—the apparent 'serious safety loophole', for instance, in relation to independent schools and its so-called 'Trojan horse' nature in particular. Everyone working with children and young people is required to have the necessary disclosure and barring service checks, including those working in independent schools; this Bill does not change that. Estyn inspects independent schools against the standards set out in the Independent School Standards (Wales) Regulations 2003. Standards include the quality of education and the suitability of staff. Failure to maintain standards will result in enforcement action, which could ultimately lead to the school being forced to close. The notion that the independent sector may be employing swathes of teachers who have been 'struck off' by the maintained sector simply does not hold water. An independent school can check the current register as part of its pre-employment checks and this ability to check the register would not change under the new arrangements. This Bill was simply not drafted with the intention of covering independent school staff; we do not have an evidence base to support legislation in that regard, nor do we have an assessment of the impact that extending its provisions to this sector might have. We need to remember that we are talking about people's careers and livelihoods here, and I, for one, have no intention of bringing forward legislation on the hoof without proper consideration. However, given the strength of feeling of Members, I am minded to bring forward an amendment to the Bill at Stage 2 to ensure that there is scope to include the independent sector at a future date if there is clear evidence to support such a move.

Hoffwn ddechrau, fodd bynnag, drwy chwalu rhai mythau am y Bil hwn—y 'bwlch diogelwch difrifol' ymddangosiadol, er enghraifft, o ran ysgolion annibynnol a'i natur sydd wedi'i chymharu â 'cheffyl Troea' yn benodol. Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fynd drwy wiriadau gofynnol y gwasanaeth datgelu a gwahardd, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol; nid yw'r Bil hwn yn newid hynny. Mae Estyn yn arolygu ysgolion annibynnol yn unol â'r safonau a nodir yn Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r safonau'n cynnwys ansawdd yr addysg ac addasrwydd staff. Bydd methu â chynnal safonau'n arwain at gamau gorfodi, a allai arwain yn y pen draw at orfod cau'r ysgol. Mae'r syniad y gall y sector annibynnol fod yn cyflogi niferoedd enfawr o athrawon sydd wedi cael eu gwahardd gan y sector a gynhelir yn gwbl ddi-sail. Gall ysgol annibynnol edrych ar y gofrestr gyfredol fel rhan o'i harchwiliadau cyn cyflogi ac ni fyddai'r gallu hwn i edrych ar y gofrestr yn newid o dan y trefniadau newydd. Yn syml, ni chafodd y Bil hwn ei ddrafftio â'r bwriad o ymdrin â staff ysgolion annibynnol; nid oes gennym sail dystiolaeth i gefnogi deddfwriaeth yn hynny o beth, ac nid oes gennym asesiad o effaith bosibl ymestyn ei ddarpariaethau i'r sector hwn. Mae'n rhaid inni gofio ein bod yn sôn am yrfaoedd a bywoliaeth pobl yma, ac nid oes gennyf fi ddim bwriad o gyflwyno deddfwriaeth yn y fan a'r lle heb ystyriaeth briodol. Fodd bynnag, ac ystyried cryfder teimladau'r Aelodau, rwyf yn bwriadu cyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 er mwyn sicrhau bod lle i gynnwys y sector annibynnol yn y dyfodol os ceir tystiolaeth glir i gyfiawnhau hynny.

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 15:55.*

*Peter Black took the Chair at 15:55.*

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

We know from today's PISA results that we need to ensure that our learners benefit from a highly-skilled workforce that is well led. It is practitioners who work directly with learners, and it is practitioners who are responsible for turning national improvement policies and initiatives into reality. We are therefore hugely dependent upon our school workforce to secure the improvement that we seek.

Gwyddom o ganlyniadau PISA heddiw fod angen inni sicrhau bod ein dysgwyr yn elwa o weithlu medrus sy'n cael ei arwain yn dda. Ymarferwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr, ac ymarferwyr sy'n gyfrifol am wireddu polisïau a mentrau gwella cenedlaethol. Felly rydym yn hynod ddibynnol ar ein gweithlu yn yr ysgolion i sicrhau'r gwelliant yr ydym yn ceisio'i sicrhau.

Moving on to concerns over the balance struck between detail on the face of the Bill and matters to be dealt with in secondary legislation, I am content that we have the right balance. The main aims and functions of the education workforce council are clearly set out on the face of the Bill. Prescribing further detail on the face of the Bill would, at best, require frequent revision of primary legislation, and, at worst, reduce the lifespan of the Bill itself. I am firmly of the view that the balance between primary and secondary legislation is not only proportionate, but necessary.

I symud ymlaen at bryderon ynghylch cadw'r ddysgl yn wastad rhwng manylion ar wyneb y Bil a materion yr ymdrinnir â hwy mewn is-ddeddfwriaeth, rwyf yn fodlon bod y cydbwysedd yn iawn gennym. Mae prif amcanion a swyddogaethau cyngor y gweithlu addysg wedi'u nodi'n glir ar wyneb y Bil. Byddai rhagnodi rhagor o fanylion ar wyneb y Bil, ar y gorau, yn golygu bod angen adolygu deddfwriaeth sylfaenol yn aml, ac, ar y gwaethaf, yn lleihau oes y Bil ei hun. Rwyf yn gryf o'r farn bod y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth nid yn unig yn gymesur, ond yn angenrheidiol.

We have sought to apply the Counsel General's guidelines on where to require the affirmative or negative procedure. Members are well sighted on the fact that affirmative or negative legislation is subject to scrutiny. We will consult stakeholders before making regulations, and Members can comment, of course. I can therefore assure Members that the Assembly retains an important scrutiny role in respect of all such legislation, as is right and proper. In light of the Constitutional and Legislative Affairs Committee report, I will review again the procedures chosen and I will write to the committee shortly.

Rydym wedi ceisio defnyddio canllawiau'r Cwnsler Cyffredinol ynglŷn â ble i fynnu'r weithdrefn gadarnhaol neu negyddol. Gŵyr yr Aelodau fod deddfwriaeth gadarnhaol neu negyddol yn destun craffu. Byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gwneud rheoliadau, a gall Aelodau wneud sylwadau, wrth gwrs. Felly, gallaf sicrhau'r Aelodau fod y Cynulliad yn cadw swyddogaeth graffu bwysig o ran pob deddfwriaeth o'r fath, fel sy'n iawn ac yn briodol. Yng ngoleuni adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, byddaf yn adolygu unwaith eto'r gweithdrefnau a ddewiswyd ac yn ysgrifennu at y pwyllgor cyn hir.

The issue of safeguarding has also been raised in relation to the reform of the registration and approval of independent schools in respect of special educational needs. I do not accept that the proposal to abolish the current case-by-case approval needs to be reconsidered. It is the responsibility of the local authority to assess the educational needs of a child and to be satisfied that a child receives suitable provision to meet their needs. I am confident that the provisions will strengthen safeguards, as all schools who accept pupils with statements of SEN will be subject to monitoring visits by Estyn. However, this is not the case where a child has been placed on the basis of a case-by-case approval.

Codwyd mater diogelu hefyd o ran diwygio prosesau cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o safbwynt anghenion addysgol arbennig. Nid wyf yn derbyn bod angen ailystyried y cynnig i ddiddymu'r broses gymeradwyo achos-wrth-achos bresennol. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw asesu anghenion addysgol y plentyn a bod yn fodlon bod plentyn yn cael darpariaeth addas i fodloni ei anghenion. Rwyf yn ffyddiog y bydd y darpariaethau'n cryfhau'r mesurau diogelu, oherwydd bydd pob ysgol sy'n derbyn disgyblion â datganiadau AAA yn cael ymweliadau monitro gan Estyn. Fodd bynnag, nid dyna'r sefyllfa os yw plentyn wedi cael ei leoli ar sail cymeradwyaeth achos wrth achos.

In relation to the provision for post-16 SEN learners, I am concerned that the committee would want to delay this provision, so let me be clear on this point: these provisions would not be included in this Bill if I did not think that they were necessary to benefit learners. The further planned reforms of SEN will build on these foundations, but this Bill provides a real opportunity now to improve and simplify the current system to support this vulnerable group. The changes that we are proposing in this Bill will provide a valuable stepping stone towards wider SEN reform. A staged approach will allow local authorities to manage implementation of reforms on a phased basis. With this in mind, I have no intention of removing these provisions from this Bill.

O ran y ddarpariaeth i ddysgwyr AAA ôl-16, rwyf yn pryderu y byddai'r pwyllgor yn awyddus i ohirio'r ddarpariaeth hon, felly gadewch imi fod yn glir ar y pwynt hwn: ni châi'r darpariaethau hyn eu cynnwys yn y Bil hwn pe na bawn o'r farn eu bod yn angenrheidiol er budd y dysgwyr. Bydd y diwygiadau pellach i AAA a gynlluniwyd yn adeiladu ar y sylfeini hyn, ond mae'r Bil hwn yn rhoi cyfle gwirioneddol yn awr i wella a symleiddio'r system bresennol i gefnogi'r grŵp hwn sy'n agored i niwed. Bydd y newidiadau yr ydym yn eu cynnig yn y Bil hwn yn gam gwerthfawr tuag at ddiwygio AAA yn ehangach. Bydd dull fesul cam yn caniatáu i'r awdurdodau lleol reoli'r gwaith o weithredu'r diwygiadau yn raddol. Ac ystyried hynny, nid oes gennyf ddim bwriad i ddileu'r darpariaethau hyn o'r Bil hwn.

Learners with SEN are generally known to the local authority from an early age. Local collaboration, early identification and planning, and the bringing together of responsibility for funding and management will, in combination, deliver better value for money and increase the range of post-16 provision available to meet individual learners' needs.

Mae awdurdodau lleol at ei gilydd yn gwybod am ddysgwyr ag AAA o oedran cynnar. Bydd cydweithio lleol, adnabod a chynllunio cynnar, a dwyn ynghyd y cyfrifoldeb am ariannu a rheoli, gyda'i gilydd, yn sicrhau gwell gwerth am arian ac yn cynyddu'r ystod o ddarpariaeth ôl-16 sydd ar gael i fodloni anghenion dysgwyr unigol.

The current system provides no incentive for local authorities to be proactive in seeking to develop local solutions to best meet the needs of learners. I strongly believe that the changes proposed in this Bill will address this issue. These provisions will be underpinned by a statutory code of practice that will provide strong direction, clarity and consistency, ensuring that learners' individual educational needs are always put first. It will guide authorities in the transition process and set out arrangements for carrying out assessments. The code will direct authorities in the application of their power, making clear the expectation that all learners who would benefit from an assessment should get one.

Nid yw'r system bresennol yn cynnig unrhyw gymhelliad i awdurdodau lleol i fod yn rhagweithiol wrth geisio datblygu'r atebion lleol gorau i fodloni anghenion dysgwyr. Credaf yn gryf y bydd y newidiadau arfaethedig yn y Bil hwn yn ymdrin â'r mater hwnnw. Yn ategu'r darpariaethau hyn bydd cod ymarfer statudol a fydd yn rhoi cyfeiriad cryf, eglurder a chysondeb, ac yn sicrhau bod anghenion addysgol unigol dysgwyr yn cael blaenoriaeth bob amser. Bydd yn llywio'r awdurdodau drwy'r broses drosglwyddo ac yn nodi trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau. Bydd y cod yn cyfarwyddo awdurdodau wrth arfer eu grym, ac yn ei gwneud yn glir bod disgwyl i bob dysgwr a fyddai'n elwa o hynny gael asesiad.

Learners' rights will be further protected by the introduction of a right of appeal to the SEN tribunal for Wales for learners with learning difficulties aged up to 25. I will be considering the potential to shorten the proposed time period prior to submission of an appeal. I have also asked officials to begin work immediately with local authorities to ensure that they are well prepared for their new duties and are supported in forming good working relationships with further education institutions and specialist providers. In conclusion, I thank the committees for their constructive engagement and ideas for improving the Bill. I have not been able to respond to every recommendation today, but I look forward to further debate during Stage 2 scrutiny. I urge Members to support the Bill today.

Bydd hawliau dysgwyr yn cael eu diogelu ymhellach drwy gyflwyno hawl i apelio i dribiwnlys AAA Cymru i ddysgwyr ag anawsterau dysgu hyd at 25 oed. Byddaf yn ystyried y potensial i gwtogi'r cyfnod arfaethedig cyn cyflwyno apêl. Rwyf hefyd wedi gofyn i swyddogion ddechrau gweithio ar unwaith gydag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod wedi ymbaratoi'n dda at eu dyletswyddau newydd a'u bod yn cael eu cefnogi i feithrin perthynas waith dda â sefydliadau addysg bellach a darparwyr arbenigol. I gloi, hoffwn ddiolch i'r pwyllgorau am eu cyfraniad adeiladol a'u syniadau i wella'r Bil. Nid wyf wedi gallu ymateb i bob argymhelliad heddiw, ond rwyf yn edrych ymlaen at drafodaeth bellach yn ystod craffu Cyfnod 2. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r Bil heddiw.

16:00 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Children and Young People Committee, Ann Jones.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Ann Jones.

16:00 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This Bill was referred to the Children and Young People Committee for its Stage 1 scrutiny. The committee issued a call for evidence and invited a number of witnesses to give oral evidence, as well as written evidence. On the general principles of the Bill, Members will note from the report that the committee agrees with the general principles of much of the Bill, particularly around the education workforce and the harmonisation of school term times. However, the committee was unconvinced by the inclusion of the special educational needs provisions in the Bill. The committee also heard from a number of witnesses who also thought that the Bill was not the appropriate vehicle for such important provisions. The committee feels that there are clear advantages to having special educational needs in a future Bill, but, as recommendation 1 of our report goes on to say, the committee feels that there should not be any delay in providing the Bill or any provisions for SEN. I heard what the Minister said on that.

Cafodd y Bil ei gyfeirio at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar gyfer craffu Cyfnod 1. Galwodd y Pwyllgor am dystiolaeth a gwahodd nifer o dystion i roi tystiolaeth ar lafar, yn ogystal â thystiolaeth ysgrifenedig. Ar egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd yr Aelodau'n sylwi yn yr adroddiad fod y pwyllgor yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol cyfran helaeth o'r Bil, yn enwedig o ran y gweithlu addysg a chysoni tymhorau ysgol. Fodd bynnag, nid oedd y pwyllgor wedi'i argyhoeddi ynghylch cynnwys y darpariaethau anghenion addysgol arbennig yn y Bil. Clywodd y pwyllgor hefyd gan nifer o dystion a oedd hefyd o'r farn nad y Bil oedd y cyfrwng priodol ar gyfer darpariaethau pwysig o'r fath. Mae'r pwyllgor o'r farn bod manteision clir i gynnwys anghenion addysgol arbennig mewn Bil yn y dyfodol, ond, fel y mae argymhelliad 1 ein hadroddiad yn mynd ymlaen i'w ddweud, mae'r pwyllgor o'r farn na ddylai fod unrhyw oedi wrth ddarparu'r Bil nac unrhyw ddarpariaethau AAA. Clywais yr hyn a ddywedodd y Gweinidog am hynny.

I will turn to the main body of the report and the education workforce council. On the issue of the registration of the wider workforce, the committee received evidence showing a consensus in support of extending the requirement to register all education staff, including teaching assistants.We heard mixed views on whether or not it would be appropriate to require youth workers to register in the future. Therefore, the committee feels that further work needs to be done before youth workers are included, but we were sympathetic to that view. The committee is content with the extension of registration requirements and we recommend that the Minister brings forward draft regulations for consideration. We heard some concerns from witnesses about the exclusion of teachers and staff in independent schools from registration. We share those concerns and recommend that the Government should bring forward further recommendations.

Trof at brif gorff yr adroddiad a chyngor y gweithlu addysg. O ran cofrestru'r gweithlu ehangach, clywodd y pwyllgor dystiolaeth yn dangos consensws o blaid ymestyn y gofyniad i gofrestru'r holl staff addysg, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu. Clywsom farn gymysg ynghylch p'un a fyddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i weithwyr ieuenctid gofrestru yn y dyfodol. Felly, mae'r pwyllgor o'r farn bod angen gwneud mwy o waith cyn i weithwyr ieuenctid gael eu cynnwys, ond roeddem yn cydymdeimlo â'r farn honno. Mae'r pwyllgor yn fodlon ag ymestyn y gofynion cofrestru ac rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno rheoliadau drafft i'w hystyried. Clywsom rai pryderon gan dystion am eithrio athrawon a staff mewn ysgolion annibynnol rhag gorfod cofrestru. Rydym yn rhannu'r pryderon hynny ac yn argymell y dylai'r Llywodraeth gyflwyno argymhellion pellach.

In terms of the education workforce council, one of the key concerns raised with us related to the independence of the body. The General Teaching Council for Wales went so far as to suggest that the arrangements in the Bill

O ran cyngor y gweithlu addysg, un o'r pryderon allweddol a godwyd gyda ni oedd annibyniaeth y corff. Aeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru mor bell ag awgrymu bod y trefniadau yn y Bil

'weakens professionalism and fetters the independence of the reconfigured Council.'

yn gwanhau proffesiynoldeb ac yn cyfyngu ar annibyniaeth y Cyngor wedi'i ad-drefnu.

It went on to say that the increased governance controls in the Bill risked the image of the council as an independent professional self-regulatory body and it felt that insufficient buy-in from the workforce could be the result of that approach.

Aeth yn ei flaen i ddweud bod y mesurau rheoli llywodraethu ychwanegol yn y Bil yn peryglu delwedd y cyngor fel corff hunanreoleiddio proffesiynol annibynnol a'i fod o'r farn y gallai'r ymagwedd honno beri diffyg ymrwymiad gan y gweithlu.

Teaching unions also raised a number of concerns related to this issue, with a common sentiment being that the Welsh Minister's powers of appointment in particular sat uncomfortably with the notion of a professional body. We recommended, therefore, that the Minister should review the requirement in section 7 of the Bill for the council to obtain the consent of Welsh Ministers before advising relevant persons. We have also recommended that the Minister should review whether the provisions for appointing members of the council, its chief operating officer and drawing up the first code of conduct would compromise the independence of the new council.

Cododd undebau'r athrawon hefyd nifer o bryderon yn ymwneud â'r mater hwn, ac un ymdeimlad cyffredin oedd nad oedd pwerau penodi Gweinidogion Cymru, yn benodol, yn gydnaws â'r syniad o gorff proffesiynol. Rydym yn argymell, felly, y dylai'r Gweinidog adolygu'r gofyniad yn adran 7 y Bil i'r cyngor gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn cynghori unigolion perthnasol. Rydym hefyd wedi argymell y dylai'r Gweinidog adolygu a fyddai'r darpariaethau ar gyfer penodi aelodau'r cyngor a'i brif swyddog gweithredu, a llunio'r cod ymddygiad cyntaf, yn peryglu annibyniaeth y cyngor newydd.

In terms of the council's role, the explanatory memorandum accompanying the Bill sets out its two main functions. These are to contribute to improving the standards of teaching and the quality of learning, and to maintain and improve standards of professional conduct among teachers and persons who support teaching and learning in Wales.

O ran swyddogaeth y cyngor, mae'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi ei ddwy brif swyddogaeth, sef cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu, a chynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon ac unigolion sy'n cefnogi dysgu ac addysgu yng Nghymru.

We heard a significant amount of evidence that there is an imbalance in the Bill in respect of these main functions of the new body, with some people telling us that the Bill contains minimal references to arrangements for continuous professional development. It was argued that if provisions are not explicit on the face of the Bill, little would be achieved. However, there was also an argument that the council should act solely as a regulatory body and should not be involved in professional development at all.

Clywsom gryn dipyn o dystiolaeth fod anghydbwysedd yn y Bil o ran prif swyddogaethau'r corff newydd; dywedodd rhai pobl wrthym nad yw'r Bil yn cynnwys prin ddim cyfeiriadau at drefniadau datblygu proffesiynol parhaus. Y ddadl oedd, pe na bai'r darpariaethau'n glir ar wyneb y Bil, na fyddai rhyw lawer yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, roedd dadl hefyd y dylai'r cyngor weithredu fel corff rheoleiddio'n unig, ac na ddylai ymwneud â datblygu proffesiynol o gwbl.

It is the committee's view that there is an imbalance in the Bill in terms of the council's two main functions. We also feel that the Minister should give more consideration to adding detail to the Bill on the continuous professional development function that the council will undertake. We have also recommended that the Minister should share with the committee the relevant draft regulations at an early stage.

Barn y pwyllgor yw bod anghydbwysedd yn y Bil o ran dwy brif swyddogaeth y cyngor. Rydym hefyd o'r farn y dylai'r Gweinidog roi mwy o ystyriaeth i ychwanegu manylion at y Bil ynglŷn â'r swyddogaeth datblygu proffesiynol parhaus a fydd gan y cyngor. Rydym hefyd wedi argymell y dylai'r Gweinidog rannu'r rheoliadau drafft perthnasol â'r pwyllgor yn gynnar.

On finances, there were mixed views about how the registration fee should be set. We feel that the council should set its own fees, but that Welsh Ministers should issue guidance on the establishment of such fees, based on principles of fairness and equality. We do, however, have concerns that the new body should be put on a firm financial footing in its first years. There were concerns in particular about the funding that would be available for the continuous professional development and the promotion of careers functions. I would be grateful if the Minister could clarify in his response to this debate the amount that will be available in year 1 for this function.

O ran cyllid, roedd barn gymysg ynghylch sut y dylid gosod y ffi gofrestru. Rydym o'r farn y dylai'r cyngor osod ei ffioedd ei hun, ond y dylai Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar sefydlu ffioedd o'r fath, yn seiliedig ar egwyddorion tegwch a chydraddoldeb. Rydym, fodd bynnag, yn pryderu y dylai'r corff newydd gael ei roi ar sylfaen ariannol gadarn yn ei flynyddoedd cyntaf. Codwyd pryderon yn benodol am y cyllid a fyddai ar gael ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus a hyrwyddo swyddogaethau gyrfaoedd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog egluro yn ei ymateb i'r ddadl hon y swm a fydd ar gael ym mlwyddyn 1 ar gyfer y swyddogaeth hon.

I will now turn to the reform of the registration and approval of independent schools in respect of special educational needs. I have heard what the Minister said there. The Bill, as we know, aims to simplify the process for independent schools to register learners with special needs. However, witnesses did raise a number of concerns. There were particular concerns about the repealing of section 347 of the Education Act 1996, which would remove the current case-by-case process. Witnesses argued that, rather than duplication, this provided an important safeguard for learners with additional needs. While we could see the disadvantages in the current system in terms of duplication and complexity, we feel that the consideration of individual cases is an important safeguard. We recognise that the Minister is confident that simplification offers advantages, and his view is that the new system will have more robust safeguards.

Trof yn awr at ddiwygio prosesau cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o ran anghenion addysgol arbennig. Rwyf wedi clywed yr hyn a ddywedodd y Gweinidog yn hyn o beth. Nod y Bil, fel y gwyddom, yw symleiddio'r broses o gofrestru dysgwyr ag anghenion arbennig mewn ysgolion annibynnol. Fodd bynnag, cododd tystion nifer o bryderon. Roedd pryderon penodol ynghylch diddymu adran 347 Deddf Addysg 1996, a fyddai'n cael gwared ar y broses achos-wrth-achos a ddefnyddir ar hyn o bryd. Dadleuodd tystion fod hyn, yn hytrach na dyblygu, yn cynnig amddiffyniad pwysig i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol. Er y gallem weld anfanteision y system bresennol o ran dyblygu a chymhlethdod, rydym o'r farn bod ystyried achosion unigol yn amddiffyniad pwysig. Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog yn ffyddiog y daw manteision yn sgil symleiddio, a'i fod o'r farn y bydd y system newydd yn cynnig mesurau diogelu mwy cadarn.

On post-16 assessment of education and training needs and specialist further education, we did go into this in some depth, recognising that the Minister had put this into the Bill. In respect of post-16 assessment, the evidence showed general support for the intention to establish a simpler, less complex system to provide a better transition for learners between school and post-16 provision. We agreed with evidence that the changes in procedure risk creating a conflict of interest for local authorities. We have recommended that the Minister issue guidance and provide reassurance on this matter to ensure that funding issues are made on the basis of educational need.

O ran asesu anghenion addysg a hyfforddiant ac addysg bellach arbenigol ôl-16, buom yn archwilio hyn yn weddol fanwl, gan gydnabod bod y Gweinidog wedi rhoi hyn yn y Bil. O ran asesu ôl-16, roedd y dystiolaeth yn dangos cefnogaeth gyffredinol i'r bwriad i sefydlu system symlach, lai cymhleth i ddarparu gwell proses bontio i ddysgwyr rhwng yr ysgol a darpariaeth ôl-16. Roeddem yn cytuno â'r dystiolaeth fod y newidiadau i'r weithdrefn yn creu risg o wrthdaro buddiannau i awdurdodau lleol. Rydym wedi argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi canllawiau ac yn darparu sicrwydd am y mater hwn er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cyllido'n cael eu gwneud ar sail angen addysgol.

We also agree with the concerns around the expertise of local authorities to undertake the work required, particularly in the context of variation of service provision across Wales and a lack of education psychologists. We have therefore recommended that the Minister should review the distinction between the statutory duty and the discretionary power in section 44, and its reliance on whether a learner has a statement of special educational need. Again, due to the variation in service provision across local authorities, we think that there is a real risk that learners will not have access to the services and support that they require.

Rydym hefyd yn cytuno â'r pryderon ynghylch arbenigedd awdurdodau lleol i wneud y gwaith sydd ei angen, yn enwedig yng nghyd-destun amrywiaeth darpariaeth gwasanaethau ledled Cymru a phrinder seicolegwyr addysg. Felly, rydym wedi argymell y dylai'r Gweinidog adolygu'r gwahaniaeth rhwng y ddyletswydd statudol a'r pŵer dewisol yn adran 44, a'r ddibyniaeth ar a oes gan ddysgwr ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Unwaith eto, oherwydd yr amrywiaeth yn narpariaeth gwasanaethau ar draws awdurdodau lleol, rydym yn credu bod risg gwirioneddol na fydd dysgwyr yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

On school term dates, the provisions in the Bill to harmonise school term dates were generally welcomed by contributors to the committee's work. Everybody could see the advantage of this approach. However, it is not clear how, and in what circumstances, the Minister would use the power of direction as included in the Bill. We would like the Minister to provide more detail as to the parameters on when a Minister may seek to intervene.

O ran dyddiadau tymhorau ysgol, cafodd y darpariaethau yn y Bil i gysoni dyddiadau tymhorau ysgol eu croesawu'n gyffredinol gan gyfranwyr at waith y pwyllgor. Gallai pawb weld mantais yr ymagwedd hon. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut, ac o dan ba amgylchiadau, y byddai'r Gweinidog yn defnyddio'r pŵer cyfarwyddo fel y'i cynhwysir yn y Bil. Hoffem i'r Gweinidog roi rhagor o fanylion am y paramedrau o ran pryd y gall Gweinidog geisio ymyrryd.

The committee also heard evidence about the specific needs of faith schools. I would be grateful if the Minister would outline how he believes a balance can be achieved between harmonised school terms and accommodating the preferences of faith schools in Wales.

Clywodd y pwyllgor hefyd dystiolaeth am anghenion penodol ysgolion ffydd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog amlinellu sut y mae'n credu y gellir cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cysoni tymhorau ysgol a bodloni dewisiadau ysgolion ffydd yng Nghymru.

Overall, as I said, the general principles of the Bill were approved by the committee, with the one exception of Part 3. However, we do recognise that we cannot afford a delay in SEN, and therefore that is how that amendment came before you to consider—to ensure that we do not disadvantage those children who need that special educational needs provision post-16.

At ei gilydd, fel y dywedais, cafodd egwyddorion cyffredinol y Bil eu cymeradwyo gan y pwyllgor, ac eithrio Rhan 3. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na allwn fforddio oedi ym maes AAA, ac felly dyna sut y daeth y gwelliant hwnnw ger eich bron i'w ystyried—er mwyn sicrhau nad ydym yn peri anfantais i'r plant hynny y mae angen y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig ôl-16 arnynt.

16:09 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

16:09 **David Melding** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The committee reported on this Bill in line with its remit on 22 November 2013. Our report made 18 recommendations and drew five conclusions. However, I just want to focus on a few key issues this afternoon.

Adroddodd y pwyllgor ar y Bil hwn yn unol â'i gylch gwaith ar 22 Tachwedd 2013. Roedd ein hadroddiad yn gwneud 18 o argymhellion ac yn llunio pum casgliad. Fodd bynnag, rwyf am ganolbwyntio ar rai materion allweddol y prynhawn yma.

The Bill is split into five parts; Part 2, relating to the education workforce, and Part 3, covering persons with learning difficulties, form the substance of the Bill.

Mae'r Bil wedi'i rannu'n bum rhan; prif rannau'r Bil yw Rhan 2, sy'n ymwneud â'r gweithlu addysg, a Rhan 3, sy'n cwmpasu pobl ag anawsterau dysgu.

In our view, Part 2 of the Bill clearly has a framework structure, with a lack of detail on its face and an over-reliance on regulation-making powers to deliver the Welsh Government's policy objectives. As Members will recall, we recently expressed concerns about the use of framework Bills, following our scrutiny of the Social Services and Well-being (Wales) Bill. It is therefore somewhat unwelcome and disappointing to have to report on a Bill that, in part at least, is drafted in a similar way.

Yn ein barn ni, mae gan Ran 2 y Bil strwythur fframwaith amlwg; mae diffyg manylion ar yr wyneb a gorddibyniaeth ar bwerau i wneud rheoliadau i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Fel y bydd yr Aelodau'n cofio, yn ddiweddar lleisiwyd pryderon gennym am ddefnyddio Biliau fframwaith, ar ôl craffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn ddiweddar. Felly braidd yn annerbyniol a siomedig yw gorfod adrodd ar Fil sydd, yn rhannol o leiaf, wedi'i ddrafftio mewn ffordd debyg.

The number of regulation-making powers contained in the Bill is significant. While some of the detail explaining what the regulations are to contain is welcome, that appears, in many areas, to be at the expense of any policy principle set out on the face of the Bill. In addition, most of the regulation powers are discretionary. The combined effect of this approach is that, in certain areas, if Welsh Ministers decide not to bring in regulations, the legislation will be rendered ineffectual. Sections 14, 15 and 16 of the Bill relating to the requirements to be satisfied to provide services clearly demonstrate this point.

Mae nifer y pwerau i wneud rheoliadau a geir yn y Bil yn sylweddol. Er ei bod yn dda gweld rhywfaint o'r manylion sy'n esbonio'r hyn y bydd y rheoliadau'n ei gynnwys, mae'n ymddangos, mewn sawl man, fod hynny ar draul unrhyw egwyddor polisi a nodir ar wyneb y Bil. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r pwerau rheoleiddio'n ddewisol. Effaith yr ymagwedd hon at ei gilydd yw y bydd y ddeddfwriaeth yn aneffeithiol, mewn rhai meysydd, os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu peidio â chyflwyno rheoliadau. Mae adrannau 14, 15 a 16 y Bil, sy'n ymwneud â'r gofynion i fod yn fodlon darparu gwasanaethau, yn dangos y pwynt hwn yn glir.

We also heard the Minister speak of the need for the new law to take account of future developments and to be future-proofed. He hinted at this in his opening speech. This is not the first time that a Government Minister has expressed such a view and we remain unconvinced by this approach. As a result, we felt obliged to repeat in our report a conclusion that we made in respect of the Social Services and Well-being (Wales) Bill. We do not consider it good practice to introduce a framework Bill unless there are good reasons for doing so. Ultimately, it is better to delay the introduction of a Bill, rather than introduce one that requires further detailed policy development, and for the outcome of that development to be added by means of subordinate legislation, not primary legislation.

Clywsom y Gweinidog yn dweud hefyd fod angen i'r gyfraith newydd ystyried datblygiadau yn y dyfodol a bod angen ei diogelu at y dyfodol. Awgrymodd hyn yn ei araith agoriadol. Nid dyma'r tro cyntaf i un o Weinidogion y Llywodraeth fynegi barn o'r fath ac nid yw'r ymagwedd hon wedi ein hargyhoeddi. Roeddem yn teimlo felly fod yn rhaid inni ailadrodd yn ein hadroddiad gasgliad a wnaethom ynglŷn â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Nid ydym yn ystyried ei bod yn arfer da cyflwyno Bil fframwaith onid oes rhesymau da dros wneud hynny. Yn y pen draw, mae'n well gohirio cyflwyno Bil, yn hytrach na chyflwyno un sy'n ei gwneud yn ofynnol datblygu polisi manwl pellach, ac ychwanegu canlyniad y gwaith datblygu hwnnw drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth, nid deddfwriaeth sylfaenol.

In relation to this Bill, we concluded that the framework nature of Part 2 suggests that the Welsh Government does not yet have a clear idea of the policy objectives that it is seeking to achieve. An alternative and more worrying view, however, is that the Welsh Government is seeking to avoid detailed and proper scrutiny of its policy intentions in this area because of the extensive use of the negative procedure to make secondary legislation. Either way, we consider the approach adopted by this Bill to be poor practice.

O ran y Bil hwn, daethom i'r casgliad bod natur fframwaith Rhan 2 yn awgrymu nad oes gan Lywodraeth Cymru syniad clir eto ynghylch yr amcanion polisi y mae'n ceisio eu cyflawni. Barn arall sy'n creu mwy o bryder, fodd bynnag, yw bod Llywodraeth Cymru'n ceisio osgoi craffu manwl a phriodol ar ei bwriadau polisi yn y maes hwn oherwydd ei bod yn defnyddio cymaint ar y weithdrefn negyddol i wneud is-ddeddfwriaeth. Y naill ffordd neu'r llall, rydym yn ystyried bod yr ymagwedd a fabwysiadwyd yn y Bil hwn yn arfer gwael.

We therefore recommended that the Bill should have more detail on its face and that the Minister should undertake a fundamental review of the balance of the Bill, with a view to tabling amendments to ensure that the Bill's policy intent is much clearer. Linked to this, we also recommended that the Minister issues a statement to coincide with today's debate, explaining the balance adopted between what is on the face of the Bill and what is left to subordinate legislation and responding to the concerns that we raised in our report on the Bill.

Felly, gwnaethom argymhelliad y dylai fod mwy o fanylion ar wyneb y Bil ac y dylai'r Gweinidog gynnal adolygiad sylfaenol o gydbwysedd y Bil, gyda golwg ar gyflwyno gwelliannau i sicrhau bod bwriad polisi'r Bil yn gliriach o lawer. Yn gysylltiedig â hyn, gwnaethom argymhelliad hefyd fod y Gweinidog yn cyhoeddi datganiad i gyd-daro â'r ddadl heddiw, yn esbonio'r cydbwysedd a fabwysiadwyd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a adewir i is-ddeddfwriaeth ac yn ymateb i'r pryderon a godwyd gennym yn ein hadroddiad am y Bil.

While he did not issue a statement, the Minister did indeed refer to these matters in his speech. I am pleased to hear that he will look at our recommendations and that he will answer them on their merits. I hope that he does that fairly soon, so that Stage 2 is properly informed. He did, however, say that he believed that the balance is right in this Bill between what is on its face and what is left to regulations. That obviously does not accept the major finding of our report, and that is disappointing. However, I was happier to hear what he said about the choice of procedure, because using affirmative or superaffirmative procedures, as opposed to negative procedures, has a big effect on the quality of scrutiny. So, if he does shift away from negative procedures and towards affirmative or superaffirmative ones, then that will have merit. However, it would not remove our principal objections to the use of framework construction in this Bill.

Er na chyhoeddodd ddatganiad, cyfeiriodd y Gweinidog at y materion hyn yn ei araith. Rwyf yn falch o glywed y bydd yn edrych ar ein hargymhellion ac yn eu hateb yn ôl eu rhinweddau. Rwyf yn gobeithio y gwnaiff hynny'n weddol fuan, fel bod modd seilio Cyfnod 2 ar wybodaeth briodol. Dywedodd, fodd bynnag, ei fod yn credu bod y cydbwysedd yn iawn yn y Bil hwn rhwng yr hyn sydd ar ei wyneb a'r hyn a adewir i reoliadau. Nid yw hynny, wrth gwrs, yn derbyn prif ganfyddiad ein hadroddiad, ac mae hynny'n destun siom. Fodd bynnag, roeddwn yn hapusach o glywed yr hyn a ddywedodd am ddewis y weithdrefn, oherwydd mae defnyddio gweithdrefnau cadarnhaol neu uwchgadarnhaol, yn hytrach na gweithdrefnau negyddol, yn cael effaith fawr ar ansawdd y craffu. Felly, os yw'n symud oddi wrth weithdrefnau negyddol a thuag at rai cadarnhaol neu uwchgadarnhaol, bydd gwerth i hynny. Fodd bynnag, ni fyddai'n cael gwared ar ein prif wrthwynebiadau i lunio'r Bil hwn ar sail fframwaith.

Twelve of our recommendations suggest that the Minister brings forward amendments to either apply the affirmative procedure to regulation-making powers or to apply it in the first instance that the power is used. The Minister may reflect on that in his review of the procedures that he will use. I have to say that we would not normally expect to make so many recommendations of this type. However, we have felt obliged to do so for a combination of factors. The first is because of the lack of adequate reasons to explain or justify the adoption of the negative procedure, not only in evidence but also in the explanatory memorandum, which, overall, lacks clarity and a satisfactory level of detail. The second is because of the framework structure of Part 2 of the Bill, and, in places, the complete absence of detail on the face of the Bill.

Mae deuddeg o'n hargymhellion yn awgrymu y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau, naill ai i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer pwerau i wneud rheoliadau neu i'w defnyddio y tro cyntaf y caiff y pŵer ei ddefnyddio. Efallai y bydd y Gweinidog yn ystyried hynny wrth adolygu'r gweithdrefnau y bydd yn eu defnyddio. Rhaid imi ddweud na fyddem fel arfer yn disgwyl gwneud cynifer o argymhellion o'r math hwn. Fodd bynnag, rydym wedi teimlo rheidrwydd i wneud hynny oherwydd cyfuniad o ffactorau. Y cyntaf yw'r diffyg rhesymau digonol i esbonio neu gyfiawnhau mabwysiadu'r weithdrefn negyddol, nid yn unig mewn tystiolaeth, ond hefyd yn y memorandwm esboniadol, sydd, ar y cyfan, yn dangos diffyg eglurder a diffyg lefel foddhaol o fanylder. Yr ail yw strwythur fframwaith Rhan 2 y Bil, ac, mewn mannau, absenoldeb llwyr unrhyw fanylion ar wyneb y Bil.

I must say that we found some of the arguments used to justify the negative procedure to be particularly weak. Conclusions 3 and 4 set out our views on these matters. In summary, arguments of flexibility should not be used to justify a particular procedure, and Government consultations on negative instruments should not be seen as a substitute for placing detail on the face of the Bill and facing full scrutiny in Wales's legislative body.

Rhaid imi ddweud ein bod o'r farn bod rhai o'r dadleuon a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau'r weithdrefn negyddol yn arbennig o wan. Mae casgliadau 3 a 4 yn nodi ein barn am y materion hyn. I grynhoi, ni ddylid defnyddio dadleuon ynghylch hyblygrwydd i gyfiawnhau gweithdrefn benodol, ac ni ddylid ystyried bod ymgynghoriadau'r Llywodraeth ar offerynnau negyddol cystal â rhoi manylion ar wyneb y Bil ac wynebu craffu llawn yng nghorff deddfwriaethol Cymru.

16:15 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Angela Burns to move the amendment tabled in the name of William Graham.

Galwaf ar Angela Burns i gynnig y gwelliant a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at the end of the motion:*

*Yn gresynu nad yw rhan 3 wedi ei chynnwys mewn Bil anghenion addysgol arbennig ar wahân i blant a phobl ifanc.*

*Regrets part 3 is not contained within a separate special educational needs Bill for children and young people.*

16:15 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

I am grateful for the opportunity to discuss the general principles of the Education (Wales) Bill. There are two key concerns that rise above all else. The first is the Trojan horse that is this Bill—Minister, I use this in a slightly different context to the one that you used it in—because, while we have no issues in principle with the reworking of education workforce planning, the principle of seeking coterminous term dates, the principle of simplifying the process of appointing Her Majesty's chief inspector and the other inspectors of education and training, we feel that no significant policy development can be seen in relation to these items.

Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i drafod egwyddorion cyffredinol Bil Addysg (Cymru). Mae dau bryder allweddol sy'n codi yn anad dim arall. Y cyntaf yw ceffyl Troea y Bil hwn—Weinidog, rwyf yn defnyddio hyn mewn cyd-destun ychydig yn wahanol i'r un a ddefnyddiwyd gennych chi—oherwydd, er nad oes gennym broblem mewn egwyddor ag ailwampio cynllunio'r gweithlu addysg, ceisio cysoni dyddiadau tymhorau, na symleiddio'r broses o benodi prif arolygydd Ei Mawrhydi ac arolygwyr addysg a hyfforddiant eraill, rydym o'r farn na ellir gweld unrhyw ddatblygiad polisi arwyddocaol mewn perthynas â'r eitemau hyn.

As the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee has said, the framework nature of the Bill indicates to us that there is a worrying gap as to, basically, what are you going to do with these powers when you have them. We do not know, for example, on the education workforce council, how much people are going to have to sub, whether it will just be a disciplinary forum and whether it will look at continuous professional development. There are too many questions all along the entire Bill. I called it a Trojan horse of a Bill, because it is, I am sad to say, another example of the Welsh Government bringing forward a Bill that relies upon negative procedure. It means that we, who are elected to be here, are unable to conduct what I think would be thorough and detailed scrutiny of the Government's policy intentions. We are asked to debate and vote on these policy intentions, and this legislature should not operate in a vacuum. I think that this is yet another example.

Fel y dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, mae natur fframwaith y Bil yn dangos inni fod bwlch sy'n peri pryder o ran yr hyn yr ydych, yn y bôn, yn mynd i'w wneud â'r pwerau hyn ar ôl eu cael. Nid ydym yn gwybod, er enghraifft, o ran cyngor y gweithlu addysg, faint o bobl sy'n mynd i orfod dirprwyo, ai dim ond fforwm disgyblu fydd hwn ac a fydd yn edrych ar ddatblygu proffesiynol parhaus. Mae gormod o gwestiynau drwyddi draw ynglŷn â'r Bil. Fe'i gelwais yn Fil ceffyl Troea, oherwydd, mae'n ddrwg gennyf ddweud, mae'n enghraifft arall lle mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Bil sy'n dibynnu ar y weithdrefn negyddol. Mae'n golygu ein bod ni, sydd wedi cael ein hethol i fod yma, yn methu â chynnal yr hyn a fyddai, yn fy marn i, yn graffu trylwyr a manwl ar fwriadau polisi'r Llywodraeth. Gofynnir inni drafod y bwriadau polisi hyn a phleidleisio arnynt, ac ni ddylai'r ddeddfwrfa hon weithredu mewn gwagle. Credaf fod hyn yn enghraifft arall eto.

I did say that there were two key concerns. I would like to turn to my second key concern, which is what resulted in our amendment. I do know that the Chair of the Children and Young People Committee has already raised this, because I know that it worried a great many Members. We ask that the Assembly should regret that part 3 of this Bill is not contained within a separate special educational needs Bill for children and young people.

Dywedais fod dau bryder allweddol. Hoffwn droi at fy ail bryder allweddol, sef yr hyn a arweiniodd at ein gwelliant. Gwn fod Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc eisoes wedi codi hyn, oherwydd gwn ei fod wedi poeni llawer iawn o Aelodau. Rydym yn gofyn i'r Cynulliad resynu nad yw rhan 3 y Bil hwn wedi'i gynnwys mewn Bil anghenion addysgol arbennig ar wahân i blant a phobl ifanc.

I would like to go back to the Constitutional and Legislative Affairs Committee's conclusion 1, which I will quickly read:

Hoffwn fynd yn ôl at gasgliad 1 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac fe'i darllenaf yn gyflym:

'Ultimately, it is better to delay the introduction of a Bill rather than introduce one which requires further detailed policy development and for the outcome of that development to be added by means of subordinate legislation.'

'Yn y pen draw, mae'n well gohirio cyflwyno'r Bil na chyflwyno Bil y mae angen datblygu polisi manwl yn ei gylch a gorfod ychwanegu canlyniad y gwaith datblygu hwnnw drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth.'

I heard what the Chair of the Children and Young People Committee said about needing to move on and not letting post-16 education operate in a vacuum. However, my concern is that if we just push forward and say that is it, it is in this Bill, then the attitude will be one of job done. There is so much in this area that is not remotely done well enough.

Clywais yr hyn a ddywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am yr angen i symud ymlaen a pheidio â gadael i addysg ôl-16 weithredu mewn gwactod. Fodd bynnag, fy mhryder yw, os ydym yn gwthio ymlaen ac yn dweud dyna ni, mae yn y Bil hwn, yna yr agwedd fydd bod y gwaith wedi'i wneud. Mae cymaint o bethau yn y maes hwn nad ydynt yn cael eu gwneud yn ddigon da o bell ffordd.

Minister, I sent out an FOI request to all 22 local authorities, asking some very clear questions. I asked them for the definition that their council uses for 'learning difficulties', 'behavioural disorders', 'additional learning needs' and 'special educational needs'. I asked them for criteria for the assessment of each person on these issues, and I asked them what was involved in the process. I also asked how their council assesses the difference of individuals categorised within each group—you might have somebody with an additional learning need because of behavioural issues, or because they have a learning difficulty. I asked how, within these in-group groupings, the educational needs are attended to by the council. I asked about how each council deals with dual and triple diagnoses of issues. I asked how many children are currently under the jurisdiction of a local authority awaiting a statement. Unsurprisingly, I got 22 incredibly different answers. I got an outstanding one from Neath Port Talbot and I say to them, 'Hey, guys, it is a tick in the box; your special educational needs policy looked really good'. You looked like you had best practice, you went and learned from other people, and it was clear, cohesive and understandable to a mother, a father or a teacher, trying to understand how to get people assessed.

Weinidog, anfonais gais Rhyddid Gwybodaeth i bob un o'r 22 awdurdod lleol, yn gofyn cwestiynau clir iawn. Gofynnais iddynt am y diffiniad y mae eu cyngor yn ei ddefnyddio ar gyfer 'anawsterau dysgu', 'anhwylderau ymddygiad', 'anghenion dysgu ychwanegol' ac 'anghenion addysgol arbennig'. Gofynnais iddynt am feini prawf asesu pob unigolyn ar y materion hyn, a gofynnais iddynt beth oedd yn rhan o'r broses. Gofynnais hefyd sut y mae eu cyngor yn asesu'r gwahaniaeth rhwng unigolion sydd wedi'u categoreiddio ym mhob grŵp—efallai y bydd gennych rywun ag angen dysgu ychwanegol oherwydd materion ymddygiadol, neu oherwydd bod ganddynt anhawster dysgu. Gofynnais sut, o fewn y grwpiau hyn o fewn grwpiau, y mae'r cyngor yn rhoi sylw i anghenion addysgol. Gofynnais sut y mae pob cyngor yn ymdrin â diagnosis deuol a thriphlyg o faterion. Gofynnais faint o blant sydd ar hyn o bryd yn disgwyl datganiad o dan awdurdodaeth awdurdod lleol. Nid oedd yn syndod imi gael 22 o atebion hynod wahanol. Cefais un rhagorol gan Gastell-nedd Port Talbot a dywedaf wrthynt, 'Hei, bois, dyma roi tic yn y blwch; roedd eich polisi anghenion addysgol arbennig yn edrych yn dda iawn'. Mae'n edrych fel petai gennych arfer gorau, rydych wedi dysgu oddi wrth bobl eraill, ac roedd yn glir, yn gydlynol ac yn ddealladwy i fam, tad neu athro, sy'n ceisio deall sut i gael asesiad.

Other LEAs were utterly appalling. I could name and shame them, but I think that that would probably be too far. You have that much differentiation now, and you spoke earlier, Minister, about the fact that post-16 pupils are already picked up and that they are already in the system, but I can tell you that, from the 22 local authority responses we received, they are not already in the system and they are not already picked up. It is incredibly important that all the children with special educational needs are given this opportunity. We fear that if you put this bit of post-16 provision for special educational needs in this Bill, those people will eventually just be isolated, and what we need is a holistic Bill coming forward. I urge you, Minister, and your Government to remove it from this Bill and to find the time in your legislative programme over the next two and a half years—and the Welsh Conservatives will work with you on this—to bring forward a cohesive, holistic piece of legislation to look after every young person with special educational needs, from 0 to 18 or 25, depending on their need.

Roedd awdurdodau addysg lleol eraill yn gwbl warthus. Gallwn eu henwi a chodi cywilydd arnynt, ond mae'n debyg y byddai hynny'n mynd yn rhy bell. Mae cymaint o wahaniaethau yn awr, ac roeddech yn sôn yn gynharach, Weinidog, am y ffaith bod disgyblion ôl-16 eisoes wedi'u hadnabod a'u bod eisoes yn y system, ond gallaf ddweud wrthych, o'r 22 o ymatebion a gawsom gan awdurdodau lleol, nad ydynt eisoes yn y system ac nad ydynt eisoes wedi'u hadnabod. Mae'n hynod bwysig bod pob plentyn ag anghenion addysgol arbennig yn cael y cyfle hwn. Mae arnom ofn, os byddwch yn rhoi'r darn hwn o ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn y Bil hwn, y caiff y bobl hynny eu hynysu yn y pen draw, a'r hyn sydd ei angen arnom yw Bil cyfannol wrth symud ymlaen. Rwyf yn eich annog, Weinidog, ac yn annog eich Llywodraeth i'w dynnu o'r Bil hwn ac i ddod o hyd i'r amser yn eich rhaglen ddeddfwriaethol dros y ddwy flynedd a hanner nesaf—a bydd Ceidwadwyr Cymru'n cydweithio â chi ar hyn—i gyflwyno darn cydlynol, cyfannol o ddeddfwriaeth i ofalu am bob person ifanc ag anghenion addysgol arbennig, o 0 i 18 neu 25, yn dibynnu ar eu hanghenion.

16:21 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to focus my short contribution on the issue of the school term dates. Currently, school term dates are set by local authorities for community, community special, voluntary controlled and nursery schools, and by governing bodies for voluntary aided and foundation schools. The Bill seeks to harmonise school term dates across Wales to bring greater coherence by placing a responsibility on local authorities and governing bodies of voluntary aided and foundation schools in Wales to work together to co-operate and co-ordinate with each other on school term dates. The overall view of the committee was that the harmonisation of school terms is desirable, and we could see the advantages. Those who gave evidence generally welcomed the move. UCU and UCAC, for example, highlighted the educational case, given the cross-authority collaboration that already occurs, particularly at age 14 to 19 and in the Welsh-medium sector.

Hoffwn ganolbwyntio yn fy nghyfraniad byr ar ddyddiadau tymhorau ysgol. Ar hyn o bryd, caiff dyddiadau tymhorau ysgol eu gosod gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion meithrin, a chan gyrff llywodraethu ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig. Mae'r Bil yn ceisio cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ledled Cymru i greu mwy o gydlyniad drwy ei gwneud yn gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yng Nghymru i gydweithio a chyd-drefnu â'i gilydd o ran dyddiadau tymhorau ysgol. Barn gyffredinol y pwyllgor oedd bod cysoni tymhorau ysgol yn dda o beth, ac y gallem weld y manteision. Roedd y bobl a roddodd dystiolaeth yn gyffredinol yn croesawu'r syniad. Tynnodd Undeb y Prifysgolion a'r Colegau ac UCAC, er enghraifft, sylw at yr achos addysgol, o ystyried y cydweithio sydd eisoes yn digwydd rhwng awdurdodau, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed ac yn y sector cyfrwng Cymraeg.

It is important that the Bill maintains an element of flexibility, allowing for those occasional variations when they can be justified, and that is why I welcome the discretionary power for the Welsh Ministers to direct bodies responsible and to intervene where necessary by deciding what the dates must be. The WLGA told us that it particularly welcomes this provision, as many attempts have previously been made to encourage local authorities to set standard dates in the past, but these often failed. I was sympathetic to the concerns raised by the Anglican and Catholic communities, in terms of ensuring that due regard is given to dates of religious significance when setting school term dates for church schools, with Holy Week and Easter being by far the most important times in the calendar of the religious life of faith schools. It was disappointing to me that some of our witnesses did not really seem to have any understanding of the issue, wrongly thinking that church schools wanted to ensure that Holy Week fell outside of school terms and in school holidays, when, in fact, the opposite is the case. However, I was pleased to hear the Minister tell us in committee that he was sensitive to the matter and that he knows that it is a resolvable problem, because some local authorities already work in partnership with faith schools to resolve concerns around Easter, and they have a good track record of making it work. The Minister also told us that he would expect all local authorities to take a sensitive approach to this issue in particular.

Mae'n bwysig bod y Bil yn cadw elfen o hyblygrwydd, ac yn caniatáu'r amrywiadau achlysurol hynny pan fo modd eu cyfiawnhau, a dyna pam yr wyf yn croesawu'r pŵer dewisol i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r cyrff sy'n gyfrifol ac ymyrryd lle bo angen drwy benderfynu ar y dyddiadau. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym eu bod yn croesawu'r ddarpariaeth hon yn benodol, gan fod llawer o ymdrechion wedi'u gwneud yn y gorffennol i annog awdurdodau lleol i bennu dyddiadau safonol, ond eu bod yn aml wedi methu. Roeddwn yn cydymdeimlo â'r pryderon a godwyd gan y cymunedau Anglicanaidd a Chatholig, o ran sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i ddyddiadau ac iddynt arwyddocâd crefyddol wrth bennu dyddiadau tymhorau ysgolion eglwys; Wythnos y Pasg a'r Pasg yw'r adegau pwysicaf o bell ffordd yng nghalendr bywyd crefyddol ysgolion ffydd. Roedd yn destun siom i mi nad oedd yn ymddangos bod rhai o'n tystion yn deall hyn o gwbl, a'u bod yn meddwl, yn gyfeiliornus, fod ysgolion eglwys yn awyddus i sicrhau bod Wythnos y Pasg yn cwympo y tu allan i dymor yr ysgol ac yn ystod y gwyliau; mewn gwirionedd, y gwrthwyneb sy'n wir. Fodd bynnag, roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog yn dweud wrthym yn y pwyllgor ei fod yn sensitif i hyn a'i fod yn gwybod ei bod yn broblem y gellir ei datrys, oherwydd mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion ffydd i ddatrys pryderon am y Pasg, ac mae ganddynt hanes da o wneud i hynny weithio. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd y byddai'n disgwyl i bob awdurdod lleol arfer ymagwedd sensitif at y mater hwn yn benodol.

However, I am not clear on the parameters of when he or his successors might seek to intervene on setting the school dates—either where consensus is reached but the Government does not consider the term dates to be appropriate or where consensus cannot be agreed locally. As the Chair of the Children and Young People Committee has already said, it would be particularly helpful if the Minister would clarify what balance he intends to strike between harmonised school terms and accommodating the requirements of faith schools, particularly in terms of using ministerial powers, bearing in mind the wider public law context in which the rights of people with protected characteristics, including religion and faith, sit.

Fodd bynnag, nid wyf yn glir am y paramedrau o ran pryd y gallai ef neu ei olynwyr geisio ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau ysgolion—naill ai lle ceir consensws ond nad yw'r Llywodraeth yn ystyried bod dyddiadau'r tymhorau'n briodol, neu lle na ellir cael consensws yn lleol. Fel y mae Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc eisoes wedi'i ddweud, byddai'n arbennig o ddefnyddiol pe bai'r Gweinidog yn egluro pa gydbwysedd y mae'n bwriadu ei sicrhau rhwng cysoni tymhorau ysgol a bodloni gofynion ysgolion ffydd, yn enwedig o ran defnyddio pwerau gweinidogol, o ystyried cyd-destun ehangach hawliau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys crefydd a ffydd, mewn cyfraith gyhoeddus.

Finally, on another issue, I have to say that I am disappointed to see the Conservative amendment to the motion today. In my view, this debate is about discussing our report and offering the Minister an opportunity to respond to it, and, like others, I want the opportunity to consider the Minister's response and to enter into further discussion if necessary. The kind of place for this amendment is Stage 2, after we have all had the chance to fully consider what the Minister tells us today. For that reason, I will not be supporting the amendment.

Yn olaf, ar fater arall, rhaid imi ddweud fy mod yn siomedig o weld gwelliant y Ceidwadwyr i'r cynnig heddiw. Yn fy marn i, diben y ddadl hon yw trafod ein hadroddiad a chynnig cyfle i'r Gweinidog ymateb iddo, ac, fel eraill, hoffwn gael cyfle i ystyried ymateb y Gweinidog a thrafod ymhellach os bydd angen. Cyfnod 2 yw'r math o le i'r gwelliant hwn, ar ôl inni i gyd gael y cyfle i ystyried yn llawn yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud wrthym heddiw. Am y rheswm hwnnw, ni fyddaf yn cefnogi'r gwelliant.

16:24 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n dda gen i gyfrannu at y ddadl hon, sydd, yn fy marn i, yn ddadl ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil wedi eu goleuo gan y ddau adroddiad pwyllgor, ond nid ar adroddiadau'r pwyllgorau eu hunain.

I am pleased to contribute to this debate, which, in my opinion, is a debate on the general principles of the Bill, enlightened by the two committee reports, without being a debate on those reports themselves.

Wrth i ni baratoi ar gyfer y Bil hwn, roeddem o'r farn y byddai Plaid Cymru yn cefnogi'r Bil mewn egwyddor. Rwy'n dal yn awyddus i wneud hynny mewn egwyddor, ond wrth inni ddadbacio'r Bil ac edrych yn fanwl arno—rwy'n eistedd ar y ddau bwyllgor sydd wedi cyfrannu at y drafodaeth y prynhawn yma—dechreuais weld bod nifer o ddiffygion yn y Bil a oedd angen eu gwella cyn y gallem symud yn ein blaenau.

As we prepared to debate this Bill, we were of the opinion that Plaid Cymru would support the Bill in principle. I am still eager to do that in principle, but as we unpacked the Bill and looked at it in detail—and I happen to sit on the two committees that contributed to the reports discussed this afternoon—I started to see a number of weaknesses in the Bill that needed to be addressed before we could progress.

O ran y diffygion polisi, rwy'n siomedig nad oes lle i'r sector annibynnol yn y Bil hwn. Rwy'n dod at hyn o berspectif y plentyn yng Nghymru. Nid yw unrhyw blentyn yn dewis mynd i ysgol breifat ai peidio, felly dylent gael yr un fath o oruchwyliaeth a rheolaeth â phob plentyn arall. Mae hynny'n golygu y dylai'r Bil ymestyn i'r sector preifat a chynnwys athrawon a chynorthwywyr dysgu yn y sector hwnnw. Rwy'n derbyn na wnaeth y Llywodraeth ymgynghori â'r sector, ac rwy'n gofyn pam. Rwy'n derbyn hefyd fod y Llywodraeth wedi cynnig gwelliant yn ail ran y broses er mwyn cynnwys, os oes raid, y sector hwnnw. Bydd yn rhaid inni edrych ar fanylion y gwelliant, ond rwy'n derbyn bod symudiad yn y fan honno gan y Llywodraeth.

To start with the policy weaknesses, I am disappointed that there is no scope for the independent sector within this Bill. I approach this from the perspective of the child in Wales. No child chooses to go to a private school or otherwise, therefore they should have the same kind of oversight and regulation as every other child. That means that this Bill should extend to the private sector and should include teachers and teaching assistants within that sector. I accept that the Government did not consult the sector, and, therefore, I would ask why. I also accept that the Government has proposed an amendment in the second stage of this process in order to include, if necessary, that sector. We will have to look at the detail of the amendment, but I accept that there has been some movement by Government on the issue.

Mae'n bwysig dweud wrth y Gweinidog fod y tystiolaeth a gawsom yn y pwyllgor, yn enwedig gan brif asiantaeth athrawon cyflenwi Cymru, yn dangos bod diffyg yn y fan hon, a bod modd i athrawon neu staff nad ydynt yn gymwys ac nad ydynt ar y gofrestr yng Nghymru gael eu cyflogi yn y sector preifat. Nid wyf am i hynny ddigwydd, oherwydd rwy'n dod at hyn o safbwynt y plentyn unigol.

It is important to inform the Minister that the evidence we received in committee, particularly from the main agency representing supply teachers in Wales, showed that there is a deficiency here, in that teachers or staff who are not qualified or registered in Wales can be employed in the private sector. I do not want that to occur, because I approach this from the standpoint of the individual pupil.

Yr ail agwedd ar bolisi y mae cwestiynau arni yw natur annibynnol y cyngor newydd, sef y cyngor sy'n mynd i fod yn gyfrifol am y gweithlu addysg ehangach yng Nghymru. Mae'n rhaid inni sicrhau nad yw'r cyngor newydd yn llai annibynnol na'r cyngor presennol, ac, yn y cyd-destun hwnnw, mae nifer o gwestiynau yn codi yn sgîl y Bil ynglŷn â'r ffordd y mae'r cyngor yn cael ei benodi, y ffordd y mae'n gallu penderfynu ar y ffi i gofrestru gyda'r cyngor a'r ffordd y mae'n gallu bod yn annibynnol ar y Llywodraeth ac adrodd i'r Llywodraeth ar farn a sylwadau sy'n bwysig iddo.

The second policy aspect about which I have questions is the independent nature of the new council—the council that will be responsible for the wider education workforce in Wales. We must ensure that the new council is not less independent than the current council and, in that context, a number of questions arise in relation to the Bill about how the council is to be appointed, the way in which it can make decisions on fees for registration with the council, and the way in which it can be independent of Government and report to Government on the views and issues that are important to it.

Y trydydd agwedd y mae gennyf amheuon amdani yw datblygiad proffesiynol. Rydym wedi gweld, os nad ydym yn gallu cytuno ar un peth am PISA heddiw, y gallwn gytuno bod angen datblygu proffesiynol trylwyr ar ein hathrawon a chynorthwywyr dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni amcanion y Llywodraeth o safbwynt PISA a safonau yn fwy eang. Os ydych yn derbyn hynny, mae'n rhaid ichi gael rhywun i feincnodi'r datblygiad proffesiynol hwnnw. Mae modd i'r cyngor gweithlu addysg newydd weithredu yn y modd hwnnw, ond os edrychwch ar y Bil fel y mae, mae wedi ei bwyso tuag at yr ochr reoleiddio yn hytrach na thuag at ddatblygu proffesiynol. Buaswn i wedi chwilio am fwy o fanylion ar wyneb y Bil, drwy gyfrwng gwelliannau, sy'n ymwneud â datblygu proffesiynol y sector.

The third aspect about which I have doubts relates to the issue of professional development. We have seen today that, even if we cannot agree on one thing in the context of PISA, we can agree on the need for thorough continuous professional development for our teachers and teaching assistants in order to ensure that they can achieve the Government's objectives in terms of PISA and standards more generally. If you accept that point, then someone has to benchmark that professional development. There is a means for the new education workforce council to work in that way, but if you look at the Bill as currently drafted, it is weighted towards regulation rather than professional development. I would have sought more detail on the face of the Bill, by means of amendments, relating to professional development within the sector.

Mae'r pwynt olaf am bolisi yr oeddwn am ei grybwyll wedi cael ei grybwyll eisoes gan nifer o siaradwyr, sef y pwynt ynglŷn â phlant gydag anghenion dysgu arbennig. Mae'r rhan SEN o'r Bil yn edrych yn bur wahanol i weddill y Bil. Fel y dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, mae gweddill y Bil o natur fframwaith sy'n dibynnu ar i Weinidog gyflwyno rheoliadau a chanllawiau yn nes ymlaen, tra bod y rhan am addysg arbennig yn benodol iawn ac yn sefyll allan, felly, yn wahanol iawn. Rwy'n meddwl bod dadl y dylem ystyried y rhan hon o'r Bil fel rhan o drafodaeth ehangach am addysgu anghenion arbennig, gan ein bod yn gwybod bod y Llywodraeth yn paratoi at hynny.

The final policy point that I wanted to mention today has already been raised by a number of contributors, and that is point of children with special educational needs. The SEN section of the Bill looks very different to the rest of the Bill. As the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee said, the rest of the Bill is of a framework nature that is dependent upon the Minister introducing regulations and guidelines at a later date, whereby the section on SEN is very specific and stands out, therefore, as being extremely different. I think that there is an argument that we should consider this section of the Bill as part of a wider discussion on special educational needs, because we know that the Government is preparing for that.

Yn ogystal, mae gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ofn ynglŷn â'r ddarpariaeth gyllido ar gyfer y Bil hwn; rwy'n cyfeirio at baragraff 85 yr adroddiad, lle daethom i'r casgliad fod y pwyllgor yr wyf yn aelod ohono yn credu bod y wybodaeth ariannol yn y Bil yn annigonol, ac y dylid rhoi ystyriaeth bellach i sut fydd y corff newydd yn cael ei ariannu. Yn anffodus, ni ddywedodd y Gweinidog lawer am hynny wrth ymateb i adroddiad y pwyllgor.

In addition, the Children and Young People Committee refers in its report to its fears about the financial provision for this Bill. I refer to paragraph 85, where we concluded that the committee of which I am a member believes that the financial information contained within the Bill is insufficient and that further consideration should be given to how the new body will be funded. Unfortunately, the Minister had very little to say about that in responding to the committee report.

Os ydych yn rhoi at ei gilydd ein hamheuon ynglŷn â phwrpas a fframwaith y Bil, ein hamheuon ynglŷn â sut mae bwriad polisi y Bil yn cael ei gyflawni a'n hamheuon ynglŷn â sut mae'r Bil yn mynd i gael ei gyllido yn y tymor hir, mae arnaf ofn y bydd Plaid Cymru yn pleidleisio yn erbyn y rhan hon o'r Bil ac yn gofyn i'r Llywodraeth ailystyried a gwella cyn dod nôl.

If you put together out doubts about the purpose and framework of the Bill, our doubts about how the policy intention of the Bill will be achieved, and our doubts about the way in which the Bill is to be funded in the long term, then I am afraid that Plaid Cymru will be voting against this part of the Bill and will ask the Government to reconsider and revisit this issue.

16:30

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We also share the concerns that some Members have expressed. They fall into four main categories. The first is the provision as far as special needs is concerned. I was hoping that we would hear from the Minister this afternoon about the general reform of special needs education, which has been trumpeted since about 2007. We heard in the committee that there was now some uncertainty as to whether those general reforms would be brought forward during the course of this Assembly. There are weaknesses in moving forward as far as post-16 provision is concerned with special needs, given the experience of many of us in local government, where we know that a lot of the provisions in this Bill are dependent on the statementing process, which itself has been sidelined to a great part within some local authorities during recent years.

Rydym hefyd yn rhannu'r pryderon y mae rhai Aelodau wedi'u lleisio. Maent mewn pedwar prif gategori. Y cyntaf yw'r ddarpariaeth o ran anghenion arbennig. Roeddwn yn gobeithio y byddem yn clywed gan y Gweinidog y prynhawn yma am ddiwygio addysg anghenion arbennig yn gyffredinol, sydd wedi ei ddatgan ar gyrn a phibau ers tua 2007. Clywsom yn y pwyllgor fod rhywfaint o ansicrwydd bellach ynghylch a gâi'r diwygiadau cyffredinol hynny eu cyflwyno yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Ceir gwendidau o ran symud ymlaen o ran darpariaeth anghenion arbennig ôl-16, ac ystyried profiad llawer ohonom mewn llywodraeth leol, lle'r ydym yn gwybod bod llawer o'r darpariaethau yn y Bil hwn yn dibynnu ar y broses ddatganiadau, sydd ei hun wedi ei gwthio o'r neilltu i raddau helaeth mewn rhai awdurdodau lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

We also need to have an honest debate, if we are to move forward as the Government suggests, with regard to the number of youngsters who move from one authority to another, and how some of the financial arrangements between those authorities pan out. After all, we learned only a few months ago that approximately 25% of pupils in Wales are currently identified as having some kind of additional learning need. Having heard the evidence in committee, I am not convinced, as the Minister appears to be, that moving from the current case-by-case approval system, as envisaged in the Bill, would not lead to a situation whereby some of our more vulnerable children were placed at greater risk. Even if Estyn carries out annual checks on independent schools, the child could have been placed in the wrong placement for some 12 months in some scenarios. I do not think that that is acceptable.

Mae angen inni hefyd gael dadl onest, os ydym am symud ymlaen fel y mae'r Llywodraeth yn ei awgrymu, o ran nifer y bobl ifanc sy'n symud o un awdurdod i'r llall, a chanlyniadau rhai o'r trefniadau ariannol rhwng yr awdurdodau hynny. Wedi'r cyfan, cawsom wybod ychydig fisoedd yn ôl bod tua 25% o ddisgyblion Cymru wedi'u nodi ar hyn o bryd fel rhai â rhyw fath o angen dysgu ychwanegol. Ar ôl clywed y dystiolaeth yn y pwyllgor, nid wyf wedi fy argyhoeddi, fel y mae'n ymddangos bod y Gweinidog wedi'i argyhoeddi, na fyddai symud o'r system gymeradwyo achos-wrth-achos bresennol, fel y mae'r Bil yn ei ragweld, yn arwain at sefyllfa lle byddai mwy o berygl i rai o'n plant mwyaf agored i niwed. Hyd yn oed os yw Estyn yn cynnal gwiriadau blynyddol ar ysgolion annibynnol, gallai'r plentyn fod wedi ei osod yn y lleoliad anghywir am tua 12 mis mewn rhai sefyllfaoedd. Nid wyf yn credu bod hynny'n dderbyniol.

I also reiterate what Simon Thomas said with regard to the independence of the new education workforce council. It was our honest opinion, as committee members, that that independence is likely to be compromised if Welsh Ministers are given the powers contained in the present draft, which is too prescriptive. After all, if we are to move forward with improvement as far as attainment is concerned, the Government has acknowledged that we need to have a competent, professional workforce, which is better qualified. We also need to ensure that that workforce has a representative body that is perceived as being independent of Government and able to make its case on behalf of the profession, rather than being seen as an arm of Government, as was stated in some of our evidence.

Rwyf hefyd am ailadrodd yr hyn a ddywedodd Simon Thomas am annibyniaeth cyngor newydd y gweithlu addysg. Ein barn onest ni, fel aelodau'r pwyllgor, yw bod yr annibyniaeth honno'n debygol o gael ei pheryglu os caiff Gweinidogion Cymru y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y drafft presennol, sy'n rhy gaeth. Wedi'r cyfan, os ydym am symud ymlaen â gwelliannau o ran cyrhaeddiad, mae'r Llywodraeth wedi cydnabod bod arnom angen gweithlu cymwys, proffesiynol, â gwell cymwysterau. Mae angen inni sicrhau hefyd bod gan y gweithlu hwnnw gorff cynrychioliadol yr ystyrir ei fod yn annibynnol ar y Llywodraeth ac a all gyflwyno'i achos ar ran y proffesiwn, yn hytrach na'i fod yn cael ei ystyried yn rhan o'r Llywodraeth, fel y nodwyd yn rhywfaint o'n tystiolaeth.

However, as Simon Thomas has explained, the concerns with regard to general principles are more around the rather scant financial information that is contained within the explanatory memorandum, which only gives us estimates. In fact, committee members were agreed that the financial information contained in the Bill was inadequate. For example, the explanatory memorandum offers a number of options along with associated costs, risks and benefits as far as registration is concerned. The preferred option is option 3. Point 304 in the memorandum states:

Fodd bynnag, fel y mae Simon Thomas wedi'i esbonio, mae'r pryderon am egwyddorion cyffredinol yn ymwneud i raddau mwy â'r wybodaeth ariannol eithaf prin sydd wedi'i chynnwys yn y memorandwm esboniadol, sy'n rhoi amcangyfrifon yn unig. Yn wir, roedd aelodau'r pwyllgor yn gytûn fod y wybodaeth ariannol a gynhwysir yn y Bil yn annigonol. Er enghraifft, mae'r memorandwm esboniadol yn cynnig nifer o opsiynau, ynghyd â chostau, risgiau a buddion cysylltiedig o ran cofrestru. Yr opsiwn a ffefrir yw opsiwn 3. Mae pwynt 304 y memorandwm yn nodi:

'These figures are best estimates and should not be seen as the final agreed fees associated with registration for the wider education workforce'.

'Amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn ac ni ddylid eu hystyried fel ffigurau terfynol y cytunwyd arnynt ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg ehangach'.

At the committee's meeting on 24 October, we were told by the Minister's official that £100,000 was the amount available to promote and market teaching as a career. However, we heard that, on average, £850,000 has been paid annually by the Welsh Government to the TDA for promoting careers in school teaching. So, how can we be reassured that the general principles of the Bill will be delivered?

Yng nghyfarfod y pwyllgor ar 24 Hydref, dywedodd swyddog y Gweinidog wrthym mai £100,000 yw'r swm sydd ar gael i hyrwyddo a marchnata addysgu fel gyrfa. Fodd bynnag, clywsom fod Llywodraeth Cymru wedi talu £850,000, ar gyfartaledd, bob blwyddyn i'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion i hyrwyddo gyrfaoedd addysgu mewn ysgolion. Felly, sut y gallwn fod yn sicr y caiff egwyddorion cyffredinol y Bil eu cyflawni?

In closing, we welcome a Welsh education Bill, but we need a Bill that is affordable, gives value for money, and prioritises the right and proper issues. I believe that the evidence that we heard as a committee highlights real concerns, which have been mentioned in the Senedd today. As a group, we need to hear from the Minister with regard to the timeline as far as the more general special needs reforms are concerned before we decide how we will vote on the Bill, although, we are minded to support the Conservative amendment 1.

I gloi, rydym yn croesawu Bil addysg Gymreig, ond mae arnom angen Bil sy'n fforddiadwy, yn rhoi gwerth am arian, ac yn blaenoriaethu'r materion cywir a phriodol. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth a glywsom fel pwyllgor yn tynnu sylw at bryderon gwirioneddol, sydd wedi eu crybwyll yn y Senedd heddiw. Fel grŵp, mae angen inni glywed gan y Gweinidog am yr amserlen o ran y diwygiadau anghenion arbennig mwy cyffredinol cyn inni benderfynu sut y byddwn yn pleidleisio ar y Bil, ond rydym yn bwriadu cefnogi gwelliant 1 y Ceidwadwyr.

16:35

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Education and Skills to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ymateb i'r ddadl.

16:35

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I thank Members for their contributions, but I will not be able to get into the full detail of everyone's contributions here this afternoon, which, after all, has been a debate about general principles. However, I can assure Members that all of those contributions will be taken seriously by me, as we move towards Stage 2.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau, ond ni allaf fanylu'n llawn ar gyfraniadau pawb yma y prynhawn yma; dadl ydoedd, wedi'r cyfan, am egwyddorion cyffredinol. Fodd bynnag, gallaf sicrhau'r Aelodau y byddaf yn cymryd yr holl gyfraniadau hynny o ddifrif, wrth inni symud tuag at Gyfnod 2.

At the risk of repeating myself, if there is one clear message coming from today's PISA results, it is that we cannot retreat from the important job of work that we have started: to raise the standards in our schools and classrooms. This Bill is a critical part of that. Clearly, there will be points of detail that, as we progress through this Bill, we will need to debate further. However, I hope that Members are assured that this legislation will, among other things, for instance, provide a first step towards wider SEN reform and make a contribution to the overall improvement programme that we have started.

Er bod perygl imi fy ailadrodd fy hun, os oes un neges glir yn dod o ganlyniadau PISA heddiw, y neges honno yw na allwn gilio oddi wrth y gwaith yr ydym wedi'i ddechrau, sef codi safonau yn ein hysgolion a'n hystafelloedd dosbarth. Mae'r Bil hwn yn rhan hanfodol o hynny. Yn amlwg, bydd manylion y bydd angen inni eu trafod ymhellach wrth inni symud drwy'r Bil hwn. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio bod yr Aelodau wedi cael sicrwydd y bydd y ddeddfwriaeth hon, ymysg pethau eraill, er enghraifft, yn gam cyntaf tuag at ddiwygio AAA yn ehangach ac yn cyfrannu at y rhaglen wella gyffredinol yr ydym wedi'i dechrau.

I am not convinced that there is any safety loophole in terms of not including independent schools at this stage. There are already appropriate measures in place. However, as I outlined earlier, I am minded to bring forward an amendment to the Bill at Stage 2 to ensure that there is scope to include the independent sector at a future date if there is clear evidence to support such a move.

Nid wyf yn argyhoeddedig bod bwlch diogelwch o ran peidio â chynnwys ysgolion annibynnol ar hyn o bryd. Mae mesurau priodol eisoes ar waith. Fodd bynnag, fel yr amlinellais yn gynharach, rwyf o blaid cyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 er mwyn sicrhau bod lle i gynnwys y sector annibynnol yn y dyfodol os ceir tystiolaeth glir i gefnogi symudiad o'r fath.

I reject the notion that we should remove the SEN provisions from this Bill. It would be, in my view, a mistake not to bring forward provisions in this Bill when it is clear that this is a first step in the wider SEN reform agenda in which we need to be engaged.

Rwyf yn gwrthod y syniad y dylem gael gwared ar y darpariaethau AAA o'r Bil hwn. Yn fy marn i, byddai'n gamgymeriad peidio â chyflwyno darpariaethau yn y Bil hwn pan fo'n amlwg mai cam cyntaf yw hwn yn yr agenda ehangach i ddiwygio AAA y mae angen inni ymgymryd â hi.

16:37

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are objections, so I will defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau, felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Cynnig i Gytuno ar y Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â Bil Addysg (Cymru)

Cynnig NDM5377 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Addysg (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

# Motion to Agree the Financial Resolution in respect of the Education (Wales) Bill

Motion NDM5377 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Education (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

16:37

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

16:37

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn ategu'r hyn a ddywedais tua 10 munud yn ôl ynglŷn â pham y byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig ariannol hwn. Mae gennym gwestiynau difrifol ynglŷn â'r ffordd mae'r Bil wedi cael ei roi at ei gilydd. Er nad ydym yn gwrthwynebu'r egwyddor o sefydlu'r cyngor gweithlu addysg ehangach hwn, nid ydym wedi gweld paratoi ariannol digonol gan y Llywodraeth. Rydym yn ymwybodol, wrth inni ddechrau deddfu yn fwy helaeth, fod nifer o Filiau yn dod ger bron y Cynulliad a nifer o gwestiynau'n cael eu codi gan Aelodau meinciau cefn a'r gwrthbleidiau ynglŷn â sut mae'r Llywodraeth yn mynd i dalu am y deddfu hwn. Mae'n bwysig ein bod yn gweld y cyllid yn mynd law yn llaw â'r deddfu. Mae hynny wedi cael ei adlewyrchu yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid hefyd ynglŷn â'r gyllideb ddrafft bresennol.

I would like to reiterate what I said some 10 minutes ago with regard to why we will be voting against this financial resolution. We have serious questions about the way in which this Bill has been put together. We do not oppose the principle of setting up a wider education workforce council, but we have not seen adequate financial planning by the Government. We are aware that, as we legislate more and more, a number of Bills are being laid before the Assembly and many questions are being asked by backbench and opposition Members about how the Government intends to pay for the legislation. It is important that we see funding going hand in hand with legislation. That has been reflected too in the Finance Committee report on the current draft budget.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 16:38.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 16:38.*

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Felly, wrth bleidleisio a mynegi ein hanfodlonrwydd i gefnogi'r cynnig hwn y prynhawn yma, rydym yn cydnabod bod y cynnig yn un technegol, bron. Rydym yn cydnabod mai caniatáu gwariant a wneir ac nad cynnig cyllidebol fel y cyfryw ydyw, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, serch hynny, os ydych yn gwrthwynebu egwyddorion sylfaenol Bil ac yn gwneud hynny ar sail polisi ac ar sail fframwaith y Bil, eich bod hefyd yn gwrthwynebu'r cynnig ariannol.

Therefore, in voting against and expressing our dissatisfaction with the motion this afternoon, we recognise that the motion in mainly technical. We acknowledge that what it does is allow for expenditure rather than set out a budgetary position, as such, but I nevertheless feel that it is important that, if you oppose the fundamental principles of a Bill and do so on policy grounds and on the framework of the Bill, you also oppose the financial resolution.

16:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, do you wish to reply?

Weinidog, a ydych chi'n dymuno ymateb?

16:39

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Yes, if I may. I am confident that this Bill is financially sustainable, as set out in the regulatory impact assessment in the explanatory memorandum. As I set out in my evidence to the Children and Young People Committee, the education workforce council will remain a self-financing body in respect of its core functions and will raise its funds through an annual registration fee.

Ydw, os caf. Rwy'n hyderus bod y Bil hwn yn gynaliadwy yn ariannol, fel y nodir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn y memorandwm esboniadol. Fel y nodais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, bydd cyngor y gweithlu addysg yn parhau i fod yn gorff sy'n ei ariannu ei hun yng nghyswllt ei swyddogaethau craidd a bydd yn codi ei arian drwy ffi gofrestru flynyddol.

The Welsh Government currently funds the GTCW by way of a grant for specific work that it undertakes on the Welsh Government's behalf. For 2013-14, we issued funding for the GTCW of up to just over £6.3 million, which included work in relation to early professional development and the Master's in educational practice programme. There is an expectation that grant funding will continue for specific work to be undertaken by the new body. As I have already explained, the arrangements for the professional development of the wider education workforce are at different stages of development. We intend to develop regulations and, as such, we have not set funding levels for professional development as of now. The explanatory memorandum sets out that there is currently a budget of £100,000 for the promotion of careers. To be clear, this does not relate to professional development. There will be initial set-up costs for the education workforce council that will be incurred before fees are being generated from the new groups—for example, changes to the register database, administrative cost for registering new groups and communication and marketing. These costs will be the region of £150,000. There are other, more minor, elements to the financial case that I have already set out in front of the committee, Deputy Presiding Officer, but I remain content that we have a sustainable case as set out in that regulatory impact assessment.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n ariannu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru trwy gyfrwng grant ar gyfer gwaith penodol y mae'n ei wneud ar ran Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2013-14, cyhoeddwyd cyllid ar gyfer y CyngACC o ychydig dros £6.3 miliwn, a oedd yn cynnwys gwaith ym maes datblygiad proffesiynol cynnar a'r rhaglen gradd Meistr mewn ymarfer addysgol. Mae disgwyliad y bydd y cyllid grant yn parhau er mwyn galluogi'r corff newydd i gynnal gwaith penodol. Fel yr wyf wedi'i esbonio eisoes, mae'r trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol y gweithlu addysg ehangach wedi'u datblygu i wahanol raddau. Rydym yn bwriadu datblygu rheoliadau ac, fel y cyfryw, nid ydym wedi pennu lefelau cyllid ar gyfer datblygiad proffesiynol o hyn allan. Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi bod cyllideb o £100,000 ar gyfer hyrwyddo gyrfaoedd ar hyn o bryd. I fod yn glir, nid yw hyn yn ymwneud â datblygiad proffesiynol. Fe fydd costau cychwynnol ynghlwm wrth sefydlu cyngor y gweithlu addysg cyn y bydd ffioedd yn cael eu cynhyrchu o'r grwpiau newydd—er enghraifft, newidiadau i gronfa ddata'r gofrestr, cost weinyddol ar gyfer cofrestru grwpiau newydd a chyfathrebu a marchnata. Bydd y costau hyn tua £150,000. Mae elfennau eraill, mwy mân, i'r achos ariannol yr wyf eisoes wedi'u cyflwyno i'r pwyllgor, Ddirprwy Lywydd, ond rwy'n dal yn fodlon bod gennym achos cynaliadwy fel y'i nodir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol.

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I defer voting on this item, as we have not yet disposed of the general principles debate by voting on the motion.

Byddaf yn gohirio'r pleidleisio ar yr eitem hon, gan nad ydym wedi cwblhau'r ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol eto drwy bleidleisio ar y cynnig.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

# Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill

### Grŵp 1: Adolygu Gweithrediad y Ddeddf (Gwelliannau 4 ac 1)

### Group 1: Review of Operation of Act (Amendments 4 and 1)

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is 4. I call on the Minister to move the lead amendment and to speak to it and the other amendment in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw 4. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y prif welliant ac i siarad amdano a'r gwelliant arall yn y grŵp.

16:41 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I move amendment 4 in my name.

Cynigiaf welliant 4 yn fy enw i.

Before I begin to debate the tabled amendments, I would like to start by saying how pleased I am that we have reached Stage 3 of the legislative process for this Bill. In my statement to Members on 24 September, I advised that I would keep under close review the effects of the Bill on matters such as provision for the Welsh language and additional learning needs. Amendment 4 proposes to deliver this commitment. It proposes to review the impact of the Act on 16-18 provision, additional learning needs and Welsh-language provisions. I am confident that the Welsh Government already has in place robust mechanisms that safeguard the proper delivery of 16-18 provision, ALN and the delivery of Welsh-medium and bilingual learning in further education. Delivery plans from colleges will be monitored at regular intervals. The timescale for review that I have proposed in this amendment—31 July 2016—will coincide with existing planning and review mechanisms.

Cyn i mi ddechrau trafod y gwelliannau a gyflwynwyd, hoffwn ddechrau trwy ddweud mor falch yr wyf ein bod wedi cyrraedd Cyfnod 3 y broses ddeddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn. Yn fy natganiad i Aelodau ar 24 Medi, dywedais y byddwn yn parhau i adolygu'n agos effaith y Bil ar faterion megis y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae gwelliant 4 yn cynnig cyflawni'r ymrwymiad hwn. Mae'n cynnig adolygu effaith y Ddeddf ar ddarpariaeth 16-18, anghenion dysgu ychwanegol a darpariaethau iaith Gymraeg. Rwy'n hyderus bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi sefydlu mecanweithiau cadarn er mwyn sicrhau bod darpariaeth 16-18, anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach yn cael ei chyflwyno'n briodol. Bydd cynlluniau cyflawni gan golegau yn cael eu monitro'n rheolaidd. Bydd yr amserlen ar gyfer yr adolygiad yr wyf wedi'i gynnig yn y gwelliant hwn—31 Gorffennaf, 2016—yn cyd-fynd â mecanweithiau cynllunio ac adolygu sy'n bodoli eisoes.

Non-Government amendment 1 would commit Welsh Ministers to review the impact of the Act on the terms and conditions of all persons employed by all further education institutions in Wales. While I applaud the intention behind this amendment, I must point out that Welsh Ministers do not have any statutory functions in respect of the terms and conditions on which FE institutions employ staff. Ultimately, it is for further education institutions, as autonomous bodies, to decide upon the terms and conditions on which they employ staff.

Byddai gwelliant 1, na chyflwynwyd gan y llywodraeth yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i adolygu effaith y Ddeddf ar delerau ac amodau pawb a gyflogir gan bob sefydliad addysg bellach yng Nghymru. Er fy mod yn cymeradwyo'r bwriad sydd wrth wraidd y gwelliant hwn, rhaid imi dynnu sylw at y ffaith nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw swyddogaethau statudol o ran y telerau a'r amodau ar gyfer cyflogi staff gan sefydliadau addysg bellach. Yn y pen draw, mater i'r sefydliadau addysg bellach, fel cyrff annibynnol, yw penderfynu ar y telerau a'r amodau ar gyfer cyflogi staff.

Progress has been made in the delivery of the common contract for the FE sector in Wales by all parties involved without, thus far, any need for legislation. The commitment and the tenacity of the employers and the joint trade unions in getting to this stage should be recognised, and I am pleased to share with Members that, last Friday, I received a letter from the further education joint trade unions for Wales informing me that, following a three-week consultation with members, the vast majority of those voting voted in favour of accepting the common contract of employment for FE staff in Wales. An implementation date has been set for 1 September 2016 for the transfer of staff onto the new contract, and individual colleges will decide on whether to accept the conditions in January.

Mae pob parti sy'n gysylltiedig wedi cymryd camau tuag at sicrhau contract cyffredin ar gyfer y sector addysg bellach yng Nghymru heb, hyd yma, unrhyw angen am ddeddfwriaeth. Dylid cydnabod ymrwymiad a dycnwch y cyflogwyr a'r cyd-undebau llafur wrth gyrraedd y cam hwn, ac rwy'n falch i allu dweud wrth Aelodau fy mod, ddydd Gwener diwethaf, wedi cael llythyr gan gyd-undebau llafur addysg bellach Cymru yn fy hysbysu bod mwyafrif llethol y rhai a bleidleisiodd, yn dilyn ymgynghoriad tair wythnos ag aelodau, wedi pleidleisio o blaid derbyn y contract cyflogaeth cyffredin ar gyfer staff addysg bellach yng Nghymru. Pennwyd 1 Medi 2016 fel dyddiad gweithredu ar gyfer trosglwyddo staff ar y contract newydd, a bydd colegau unigol yn penderfynu p'un a ydynt yn derbyn yr amodau ym mis Ionawr.

We must be aware that any attempt by Welsh Ministers to control the terms and conditions on which further education institutions employ staff would invariably risk attracting the attention of the Office for National Statistics as being a control over the affairs of an FEI, which could, potentially, undermine the whole purpose of the Bill. Also, I consider the amendment to be out of the scope of the Act, because the Act makes no provision for, and will have no impact on, terms and conditions of employment at FEIs in Wales. I would, therefore, urge Members to support Government amendment 4, but to resist amendment 1.

Mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol y byddai unrhyw ymgais gan Weinidogion Cymru i reoli telerau ac amodau cyflogaeth mewn sefydliadau addysg bellach yn bendant yn peri risg o ddenu sylw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rheolaeth dros faterion sefydliad addysg bellach, a gallai hynny, o bosibl, danseilio holl ddiben y Bil. Hefyd, rwy'n ystyried bod y gwelliant y tu allan i gwmpas y Ddeddf, gan nad yw'r Ddeddf yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer telerau ac amodau cyflogaeth mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, ac na fydd yn cael unrhyw effaith ar hynny. Byddwn, felly, yn annog yr Aelodau i gefnogi gwelliant 4 y Llywodraeth, ond i wrthsefyll gwelliant 1.

16:45 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for tabling amendment 4, which we intend to support. However, I wonder whether you could reassure me on a specific point. One of the pleasing aspects of the review will be an assessment of the impact of the operation of this Act on Welsh-language provision, which will be of particular interest to 14 to 16-year-olds from Welsh-medium schools who go out of school to FE colleges for their vocational courses. As a result of your assessment, in due course, you may consider that a further education institution needs to take steps to ensure that that particular age group, which is in compulsory education, receives improved Welsh-language provision. I appreciate that you have to be careful with this legislation not to cross the line of influence, which might jeopardise the non-profit institutions serving households status. So, are you confident that there are levers within the Government that can be used to prompt that improvement without crossing that line?

Weinidog, diolch ichi am gyflwyno gwelliant 4, ac rydym yn bwriadu ei gefnogi. Fodd bynnag, tybed a allech chi dawelu fy meddwl ar bwynt penodol. Un o agweddau dymunol yr adolygiad fydd asesiad o effaith gweithrediad y Ddeddf hon ar ddarpariaeth yr iaith Gymraeg, a fydd o ddiddordeb arbennig i rai 14 i 16 mlwydd oed o ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n mynd allan o'r ysgol i golegau addysg bellach ar gyfer eu cyrsiau galwedigaethol. O ganlyniad i'ch asesiad, maes o law, efallai y byddwch yn ystyried bod angen i sefydliad addysg bellach gymryd camau i sicrhau bod y grŵp oedran penodol hwnnw, sydd mewn addysg orfodol, yn derbyn gwell darpariaeth yn yr iaith Gymraeg. Rwy'n sylweddoli bod yn rhaid i chi fod yn ofalus â'r ddeddfwriaeth hon i beidio â chroesi'r llinell ddylanwad, a allai beryglu'r statws sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu cartrefi. Felly, a ydych yn hyderus bod dulliau y gellir eu defnyddio o fewn Llywodraeth i annog y gwelliant hwnnw heb groesi'r llinell?

I raise the question, which will equally apply to 14 to 16-year-olds with additional learning needs, in the context of this amendment because there seems to be little point in supporting a Government duty to assess if the Government is then hamstrung from acting on the results of that assessment. Thank you.

Codaf y cwestiwn, a fydd yr un mor berthnasol i rai 14 i 16 mlwydd oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yng nghyd-destun y gwelliant hwn oherwydd yr ymddengys nad oes llawer o bwynt mewn cefnogi dyletswydd ar y Llywodraeth i asesu os yw'r Llywodraeth wedyn yn cael ei rhwystro rhag gweithredu ar ganlyniadau'r asesiad hwnnw. Diolch.

16:46 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We support amendment 4 by the Government because my colleague Simon Thomas and I tabled similar amendments at the previous stage. However, I now wish to speak to the amendment that I tabled with regard to terms and conditions of persons employed in FE.

Rydym yn cefnogi gwelliant 4 gan y Llywodraeth, oherwydd bod fy nghydweithiwr, Simon Thomas, a minnau wedi cyflwyno gwelliannau tebyg yn y cyfnod blaenorol. Fodd bynnag, rwy'n awr yn dymuno siarad am y gwelliant a gyflwynais ynglŷn â thelerau ac amodau pobl a gyflogir mewn addysg bellach.

This amendment opens up a clear area of concern with regard to this Bill. How do we ensure that the terms and conditions of staff are protected and respected when we are affording FE less, not more, autonomy and thus a stark decrease in public scrutiny? It was only today that staff at Cardiff were striking over the inability to reach a negotiated deal with bosses at the university over acceptable pay increases. We have also seen the press, of late, talk of the problems that zero-hour contracts cause for individuals. Sadly, those contracts still remain in the public sector and in the educational world.

Mae'r gwelliant hwn yn agor maes clir o bryder o ran y Bil hwn. Sut mae sicrhau bod telerau ac amodau staff yn cael eu diogelu a'u parchu a ninnau'n rhoi llai, ac nid mwy, o ymreolaeth i addysg bellach, ac yn amlwg felly yn gostwng lefel y craffu cyhoeddus? Heddiw ddiwethaf, roedd staff yng Nghaerdydd yn streicio dros yr anallu i ddod i gytundeb gyda phenaethiaid yn y brifysgol dros godiadau cyflog derbyniol. Rydym hefyd wedi gweld y wasg, yn ddiweddar, yn sôn am y problemau y mae contractau dim oriau yn eu hachosi i unigolion. Yn anffodus, mae'r contractau hynny'n dal i fodoli yn y sector cyhoeddus ac yn y byd addysg.

Yes, we know that the national contract is being negotiated and I welcome the statement here today, but trade unions, such as the University and College Union, are deeply concerned that, with the passing of this Bill, coupled with budget cuts in general, colleges will seek to use more part-time hourly contracts, which have proven to adversely affect staff morale and put tutors in vulnerable situations where they cannot afford to pay their bills, pushing them into poverty—female and ethnic minority tutors more often than not. Evidence from the UCU to the committee, I feel, showed that this amendment is quite necessary, contrary to what the Minister has just said. It said,

Ydym, rydym yn gwybod bod y contract cenedlaethol yn cael ei drafod ac rwy'n croesawu'r datganiad yma heddiw, ond mae undebau llafur, fel yr Undeb Prifysgolion a Cholegau, yn bryderus iawn y bydd colegau yn ceisio defnyddio mwy o gontractau fesul awr rhan-amser, pe byddai'r Bil hwn yn cael ei basio, ac yn wyneb toriadau yn y gyllideb yn gyffredinol. Profwyd bod contractau o'r fath yn cael effaith andwyol ar ysbryd y staff ac yn rhoi tiwtoriaid mewn sefyllfaoedd ansicr lle na allant fforddio talu eu biliau, gan eu gwthio i dlodi—tiwtoriaid sy'n fenywod ac yn aelodau o leiafrifoedd ethnig yn amlach na pheidio. Roedd tystiolaeth gan yr Undeb Prifysgolion a Cholegau i'r pwyllgor, rwy'n teimlo, yn dangos bod y gwelliant hwn yn eithaf angenrheidiol, yn groes i'r hyn y mae'r Gweinidog newydd ei ddweud. Dywedodd,

'The reality is that in the current conditions-of-funding letter, colleges have to agree to maintain those national agreements. If they do not agree to maintain them and if they do not implement them, the Government can withdraw some of their funding.'

Y realiti yw bod yn rhaid i golegau, yn y llythyr amodau ariannu cyfredol , gytuno i gynnal y cytundebau cenedlaethol hynny. Os nad ydynt yn cytuno i'w cynnal ac os nad ydynt yn eu rhoi ar waith, gall y Llywodraeth dynnu rhywfaint o'u cyllid yn ôl.

Therefore, I do believe that it is pertinent within this Bill to be able to legislate.

Felly, rwy'n credu ei bod yn berthnasol i allu deddfu o fewn y Bil hwn.

I urge you to support the aim that, no later than at the end of the period of one year beginning immediately after the commencement of this Act, a review is undertaken assessing its impact on the terms and conditions of all persons employed by further education corporations. In his previous evidence to the committee in relation to the budget set for FE, the Minister stated that he has set up an FE sub-group to discuss such issues, but that that sub-group would only consist of ColegauCymru and not wider staff membership, which I believe is necessary if we are going to be able to scrutinise this Bill in the future.

Rwy'n eich annog i gefnogi'r nod o gynnal adolygiad, heb fod yn hwyrach nag ar ddiwedd y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau yn union ar ôl cychwyn y Ddeddf hon, yn asesu ei heffaith ar delerau ac amodau pob person a gyflogir gan gorfforaethau addysg bellach. Yn ei dystiolaeth flaenorol i'r pwyllgor ynglŷn â'r gyllideb a bennwyd ar gyfer addysg bellach, dywedodd y Gweinidog ei fod wedi sefydlu is-grŵp addysg bellach i drafod materion o'r fath, ond y byddai'r is-grŵp yn cynnwys ColegauCymru yn unig ac nid aelodaeth ehangach o staff. Credaf fod hynny'n angenrheidiol os ydym yn mynd i allu craffu ar y Bil hwn yn y dyfodol.

The Minister also makes a point of saying that it would not be right for the Government to intervene with the wages or the terms of conditions of staff, but at previous stages in this National Assembly for Wales, the Government has intervened by introducing the Agricultural Sector (Wales) Bill, which provides Welsh Ministers with the power to make future agricultural wage orders, and the power to establish a new agricultural advisory board, to provide careers in agriculture, and enables that particular panel to carry out functions relating to the operations of the sector, such as promoting careers in agriculture or to make recommendations to Welsh Ministers to specify minimum terms and conditions. Therefore, I simply do not agree that it would be impossible for us to carry out this review because the Welsh Government has set a precedent with the Agricultural Wages Board in looking at and legislating on wages.

Mae'r Gweinidog hefyd yn gwneud pwynt o ddweud na fyddai'n briodol i'r Llywodraeth ymyrryd â chyflogau neu delerau ac amodau staff, ond yn flaenorol yn y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Llywodraeth wedi ymyrryd trwy gyflwyno'r Bil Sector Amaethyddol (Cymru), sy'n rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i wneud gorchmynion yn y dyfodol ynglŷn â chyflogau amaethyddol, a'r pŵer i sefydlu bwrdd cynghori amaethyddol newydd, er mwyn darparu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, ac sy'n galluogi'r panel arbennig hwnnw i gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â gweithrediadau'r sector, megis hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth neu wneud argymhellion i Weinidogion Cymru i bennu telerau ac amodau gofynnol. Felly, nid wyf yn cytuno y byddai'n amhosibl inni gynnal yr adolygiad hwn oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi gosod cynsail gyda'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol wrth ystyried a deddfu ar gyflogau.

This is simply a review. I think that those in the sector would welcome this review because, at the end of the day, we are widening the gap between the FE sector and Welsh Government. I have spoken to many lecturers in the sector who would welcome this review, if only to make sure that there are checks and balances in place so that if terms and conditions change, we can come back as legislators in the National Assembly to hold you, Minister, to account.

Adolygiad yw hwn a dim mwy. Rwy'n meddwl y byddai pobl yn y sector yn croesawu'r adolygiad hwn oherwydd ein bod, yn y pen draw, yn ehangu'r bwlch rhwng y sector addysg bellach a Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi siarad â nifer o ddarlithwyr yn y sector a fyddai'n croesawu'r adolygiad hwn, petai ond i wneud yn siŵr bod dulliau o archwilio a chloriannu wedi'u sefydlu fel y gallwn, os yw telerau ac amodau yn newid, ddod yn ôl fel deddfwyr yn y Cynulliad Cenedlaethol i'ch dwyn chi, Weinidog, i gyfrif.

16:50 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We shall also be supporting amendment 4 and we are pleased that the Minister has acknowledged the need for a review looking at additional learning needs and Welsh-language provision in particular. We had hoped for a wider review because of our concerns. The Government amendment refers to concentrating on the 16 to 18 cohort. I think that even before the current funding cuts, there were concerns with regard to the impact of declining FE participation rates on the 19 plus age group. For example, while the participation rates for the 25 to 35 age group have fallen by only 32%, for the 65-plus age group, even current rates have declined by 49%. We had hoped that there would have been a more general review, looking at whether the creation of these more autonomous institutions was actually speeding up those declines. However, we are pleased that the Minister has at least moved forward and has indicated that this limited review will be undertaken, after the Government initially indicated in Stage 2 that it was beyond the scope of the Bill for the review to be undertaken—but credit where credit is due.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 4 ac rydym yn falch fod y Gweinidog wedi cydnabod yr angen am adolygiad yn edrych ar anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth iaith Gymraeg yn benodol. Roeddem wedi gobeithio am adolygiad ehangach oherwydd ein pryderon. Mae gwelliant y Llywodraeth yn cyfeirio at ganolbwyntio ar y garfan 16 i 18. Hyd yn oed cyn y toriadau presennol i'r cyllid, rwy'n meddwl fod pryderon ynglŷn ag effaith y gostyngiad yn y cyfraddau sy'n cymryd rhan mewn addysg bellach ymhlith y grŵp oedran dros 19 oed. Er enghraifft, tra bod y cyfraddau cyfranogiad ar gyfer y grŵp oedran 25-35 wedi gostwng 32% yn unig, mae hyd yn oed y cyfraddau presennol wedi gostwng 49% ymhlith y grŵp oedran 65 a hŷn. Roeddem wedi gobeithio y byddai adolygiad mwy cyffredinol yn cael ei gynnal, gan ystyried a yw'r dirywiad hwnnw'n cyflymu mewn gwirionedd yn sgil creu sefydliadau â mwy o ymreolaeth. Fodd bynnag, rydym yn falch bod y Gweinidog o leiaf wedi symud ymlaen ac wedi nodi y bydd yr adolygiad cyfyngedig hwn yn cael ei gynnal, ar ôl i'r Llywodraeth nodi'n wreiddiol yng Nghyfnod 2 ei fod y tu hwnt i gwmpas y Bil i gynnal yr adolygiad—ond dylid rhoi clod lle mae'n ddyledus.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

16:51 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Just very briefly, in terms of Suzy Davies's very specific point about the 14 to 16 age group, they are of compulsory age and, therefore, governed by a different regime. I will have to undertake to write to Suzy Davies to ensure that I answer her concerns in full.

Dim ond yn fyr iawn, o ran pwynt penodol iawn Suzy Davies am y grŵp oedran 14 i 16, maent o oedran gorfodol ac, felly, yn destun cyfundrefn wahanol. Bydd yn rhaid imi fynd ati i ysgrifennu at Suzy Davies i sicrhau fy mod yn ateb ei phryderon yn llawn.

In terms of Bethan Jenkins's remarks, I have every sympathy and share many of the concerns that Bethan Jenkins has underscored this afternoon. However, clearly, in my view, this Bill is not the place to have this sort of debate and it is not the place to meet those concerns. Any attempt to do so, in my view, would destabilise the whole basis upon which the Bill has been put together and would prove counterproductive.

O ran sylwadau Bethan Jenkins, mae gennyf bob cydymdeimlad ac rwy'n rhannu llawer o'r pryderon y mae Bethan Jenkins wedi'u tanlinellu brynhawn heddiw. Fodd bynnag, yn amlwg, yn fy marn i, nid y Bil hwn yw'r lle i gael y math hwn o ddadl, ac nid dyma'r lle i ymateb i'r pryderon hynny. Byddai unrhyw ymgais i wneud hynny, yn fy marn i, yn ansefydlogi'r holl sylfaen y mae'r Bil wedi'i seilio arno a byddai'n profi'n wrthgynhyrchiol.

In terms of Aled Roberts's remarks, I understand his concerns but, as he says, that is perhaps outside the scope of the Bill.

O ran sylwadau Aled Roberts, rwy'n deall ei bryderon, ond, fel y dywed, efallai fod hynny y tu hwnt i gwmpas y Bil.

16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 4 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 4 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I invite Bethan Jenkins to move amendment 1.

Rwy'n gwahodd Bethan Jenkins i gynnig gwelliant 1.

16:52 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1 in my name.

Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i.

16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly byddwn yn cael pleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1.

Result of the vote on amendment 1.

*Gwrthodwyd gwelliant 1: O blaid 10, Yn erbyn 44, Ymatal 0.*

*Amendment 1 not agreed: For 10, Against 44, Abstain 0.*

16:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have called this vote, because the fact that Janice Gregory was unable to vote will not affect the result in this one. However, we will check before the next vote that Janice Gregory's machine is working. I acknowledge that she did not have the opportunity to vote on this amendment.

Rwyf wedi galw'r bleidlais hon, gan nad effeithir ar y canlyniad oherwydd na fydd Janice Gregory yn gallu pleidleisio. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud yn siŵr cyn y bleidlais nesaf bod peiriant Janice Gregory yn gweithio. Rwy'n cydnabod na chafodd y cyfle i bleidleisio ar y gwelliant hwn.

### Grŵp 2: Trefniadau Trosiannol (Gwelliannau 6 a 7)

### Group 2: Transitional Arrangements (Amendments 6 and 7)

16:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 6. I call on Aled Roberts to move amendment 6 and to speak to it and the other amendment in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 6. Rwy'n galw ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 6 a siarad amdano a'r gwelliant arall yn y grŵp.

16:53 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 6 in my name, supported by Simon Thomas.

Cynigiaf welliant 6 yn fy enw i, ac fe'i cefnogir gan Simon Thomas.

We have tabled this amendment in order to strengthen the level of accountability and the amendment is in line with recommendations from the Constitutional and Legislative Affairs Committee, which were agreed on a cross-party basis, securing the aim of improving scrutiny and proper accountability. With the Government including transitional, transitory and saving positions within its secondary powers, which are normally not subject to the affirmative procedure, Ministers may enact provisions that act beyond the original scope or intentions of the Bill. These provisions, under section 10(3)(b), could go beyond simply commencing the provisions contained within the Bill and potentially result in Orders that go beyond the original intention.

Rydym wedi cyflwyno'r gwelliant hwn er mwyn cryfhau lefel yr atebolrwydd, ac mae'r gwelliant yn cyd-fynd ag argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y cytunwyd arnynt ar sail drawsbleidiol, gan sicrhau'r nod o wella craffu ac atebolrwydd priodol. Gan fod y Llywodraeth yn cynnwys darpariaethau trosiannol, darfodol ac arbed o fewn ei phwerau eilaidd, nad yw'r weithdrefn gadarnhaol fel arfer yn berthnasol iddynt, gall Gweinidogion ddeddfu darpariaethau sy'n gweithredu y tu hwnt i gwmpas neu fwriadau'r Bil gwreiddiol. Gallai'r darpariaethau hyn, o dan adran 10 (3)(b), fynd y tu hwnt i gychwyn y darpariaethau sydd yn y Bil ac o bosibl arwain at Orchmynion sy'n mynd y tu hwnt i'r bwriad gwreiddiol.

Legislation that the Assembly does pass must involve provisions that are made clear in the legislative process and, if not, the Assembly should have the final say. We hope that the inclusion of this amendment secures a suitable level of scrutiny regarding any of those additional provisions emerging from the use of the secondary powers.

Rhaid i ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei phasio gynnwys darpariaethau sy'n cael eu gwneud yn eglur yn y broses ddeddfwriaethol ac, os na, dylai'r Cynulliad gael y gair olaf. Rydym yn gobeithio y gellir, trwy gynnwys y gwelliant hwn, sicrhau lefel addas o graffu ar unrhyw un o'r darpariaethau ychwanegol hynny sy'n deillio o'r defnydd o'r pwerau eilaidd.

16:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

16:55

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Again, I have listened carefully to the arguments put forward by Aled Roberts, and I agree there is a need to ensure appropriate scrutiny by the Assembly, of course, but this must be balanced against the need for effective and efficient arrangements to bring the Assembly Acts into force. The effect of amendment 6 would be to require an Order, including a commencement Order, which includes ancillary provision relating to the commencement of the Act to be subject to the negative procedure in the Assembly. A commencement Order is one way in which provisions of an Assembly Act are brought into force, and as part of a commencement Order it is usual to include ancillary provisions. Ancillary provisions can commonly include transitional, transitory and savings provisions to cover the transition from the old law to the new. I consider that it is necessary to distinguish between ancillary matters that are properly part of commencement and those that are not. Ancillary provisions included in a commencement Order must relate to the commencement of the Act. They are provisions that are necessary or desirable for the purpose of bringing new legislation into force. To be clear, they are not freestanding, substantive provisions.

Unwaith eto, rwyf wedi gwrando'n ofalus ar y dadleuon a gyflwynwyd gan Aled Roberts, ac rwy'n cytuno bod angen sicrhau y gall y Cynulliad graffu'n briodol, wrth gwrs, ond rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen am drefniadau effeithiol ac effeithlon i ddod â Deddfau'r Cynulliad i rym. Byddai gwelliant 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Orchymyn, gan gynnwys Gorchymyn cychwyn, sy'n cynnwys darpariaeth atodol yn ymwneud â chychwyn y Ddeddf, fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Cynulliad. Mae Gorchymyn cychwyn yn un ffordd y caiff darpariaethau un o Ddeddfau'r Cynulliad eu dwyn i rym, mae'n arferol cynnwys darpariaethau ategol yn rhan o Orchymyn cychwyn. Gall darpariaethau ategol gynnwys darpariaethau trosiannol, darfodol ac arbed i gwmpasu'r newid o'r hen gyfraith i'r newydd. Rwyf o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwahaniaethu rhwng materion ategol y mae'n briodol iddynt fod yn rhan o'r broses gychwyn, a rhai lle nad yw hynny'n briodol. Rhaid i'r darpariaethau Ategol a gynhwysir mewn Gorchymyn cychwyn ymwneud â chychwyn y Ddeddf. Maent yn ddarpariaethau sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol at ddiben dod â deddfwriaeth newydd i rym. I fod yn glir, nid ydynt yn ddarpariaethau annibynnol, sylweddol.

The transitional ancillary provisions in a commencement Order allow for an orderly transition to a new legal regime when it comes into force, for example, to ensure that procedures under previous legislation continue to apply to existing cases after the commencement of new legislation.

Mae'r darpariaethau ategol trosiannol mewn Gorchymyn cychwyn yn caniatáu ar gyfer symud yn drefnus i drefn gyfreithiol newydd pan ddaw i rym, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau o dan y ddeddfwriaeth flaenorol yn parhau i fod yn berthnasol i achosion sy'n bodoli eisoes ar ôl cychwyn y ddeddfwriaeth newydd.

The power to make ancillary provisions in section 10 of the Bill is limited to that purpose. Therefore, section 10 of the Bill can only be relied on to make ancillary provision that is in connection with the coming into force of this Act. Commencement Orders are usually subject to no Assembly procedure as the effect of a commencement Order is to bring into force provisions of an Assembly Act that the Assembly has already approved. The Assembly will have approved the substance of the Act and, as I have already said, the commencement Order simply implements that Act with any ancillary provisions to give practical effect to the commencement. By the stage of implementation of an Act, the Assembly will already have considered the issues. There will be no new issues arising out of the bringing into force of the Act for the Assembly to scrutinise. Accordingly, I do not think that the important balance between Assembly scrutiny and the need for effective and efficient implementation of an Act would be best served by a commencement Order that contains ancillary provisions being subject to the negative procedure. Commencement Orders relating to primary legislation, be they Assembly Bills or Measures, have to date not been subject to a procedure, and I am not aware of any issue in relation to this Bill that would justify a different approach being taken. I therefore ask Assembly Members to resist amendments 6 and 7.

Mae'r pŵer i wneud darpariaethau ategol yn adran 10 o'r Bil wedi'i gyfyngu i'r diben hwnnw. Felly, ni ellir ond dibynnu ar adran 10 o'r Bil i wneud darpariaeth atodol sy'n gysylltiedig â dyfodiad y Ddeddf hon i rym. Fel arfer, nid yw Gorchmynion Cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad gan mai effaith Gorchymyn cychwyn yw dwyn i rym ddarpariaethau Deddf y mae'r Cynulliad eisoes wedi'u cymeradwyo. Bydd y Cynulliad wedi cymeradwyo sylwedd y Ddeddf ac, fel yr wyf wedi'i ddweud yn barod, nid yw'r Gorchymyn cychwyn ond yn gweithredu'r Ddeddf honno ag unrhyw ddarpariaethau ategol i roi effaith ymarferol i'r cychwyn. Erbyn cam gweithredu'r Ddeddf, bydd y Cynulliad eisoes wedi ystyried y materion. Ni fydd unrhyw faterion newydd i'r Cynulliad graffu arnynt, yn deillio o ddwyn y Ddeddf i rym. Felly, nid wyf yn meddwl mai'r ffordd orau o sicrhau'r cydbwysedd pwysig rhwng gwaith craffu'r Cynulliad a'r angen i weithredu Deddf yn effeithiol ac effeithlon fyddai trwy i Orchymyn cychwyn sy'n cynnwys darpariaethau ategol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Nid yw Gorchmynion Cychwyn sy'n ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol, boed yn Filiau neu Fesurau'r Cynulliad, hyd yma, wedi bod yn destun unrhyw weithdrefn, ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw fater mewn cysylltiad â'r Bil hwn a fyddai'n cyfiawnhau dilyn trefn wahanol. Felly, gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad wrthod gwelliannau 6 a 7.

16:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Aled Roberts to reply.

Rwy'n galw ar Aled Roberts i ymateb.

16:58 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is clearly a difference of opinion with regard to the use of secondary powers, but clearly the Constitutional and Legislative Affairs Committee has concerns, and I think that those concerns have been expressed in the previous debate. On that basis, I think that we need to vote on the amendment.

Mae'n amlwg bod gwahaniaeth barn o ran y defnydd o bwerau eilaidd, ond mae'n amlwg fod gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol bryderon, ac rwy'n meddwl bod y pryderon hynny wedi cael eu mynegi yn y ddadl flaenorol. Ar y sail honno, rwy'n meddwl bod angen inni bleidleisio ar y gwelliant.

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 6 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly cynhelir pleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6.

Result of the vote on amendment 6.

*Gwrthodwyd gwelliant 6: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 6 not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Aled, do you wish to move amendment 7?

Aled, a ydych am gynnig gwelliant 7?

16:59 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 7 in my name.

Cynigiaf welliant 7 yn fy enw i.

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 7 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly cynhelir pleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7.

Result of the vote on amendment 7.

*Gwrthodwyd gwelliant 7: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 7 not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

## Grŵp 3: Cynrychiolaeth ar Gyrff Llywodraethu (Gwelliannau 5, 5A a 3)

## Group 3: Representation on Governing Bodies (Amendments 5, 5A and 3)

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 5, and I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 5. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y prif welliant a siarad am hwnnw ac ar y gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:59 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 5 in my name.

Cynigiaf welliant 5 yn fy enw i.

We turn now to governing body membership, as you say. Amendment 5A, tabled by Simon Thomas, and amendment 3, tabled by Angela Burns, relate to the same issue as amendment 5, tabled in my name. Government amendment 5 is an amended version of an amendment tabled at Stage 2 to reflect the comments made by Members. Let me try to unpack amendment 5 for Members. It still requires that staff membership on the governing body include teaching staff and non-teaching staff, which was resisted in Stage 2. If staff are to be represented on the governing body, the fairest and most equitable approach is to give non-teaching staff as well as teaching staff, who, for obvious reasons, have significant visibility in a college, a voice on college matters. That would not happen if amendment 3 were supported, as it does not make the distinction between teaching and non-teaching staff.

Trown yn awr at aelodaeth cyrff llywodraethu, fel y dywedwch. Mae gwelliant 5A, a gyflwynwyd gan Simon Thomas, a gwelliant 3, a gyflwynwyd gan Angela Burns, yn ymwneud â'r un pwnc â gwelliant 5, a gyflwynwyd yn fy enw i. Mae gwelliant 5 y Llywodraeth yn fersiwn ddiwygiedig o welliant a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2 i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan Aelodau. Gadewch i mi geisio dadansoddi gwelliant 5 ar gyfer Aelodau. Mae'n dal i fynnu bod aelodaeth y staff ar y corff llywodraethu yn cynnwys staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, a wrthwynebwyd yng Nghyfnod 2. Os bwriedir i staff gael eu cynrychioli ar y corff llywodraethu, y dull tecaf a mwyaf cyfiawn yw rhoi llais ar faterion y coleg i staff nad ydynt yn addysgu yn ogystal â staff addysgu sydd, am resymau amlwg, yn weladwy iawn mewn coleg. Ni fyddai hynny'n digwydd pe byddai gwelliant 3 yn cael ei gefnogi, gan nad yw'n gwahaniaethu rhwng staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu.

Amendment 5 requires student members to be elected either by the entire student population of the institution or by an association representing students that is recognised by the body, for example, the National Union of Students. This flexibility is to benefit the learners, and recognises student governors as an important means by which learners can influence decision making in their college, alongside other mechanisms such as student unions and course representatives. Part of the student governors' role is to ensure that the governing body puts learners at the centre of its decisions. Electing student governors through democratic processes will help to ensure that they are truly representative of learners' views and wishes.

Mae gwelliant 5 yn mynnu bod aelodau sy'n fyfyrwyr yn cael eu hethol naill ai gan y boblogaeth gyfan o fyfyrwyr yn y sefydliad neu gan gymdeithas sy'n cynrychioli myfyrwyr ac sy'n cael ei gydnabod gan y corff, er enghraifft, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Y bwriad yw i'r hyblygrwydd hwn fod o fudd i'r dysgwyr, a chydnabod llywodraethwyr sy'n fyfyrwyr fel ffordd bwysig i ddysgwyr ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir yn eu coleg, ochr yn ochr â dulliau eraill megis undebau myfyrwyr a chynrychiolwyr cyrsiau. Rhan o swyddogaeth y llywodraethwyr sy'n fyfyrwyr yw sicrhau bod y corff llywodraethu'n rhoi dysgwyr wrth wraidd ei benderfyniadau. Trwy ethol llywodraethwyr sy'n fyfyrwyr trwy brosesau democrataidd, gellir helpu i sicrhau eu bod wir yn cynrychioli safbwyntiau a dymuniadau'r dysgwyr.

However, it is important to remember that colleges do not cater only to full-time, campus-based students. Every college in Wales is involved in delivering work-based learning, community learning and a diverse range of courses to learners of all ages and levels. Student governors need to represent the whole learner profile of a college, and, therefore, processes for election and consultation need to take account of this diversity, rather than being restricted to mainstream, full-time learners. My officials have worked in partnership with NUS Wales to strengthen learner involvement in colleges. In 2013, my department introduced Learner Voice Wales, an annual survey of learner satisfaction across the post-16 sector. Over 50,000 participants responded to the first survey. Learner Voice Wales will provide an invaluable source of information on learners' views, which can be used by learner representatives, governing bodies and college staff to identify both strengths and areas for improvement.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw colegau yn darparu ar gyfer myfyrwyr amser llawn ar y campws yn unig. Mae pob coleg yng Nghymru yn cyflwyno rhaglenni dysgu seiliedig ar waith, dysgu yn y gymuned ac ystod amrywiol o gyrsiau i ddysgwyr o bob oed a lefel. Mae angen i lywodraethwyr sy'n fyfyrwyr gynrychioli proffil cyfan y dysgwyr mewn coleg, ac felly, mae angen i'r prosesau ar gyfer ethol ac ymgynghori ystyried yr amrywiaeth hwn, yn hytrach na chael eu cyfyngu i ddysgwyr prif ffrwd, amser llawn. Mae fy swyddogion wedi gweithio mewn partneriaeth ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru i gryfhau cyfranogiad dysgwyr mewn colegau. Yn 2013, cyflwynodd fy adran Lais y Dysgwr i Gymru, sef arolwg blynyddol o foddhad dysgwyr ar draws y sector ôl-16. Ymatebodd dros 50,000 o gyfranogwyr i'r arolwg cyntaf. Bydd Llais y Dysgwr i Gymru yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ynglŷn â barn dysgwyr, a gall cynrychiolwyr dysgwyr, cyrff llywodraethu a staff y coleg ei ddefnyddio i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.

Amendment 5, as it stands, allows for student members to be elected by an association representing students or, as the institution determines, the entire student population, whichever is the most appropriate. Amendment 5A wishes to remove the flexibility that would allow corporations to involve associations representing students from the election process. Yes, many unions are currently embryonic across our FEIs, that is true, but they will not remain that way. It is only right that a strong, evolved and organised association, consisting of and representing learners, can become involved in the nomination and election of student members to the governing body. I would therefore ask Members to resist amendment 5A.

Mae gwelliant 5, fel ag y mae, yn caniatáu i aelodau sy'n fyfyrwyr gael eu hethol gan gymdeithas sy'n cynrychioli myfyrwyr neu, fel y mae'r sefydliad yn penderfynu, poblogaeth gyfan y myfyrwyr, pa un bynnag sydd fwyaf priodol. Mae gwelliant 5A yn dymuno cael gwared ar yr hyblygrwydd o'r broses etholiadol a fyddai'n caniatáu i gorfforaethau gynnwys cymdeithasau sy'n cynrychioli myfyrwyr. Mae'n wir mai egin undebau yw llawer o'r rhai sy'n bodoli ar draws ein sefydliadau addysg bellach ar hyn o bryd, ond ni fyddant yn parhau i fod felly. Nid yw ond yn iawn i gymdeithas gref, ddatblygedig a threfnus, sy'n cynnwys ac yn cynrychioli dysgwyr, allu cymryd rhan mewn enwebu ac ethol aelodau sy'n fyfyrwyr i'r corff llywodraethu. Byddwn felly yn gofyn i Aelodau wrthod gwelliant 5A.

Finally, amendment 5 will also extend the membership of the governing body to local employers or businesses. In conclusion, I ask Members to resist amendments 5A and 3 and to support Government amendment 5.

Yn olaf, bydd gwelliant 5 hefyd yn ymestyn aelodaeth y corff llywodraethu i gyflogwyr neu fusnesau lleol. I gloi, gofynnaf i'r Aelodau wrthod gwelliannau 5A a 3 a chefnogi gwelliant 5 y Llywodraeth.

17:03

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Members, you will have already heard the argument on two, perhaps even three, very similar amendments, but I would like us to consider for a moment why amendment 3 seems less prescriptive than the alternatives put before us.

Aelodau, byddwch eisoes wedi clywed y ddadl ar ddau, efallai hyd yn oed dri, gwelliant tebyg iawn, ond hoffwn i ni ystyried am eiliad pam y mae gwelliant 3 yn ymddangos yn fwy hyblyg na'r dewisiadau eraill a roddwyd ger ein bron.

The very purpose of this Act, according to Government's own explanatory memorandum, is to:

Union bwrpas y Ddeddf hon, yn ôl memorandwm esboniadol y Llywodraeth ei hun, yw:

'enhance the autonomy and decision making abilities of Further Education Institutions'.

'rhoi rhagor o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau'.

If we are happy to support that principle, then surely we support minimum interference in the detail of governing bodies. That is what is reflected in our amendment. The fact that colleges tend to elect their staff representatives from both academic and non-academic staff already, without being told to do so, justifies our approach of acknowledging that these institutions are capable of dealing with details such as this themselves.

Os ydym yn hapus i gefnogi'r egwyddor honno, yna siawns nad ydym yn cefnogi cyn lleied â phosibl o ymyrraeth ym manylion cyrff llywodraethu. Dyna'r hyn sy'n cael ei adlewyrchu yn ein gwelliant. Mae'r ffaith fod colegau'n tueddu i ethol eu cynrychiolwyr staff o blith staff academaidd ac anacademaidd eisoes, heb i neb orfod dweud wrthynt am wneud hynny, yn cyfiawnhau'r ffaith ein bod yn cydnabod y gall y sefydliadau hyn ymdrin â manylion fel hyn eu hunain.

17:04

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n croesawu'r cyfle i edrych ar welliant 5 gan y Llywodraeth, sy'n welliant ar y gwelliant oedd gan y Llywodraeth yn y pwyllgor, rwy'n meddwl, ac sydd wedi symud ymlaen ychydig i ymateb i'r ddadl a gawsom yn y pwyllgor. Mae gwelliant 3 gan y Ceidwadwyr yn debyg iawn i welliant a gynigais i yn y pwyllgor, felly gallaf gefnogi'r gwelliant hwnnw. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn awyddus ein bod yn edrych ar welliant 5 gan y Llywodraeth a cheisio gwella gwelliant 5. Dyna pam mae gennym welliant 5A gennyf i, sef gwelliant i'r gwelliant.

I welcome the opportunity to look at the Government's amendment 5, which is an improvement on the amendment that the Government had in committee, I think, and which has moved on somewhat to respond to the debate in committee. The Conservatives' amendment 3 is very similar to an amendment that I proposed in committee, so I can support that amendment. However, I am also eager that we should look at the Government's amendment 5 and try to improve amendment 5. That is why we have my amendment 5A, which is an amendment to the amendment.

Dilynwch fi nawr, am eiliad, wrth i ni weld pam ydym eisiau gwneud hyn. Mae'r Gweinidog wedi gosod allan pam y mae wedi dewis y ffurf o eiriau sydd yng ngwelliant 5, ac rwy'n derbyn y rhan fwyaf o hynny, ond, pan ddaw at y mater penodol o gynrychiolaeth gan fyfyrwyr, credaf fod cwestiwn yn codi ynghylch geiriad yr hyn y mae'n ei gynnig yng ngwelliant 5. Mae fy nehongliad i ychydig yn wahanol i ddehongliad y Gweinidog, oherwydd rwy'n gweld bod y geiriad y Gweinidog yn caniatáu i'r holl fyfyrwyr mewn sefydliad—myfyrwyr rhan-amser, myfyrwyr mewn oed, a myfyrwyr traddodiadol, fel petai—gyfrannu mewn etholiad i ethol cynrychiolaeth i'r bwrdd llywodraethol. Fodd bynnag, mae gwelliant 5 gan y Llywodraeth yn mynd ymlaen i ddweud, ac mae hyn yn Saesneg achos rydym yn gwella deddfwriaeth Cymru a Lloegr:

Follow me, for a moment, as we seek to address the issue of why we are doing this. The Minister has set out why he has chosen the wording in amendment 5, and I accept most of his comments, but, when it comes to the specific issue of student representation, I feel that there is a question over the wording of what he proposes in amendment 5. My interpretation is slightly different from the Minister's, because I see the Minister's wording as allowing all students in an institution—part-time students, mature students, and traditional students, as it were—to contribute in an election to elect representation to the governing body. However, the Government's amendment 5 goes on to say, and it is in English because we are amending England-and-Wales legislation:

'(if the body so determines) to be elected at an election open to all the members of an association which represents students at the institution'.

(Os yw'r corff yn penderfynu hynny) i gael ei ethol mewn etholiad agored i holl aelodau cymdeithas sy'n cynrychioli myfyrwyr yn y sefydliad.

Roedd y Gweinidog yn awgrymu bod hynny'n beth da achos y byddai hynny'n arwain at undebau myfyrwyr yn datblygu yn ein sefydliadau addysg bellach, ac, yn eu tro, byddant yn gymdeithasau sy'n gallu cael eu cydnabod gan y sefydliad, a dyna'r ffordd y bydd pobl yn cael eu hethol. Fodd bynnag, mae ffordd arall o edrych ar hyn. Pe bai sefydliad yn dewis anwybyddu undeb myfyrwyr a sefydlu ei gymdeithas ei hunan, ac mae hynny wedi digwydd—byddwch yn cofio, aelodau o'r Blaid Lafur, pan oedd undebau llafur yn cael eu hanwybyddu a 'staff associations' yn cael eu sefydlu yn lle. Mae hyn, gan y Llywodraeth, yn caniatáu i ryw fath o 'student assocaition' gael ei sefydlu gan sefydliad a chael ei gydnabod gan sefydliad, a hwnnw wedyn fydd y corff mae'n rhaid i fyfyrwyr ymaelodi ag ef er mwyn cael ethol cynrychiolaeth ar y bwrdd llywodraethol. Os ydych chi'n dod at hyn o'r persbectif sydd gen i, sef fy mod yn awyddus i weld myfyrwyr yn dewis sut maen nhw'n trefnu, cymdeithasu a ffurfio undeb, neu os ydych chi'n dod at hyn o bersbectif y Ceidwadwyr, sy'n bersbectif digon dilys, sef y dylid gadael y manylion oddi ar wyneb y Bil a gadael i bobl leol benderfynu ar y drefn, mae gwelliant y Llywodraeth ychydig yn rhy benodol ac yn amwys yn y cyd-destun hwn.

The Minister was suggesting that that is a good thing, because it leads to student unions developing within our further education institutions, and they, in turn, will become associations that can be recognised by the institution, and that is how people will be elected. However, there is another way of looking at this. If an institution chose to ignore a student union and to establish its own association, and that happens—you will recall, as members of the Labour Party, unions being ignored and staff associations being established instead. This, from the Government, would allow some sort of student association to be established by an institution and to be recognised by an institution, and then that would be the body that students would have to join in order to elect their student representative on the governing board. If you come at this from the perspective that I do, which is that I am eager to see students choose how they organise, socialise and form a union, or if you come at it from the Conservative perspective, which is also a valid perspective, which is to leave the details off the face of the Bill and allow people to make decisions on the system at a local level, the Government's amendment, in my view, is a little too specific and ambiguous in this context.

Nid yw'n rhoi'r hawl i'r NUS neu undebau myfyrwyr; mae'n rhoi'r hawl i sefydliadau sefydlu cymdeithas myfyrwyr eu hunain ac i ddefnyddio honno fel y cerbyd i gael cynrychiolaeth myfyrwyr. Nid dyna rwyf eisiau ei weld. Dyna pam rwyf wedi cynnig gwelliant 5A. Rydym yn gofyn eto i'r Llywodraeth dderbyn gwelliant 5A, neu i ymateb, o leiaf, mewn ffordd a fydd yn osgoi'r sefyllfa rwyf newydd ei ddisgrifio i'r Cynulliad. Os nad yw'r Llywodraeth yn gallu rhoi cysur i ni ynghylch y mater hwnnw, er na fyddwn yn gwrthwynebu gwelliant 5 fel y mae, ni fyddwn yn gallu ei gefnogi chwaith.

It does not give the right to the NUS or student unions; it gives the right to institutions to establish their own student association and to use that as a vehicle to get student representation. That is not what I want to see. That is why I have proposed amendment 5A. I ask the Government again to accept amendment 5A, or at least to respond in a way that would avoid the situation that I have just outlined to the Assembly. If the Government is unable to give us an assurance on that issue, then, although we will not oppose amendment 5 as it stands, we cannot support it either.

17:08

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Roeddwn i'n ddigon parod i gefnogi'r Llywodraeth ar welliant 5, ond rwy'n meddwl bod Simon Thomas wedi gwneud pwynt dilys, ac roedd yn bwynt gwnes i feddwl amdano pan oeddwn i'n darllen drwy baragraff (c). A yw'r Gweinidog wedi cael cyngor cyfreithiol ar bŵer y corff llywodraethol i gydnabod y corff fydd yr aelodau myfyrwyr yn cael eu hethol ohono? Nid yw'n glir, o'm darlleniad i o'r sefyllfa, a yw gwelliant 5 yn gwneud yr hyn y mae'r Llywodraeth yn gobeithio y bydd yn ei wneud. Yn y sefyllfa honno, roeddwn yn barod i gefnogi gwelliannau 5A a 5, gan fy mod yn gweld bod gwelliant 5A yn gwella'r sefyllfa, ond rwy'n meddwl bod angen i'r Llywodraeth fod yn eithaf glir ynghylch y cyngor cyfreithiol y mae wedi ei dderbyn ynghylch union eiriad y gwelliant. Mae wedi symud ymlaen, ac rwy'n credu ei bod wedi derbyn yr hyn a wnaethom ddweud yn y pwyllgor, ond nid wyf yn siŵr bod y geiriau sy'n cael eu defnyddio ym mharagraff (c) yn gwneud yn union beth mae'r Llywodraeth yn ei fwriadu.

I was quite prepared to support the Government on amendment 5, but I think that Simon Thomas has made a valid point, and it was a point that I thought about when I read paragraph (c). Has the Minister had legal advice on the power of the governing body to recognise the body that the student members will be elected from? It is not clear, from my reading of the situation, whether amendment 5 does what the Government hopes that it will do. In that situation, I was prepared to support amendments 5A and 5, because I see that 5A improves the situation, but I think that the Government needs to be quite clear about the legal advice that it has had about the exact wording of the amendment. It has moved forward, and I think it has accepted what we said in committee, but I am not sure that the wording that is used in paragraph (c) does exactly what the Government intends.

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

17:09

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I believe that the case has been made clearly with regard to each of the amendments, and I do not have anything further to add at this stage.

Rwy'n credu bod yr achos wedi cael ei gyflwyno'n eglur o safbwynt pob un o'r gwelliannau, ac nid oes gennyf unrhyw beth arall i'w ychwanegu ar hyn o bryd.

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As there is an amendment to amendment 5, we will dispose of that first. I call on Simon Thomas to move amendment 5A.

Gan fod gwelliant i welliant 5, byddwn yn penderfynu ar hynny yn gyntaf. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 5A.

17:09

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf welliant 5A.

I move amendment 5A.

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 5A be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will have a vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5A. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly fe gawn bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5A.

Result of the vote on amendment 5A.

*Gwrthodwyd gwelliant 5A: O blaid 27, Yn erbyn 28, Ymatal 1.*

*Amendment 5A not agreed: For 27, Against 28, Abstain 1.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

If amendment 5 is agreed to, amendment 3 falls. The question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote on amendment 5.

Os derbynnir gwelliant 5, mae gwelliant 3 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly fe gawn bleidlais electronig ar welliant 5.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5.

Result of the vote on amendment 5.

*Derbyniwyd gwelliant 5: O blaid 27, Yn erbyn 13, Ymatal 15.*

*Amendment 5 agreed: For 27, Against 13, Abstain 15.*

*Methodd gwelliant 3.*

*Amendment 3 fell.*

**Grŵp 4: Ymgynghoriad gan y Corff (Gwelliant 8)**

**Group 4: Consultation by the Body (Amendment 8)**

17:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The only amendment in the group is amendment 8. I call on Simon Thomas to move amendment 8.

Yr unig welliant yn y grŵp yw gwelliant 8. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 8.

17:11

## Simon Thomas

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 8 yn fy enw i.

I move amendment 8 in my name.

Yn syml iawn, mae gwelliant 8 yn ceisio gwella'r Bil er mwyn iddo fod yn fwy clir ynglŷn â sut mae'r dyletswydd ymgynghorol sydd eisoes yno yn cael ei wneud. Ar hyn o bryd, mae dyletswydd ar wyneb y Bil i ymgynghori gyda phobl yn lleoliad y sefydliad, gan gynnwys cyflogwyr a chyrff sy'n cynrychioli pobl leol, ynglŷn ag addysg, ac i wneud hynny yn rhan o gynllunio cwricwlwm y sefydliad addysg bellach. Yr hyn y mae fy ngwelliant yn ceisio ei wneud yw bod yn fwy penodol ynglŷn â'r ymgynghoriad hwnnw. Yn gyntaf oll, dylai'r ymgynghoriad ddigwydd bob tair blynedd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fath o amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad yn y Bil. Yn ail, dylai'r ymgynghoriad fod, yn benodol, ynglŷn â darpariaeth addysgol yn y cylch. Yn drydydd, dylai'r ymgynghoriad fod, yn benodol, ynglŷn â chynllunio'r cwricwlwm lleol ac yn cael ei gyhoeddi.

Quite simply, amendment 8 seeks to improve the Bill in order to provide clarity on how the consultative duty already included therein is to be achieved. At the moment, there is a duty on the face of the Bill to consult with people in the locality of the institution, including employers and bodies representing local people, about education, and to make that a part of the further education institution's curriculum planning. What my amendment seeks to do is to be more specific about that consultation. First of all, the consultation should happen every three years. At the moment, there is no timetable for consultation in the Bill. Secondly, the consultation should be, specifically, about educational provision in the locality. Thirdly, the consultation should be specifically about local curriculum planning and should be published.

Felly, mewn sawl ffordd, mae'r gwelliant yn gwella'r hyn sydd yn y Bil. Mae'n rhoi amserlen benodol, sef tair blynedd, mae'n gofyn i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi, fel bod pobl yn gallu gweld yr hyn sydd wedi cael ei ymgynghori arno a chasgliad yr ymgynghoriad, ac mae'n sicrhau bod yr ymgynghoriad yn ymwneud â darpariaeth addysgol a chynllunio'r cwricwlwm. O'i roi at ei gilydd, rwy'n meddwl bod y gwelliant yn welliant go iawn, sy'n cydfynd ag ysbryd yr hyn sydd eisoes yn y Bil gan y Llywodraeth, ond sydd yn ceisio bod yn fwy penodol ynglŷn â sut y bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal.

So, in a number of ways, the amendment improves the Bill. It provides a specific timetable, namely three years, it asks for the consultation to be published, so that people can see what has been consulted upon and the conclusion of the consultation, and it ensures that the consultation relates to the educational provision and curriculum planning. In bringing all of those issues together, I think that the amendment is a true improvement, which is in accordance with the spirit of what is contained in the Bill from the Government, but which seeks to be more specific about how the consultation will be conducted.

17:13

## Huw Lewis

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Amendment 8 tabled by Simon Thomas reflects the recommendation made in the committee's Stage 1 report. I agree with the sentiments of this recommendation, which is why I have already addressed this matter at Stage 2 with a Government amendment.

Mae gwelliant 8 a gyflwynwyd gan Simon Thomas yn adlewyrchu'r argymhelliad a wnaed yn adroddiad Cyfnod 1 y pwyllgor. Rwy'n cytuno â'r bwriad sydd wrth wraidd yr argymhelliad hwn, a dyna pam yr wyf eisoes wedi mynd i'r afael â'r mater hwn yng Nghyfnod 2 gyda gwelliant gan y Llywodraeth.

I agree that it is right that colleges should consult with local employers, students and communities on local curriculum and delivery. As I have already said, this was addressed at Stage 2 through the passing of a Government amendment placing a duty on colleges to consult those in their locality receiving education and training, employers in the locality, and bodies representing those living in the locality. A college must consult with these groups on the education that it provides and the planning of its curriculum. In my view, those requirements are sufficient.

Rwy'n cytuno ei bod yn iawn y dylai colegau ymgynghori gyda chyflogwyr, myfyrwyr a chymunedau lleol ar y cwricwlwm a darpariaeth leol. Fel yr wyf wedi dweud eisoes, rhoddwyd sylw i hyn yng Nghyfnod 2 trwy basio gwelliant gan y Llywodraeth yn gosod dyletswydd ar golegau i ymgynghori â'r rhai yn eu hardal sy'n derbyn addysg a hyfforddiant, cyflogwyr yn yr ardal, a chyrff sy'n cynrychioli'r rhai sy'n byw yn yr ardal. Rhaid i goleg ymgynghori gyda'r grwpiau hyn ar yr addysg y mae'n ei darparu a'r modd y mae'n cynllunio ei gwricwlwm. Yn fy marn i, mae'r gofynion hynny'n ddigonol.

The effect of the amendment passed at Stage 2 is to put the extensive consultation that already takes place on a formal footing. There is, in my view, no need to specify a time frame within which colleges must consult, nor that they publish responses to consultation. In particular, the Children and Young People Committee recommended regular consultation. In my view, consultation every three years would not amount to regular consultation. The risk in prescribing a time frame is that it may preclude colleges consulting more regularly and on a flexible basis, which is something that, as drafted, the Bill would allow.

Effaith y gwelliant a basiwyd yn ystod Cyfnod 2 yw rhoi'r ymgynghoriad helaeth sydd eisoes yn digwydd ar sail ffurfiol. Yn fy marn i, nid oes angen nodi o fewn faint o amser y mae'n rhaid i golegau ymgynghori, na mynnu eu bod yn cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn arbennig, argymhellodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc 'r dylid ymgynghori'n rheolaidd. Yn fy marn i, ni fyddai ymgynghori pob tair blynedd yn ymgynghori rheolaidd. Y perygl, wrth nodi amser penodol, yw y gellid atal colegau rhag ymgynghori'n fwy rheolaidd ac ar sail hyblyg, sy'n rhywbeth y byddai'r Bil yn ei ganiatáu, fel y'i drafftiwyd.

Let me set out to the Chamber some of the interaction that already takes place between colleges and the communities that they serve. Consultation with both staff and learners is widespread and considered good practice throughout the Welsh FE sector. The governing body is responsible for the determination and periodic review of the education character and mission of the institution and the oversight of its activities. The Bill ensures that the instruments and articles of Government will obligate colleges to set out how they will obtain staff and student views on these matters. A central element of the Welsh Government's quality and effectiveness framework already requires colleges to consult with their learners and other stakeholders as part of their decision-making and learner involvement process. This approach builds on exiting good practice and allows each college to put in place arrangements that reflect its structures and the needs of its learners.

Gadewch imi nodi yn y Siambr rywfaint o'r rhyngweithio sydd eisoes yn digwydd rhwng colegau a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Ymgynghorir yn eang â staff a dysgwyr, ac ystyrir hynny'n arfer da ar draws y sector Addysg Bellach yng Nghymru. Mae'r corff llywodraethu'n gyfrifol am benderfynu ar gymeriad a chenhadaeth addysgol y sefydliad ac am adolygu'r rhain o bryd i'w gilydd, ac am oruchwylio ei weithgareddau. Mae'r Bil yn sicrhau y bydd offerynnau ac erthyglau Llywodraethu yn gorfodi colegau i nodi sut y byddant yn casglu safbwyntiau staff a myfyrwyr ar y materion hyn. Mae elfen ganolog o fframwaith ansawdd ac effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i golegau ymgynghori â'u dysgwyr a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'u proses o wneud penderfyniadau a chynnwys y dysgwr. Mae'r dull hwn yn adeiladu ar arfer da presennol ac yn caniatáu i bob coleg roi trefniadau ar waith sy'n adlewyrchu ei strwythurau ac anghenion ei ddysgwyr.

It is essential that the Welsh Government continues to promote and add value to existing mechanisms for employers and raise the quality and volume of training. In my capacity as Minister, I also issue FEIs with a priorities letter. In the last letter to the sector back in May, four priorities were set out, one of which was employer engagement. ColegauCymru advised in its evidence session to the committee that employer engagement is at the top of its agenda, and there is no evidence to counter that. This is as well as the Welsh Government's activities such as the sector priorities fund pilot programme, which enables the Welsh Government to provide feedback on the responsiveness of FE to employer demand, the advocate service and the work that my department's employer engagement team leads on meeting regularly with organisations such as the Confederation of British Industry, the Federation of Small Businesses and so on. There are also strong relationship arrangements in place with anchor companies and regionally important businesses. Again, it might be useful to remind ourselves of the evidence that ColegauCymru gave the committee earlier this year, when it said:

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo ac ychwanegu gwerth at fecanweithiau presennol ar gyfer cyflogwyr, ac yn gwella ansawdd yr hyfforddiant a sicrhau y darperir mwy ohono. Yn rhinwedd fy swydd fel Gweinidog, rwyf hefyd yn cyflwyno llythyr blaenoriaethau i sefydliadau addysg bellach. Nodwyd pedair blaenoriaeth yn y llythyr diwethaf i'r sector yn ôl ym mis Mai, ac un ohonynt oedd ymgysylltu â chyflogwyr. Dywedodd ColegauCymru yn ei sesiwn dystiolaeth i'r pwyllgor fod ymgysylltiad â chyflogwyr ar frig ei agenda, ac nid oes tystiolaeth i wrthddweud hynny. Mae hyn yn ychwanegol at weithgareddau Llywodraeth Cymru megis y rhaglen beilot cronfa blaenoriaethau sector, sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i roi adborth ar ba mor ymatebol yw addysg bellach i'r galw gan gyflogwyr, y gwasanaeth eirioli a'r gwaith y mae tîm ymgysylltu â chyflogwyr fy adran yn ei arwain o ran cwrdd yn rheolaidd â sefydliadau fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach ac yn y blaen. Mae hefyd drefniadau perthynas gref wedi'u sefydlu gyda chwmnïau angori a busnesau sy'n bwysig yn rhanbarthol. Unwaith eto, gallai fod yn ddefnyddiol atgoffa ein hunain o'r dystiolaeth a roddodd ColegauCymru i'r pwyllgor yn gynharach eleni, pan ddywedodd:

'We are not-for-profit institutions and we are there to benefit learners, our local communities and employers; that is our raison d'être. That is what we are there to do, and that is what we will continue to do.'

Rydym yn sefydliadau di-elw ac rydym yno er budd dysgwyr, ein cymunedau lleol a chyflogwyr; dyna yw'r rheswm dros ein bodolaeth. Dyna'r hyn yr ydym yno i'w wneud, a dyna'r hyn y byddwn yn parhau i'w wneud.

I am confident that there are sufficient processes and requirements already in place to gauge the effectiveness of colleges' consultation with key stakeholders, without requiring them to publish consultation outcomes. I also do not believe that further prescription in terms of who colleges should consult is required. As I have said, the Bill already provides that colleges must consult with those in their locality receiving education and training, employers in their locality and bodies representing persons living in their locality. I do not think that it is necessary to add reference to the relevant local authority. This inclusion was not recommended by the committee. As drafted, the Bill places a wide enough obligation to consult on colleges. I therefore ask Members to resist amendment 8.

Rwy'n hyderus bod digon o brosesau a gofynion eisoes ar waith i fesur pa mor effeithiol yw prosesau colegau ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, heb ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi canlyniadau ymgynghoriadau. Hefyd, nid wyf yn credu bod angen pennu yn fwy manwl â phwy y dylai colegau ymgynghori. Fel yr wyf wedi'i ddweud, mae'r Bil eisoes yn darparu bod yn rhaid i golegau ymgynghori â'r rhai yn eu hardal leol sy'n cael addysg a hyfforddiant, cyflogwyr yn eu hardal leol a chyrff sy'n cynrychioli pobl sy'n byw yn eu hardal leol. Nid wyf yn credu bod angen ychwanegu cyfeiriad at yr awdurdod lleol perthnasol. Ni chafodd hynny ei argymell gan y pwyllgor. Fel y'i drafftiwyd, mae'r Bil yn rhoi dyletswydd digon eang ar golegau i ymgynghori. Felly, rwy'n gofyn i Aelodau wrthod gwelliant 8.

17:18

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n cydnabod bod y Gweinidog wedi ymateb i rai o'r pryderon a godwyd ar ddechrau'r broses o graffu ar y Bil hwn, a bod y Llywodraeth wedi cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2. Rwy'n dal i feddwl ei fod yn werth inni ystyried ar yr adeg hon sut ddylai'r ymgynghoriad ddigwydd. Rwyf am bwysleisio dau beth pwysig. Yn gyntaf, rwy'n meddwl y dylai'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi; mae hynny'n bwysig. Mae ymgynghoriad yn ddiwerth os nad oes dyletswydd i gyhoeddi ffrwyth yr ymgynghoriad hwnnw.

I acknowledge that the Minister has responded to some of the concerns raised at the beginning of the Bill's scrutiny process, and that the Government has brought forward an amendment at Stage 2. I still believe that it is worth us considering at this point how that consultation should take place. I want to emphasise two important things. First, I believe that the consultation should be made public; that is important. A consultation is of no value unless there is a duty to make the outcomes of that consultation public.

Yn ail, rwyf am ladd y sgwarnog a godwyd gan y Gweinidog, sef y byddai mynnu bod ymgynghoriad yn digwydd bob tair blynedd yng nghylch cynllunio cwricwlwm lleol a darpariaeth addysg rywsut yn rhwystro unrhyw sefydliad rhag ymgynghori ar faterion eraill. Nid yw'n gwneud hynny. Mae gan unrhyw sefydliad hawl gyffredinol i ymgynghori unrhyw ddydd gydag unrhyw un. Mae hyn yn rhoi dyletswydd benodol yng nghyd-destun darpariaeth addysg mewn ymateb i anghenion y cwricwlwm. Felly, i fod yn glir, dyna pam rydym ni'n meddwl bod angen gwneud yn siŵr bod hyn yn digwydd yn gyson, pob tair blynedd. Rwy'n trio bod yn rhesymol wrth ddweud hynny. Hefyd, rydym yn credu ei bod hi'n bwysig iawn ein bod ni'n mynnu bod cyhoeddiad yn digwydd yn sgîl ymgynghoriad, fel bod pawb yn cael gwybod am y penderfyniadau a'r newid fydd yn digwydd i'r ddarpariaeth addysg yn sgîl ymgynghoriad. Oni bai am hynny, nid yw ymgynghoriad o unrhyw werth. Rwy'n pwysleisio hynny ac yn gobeithio bod y Cynulliad yn gallu cefnogi'r gwelliant.

Secondly, I want to put to rest the Minister's red herring, which is that insisting that taking a three-yearly approach to consultation in the cycle of planning a local curriculum and the provision of education is somehow a barrier to an institution to consult on other issues. It does not do that. Any institution has a general right to consult at any time with anyone. This places a specific duty in the context of education provision in response to curriculum needs. So, to be clear, that is why we believe that we need to ensure that this happens consistently, every three years. I am trying to be rational and reasonable in saying that. Also, we believe that it is very important that we insist that there should be a publication as a result of the consultation, so that everyone is aware of the decisions and the changes taking place in the provision of education as a result of that consultation. Otherwise, a consultation is of no value. I emphasise that and hope that the Assembly can support this amendment.

17:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 8 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly fe gawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8.

Result of the vote on amendment 8.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

## Grŵp 5: Colli Swyddi (Gwelliant 2)

## Group 5: Redundancy Dismissal (Amendment 2)

17:20

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 2. I call on Bethan Jenkins to move amendment 2.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 2. Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig gwelliant 2.

17:20

### Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 2 in my name.

Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i.

I brought this amendment forward because, currently, the legislation does not provide guidance for the hearing of redundancy appeals. My concern is that, without it, redundancy appeals might be put before the principal or chief executive, who would more than likely have been involved in redundancy decisions in the first place.

Dygais y gwelliant hwn ymlaen, oherwydd nad yw'r ddeddfwriaeth, ar hyn o bryd, yn rhoi arweiniad ar gyfer gwrando ar apeliadau diswyddo. Fy mhryder yw y gallai apeliadau diswyddo, hebddo, fynd gerbron y prifathro neu'r prif weithredwr, a fyddai'n fwy na thebyg wedi cymryd rhan yn y penderfyniadau diswyddo yn y lle cyntaf.

In the interest of maintaining a fair and transparent procedure, it would seem more appropriate that final appeals in such circumstances are not chaired by the principal or chief executive, as this might result in a conflict of interest. The Advisory, Conciliation and Arbitration Service guidance suggests that it is good practice for an appeals procedure to provide for the appeal to be heard by someone senior in authority to the person who made the redundancy decision, and, if possible, someone who was not involved in the original meeting or decision.

Er budd cynnal gweithdrefn deg a thryloyw, byddai'n ymddangos yn fwy priodol i apeliadau terfynol mewn amgylchiadau o'r fath beidio â chael eu cadeirio gan y prifathro neu'r prif weithredwr, gan y gallai hyn arwain at wrthdaro rhwng buddiannau. Mae arweiniad y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu yn awgrymu ei bod yn arfer da i weithdrefn apelio ddarparu i'r apêl gael ei chlywed gan rywun uwch yn yr awdurdod na'r sawl a wnaeth y penderfyniad diswyddo ac, os yn bosibl, rhywun nad oedd yn ymwneud â'r cyfarfod neu'r penderfyniad gwreiddiol.

In terms of this particular Bill, Schedule 1 replaces Schedule 4 of the Further and Higher Education Act 1992. Schedule 1 does not contain a reference to the instruments provided for the dismissal of staff. Section 11 of Schedule 2 to the Further Education Corporations (Replacement of Instrument and Articles of Government) (Wales) Order 2006 deals with dismissal appeals. I am concerned that if the amendment is not made to the Bill, the right to appeal to governors in the case of dismissal will be removed from the instruments and articles.

O ran y Bil penodol hwn, mae Atodlen 1 yn disodli Atodlen 4 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Nid yw Atodlen 1 yn cynnwys cyfeiriad at yr offerynnau a ddarperir ar gyfer diswyddo staff. Mae Adran 11 o Atodlen 2 i Orchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006 yn ymdrin ag apeliadau diswyddo. Os nad yw'r gwelliant yn cael ei wneud i'r Bil, rwy'n bryderus y bydd yr hawl i apelio i lywodraethwyr mewn achos o ddiswyddo yn cael ei dynnu oddi ar yr offerynnau a'r erthyglau.

In the case of redundancy dismissal, as I have already said, the principal will have been involved in key decisions on selection and will therefore have a conflict of interest. It is important that there is statutory protection of staff, so that a fair and transparent process can be maintained. The wording of the amendment is similar to that already contained in the 2006 regulations, so it is important that this is not lost. The argument by many, including trade unions in the sector, is that the amendment is in the interests of good practice, rather than Government control.

Mewn achos o ddileu swydd, fel y dywedais eisoes, bydd y prifathro wedi bod yn rhan o benderfyniadau allweddol ynglŷn â dethol, ac felly bydd gwrthdaro rhwng buddiannau. Mae'n bwysig bod staff yn cael eu hamddiffyn yn statudol, fel y gellir cynnal proses deg a thryloyw. Mae'r gwelliant wedi'i eirio mewn ffordd debyg i reoliadau 2006, felly mae'n bwysig nad yw hyn yn cael ei golli. Y ddadl gan lawer, gan gynnwys undebau llafur yn y sector, yw bod y gwelliant er lles arfer da, yn hytrach na rheolaeth y Llywodraeth.

17:22

### Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have listened carefully to the arguments that have been made, but as I stated to the Children and Young People Committee last month, while I am sympathetic to any issue that touches on staffing matters, we rely on UK employment law to protect staff on issues relating to redundancies, which require that procedures leading to a dismissal by reason of redundancy are fair.

Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar y dadleuon sydd wedi cael eu gwneud, ond fel y dywedais wrth y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y mis diwethaf, er fy mod yn cydymdeimlo ag unrhyw fater sy'n cyffwrdd ar faterion staffio, rydym yn dibynnu ar gyfraith cyflogaeth y DU i ddiogelu staff o ran materion sy'n ymwneud â diswyddiadau, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i weithdrefnau sy'n arwain at ddiswyddo oherwydd dileu swydd fod yn deg.

It is in the interests of FEIs and other organisations to have fair processes and policies in place, as FEIs are not above employment law and I have no evidence to suggest that they are not complying with that law. I will stand by my argument that I set out in Stage 2 that the amendment proposed will offer no additional protection to employees over and above existing employment rights. If an employee is not satisfied with the process leading up to dismissal by reason of redundancy, the remedy lies in a complaint to an employment tribunal. This is no different for staff in FEIs.

Mae er budd sefydliadau addysg bellach a sefydliadau eraill i ddilyn prosesau a pholisïau teg, gan nad yw sefydliadau addysg bellach yn uwch na'r gyfraith cyflogaeth ac nid oes gennyf dystiolaeth i awgrymu nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith honno. Byddaf yn cadw at y ddadl a gyflwynais yng Nghyfnod 2 na fydd y gwelliant arfaethedig yn cynnig amddiffyniad ychwanegol i weithwyr y tu hwnt i'r hawliau cyflogaeth presennol. Os nad yw gweithiwr yn fodlon ar y broses a arweiniodd at ddiswyddo oherwydd dileu swydd, yr ateb yw cyflwyno cwyn i dribiwnlys cyflogaeth. Nid yw hyn yn wahanol ar gyfer staff mewn sefydliadau addysg bellach.

I do not think that it is appropriate that we interfere in employment matters by placing such a specific legislative requirement on governing bodies. I am particularly concerned that amendment 2 singles out FEIs. We do not apply a similar requirement on HEIs, or other publicly funded bodies, as far as I am aware.

Nid wyf yn credu ei bod yn briodol inni ymyrryd mewn materion cyflogaeth trwy osod gofyniad deddfwriaethol penodol ar gyrff llywodraethu. Rwy'n arbennig o bryderus bod gwelliant 2 yn neilltuo sefydliadau addysg bellach. Nid ydym yn rhoi gofyniad tebyg ar sefydliadau addysg uwch, neu gyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus, cyn belled ag y gwn i.

In addition, the amendment refers to an 'appeal meeting'. It is not clear what this wording intends exactly. Is it a meeting about an appeal, or is it a more substantive right of appeal? Is that what is envisaged in that phrase? This ambiguity could lead to confusion and uncertainty among both staff and governing bodies. In any event, placing such an onerous responsibility on governing bodies needs, at the very least, its own risk assessment in terms of legalities and how it would impact on the role of the governing body and on individual governors. Going back to my opening comment, I am sympathetic to any issue that touches on these matters. Therefore, I am content to instruct my officials to work with key stakeholders in the FE sector to ensure that the issue of staff appeals on redundancy is covered in the new governor code in 2014-15, setting out best practice.

Yn ogystal, mae'r gwelliant yn cyfeirio at gyfarfod apêl. Nid yw'n glir beth y mae'r geiriad hwn yn ei olygu'n union. Ai cyfarfod ynghylch apêl ydyw, neu a yw'n hawl mwy sylweddol i apelio? Ai dyma'r hyn a olygir wrth yr ymadrodd? Gallai'r amwysedd hwn arwain at ddryswch ac ansicrwydd ymhlith staff a chyrff llywodraethu. Pa un bynnag, byddai angen, o leiaf, ei asesiad risg ei hun o ran cyfreithlondeb a sut y byddai'n effeithio ar rôl y corff llywodraethol ac ar lywodraethwyr unigol yn sgil rhoi cyfrifoldeb beichus o'r fath ar gyrff llywodraethu. A mynd yn ôl at fy sylw agoriadol, rwy'n cydymdeimlo ag unrhyw fater sy'n cyffwrdd ar y materion hyn. Felly, rwy'n fodlon rhoi cyfarwyddiadau i'm swyddogion weithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector addysg bellach i sicrhau bod apeliadau staff ynglŷn â diswyddo yn cael ei gynnwys yn y cod newydd ar gyfer llywodraethwyr yn 2014-15, gan nodi arfer gorau.

Based on the issues that I have raised, I ask Members to follow the approach of the Children and Young People Committee in Stage 2 and to resist this amendment.

Yn seiliedig ar y materion yr wyf wedi'u codi, gofynnaf i Aelodau ddilyn ymdriniaeth y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yng Nghyfnod 2 a gwrthod y gwelliant hwn.

17:24

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to say that I believe that there is merit in what I have put forward, otherwise I would not have done it. I think that people from outside of this organisation have made their representations to me, as an elected representative, in the spirit of making this good practice. However, I welcome the fact that you said that you would take this forward in another way, so I am ready to withdraw the amendment in good spirit and hope that we can work together in the future on how we can make this operational.

Rwyf am ddweud fy mod yn credu bod gwerth yn yr hyn yr wyf wedi'i gyflwyno, fel arall ni fyddwn wedi gwneud hynny. Rwy'n credu bod pobl o'r tu allan i'r sefydliad hwn wedi gwneud eu sylwadau i mi, fel cynrychiolydd etholedig, yn yr ysbryd o wneud hyn yn arfer da. Fodd bynnag, croesawaf y ffaith eich bod wedi dweud y byddech yn bwrw ymlaen â hyn mewn ffordd arall, felly rwy'n barod i dynnu'r gwelliant yn ôl mewn ysbryd da ac yn gobeithio y gallwn weithio gyda'n gilydd yn y dyfodol er mwyn gwneud hyn yn weithredol.

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you asking the Chair to withdraw the amendment?

A ydych chi'n gofyn i'r Cadeirydd dynnu'r gwelliant yn ôl?

17:25

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry?

Mae'n ddrwg gennyf?

17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you asking to withdraw the amendment?

A ydych yn gofyn am dynnu'r gwelliant yn ôl?

17:25 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I ask to withdraw the amendment.

Rwy'n gofyn am dynnu'r gwelliant yn ôl.

17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does any Member object to the amendment being withdrawn? No Member objects, so amendment 2 is withdrawn.

A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu i'r gwelliant gael ei dynnu'n ôl? Nid oes Aelod yn gwrthwynebu, felly mae gwelliant 2 yn cael ei dynnu'n ôl.

*Tynnwyd gwelliant 2 yn ôl gyda chaniatâd y Cynulliad.*

*Amendment 2 withdrawn by leave of the Assembly.*

17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill. I declare that all sections of and Schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

Rydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru). Datganaf y bernir bod pob adran o'r Bil arfaethedig a phob Atodlen iddo wedi'u derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

# Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

# Standing Order 26.47 Motion to Approve the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill

Cynnig
Motion

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.47, yn cymeradwyo'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru).

The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.47, approves the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill.

17:26 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I would like to thank Members for contributing to the debate and for their considered scrutiny of this Bill. In particular, I would like to thank my predecessor Leighton Andrews, who introduced the Bill, for the work done by him in recognising the need for legislation to return our FE institutions to non-profit institutions serving households status in light of the Office for National Statistics reclassification. I would also like to thank the Children and Young People Committee and Constitutional and Legislative Affairs Committee for the professional manner in which scrutiny was undertaken. I also thank our stakeholders for the valuable evidence that they provided during the Assembly's scrutiny process and their understanding throughout the process. We have listened and, where we have been able to, amended the Bill accordingly, demonstrating that this Government takes the scrutiny process extremely seriously.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am gyfrannu at y ddadl ac am eu gwaith craffu ystyriol ar y Bil hwn. Yn benodol, hoffwn ddiolch i'm rhagflaenydd Leighton Andrews, a gyflwynodd y Bil, am y gwaith a wnaed ganddo wrth gydnabod yr angen am ddeddfwriaeth i ddychwelyd ein sefydliadau addysg bellach i statws sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd yng ngoleuni ailddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am y modd proffesiynol y cynhaliwyd y gwaith craffu. Hoffwn ddiolch hefyd i'n rhanddeiliaid am y dystiolaeth werthfawr a ddarparwyd ganddynt yn ystod proses graffu'r Cynulliad a'u dealltwriaeth drwy gydol y broses. Rydym wedi gwrando a, lle'r ydym wedi gallu, wedi diwygio'r Bil yn unol â hynny, gan ddangos bod y Llywodraeth hon yn cymryd y broses graffu o ddifrif.

As I said in September, Welsh FEIs have been evolving and developing over the past 20 years since first becoming autonomous. We must ensure that the action that we take in Wales aids their progression and not regression, and I believe that the powers in this Bill will result in greater accountability. My priority will still be to ensure that public investment results in better opportunities for our learners in Wales and that FEIs remain central to the communities that they serve. Therefore, I ask Members to support this Bill at Stage 4.

Fel y dywedais ym mis Medi, mae sefydliadau addysg bellach Cymru wedi bod yn esblygu ac yn datblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf, ers dod yn annibynnol yn y lle cyntaf. Mae'n rhaid inni sicrhau bod y camau a gymerwn yng Nghymru yn eu cynorthwyo i symud ymlaen ac nid yn ôl, a chredaf y bydd y pwerau yn y Bil hwn yn eu gwneud yn fwy atebol. Fy mlaenoriaeth o hyd fydd sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn arwain at well cyfleoedd ar gyfer ein dysgwyr yng Nghymru a bod sefydliadau addysg bellach yn parhau'n ganolog i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Felly, gofynnaf i Aelodau gefnogi'r Bil hwn yng Nghyfnod 4.

17:27

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No other Members have indicated a desire to speak. Therefore, the question is that the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Bill is agreed. Does any Member object? There is no objection. Therefore, the Bill is agreed in accordance with Standing Order 26.47.

Nid oes yr un Aelod arall wedi mynegi dymuniad i siarad. Felly, y cwestiwn yw a ddylid derbyn y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru). A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, caiff y Bil ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Cyllid y GIG (Cymru)

## Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the NHS Finance (Wales) Bill

**Grŵp 1: Trosolwg (Gwelliant 1)**

**Group 1: Overview (Amendment 1)**

17:28

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 1. I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford, to move amendment 1.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 1. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, i gynnig gwelliant 1.

17:28

### Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I move amendment 1 in my name.

Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i.

Given that this is the first group at Stage 3, I would like to take a brief moment to place on record my thanks to all Members of the Assembly and particularly those of the Finance Committee for their work during Stage 2 in enabling this Bill to move to its Stage 3 consideration.

O ystyried mai hwn yw'r grŵp cyntaf yng Nghyfnod 3, hoffwn gymryd ennyd byr i gofnodi fy niolch i holl Aelodau'r Cynulliad ac yn enwedig aelodau'r Pwyllgor Cyllid am eu gwaith yn ystod Cyfnod 2 o ran galluogi'r Bil hwn i symud at ystyriaeth Cyfnod 3.

Amendment 1 is, in fact, a consequence of amendment 2, which is to be considered in the next group. It revises section 1 of the Bill, which is the overview section, so as to reflect the main provision of the Bill to move from a one-year to a three-year financial duty and includes a new duty, as set out in amendment 2, which provides for margin of tolerance to be determined by Welsh Ministers in writing. The power to include this tolerance is to be found in amendment 2, and I hope that Members will allow amendment 1 to be passed in order to move to that consideration.

Mae gwelliant 1, mewn gwirionedd, yn ganlyniad i welliant 2, sydd i'w ystyried yn y grŵp nesaf. Mae'n diwygio adran 1 y Bil, sef y trosolwg, er mwyn adlewyrchu prif ddarpariaeth y Bil i symud o ddyletswydd ariannol un flwyddyn i dair blynedd ac mae'n cynnwys dyletswydd newydd, fel y nodir yng ngwelliant 2, sy'n darparu i Weinidogion Cymru benderfynu ar ffin goddefiant yn ysgrifenedig. Mae'r pŵer i gynnwys y goddefiant hwn i'w gael yng ngwelliant 2, ac rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n caniatáu i welliant 1 gael ei basio er mwyn symud i'r ystyriaeth honno.

17:29 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

I rise to support amendment 1 in this group, tabled in the name of Mark Drakeford. Members will be aware that I argued from the outset that tolerance levels should be given to local health boards, given that the Bill in its correct current format is based on a three rolling-year period, and this means that health boards, as the Bill currently stands, would only be provided with greater flexibility in the first two years of it being passed, because after the first two years, each financial year thereafter would, of course, require its budget to marry up with the previous two years' expenditure. However, I am pleased that the Minister has now tabled an amendment to try to provide local health boards with that greater flexibility.

Rwy'n codi i gefnogi gwelliant 1 yn y grŵp hwn, a gyflwynwyd yn enw Mark Drakeford. Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi dadlau o'r cychwyn y dylai lefelau goddefiant gael eu rhoi i fyrddau iechyd lleol, o ystyried bod y Bil ar ei ffurf bresennol cywir yn seiliedig ar gyfnod treigl o dair blynedd. Mae hyn yn golygu nad yw byrddau iechyd, fel y mae'r Bil ar hyn o bryd, ond yn cael mwy o hyblygrwydd yn y ddwy flynedd gyntaf iddo gael ei basio, oherwydd y byddai angen i'w gyllideb gyfateb i wariant y ddwy flynedd flaenorol ar ôl y ddwy flynedd gyntaf, wrth gwrs. Fodd bynnag, rwy'n falch bod y Gweinidog yn awr wedi cyflwyno gwelliant i geisio rhoi mwy o hyblygrwydd i fyrddau iechyd lleol.

Members will know that, at Stage 2, I tabled an amendment calling for a percentage tolerance figure to be put on the face of the Bill. However, I am persuaded by the Auditor General for Wales's argument in his letter that this may not be appropriate and that it would be more appropriate for Welsh Ministers to have the power to specify only an amount of permitted overspend and not an actual percentage. While I accept this argument, I am delighted that our general case in favour of tolerance limits has indeed been accepted by the Government, and I am pleased that this amendment has been tabled. Therefore, in light of this, we will be supporting the Government's amendment this afternoon.

Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod, yng Nghyfnod 2, wedi cyflwyno gwelliant yn galw am roi ffigur goddefiant canran ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, rwyf wedi fy narbwyllo gan ddadl Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr na fydd hyn yn briodol o bosibl, ac y byddai'n fwy priodol i Weinidogion Cymru gael y pŵer i bennu swm o orwariant a ganiateir yn unig, ac nid canran. Er fy mod yn derbyn y ddadl hon, rwyf wrth fy modd bod ein hachos cyffredinol o blaid terfynau goddefiant wedi cael ei dderbyn gan y Llywodraeth, ac rwy'n falch bod y gwelliant hwn wedi'i gyflwyno. Felly, yng ngoleuni hyn, byddwn yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth brynhawn heddiw.

Senedd.tv Fideo Video

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Minister, do you wish to reply?

Weinidog, a ydych chi'n dymuno ymateb?

Senedd.tv Fideo Video

17:30 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

No.

Nac ydw.

Senedd.tv Fideo Video

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 1 is agreed to in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv Fideo Video

## Grŵp 2: Dyletswyddau Ariannol Byrddau Iechyd Lleol (Gwelliant 2)

## Group 2: Financial Duties of Local Health Boards (Amendment 2)

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The lead amendment in the group is amendment 2.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 2. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 2 ac i siarad amdano.

Senedd.tv Fideo Video

17:30 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

I move amendment 2 in my name.

Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

Members of the Finance Committee in particular will be aware that, during Stage 2, I tabled an amendment to provide local health boards with a tolerance threshold. This amendment was brought forward as a result of arguments developed by Paul Davies and others during earlier stages in the discussion of the Bill in what I have always recognised as a constructive contribution to strengthening the core purpose of this legislation.

Bydd aelodau'r Pwyllgor Cyllid yn arbennig yn ymwybodol fy mod, yn ystod Cyfnod 2, wedi cyflwyno gwelliant i ddarparu trothwy goddefiant i fyrddau iechyd lleol. Cafodd y gwelliant hwn ei ddwyn ymlaen o ganlyniad i ddadleuon a ddatblygwyd gan Paul Davies ac eraill yn ystod cyfnodau cynharach yn y drafodaeth ar y Bil yn yr hyn yr wyf bob amser wedi'i gydnabod fel cyfraniad adeiladol at gryfhau diben craidd y ddeddfwriaeth hon.

The Auditor General for Wales wrote to the Finance Committee on the technicalities of some of the wording of the amendment at stage 2 and, in order to give further consideration to those views, I withdrew the amendment at Stage 2 consideration. Since then, my officials have worked with the Wales Audit Office to ensure that the precise wording and purpose of this amendment are as clear as possible to local health boards and the WAO. The amendment now provides that the tolerance amount determined by Welsh Ministers will be made in writing. As a result, the amendment is now acceptable from both legal and accounting perspectives.

Ysgrifennodd Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor Cyllid ynglŷn â materion technegol rhywfaint o eiriad y gwelliant yng nghyfnod 2 ac, er mwyn rhoi rhagor o ystyriaeth i'r safbwyntiau hynny, tynnais y gwelliant yn ôl yn ystyriaeth Cyfnod 2. Ers hynny, mae fy swyddogion wedi gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i sicrhau bod union eiriad a diben y gwelliant hwn mor eglur ag y bo modd i fyrddau iechyd lleol a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r gwelliant yn awr yn darparu y bydd y swm goddefiant a bennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei ddarparu yn ysgrifenedig. O ganlyniad, mae'r gwelliant bellach yn dderbyniol o safbwyntiau cyfreithiol a chyfrifyddu.

As I have emphasised throughout the passage of the Bill, it is important to note that the local health boards' financial outturn is consolidated into the DHSS annual main expenditure group budget allocation, as approved by this Assembly. Any overspends or tolerance would accordingly be included in this consolidated position, thus the resource cover required to support both a planned flexibility and the tolerance level will need to be determined as part of the budgeting and the allocation process that is then provided to local health boards.

Fel yr wyf wedi pwysleisio drwy gydol hynt y Bil, mae'n bwysig nodi bod alldro ariannol y byrddau iechyd lleol yn cael ei gyfuno i ddyraniad cyllideb blynyddol prif grŵp gwariant yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y'i cymeradwywyd gan y Cynulliad hwn. Byddai unrhyw orwariant neu oddefgarwch gan hynny yn cael eu cynnwys yn y sefyllfa gyfunol, felly bydd angen penderfynu ar yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r hyblygrwydd a gynlluniwyd a'r lefel goddefiant fel rhan o'r broses gyllidebu a'r broses ddyrannu sydd wedyn yn cael ei darparu i fyrddau iechyd lleol.

While LHBs will need absolute clarity on the tolerance levels for the financial duty, I recognise that there needs to be flexibility to change tolerance levels as the balance between holding back a reserve and releasing funds may need to change over time. In practice, the Minister for health will write to local health boards at the start of each financial year, setting out the tolerance thresholds that are available to them. I ask Members to support this amendment.

Er y bydd y BILlau angen i lefelau goddefiant y ddyletswydd ariannol fod yn gwbl eglur, rwy'n cydnabod bod angen hyblygrwydd i newid lefelau goddefiant oherwydd y gallai fod angen newid y cydbwysedd dros amser rhwng cadw cronfa wrth gefn a rhyddhau cyllid. Yn ymarferol, bydd y Gweinidog iechyd yn ysgrifennu at fyrddau iechyd lleol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, yn nodi'r trothwyon goddefiant sydd ar gael iddynt. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliant hwn.

17:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for moving the amendment. I should have mentioned that, but you have now moved it. I now call on Peter Black.

Diolch ichi am gynnig y gwelliant. Dylwn fod wedi crybwyll hynny, ond rydych bellach wedi ei gynnig. Galwaf yn awr ar Peter Black.

17:33

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not wish to respond.

Nid wyf yn dymuno ymateb.

17:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister obviously does not wish to reply.

Nid yw'r Gweinidog yn amlwg yn dymuno ymateb.

The question is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 2 is agreed to in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn od gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 2 ei gytuno yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Grŵp 3: Dyletswyddau Cyllunio Byrddau Iechyd Lleol a Gweinidogion Cymru (Gwelliant 3)**

**Group 3: Planning Duties of Local Health Boards and Welsh Ministers (Amendment 3)**

17:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 3. I call on the Minister to move and speak to the amendment.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 3. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y gwelliant a siarad amdano.

17:33

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 3 in my name.

Cynigiaf welliant 3 yn fy enw i.

At Stage 2, Simon Thomas, with the support of other Members, tabled an amendment to place on the face of the Bill the planning requirements that will underpin the new three-year regime. I undertook to bring forward a Government amendment at this stage to give legal effect to the same intentions. Amendment 3 reflects that commitment. It requires the Welsh Ministers to direct any local health board to prepare a plan that sets out its strategy for complying with its financial duty, while also improving the health of, and provision of healthcare to, the people for whom it has responsibility. In addition, it provides legal certainty that a local health board must ensure that its plan is submitted to, and approved by, the Welsh Ministers.

Yn ystod Cyfnod 2, cyflwynodd Simon Thomas, gyda chefnogaeth Aelodau eraill, welliant i roi'r gofynion cynllunio a fydd yn sail i'r drefn tair blynedd newydd ar wyneb y Bil. Addewais y byddwn yn cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth yn ystod y cyfnod hwn i roi grym cyfreithiol i'r bwriadau hynny. Mae gwelliant 3 yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwnnw. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i unrhyw fwrdd iechyd lleol baratoi cynllun sy'n nodi ei strategaeth ar gyfer cydymffurfio â'i ddyletswydd ariannol, yn ogystal â gwella iechyd y bobl y mae'n gyfrifol amdanynt, a darpariaeth gofal iechyd iddynt. Yn ychwanegol, mae'n darparu sicrwydd cyfreithiol bod yn rhaid i fwrdd iechyd lleol sicrhau bod ei gynllun yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, a'i gymeradwyo ganddynt.

This amendment encompasses the broad definition of the term 'plan' while also specifying that the preparation of a plan is more than just a financial plan, and includes improving health and healthcare. The wording avoids the direct use of the term 'integrated medium-term plan' because this is not a term that is found elsewhere within the 2006 Act into which this amendment is to be inserted. Instead, this amendment reflects the existing broad requirements of section 17 of the National Health Service (Wales) Act 2006 and is therefore consistent with that Act while achieving the principle behind Simon Thomas's original amendment. I believe that, in drafting this planning duty amendment, we have succeeded in giving effect to the principle behind the earlier amendment while ensuring that it is consistent with the terminology in the National Health Service (Wales) Act 2006 and provides clarity of the law. I hope that Members will support it.

Mae'r gwelliant hwn yn cwmpasu diffiniad eang y term 'cynllun' yn ogystal â nodi bod paratoi cynllun yn cynnwys mwy na dim ond cynllun ariannol, a'i fod yn cynnwys gwella iechyd a gofal iechyd. Mae'r geiriad yn osgoi defnyddio'r term 'cynllun integredig tymor canolig' yn uniongyrchol oherwydd nad yw hwn yn derm sydd i'w ganfod mewn mannau eraill o fewn Deddf 2006 y mae'r gwelliant hwn i gael ei fewnosod ynddi. Yn lle hynny, mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu gofynion eang presennol adran 17 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac felly mae'n gyson â'r Ddeddf honno gan gyflawni'r egwyddor sydd wrth wraidd gwelliant gwreiddiol Simon Thomas. Wrth ddrafftio'r gwelliant hwn yn ymwneud â'r ddyletswydd cynllunio, credaf ein bod wedi llwyddo i roi grym i'r egwyddor y tu ôl i'r gwelliant cynharach yn ogystal â sicrhau ei fod yn gyson â'r derminoleg yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac yn darparu cyfraith eglur. Gobeithio y bydd yr Aelodau yn ei gefnogi.

17:35 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I rise in support of amendment 3 in this group, tabled in the name of Mark Drakeford. As I understand it, the purpose of the amendment is to ensure that all local health boards' financial plans are formally approved and assessed by Ministers and that this principle is put on the face of the Bill. Therefore, I very much support this amendment as it provides the Government of the day with increased accountability. I am sure that all Members have been sometimes frustrated by the lack of accountability in relations to NHS finances, and I believe that this amendment seeks to address just that. As was discussed during the general principles debate some weeks ago, it has not always been straightforward to scrutinise LHB finances because, while Ministers are directly responsible to us, as Assembly Members, when we have tried to scrutinise individual health board expenditure with Ministers, we have effectively been referred back to those individual health boards. I therefore believe that this amendment serves to strengthen the Bill by creating a direct level of accountability for us to scrutinise LHB spend effectively with Ministers who have clearly approved and assessed the three-year integrated service plans.

Codaf o blaid gwelliant 3 yn y grŵp hwn, a gyflwynwyd yn enw Mark Drakeford. Yn ôl a ddeallaf, diben y gwelliant yw sicrhau bod cynlluniau ariannol pob bwrdd iechyd lleol yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol a'u hasesu gan Weinidogion a bod yr egwyddor hon yn cael ei rhoi ar wyneb y Bil. Felly, rwy'n cefnogi'r gwelliant hwn yn fawr gan ei fod yn darparu mwy o atebolrwydd i Lywodraeth y dydd. Rwy'n siŵr bod pob Aelod wedi teimlo'n rhwystredig weithiau gan y diffyg atebolrwydd o safbwynt cyllid y GIG, a chredaf fod y gwelliant hwn yn ceisio mynd i'r afael â hynny. Fel y trafodwyd yn ystod y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol rai wythnosau yn ôl, nid yw bob amser wedi bod yn rhwydd archwilio cyllid Byrddau Iechyd Lleol oherwydd bod Gweinidogion yn uniongyrchol atebol i ni, fel Aelodau Cynulliad, ond pan ein bod wedi ceisio craffu ar wariant byrddau iechyd unigol gyda Gweinidogion, rydym i bob pwrpas wedi cael ein cyfeirio'n ôl at y byrddau iechyd unigol hynny. Felly, rwy'n credu bod y gwelliant hwn yn cryfhau'r Bil trwy greu lefel atebolrwydd uniongyrchol i ni graffu ar wariant byrddau iechyd yn effeithiol gyda Gweinidogion sydd wedi cymeradwyo ac asesu'r cynlluniau gwasanaeth integredig tair blynedd yn glir.

17:36 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae Plaid Cymru wedi bod yn awyddus i sicrhau atebolrwydd clir y gyfundrefn gynllunio ariannol newydd hon sy'n cael ei chyflwyno gan y ddeddfwriaeth ac i sicrhau'r atebolrwydd hwnnw i'r Gweinidog. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi mwy o rym ariannol i fyrddau iechyd a mwy o hyblygrwydd. Mae mwy y gall fynd o'i le o gyflwyno'r ddeddfwriaeth yn ogystal â mwy o le i wella. Felly, mae angen sicrhau bod cynlluniau ariannol y byrddau iechyd yn robust, bod pob un ohonynt yn cael eu cymeradwyo gan y Gweinidog a bod y Gweinidog, yn ei dro, yn atebol drwy'r dulliau arferol i'r Cynulliad hwn. Mae'r gwelliant hwn hefyd yn mynd ati, fel y gwnaeth y Gweinidog sôn, i amlinellu beth yw'r cynllun, a bod hynny'n fwy na dim ond cynllun ariannol a'i fod yn gynllun i hyrwyddo gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl Cymru.

Plaid Cymru has been eager to ensure clear accountability for this new financial planning regime that is being introduced by this legislation and to secure that accountability to the Minister. This legislation provides more financial powers to health boards and more flexibility. There is more that can go wrong in introducing this legislation as well as more room for improvement. Therefore, we need to ensure that the health boards' financial plans are robust, and that they are approved individually by the Minister and that the Minister, in turn, should be accountable through the usual procedures to this Assembly. This amendment also, as the Minister mentioned, outlines what a plan involves, that it is more than just a financial plan and that it is a plan to promote health services for the people of Wales.

Fel y soniodd y Gweinidog, cyflwynodd Simon Thomas welliant tebyg i'r perwyl hwn yn ystod Cyfnod 2, ac rydym yn falch i'r Gweinidog gymeradwyo'r egwyddor y tu ôl i'r gwelliant yn y cyfnod hwnnw ac wedi ei gyflwyno yn ei enw ei hun y prynhawn yma. Rydym yn hapus iawn gyda geiriad y gwelliant hwnnw.

As the Minister mentioned, Simon Thomas introduced a similar amendment to this end during Stage 2, and we are pleased that the Minister agreed with the principle underlying that amendment during that stage and brought forward an amendment in his name this afternoon. We are very happy with the wording of that amendment.

17:38 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi gwrando ar sylwadau Aelodau eraill yn y Siambr ac rwy'n gobeithio bod y gwelliant hwn y cytunais arno yn Nghyfnod 2 yn cynnwys egwyddorion y gwelliannau a osododd Simon Thomas ar y pryd. Rwy'n ddiolchgar iddo ef ac i aelodau eraill y Pwyllgor Cyllid am drafod y materion sydd wedi arwain at roi gwelliant y Llywodraeth gerbron y Cynulliad y prynhawn yma. Rwy'n credu bod gwelliant 3 yn rhoi mecanwaith digonol i Weinidogion Cymru i wneud yn siŵr bod y byrddau iechyd lleol yn datblygu a llunio cynlluniau gwasanaethau a fydd yn dod gerbron Gweinidogion Cymru i gael eu cymeradwyo. Rwy'n credu bod y gwelliant hwn yn sicrhau cydbwysedd go iawn yn y berthynas rhwng y byrddau iechyd a'r Gweinidogion, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng eu dyletswyddau. Unwaith eto, rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r camau hyn i gryfhau'r Bil yn sylweddol.

I have listened to the comments of other Members in the Chamber and I hope that this amendment that I agreed on in Stage 2 does include the principles of the amendments that were tabled by Simon Thomas at the time. I am grateful to him and to other members of the Finance Committee for discussing the issues that have led to the Government amendment being laid before the Assembly this afternoon. I believe that amendment 3 gives a sufficient mechanism for Welsh Ministers to ensure that the health boards develop and draw up service plans that will come before Welsh Ministers to be approved. I believe that this amendment ensures a proper balance in the relationship between the health boards and the Ministers, including the balance between their duties. Once again, I hope that Members will support these steps to strengthen the Bill substantially.

17:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 3 is agreed to in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 3 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 4: Cyflwyno Adroddiadau (Gwelliannau 4, 4A, 5, 7 ac 8)

### Group 4: Reporting (Amendments 4, 4A, 5, 7 and 8)

17:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 4. I call on the Minister to move amendment 4 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 4. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 4 a siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:39 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 4 in my name.

Cynigiaf welliant 4 yn fy enw i.

I will speak to amendment 4 and other amendments in this group. Amendment 4 will require Welsh Ministers to report to the Assembly on whether each local health board has complied with the financial duty established in the Bill. Such a report will relate to each three-year accounting period and will be made before the end of the financial year following that period. This amendment has been brought forward in response to the views of committee members at Stage 2. Although Ministers are accountable to the National Assembly, I recognise that a reporting requirement of this kind will help hold a light up to the local health board's performance against the new financial framework created by this Bill. While this amendment does not describe the duty to report as an annual duty, in practice it cannot be anything but that. The three-year accounting period is a rolling three-year period, so the first report will be made after the first three years of operation, and will inevitably and inescapably be made each year thereafter.

Byddaf yn siarad am welliant 4 a'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn. Bydd gwelliant 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ba un a yw pob bwrdd iechyd lleol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd ariannol a sefydlwyd yn y Bil. Bydd adroddiad o'r fath yn cwmpasu pob cyfnod cyfrifyddu tair blynedd ac yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn ariannol yn dilyn y cyfnod hwnnw. Mae'r gwelliant hwn wedi cael ei ddwyn ymlaen mewn ymateb i farn aelodau'r pwyllgor yng Nghyfnod 2. Er bod y Gweinidogion yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, rwy'n cydnabod y bydd gofyniad o'r math hwn yn helpu i amlygu perfformiad y bwrdd iechyd lleol o'i gymharu â'r fframwaith ariannol newydd a grëwyd gan y Bil hwn. Er nad yw'r gwelliant hwn yn disgrifio'r ddyletswydd i gyflwyno adroddiad fel dyletswydd flynyddol, yn ymarferol ni all fod yn ddim arall. Mae'r cyfnod cyfrifyddu tair blynedd yn gyfnod treigl, felly bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei gyflwyno ar ôl y tair blynedd gyntaf o weithredu, ac yn anochel ac yn anorfod caiff ei gyflwyno bob blwyddyn wedi hynny.

The first and subsequent three-year accounting periods are already defined in subsection 8 of the Bill as amended following Stage 2. That amendment required that, at the end of section 175, a new subsection be inserted, which reads:

Mae'r cyfnodau cyfrifyddu tair blynedd cyntaf a'r rhai dilynol eisoes wedi'u diffinio yn is-adran 8 y Bil fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2. Roedd y gwelliant hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol bod is-adran newydd yn cael ei mewnosod ar ddiwedd adran 175, sy'n dweud mai:

'"Three-year accounting period" means a period of three years which begins with the first day of a financial year, so that the first begins with 1 April 2014 and ends with 31 March 2017 and the second begins with 1 April 2015 and ends with 31 March 2018 (and so on).'

Ystyr "cyfnod cyfrifyddu tair blynedd" yw cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau gyda diwrnod cyntaf blwyddyn ariannol, fel bod y cyntaf yn dechrau ar 1 Ebrill 2014 ac yn gorffen ar 31 Mawrth 2017, a'r ail yn dechrau ar 1 Ebrill 2015 ac yn gorffen ar 31 Mawrth 2018 (ac yn y blaen).

Amendment 4A seeks to amend the main amendment so as to specify when the first report was to be made, and then require reports to be made annually thereafter. However, amendment 4A really is not needed. As I have just demonstrated, the practical effect of amendment 4 is that it will provide precisely the same effect as amendment 4A, and for this reason, amendment 4A really is not required.

Additionally, amendment 4A presents technical difficulties. The Bill already provides a definition of a 'three-year accounting period', and I am concerned that having another reference to a period that is exactly the same as the three-year accounting period, but without using that defined term, could give rise to difficulties in interpretation.

Hoffwn ddiolch i Paul Davies am ei waith craffu cyson ac adeiladol yn y mater hwn, ond gallaf roi sicrwydd pendant iddo y bydd y Bil, gyda gwelliant 4 y Llywodraeth, yr union beth y mae'n galw amdano. Rwy'n gobeithio, felly, y bydd yn teimlo nad oes yn rhaid iddo bwyso am gael pleidlais ar welliant 4A heddiw.

I turn now to amendment 5, brought forward by Simon Thomas, which puts forward an alternative reporting duty. First, I want to thank Simon Thomas for having brought forward an amendment at Stage 2 on this matter, and for his willingness to retable an amendment today that tightens the focus of the amendment that he originally tabled. However, as with the Stage 2 amendment, I am advised that today's amendment continues to contain a substantial technical flaw in that it mixes two separate aspects of the National Health Service (Wales) 2006, namely the retrospective financial duty to be reported at the end of each three-year rolling accounting period, and the prospective initial and subsequent in-year allocations issued under section 174(1)(b) of the 2006 Act. LHBs receive an initial allocation of funding at the start of a three-year accounting period, and whether or not any LHB has failed to meet the financial duty will not be apparent until the end of that period. Indeed, any failure in the duty under subsection (1) would not be known until well after the end of the final year in the three-year funding period. That is the nature of the accounting process. The accounts for the 2012-13 financial year, for example, were not adopted until some three months after the end of the financial year. The failure is only identified retrospectively.

By contrast, any actions by Welsh Ministers to increase initial allocations will have already taken place before these accounts are closed. Such actions are prospective. The position outlined in the amendment can never, therefore, in fact, actually take place. By the time a failure under subsection (1) had been established, Ministers would be unable to increase amounts set out under section 174(1)(vi). The accounts would already have been sealed and no further addition could be made.

I understand that these are technical matters, but, in making law, ensuring technical accuracy is one of the most important things we do. I have to ask Members, whatever their views of the substance, not to support an amendment that would not stand up to legal scrutiny.

Mae gwelliant 4A yn ceisio diwygio'r prif welliant er mwyn pennu pryd y dylid cyflwyno'r adroddiad cyntaf, ac yna'i gwneud yn ofynnol i gyflwyno adroddiadau yn flynyddol wedi hynny. Fodd bynnag, nid oes gwir angen gwelliant 4A. Fel yr wyf newydd ei ddangos, yn ymarferol bydd gwelliant yn cael yn union yr un effaith â gwelliant 4A, ac am y rheswm hwn, nid oes angen gwelliant 4A mewn gwirionedd.

Yn ogystal, mae gwelliant 4A yn cyflwyno anawsterau technegol. Mae'r Bil eisoes yn darparu diffiniad o gyfnod cyfrifyddu o dair blynedd, ac rwy'n pryderu y gallai cyfeiriad arall at gyfnod sydd yn union yr un fath â'r cyfnod cyfrifyddu o dair blynedd, ond heb ddefnyddio'r term diffiniedig hwnnw, arwain at anawsterau wrth ddehongli.

I would like to thank Paul Davies for his consistent and constructive scrutiny in this matter, but I can give him firm assurance that the Bill, with the Government's amendment 4, will be exactly what he is seeking. I therefore hope that he will feel that he does not need to press amendment 4A to a vote this afternoon.

Trof yn awr at welliant 5, a gyflwynwyd gan Simon Thomas, sy'n cyflwyno dyletswydd wahanol o ran cyflwyno adroddiadau. Yn gyntaf, rwyf am ddiolch i Simon Thomas am gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 ar y mater hwn, ac am ei barodrwydd i ailgynnig gwelliant heddiw sy'n tynhau pwyslais y gwelliant a gyflwynwyd ganddo yn wreiddiol. Fodd bynnag, fel gyda gwelliant Cyfnod 2, fe'm cynghorwyd bod gwelliant heddiw yn parhau i gynnwys gwendid technegol sylweddol gan ei fod yn cymysgu dwy agwedd wahanol ar Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, sef y ddyletswydd ariannol ôl-weithredol i gyflwyno adroddiad ar ddiwedd pob cyfnod cyfrifyddu treigl tair blynedd, a'r darpar ddyraniadau cychwynnol a dilynol yn ystod y flwyddyn a gyhoeddir o dan adran 174 (1) (b) o Ddeddf 2006. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn derbyn dyraniad cychwynnol o arian ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu o dair blynedd, ac ni fydd yn amlwg a yw unrhyw fwrdd iechyd lleol wedi methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol tan ddiwedd y cyfnod hwnnw. Yn wir, ni fyddai unrhyw fethiant yn y ddyletswydd o dan is-adran (1) yn hysbys hyd nes ymhell ar ôl diwedd blwyddyn olaf y cyfnod cyllido tair blynedd. Dyna natur y broses gyfrifyddu. Ni chafodd cyfrifon blwyddyn ariannol 2012-13, er enghraifft, eu mabwysiadu tan ryw dri mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw'r methiant ond yn cael ei nodi yn ôl-weithredol.

Ar y llaw arall, bydd unrhyw gamau gan Weinidogion Cymru i gynyddu dyraniadau cychwynnol eisoes wedi'u cymryd cyn i'r cyfrifon hyn gael eu cau. Mae camau o'r fath yn edrych at y dyfodol. Ni all y sefyllfa a amlinellir yn y gwelliant fyth ddigwydd, felly, mewn gwirionedd. Erbyn y sylweddolwyd y bu methiant o dan is-adran (1), ni fyddai Gweinidogion yn gallu cynyddu'r symiau a nodir o dan adran 174 (1) (vi). Byddai'r cyfrifon eisoes wedi cael eu selio ac ni ellid gwneud unrhyw ychwanegiad pellach.

Rwy'n deall mai materion technegol yw'r rhain, ond, wrth wneud cyfraith, un o'r pethau pwysicaf a wnawn yw sicrhau cywirdeb technegol. Beth bynnag yw eu barn am y sylwedd, mae'n rhaid imi ofyn i Aelodau beidio â chefnogi gwelliant na fyddai'n gwrthsefyll craffu cyfreithiol.

I turn to the substance. My understanding of the purpose of amendment 5 is that it seeks to ensure that a report is made to the National Assembly in circumstances where two specific developments have taken place. First of all, it identifies the possibility that a health board's expenditure is exceeding its approved planned expenditure and is, therefore, likely to breach its financial duty—including taking into account the use of any tolerance threshold.

Trof at y sylwedd. Fy nealltwriaeth o bwrpas gwelliant 5 yw ei fod yn ceisio sicrhau y cyflwynir adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan amgylchiadau lle mae dau ddatblygiad penodol wedi digwydd. Yn gyntaf, mae'n nodi'r posibilrwydd bod gwariant y bwrdd iechyd yn fwy na'i wariant a gymeradwywyd ac a gynlluniwyd a'i fod, felly, yn debygol o dorri ei ddyletswydd ariannol—gan gynnwys ystyried y defnydd o unrhyw drothwy goddefiant.

Secondly, it points to the circumstance in which Welsh Ministers decide to increase the funding to avoid such a breach. Where both those tests apply, the purpose of amendment 5 is to ensure that a report would follow from the Minister to the National Assembly. While the amendment itself is technically flawed, I am happy to provide an assurance, on the record, to Members that it would be my intention to make information available, including the rationale for any additional funding provided in these circumstances.

Yn ail, mae'n cyfeirio at yr amgylchiadau lle y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu cynyddu'r cyllid er mwyn osgoi achos o'r fath. Pwrpas gwelliant 5 yw sicrhau y byddai'r Gweinidog yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol pan fydd y ddau brawf hyn yn berthnasol. Er bod y gwelliant ei hun yn ddiffygiol yn dechnegol, rwy'n hapus i roi sicrwydd, ar y cofnod, i'r Aelodau mai fy mwriad fyddai sicrhau bod gwybodaeth ar gael, gan gynnwys y rhesymeg dros unrhyw gyllid ychwanegol a ddarperir yn yr amgylchiadau hyn.

Moreover, information will also be available within the report prepared by the Wales Audit Office in its annual audit of the health boards' financial performance. The WAO will highlight in its report any breach of duty along with any use of the tolerance threshold, and also if the health board has only met its financial duty as a consequence of additional financial support provided by the Welsh Government.

Ar ben hynny, bydd gwybodaeth hefyd ar gael yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar ei harchwiliad blynyddol o berfformiad ariannol y byrddau iechyd. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn ei hadroddiad, yn amlygu unrhyw achos o dorri'r ddyletswydd ynghyd ag unrhyw ddefnydd o'r trothwy goddefiant, a hefyd os na fydd y bwrdd iechyd ond wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol o ganlyniad i gefnogaeth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

While I am unable to support amendment 5, I hope that I am able to provide Members with an assurance that I am sympathetic to its substance and what it aims to achieve. I give an assurance that the Government would respond accordingly.

Er na allaf gefnogi gwelliant 5, rwy'n gobeithio fy mod yn gallu rhoi sicrwydd i Aelodau fy mod yn cydymdeimlo â'i sylwedd a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Rhoddaf sicrwydd y byddai'r Llywodraeth yn ymateb yn unol â hynny.

I turn now to amendments 7 and 8 in the name of Paul Davies. As I have explained, the Government's amendment 4 covers reporting on the financial duty in line with the principles and timescales previously discussed at Stage 2. Amendment 7 seeks to replicate within this Bill the requirements already set out in section 37 of the Government of Wales Act 2006. Amendment 8 provides definitions relating to amendment 7.

Trof yn awr at welliannau 7 ac 8 yn enw Paul Davies. Fel yr wyf wedi egluro, mae gwelliant 4 y Llywodraeth yn ymdrin â chyflwyno adroddiad ar y ddyletswydd ariannol yn unol â'r egwyddorion a'r amserlenni a drafodwyd yn flaenorol yng Nghyfnod 2. Mae gwelliant 7 yn ceisio ailadrodd o fewn y Bil hwn, y gofynion a nodwyd eisoes yn adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae gwelliant 8 yn darparu diffiniadau sy'n ymwneud â gwelliant 7.

It is the Government's case that section 37 of the 2006 Act has operated sufficiently, without requiring its detail to be replicated in this Bill. I will listen carefully to Paul Davies's reasons for the amendments, of course, but, at this time, I am not persuaded that these amendments are necessary. It is important to remember that the report from the Welsh Ministers will be supplementary to the local health boards' own reporting on their financial duty, through their annual accounts, and that that will be laid before the Assembly. There will also be the Wales Audit Office narrative reports within those accounts. Taken together, I believe that that provides a sufficient level of scrutiny.

Dadl y Llywodraeth yw bod adran 37 o Ddeddf 2006 wedi gweithredu'n ddigonol, heb fod angen i'w manylion gael eu hailadrodd yn y Bil hwn. Byddaf yn gwrando'n ofalus ar resymau Paul Davies dros y gwelliannau, wrth gwrs, ond, ar hyn o bryd, nid wyf wedi fy argyhoeddi bod y gwelliannau hyn yn angenrheidiol. Mae'n bwysig cofio y bydd yr adroddiad gan Weinidogion Cymru yn ychwanegol at adroddiad y byrddau iechyd lleol eu hunain ar eu dyletswydd ariannol, trwy eu cyfrifon blynyddol, ac y bydd hwnnw'n cael ei osod gerbron y Cynulliad. Bydd y cyfrifon hynny hefyd yn cynnwys adroddiadau naratif Swyddfa Archwilio Cymru. Gyda'i gilydd, rwy'n credu bod hynny'n rhoi lefel ddigonol o graffu.

17:49 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I rise to speak to amendments 4A, 7 and 8 tabled in my name. These amendments have been tabled to ensure that the impact of this legislation is reviewed so that the Assembly is able to scrutinise its effectiveness and that annual reports are reviewed by the Assembly in relation to local health boards' plans.

Rwy'n codi i siarad am welliannau 4A, 7 ac 8 a gyflwynwyd yn fy enw i. Cyflwynwyd y gwelliannau hyn i sicrhau bod effaith y ddeddfwriaeth hon yn cael ei hadolygu fel bod y Cynulliad yn gallu craffu ar ei heffeithiolrwydd a bod y Cynulliad yn adolygu adroddiadau blynyddol mewn cysylltiad â chynlluniau byrddau iechyd lleol.

In relation to amendment 4A, I am calling for Welsh Ministers to report to the Assembly on the effectiveness of this Bill after four years of its implementation, which will allow a further three-year rolling period to have taken place. I believe that this is a sensible and reasonable request that will provide the Assembly with the opportunity to study an entire cycle and witness the effect of this legislation. While we can see that the Minister has made a reference to this in the explanatory memorandum, there is still nothing on the face of the Bill stipulating that the legislation would be reviewed after four years.

O ran gwelliant 4A, rwy'n galw ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar effeithiolrwydd y Bil hwn ar ôl pedair blynedd o'i weithredu, a fydd yn golygu bod cyfnod treigl o dair blynedd wedi mynd heibio. Rwy'n credu bod hwn yn gais synhwyrol a rhesymol a fydd yn rhoi i'r Cynulliad y cyfle i astudio cylch cyfan a bod yn dyst i effaith y ddeddfwriaeth hon. Er y gallwn weld bod y Gweinidog wedi cyfeirio at hyn yn y memorandwm esboniadol, nid oes dim ar wyneb y Bil yn nodi y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei hadolygu ar ôl pedair blynedd.

I listened very carefully to what the Minister said, but the Government amendment does not make specific reference to reviewing the effectiveness of the legislation after a certain period of time, hence the reason for bringing forward this amendment. I strongly believe that reporting back to the National Assembly for Wales on an annual basis should be required so that the Assembly, and not only the Welsh Government, can regularly scrutinise and review local health board plans. It is crucial that we establish transparency and accountability in this legislation.

Gwrandewais yn astud iawn ar yr hyn a ddywedodd y Gweinidog, ond nid yw gwelliant y Llywodraeth yn cyfeirio'n benodol at adolygu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth ar ôl cyfnod penodol o amser, a dyna'r rheswm dros gyflwyno'r gwelliant hwn. Credaf yn gryf y dylai fod yn ofynnol cyflwyno adroddiad yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y gall y Cynulliad, ac nid Llywodraeth Cymru yn unig, adolygu a chraffu ar gynlluniau byrddau iechyd lleol yn rheolaidd. Mae'n hanfodol ein bod yn sefydlu tryloywder ac atebolrwydd yn y ddeddfwriaeth hon.

Amendment 4 from the Government in this group does not specifically state that the Minister would report on an annual basis. In fact, the Minister, in his comments today, confirms that his amendment does not describe the duty to report as an annual duty in practice. As far as I can see, the amendment only states that Ministers would report during each three-year accounting period, and not necessarily on an annual basis. My amendment ensures that there is clarity on when future Governments are required to report to the Assembly.

Nid yw gwelliant 4 gan y Llywodraeth yn y grŵp hwn yn nodi'n benodol y byddai'r Gweinidog yn cyflwyno adroddiad yn flynyddol. Yn wir, mae'r Gweinidog, yn ei sylwadau heddiw, yn cadarnhau nad yw ei welliant yn disgrifio'r ddyletswydd i gyflwyno adroddiad fel dyletswydd flynyddol yn ymarferol. Cyn belled ag y gallaf weld, nid yw'r gwelliant ond yn datgan y byddai Gweinidogion yn cyflwyno adroddiad yn ystod pob cyfnod cyfrifyddu o dair blynedd, ac nid o reidrwydd unwaith y flwyddyn. Mae fy ngwelliant yn sicrhau ei bod yn eglur pryd y mae'n ofynnol i Lywodraethau yn y dyfodol gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

Amendment 7 refers to requiring Welsh Ministers to report to the Assembly. Even though the Minister has argued that he believes that this amendment is a direct replication of section 37 of the Government of Wales Act 2006, I believe that this amendment is necessary to ensure absolute clarity on the face of the Bill.

Mae gwelliant 7 yn cyfeirio at ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad. Er bod y Gweinidog wedi dadlau ei fod yn credu bod y gwelliant hwn yn dyblygu adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn uniongyrchol, credaf fod y gwelliant hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau eglurder llwyr ar wyneb y Bil.

Amendment 8 is purely technical in nature and is in regard to my previous amendments in this group, reflecting clear definitions of the terms 'Assembly' and 'Assembly proceedings' in the Bill.

Mae gwelliant 8 yn dechnegol ei natur ac yn ymwneud â'm gwelliannau blaenorol yn y grŵp hwn, gan adlewyrchu diffiniadau clir o'r termau 'Cynulliad' a 'trafodion y Cynulliad' yn y Bil.

In relation to amendment 5 in the name of Simon Thomas, I fundamentally believe that this amendment means that at any time during the three-year rolling period when Ministers believe that additional funding were needed, above what has been agreed—including tolerance levels as required by any health board—they would be required to report that to the whole Assembly. I fully support this amendment, as it serves to provide greater democratic accountability and transparency.

O ran gwelliant 5 yn enw Simon Thomas, yn y bôn rwy'n credu bod y gwelliant hwn yn golygu y byddai'n ofynnol i Weinidogion gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad cyfan, pan fyddant yn credu, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod treigl tair blynedd, bod angen arian ychwanegol, uwchlaw'r hyn y cytunwyd arno—gan gynnwys lefelau goddefiant yn ôl yr angen gan unrhyw fwrdd iechyd. Rwy'n cefnogi'r gwelliant hwn yn llwyr, gan ei fod yn darparu mwy o atebolrwydd democrataidd a thryloywder.

Therefore, with regard to these points, I urge Members to support my amendments and the amendments tabled in the name of Simon Thomas. If amendment 4A is not accepted, and falls, given that the Government's amendment goes some way to commit to reporting, we will support the Minister's amendment.

Felly, o ran y pwyntiau hyn, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi fy ngwelliannau a'r gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Simon Thomas. Pe na bai gwelliant 4A yn cael ei dderbyn, a'i fod yn methu, o ystyried bod y gwelliant y Llywodraeth yn mynd rywfaint o'r ffordd i ymrwymo i gyflwyno adroddiadau, byddwn yn cefnogi gwelliant y Gweinidog.

17:53

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bwriad gwelliant 5 yn enw Simon Thomas yw sicrhau tryloywder llwyr yn y berthynas ariannol rhwng y Gweinidog a phob bwrdd iechyd. Cyflwynodd Simon Thomas welliant nid annhebyg yng Nghyfnod 2, ond rydym, yn dilyn sylwadau'r Llywodraeth yn y Pwyllgor Cyllid, wedi aileirio ac ailbwysleisio'r gwelliant ar gyfer Cyfnod 3. Mae'r gwelliant yn awr yn gofyn i Weinidog adrodd i'r Cynulliad ar unrhyw arian ychwanegol i'r cyllid tair blynedd y bydd y Llywodraeth yn ei roi i unrhyw fwrdd iechyd, ac i adrodd hynny o fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad gweinidogol. Yn ymarferol, felly, os yw'r Llywodraeth, yn ystod y tair blynedd—siŵr o fod, tuag at ddiwedd y tair blynedd—mewn sefyllfa lle mae ar fwrdd iechyd angen beth sy'n cael ei alw erbyn hyn yn 'bail-out', bydd angen i'r Gweinidog wneud penderfyniad ar hynny, a dilyn y penderfyniad hwnnw gyda datganiad ysgrifenedig neu lafar i'r Cynulliad.

The aim of amendment 5 in the name of Simon Thomas was to ensure full transparency in the financial relationship between the Minister and all health boards. Simon Thomas tabled a not dissimilar amendment at Stage 2, but as a result of the Government's comments in the Finance Committee, we have reworded and re-emphasised the amendment for Stage 3. The amendment now asks Ministers to report to the Assembly on any additional funding to the three-year funding that the Government gioves to any health board, and to do so within 14 days of the ministerial decision. In practical terms, therefore, if the Government, during the three years—and it is likely to be towards the end of the three years—is in a position where a health board requires what is now called a bail-out, the Minister will have to make a decision on that, and follow up that decision with a written or oral statement to the Assembly.

Dyna felly oedd bwriad y gwelliant. Mae'r Gweinidog wedi amlinellu ei fod yn mynd i gymryd camau, beth bynnag fo'r penderfyniad ar y gwelliant, i gynyddu tryloywder yr egwyddor tu ôl i'r gwelliant. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog hefyd wedi cyflwyno rhai dadleuon technegol ynglŷn â'r gwelliant, ac, yn benodol iawn, ynglŷn â phryd y gellid ystyried 'bail-out'. Ein bwriad ni wrth ddrafftio'r gwelliant ac o gael cyngor cyfreithiol wrth ei ddrafftio oedd delio ag arian ychwanegol yn ystod y cyfnod o dair blynedd. Dyna oedd ein bwriad ni, a dyna fy nealltwriaeth i o hyd, mae'n rhaid dweud, o ddarllen y gwelliant rydym wedi ei gyflwyno heddiw. Er hynny, gwnaeth y Gweinidog gystal 'job' ar amlinellu fersiwn arall o'r hyn y gallai'r gwelliant ei olygu bod hynny, ynddo'i hun, yn rhywbeth buddiol iawn i'w gael ar wyneb y Bil—amlinelliad clir o'r angen am arian ychwanegol, hyd yn oed yn 'retrospective', ar ôl i'r swyddfa archwilio wneud ei gwaith ac i'r cyfrifon gael eu cwblhau, a bod hynny'n dod yn fater o record gyhoeddus. Felly, pa bynnag fersiwn rydych chi'n ei dilyn y prynhawn yma—barn y Gweinidog am y darlleniad o'r gwelliant neu fy marn i—mae gwerth cymeradwyo'r gwelliant.

That, therefore, was the aim of the amendment. The Minister has said that he will take steps, whatever happens to this amendment, to increase the transparency of the principle behind this amendment. However, the Minister has also made some technical arguments about the amendment and, very specifically, about when a bail-out can be considered. Our intention in drafting the amendment and in taking legal advice on its drafting was to deal with additional moneys during the three-year period. That was our aim, and that remains my understanding, I must say, having read the amendment that we have tabled today. However, the Minister did such a good job of outlining another version of what the amendment could mean that that, in itself, would be beneficial on the face of the Bill—a clear explanation of the need for additional money, even retrospectively, when the audit office has completed its work and the accounts have been finalised, and that that became a matter of public record. Therefore, whatever version you think is before us this afternoon—the Minister's view of this amendment or my view of it—it is worth supporting this amendment.

17:56 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As this is the first time that I have spoken on this, I want to put on record my thanks to the Minister, who has listened throughout to the arguments put by the committee and who has brought his own amendments forward, as and when he has agreed with us. That is a refreshing change, in many respects, in terms of legislation in this place; it does not always happen.

Gan mai hwn yw'r tro cyntaf i mi fod wedi siarad am hyn, rwyf am gofnodi fy niolch i'r Gweinidog, sydd bob amser wedi gwrando ar y dadleuon a gyflwynwyd gan y pwyllgor ac sydd wedi cyflwyno ei welliannau ei hun, pryd bynnag y mae wedi cytuno â ni. Mae hynny'n newid braf, mewn sawl ffordd, o ran deddfwriaeth yn y lle hwn; nid yw bob amser yn digwydd.

I am happy to support the amendments that have been brought forward by Paul Davies and Simon Thomas to this Bill. It is important that we have absolute transparency in this new process, in terms of when the reporting process is not defined, and when the Minister will come before us to report on that, and in terms of what is termed a 'bail-out', so that we have a report to this Assembly when that happens. For that reason, the amendments that have been put forward are absolutely right and should be supported, so that we get that transparency and accountability and that what is a very new way of doing things in the NHS in Wales gets off to the right start and operates in a correct and proper way. We should all see quite clearly how it operates and how reports come not just to the Minister, but to us, so that we can judge that it is operating correctly and in accordance with the principles of the Bill that is in front of us.

Rwy'n hapus i gefnogi'r gwelliannau i'r Bil hwn sydd wedi cael eu dwyn ymlaen gan Paul Davies a Simon Thomas. Mae'n bwysig cael eglurder llwyr yn y broses newydd hon, o ran achosion pryd nad yw'r broses o gyflwyno adroddiadau wedi cael ei diffinio, a phryd y bydd y Gweinidog yn dod ger ein bron i gyflwyno adroddiad ar hynny, a phryd y bydd angen 'achub croen' y byrddau iechyd yn ariannol, er mwyn i'r Cynulliad hwn dderbyn adroddiad pan fydd hynny'n digwydd. Am y rheswm hwnnw, mae'r gwelliannau sydd wedi cael eu cyflwyno yn gwbl gywir a dylid eu cefnogi, er mwyn inni gael y tryloywder a'r atebolrwydd hwnnw ac i'r ffordd newydd iawn hon o wneud pethau yn y GIG yng Nghymru gael y dechreuad cywir a gweithredu mewn ffordd gywir a phriodol. Dylem i gyd weld yn eithaf clir sut mae'n gweithredu a sut y cyflwynir adroddiadau i'r Gweinidog, ond hefyd i ni, fel y gallwn farnu bod pethau'n gweithredu'n gywir ac yn unol ag egwyddorion y Bil sydd ger ein bron.

17:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

17:57 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi gwrando ar sylwadau Aelodau eraill yn y Siambr, ac rwy'n dal i gredu bod fy ngwelliant 4 i yn ddigonol, o ran cyflwyno adroddiadau a bod yn atebol, a bod hynny'n cyfateb â darpariaethau yn y Bil. Mae gwelliant 4A gan Paul Davies yn ceisio gwneud yn siŵr bod Gweinidogion Cymru yn gorfod adrodd bob blwyddyn ar berfformiad yn erbyn y ddyletswydd ariannol, ond mae gwelliant y Llywodraeth eisoes yn sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn adrodd i'r Cynulliad ar y dyletswyddau ariannol bob blwyddyn ar ôl y cyfnod cyntaf o dair blynedd.

I have listened to the comments made by other Members in the Chamber, and I still believe that my amendment 4 adequately deals with the bringing forward of reports and being accountable, and that that corresponds with the provisions of the Bill. Paul Davies's amendment 4A aims to ensure that Welsh Ministers have to report annually on performance against the financial duty, but the Government amendment already ensures that Welsh Ministers report annually to the Assembly on the financial duties, following the first three-year period.

Gan droi at welliant 5 Simon Thomas yn y grŵp hwn, mae hwnnw'n cysylltu dyletswydd ariannol ôl-weithredol â mecanwaith cyllido rhagolygol. Ni fyddai hynny'n ymarferol. Mae'r byrddau iechyd yn cael eu harian ar sail ragolygol ar ddechrau'r flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn, ond mae'r ddyletswydd ariannol yn cael ei mesur wrth edrych yn ôl. Er nad yw gwelliant 5 yn ymarferol ac na allaf i, felly, ei gefnogi, gallaf sicrhau Aelodau y bydd y Llywodraeth yn monitro'n ofalus wariant y byrddau iechyd a sut y maent yn llwyddo i gyflawni eu dyletswydd ariannol. Os bydd achos yn codi lle bydd angen arian ychwanegol ar fwrdd iechyd i'w atal rhag torri ei ddyletswydd ariannol, rwyf wedi ymrwymo i wneud yn siŵr y byddai hyn yn arwain at adroddiad i'r Cynulliad.

Turning to Simon Thomas's amendment 5 in this group, it links a retrospective financial duty with a prospective funding mechanism. That would not be practical. Health boards are funded prospectively at the beginning of the year and during the year, but the financial duty is measured retrospectively. Although amendment 5 is impractical and that I cannot, therefore, support it, I can assure Members that the Government will carefully monitor health board expenditure and how they manage to fulfil their financial duty. If the need arises for a health board to receive additional money in order to comply with its financial duty, I have committed to ensuring that that necessitates a report to the Assembly.

Mae gwelliannau eraill Paul Davies yn y grŵp hwn—gwelliant 7, a diffiniadau ohono yng ngwelliant 8—yn ailadrodd adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ond gan gyflwyno lefel newydd o fanylion. Nid wyf yn meddwl bod angen hynny. Nid ydym wedi gweld bod angen hyn yn y gorffennol yn y ffordd y mae adran 37 yn cael ei gweithredu. Fel rwyf wedi dweud o'r blaen, mae hawl gyda'r Cynulliad a'i bwyllgorau i alw Gweinidogion i gyfrif ar unrhyw adeg os ydynt yn credu bod angen craffu ar unrhyw fater. Rwy'n gofyn i Aelodau gefnogi gwelliant 4 yn y grŵp hwn a gwrthod y gweddill.

Paul Davies's other amendments in this group—amendment 7 and definitions of it in amendment 8—repeat section 37 of the Government of Wales Act 2006, but introduce a new level of detail. I do not think that that is necessary and we have not seen that that is necessary in the past in the way that section 37 is operated. As I have said before, the Assembly and its committees have a right to call Ministers to account at any time if they believe that they need to scrutinise any issue. I ask Members to support amendment 4 in this group and to reject all others.

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As there is an amendment to amendment 4, we will dispose of that first. I call on Paul Davies to move amendment 4A.

Gan fod gwelliant i welliant 4, byddwn yn penderfynu ar hynny yn gyntaf. Galwaf ar Paul Davies i gynnig gwelliant 4A.

18:00

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 4A yn fy enw i, gyda chefnogaeth Peter Black.

I move amendment 4A in my name, supported by Peter Black.

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 4A be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4A. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly fe gawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4A.

Result of the vote on amendment 4A.

*Gwrthodwyd gwelliant 4A: O blaid 18, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Amendment 4A not agreed: For 18, Against 38, Abstain 0.*

18:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 4 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Elin Jones to move amendment 5.

Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 5.

18:01

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 5 in the name of Simon Thomas.

Cynigiaf welliant 5 yn enw Simon Thomas.

18:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly fe gawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5

Result of the vote on amendment 5

*Gwrthodwyd gwelliant 5: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 5 not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

**Grŵp 5: Pŵer i Fenthyca (Gwelliant 6)**

**Group 5: Power to Borrow (Amendment 6)**

18:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The only amendment in this group is amendment 6, and I call on Paul Davies to move and speak to the amendment.

Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 6, a galwaf ar Paul Davies i gynnig y gwelliant a siarad amdano.

18:02

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 6 in my name, supported by Peter Black.

Cynigiaf welliant 6 yn fy enw i, â chefnogaeth Peter Black.

Even though I tabled this amendment at Stage 2 and it was rejected, I felt that I should re-table this amendment at Stage 3 to give all Members the opportunity to debate this issue. The purpose of this amendment is to give local health boards the ability to raise funds through the use of borrowing powers. As we are all aware, local health boards have substantial budgets and, given those substantial budgets, I believe that it is appropriate that they are given the ability to borrow.

Er fy mod wedi cyflwyno'r gwelliant hwn yng Nghyfnod 2 ac er iddo gael ei wrthod, rwy'n teimlo y dylwn ail gyflwyno'r gwelliant hwn yng Nghyfnod 3 er mwyn rhoi cyfle i'r holl Aelodau drafod y mater hwn. Pwrpas y gwelliant hwn yw rhoi'r gallu i fyrddau iechyd lleol godi arian trwy ddefnyddio pwerau benthyca. Fel yr ydym i gyd yn ymwybodol, mae gan fyrddau iechyd lleol gyllidebau sylweddol ac, o ystyried y cyllidebau sylweddol hynny, rwy'n credu ei bod yn briodol iddynt gael y gallu i fenthyca.

At the moment, any substantial capital project has to be financed from current budgets and giving LHBs the ability to borrow could help to alleviate their financial pressures. The Minister has rightly made the point in previous discussions that if you are going to borrow you have to be able to provide a revenue stream to pay back that borrowing. I fully accept that point. The Welsh NHS does raise some of its income independently and therefore a revenue stream is available to pay back any borrowing. For example, we know that the Welsh NHS often charges rents to tenants on its estate and it charges rents to consultants for private practice. Figures obtained by the Wales Audit Office tell us that just under £325 million is raised independently by the Welsh NHS. That is a significant income stream that local health boards could use to borrow so that they can invest in their capital infrastructure.

Ar hyn o bryd, rhaid i unrhyw brosiect cyfalaf sylweddol gael ei ariannu o gyllidebau cyfredol a gellid cynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i leddfu eu pwysau ariannol trwy roi'r gallu iddynt fenthyca. Mae'r Gweinidog wedi gwneud y pwynt yn gywir mewn trafodaethau blaenorol, bod yn rhaid i chi allu darparu ffrwd refeniw i dalu'r benthyciad yn ôl os ydych yn mynd i fenthyca. Rwy'n derbyn y pwynt hwnnw'n llwyr. Mae'r GIG yng Nghymru yn codi rhywfaint o'i incwm yn annibynnol ac felly mae ffrwd refeniw ar gael i dalu unrhyw fenthyciadau yn ôl. Er enghraifft, gwyddom fod y GIG yng Nghymru yn aml yn codi rhenti ar denantiaid ar ei stad ac mae'n codi rhenti ar ymgynghorwyr ar gyfer ymarfer preifat. Mae ffigurau a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud wrthym bod y GIG yng Nghymru yn codi ychydig o dan £325 miliwn yn annibynnol. Mae honno'n ffrwd incwm sylweddol y gallai byrddau iechyd lleol ei defnyddio i fenthyca er mwyn iddynt allu buddsoddi yn eu seilwaith cyfalaf.

Given this potential revenue stream, I believe that we should provide local health boards with the option of accessing borrowing powers and that this should be incorporated within this piece of legislation. This Bill is the perfect opportunity to ensure that local health boards receive the appropriate support that they need. Allowing them the opportunity to borrow to finance capital projects will provide them with an additional tool to manage their finance. Let us not forget that NHS trusts in Wales already have borrowing powers, subject to controls contained in directions, and the borrowing powers in my amendment are clearly subject to controls and limits contained in regulations.

O ystyried y ffrwd refeniw bosibl hon, credaf y dylem roi'r opsiwn i fyrddau iechyd lleol allu defnyddio pwerau benthyca ac y dylid cynnwys hyn o fewn y darn hwn o ddeddfwriaeth. Mae'r Bil hwn yn gyfle perffaith i sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn derbyn y gefnogaeth briodol sydd ei hangen arnynt. Trwy ganiatáu iddynt gael cyfle i fenthyca er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf, byddem yn rhoi arf ychwanegol iddynt i reoli eu cyllid. Rhaid cofio bod gan ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru bwerau benthyca eisoes, yn amodol ar reolaethau mewn cyfarwyddiadau, ac mae'r pwerau benthyca yn fy ngwelliant i yn amlwg yn destun rheolaethau a chyfyngiadau a gynhwysir yn y rheoliadau.

With regard to the effect of this specific borrowing power on the Welsh block, it would be for internal Government accounting arrangements to determine how the borrowing power would work in practice. The Minister has stated that he is open to looking at giving borrowing powers to local health boards. This is a clear indication that appropriate accounting arrangements can be put in place. The Auditor General for Wales has expressed concern about the huge backlog of maintenance on the NHS estate—at least £395 million, according to the latest finance report—and giving local health boards the ability to borrow may be one tool to help to start tackling this backlog.

O ran effaith y pŵer benthyca penodol hwn ar floc Cymru, byddai'n fater i drefniadau cyfrifyddu mewnol y Llywodraeth bennu sut y byddai'r pŵer benthyca yn gweithio yn ymarferol. Mae'r Gweinidog wedi datgan ei fod yn agored i ystyried rhoi pwerau benthyca i fyrddau iechyd lleol. Dyma arwydd clir y gellir rhoi trefniadau cyfrifyddu priodol ar waith. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi mynegi pryder ynglŷn â'r swm enfawr o waith cynnal a chadw sydd wedi cronni ar stad y GIG—gwerth £395 miliwn o leiaf, yn ôl yr adroddiad cyllid diweddaraf—ac un offeryn posibl i helpu i ddechrau mynd i'r afael â'r gwaith hwn yw rhoi'r gallu i fyrddau iechyd lleol fenthyca.

As I have said, the Minister has previously indicated that he is not against giving local health boards the power to borrow, but he thinks that this Bill is not the vehicle to introduce that power. I believe that he suggested that he will introduce legislation to give local health boards the power to borrow at a later date. However, that could take another few years, and my argument is that we have the chance right now to introduce borrowing powers for local health boards. I think that this Bill is the right vehicle to do so, and I urge Members to support this amendment.

Fel yr wyf wedi dweud, mae'r Gweinidog wedi awgrymu'n flaenorol nad yw yn erbyn rhoi pŵer benthyca i fyrddau iechyd lleol, ond mae'n credu nad y Bil hwn yw'r cyfrwng i gyflwyno'r pŵer hwnnw. Rwy'n credu ei fod wedi awgrymu y bydd yn cyflwyno deddfwriaeth i roi'r pŵer i fenthyca i fyrddau iechyd lleol yn ddiweddarach. Fodd bynnag, gallai hynny gymryd ychydig flynyddoedd eto, a'm dadl i yw bod gennym y cyfle yn awr i gyflwyno pwerau benthyca i fyrddau iechyd lleol. Credaf mai'r Bil hwn yw'r cyfrwng iawn i wneud hynny, ac rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r gwelliant hwn.

18:05

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is an interesting proposal outlined in Paul Davies's amendment, and one that deserves greater exploration than we can afford it today. We were not able to give this the consideration that it deserves at committee stage, either, in the absence of Stage 1 proceedings, and without the benefit of Stage 1, it is difficult for us to take a view on the full implications of health boards having the ability to borrow. So, although we have some sympathy with Paul Davies's argument, we will be abstaining on his amendment today.

Mae hwn yn gynnig diddorol a amlinellir yng ngwelliant Paul Davies, ac yn un sy'n haeddu cael ei archwilio'n fwy trylwyr nag y gallwn wneud heddiw. Nid oeddem yn gallu rhoi'r sylw dyledus i hyn yng nghyfnod y pwyllgor, ychwaith, yn absenoldeb trafodion Cyfnod 1, a heb fantais Cyfnod 1, mae'n anodd i ni lunio barn ar oblygiadau llawn rhoi'r gallu i fenthyca i fyrddau iechyd. Felly, er bod gennym rywfaint o gydymdeimlad â dadl Paul Davies, byddwn yn ymatal ar ei welliant heddiw.

Let us not forget that health boards have had bail-outs for over a decade, and I am yet to be convinced that the necessary financial management skills even exist within our NHS to justify permitting borrowing. I feel that we should see how the extended accounting period works out first.

Rhaid inni gofio bod byrddau iechyd wedi cael cyllid i achub eu croen am dros ddegawd, ac nid wyf eto wedi cael fy argyhoeddi bod y sgiliau rheoli ariannol angenrheidiol hyd yn oed yn bodoli o fewn ein GIG i gyfiawnhau rhoi caniatâd iddynt fenthyca. Rwy'n teimlo y dylem weld sut y mae'r cyfnod cyfrifyddu estynedig yn gweithio yn gyntaf.

I have no doubt that arguments can be put that, with borrowing powers, the health board could make much needed capital investments, but let us just remember that repaying capital can eat into revenue budgets for many years, and in the NHS that can mean jobs and wages, notwithstanding the revenue stream income mentioned by Paul Davies earlier. So, before borrowing powers could be given to the health boards, I certainly would want to see appropriate accountability and reporting mechanisms that ensure scrutiny and transparency also on the face of the legislation. So, on this occasion we will not be supporting this amendment, but I look forward to returning to this particular issue sometime in the future.

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y gellir cyflwyno dadleuon y gallai byrddau iechyd, gyda phwerau benthyca, wneud buddsoddiadau cyfalaf mawr eu hangen, ond gadewch inni gofio y gall ad-dalu cyfalaf lyncu cyllidebau refeniw am nifer o flynyddoedd, ac yn y GIG gall hynny olygu swyddi a chyflogau, er gwaethaf y ffrwd incwm refeniw a grybwyllwyd gan Paul Davies yn gynharach. Felly, cyn y gellid rhoi pwerau benthyca i'r byrddau iechyd, byddwn yn sicr am weld mecanweithiau priodol o ran atebolrwydd a chyflwyno adroddiadau sy'n sicrhau craffu a thryloywder hefyd ar wyneb y ddeddfwriaeth. Felly, ar yr achlysur hwn ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn, ond rwy'n edrych ymlaen at ddychwelyd at y mater penodol hwn rywbryd yn y dyfodol.

18:07 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We are happy to support this amendment. The Minister has said in the past that he is interested in borrowing powers for local health boards and I accept that he does not think that this is the correct time to do it, especially in the absence of a Stage 1, which was clearly not our doing, but clearly, there has not been a Stage 1. I think it is useful to explore this issue, and I think it is useful to look to this Bill to introduce those borrowing powers. As Paul Davies has said, there will of course have to be some very detailed regulations and guidance as to how those borrowing powers are exercised. The view Jocelyn has just outlined is a bit cautious in that respect, but I certainly think that, if we can make this provision here in this Bill, the detailed work will then be able to be done by the Minister and we will then be able to give the local health boards those borrowing powers that they can make good use of to help to improve the NHS estate around Wales.

Rydym yn barod i gefnogi'r gwelliant hwn. Mae'r Gweinidog wedi dweud yn y gorffennol bod ganddo ddiddordeb mewn rhoi pwerau benthyca i fyrddau iechyd lleol a derbyniaf nad yw'n credu mai dyma'r amser cywir i wneud hynny, yn enwedig yn absenoldeb Cyfnod 1. Nid oedd hynny'n amlwg yn fai arnom ni, ond yn amlwg, ni fu Cyfnod 1. Rwy'n credu ei bod yn ddefnyddiol archwilio'r mater hwn, ac rwy'n credu ei bod yn ddefnyddiol ystyried cyflwyno rhai pwerau benthyca yn y Bil hwn. Fel y dywedodd Paul Davies, bydd yn rhaid cael rhai rheoliadau a chanllawiau manwl iawn wrth gwrs ynglŷn â sut y byddai'r pwerau benthyca hynny'n cael eu harfer. Mae'r safbwynt y mae Jocelyn newydd ei amlinellu ychydig yn bwyllog yn hynny o beth, ond, os gallwn wneud y ddarpariaeth hon yma yn y Bil hwn, rwy'n sicr yn meddwl y bydd y Gweinidog wedyn yn gallu gwneud y gwaith manwl, a byddwn wedyn yn gallu rhoi'r pwerau benthyca hynny i'r byrddau iechyd lleol er mwyn iddynt allu gwneud defnydd da ohonynt i helpu i wella stad y GIG ledled Cymru.

18:08 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I put on record my thanks to Paul Davies for the way in which he has introduced this debate into the consideration of this Bill, and for the work that he has invested in bringing the amendment in front of us today. I could thank him for making the arguments both for and against the proposition in the opening speech that he provided. [Laughter.] As he indicated, my argument is bound to be that, while I certainly see that there is merit to be considered in the arguments for borrowing powers, I do not believe that this fast-track Bill is the appropriate conduit through which borrowing powers for local health boards should be considered.

Rwyf am gofnodi fy niolch i Paul Davies am y ffordd y mae wedi cyflwyno'r ddadl hon i'r broses o ystyried y Bil hwn, ac am y gwaith y mae wedi'i fuddsoddi er mwyn dod â'r gwelliant ger ein bron heddiw. Gallwn ddiolch iddo am gyflwyno'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y cynnig yn yr araith agoriadol a roddodd. [Chwerthin.] Fel y dywedodd, er fy mod yn sicr yn gweld bod gwerth yn y dadleuon o blaid pwerau benthyca, fy nadl i, yn rhwym o fod, yw nad wyf yn credu mai'r Bil carlam hwn yw'r cyfrwng priodol ar gyfer ystyried rhoi pwerau benthyca i fyrddau iechyd lleol.

All the way through this Bill's passage I have felt a responsibility for ensuring that, having asked the Business Committee to agree to the Bill moving straight to the general principles debate without the usual full and detailed consideration at Stage 1, I should keep my side of the bargain by ensuring that the Bill focuses on what I said it would—that is to say, financial flexibility. While I do, as I have said, agree with the principle that borrowing powers should be considered, given the fast-track nature of this Bill, it has simply not been possible to allow enough time to develop and consult on the necessary additional proposals, and neither has the Assembly provided me with a mandate to do so. I think that I probably have to say to Paul that, while agreeing that borrowing powers are worth exploring in principle, 'worth exploring in principle' does not mean that all of the issues that might arise in that consideration can be easily solved. He has told us this afternoon that any ability to borrow must be matched by an ability to pay back and, indeed, local health boards do raise money. Sadly, from my perspective, that money is not sitting in their bank accounts. It is committed to being spent on services that they provide as soon as it is raised. It would not be available to support fresh borrowing powers.

Yr holl ffordd trwy daith y Bil hwn, ar ôl gofyn i'r Pwyllgor Busnes gytuno iddo symud yn syth i'r ddadl ynglŷn â'r egwyddorion cyffredinol heb yr ystyriaeth lawn a manwl arferol yng Nghyfnod 1, rwyf wedi teimlo cyfrifoldeb i sicrhau fy mod yn cadw fy ochr i o'r fargen trwy sicrhau bod y Bil yn canolbwyntio ar yr hyn a ddywedais y byddai—sef hyblygrwydd ariannol. Er fy mod, fel y dywedais, yn cytuno â'r egwyddor y dylid ystyried pwerau benthyca, o gofio natur garlam y Bil hwn, nid fu modd caniatáu digon o amser i ddatblygu ac ymgynghori ar y cynigion ychwanegol sydd eu hangen, ac nid yw'r Cynulliad ychwaith wedi rhoi mandad imi wneud hynny. Mae'n rhaid imi ddweud wrth Paul, yn ôl pob tebyg, fy mod yn cytuno bod pwerau benthyca yn werth eu harchwilio mewn egwyddor, ond nad yw 'yn werth eu harchwilio mewn egwyddor' yn golygu y gellid datrys yn hawdd pob un o'r materion a allai godi yn ystod yr ystyriaeth honno. Mae wedi dweud wrthym brynhawn heddiw bod yn rhaid wrth y gallu i dalu yn ôl, i gyd-fynd ag unrhyw allu i fenthyca ac, yn wir, mae byrddau iechyd lleol yn codi arian. Yn anffodus, o'm safbwynt i, nid yw'r arian hwnnw'n eistedd yn eu cyfrifon banc. Mae wedi ei ymrwymo i gael ei wario ar wasanaethau y maent yn eu darparu cyn gynted ag y caiff ei godi. Ni fyddai ar gael i gefnogi pwerau benthyca ffres.

So, for that, and for many other reasons, I think that borrowing powers—much in the way that Jocelyn Davies has already suggested—can only be brought forward once the potential consequences for Welsh Government funding and accounting, existing legislation and related issues, have been fully explored. That would also need to take into account the Welsh Government's borrowing powers, as envisaged by the Silk commission. These are complex issues, in fact, not simple matters of principle. I think that it is important that they are fully explored through a full, legislative process. Thus while the principle has some attraction, I must ask Members not to support the amendment this afternoon.

Felly, oherwydd hynny, ac am lawer o resymau eraill, rwy'n meddwl na ellir cyflwyno pwerau benthyca—yn y ffordd y mae Jocelyn Davies eisoes wedi awgrymu—hyd nes i'r canlyniadau posibl o ran trefniadau cyllido a chyfrifyddu Llywodraeth Cymru, deddfwriaeth bresennol a materion cysylltiedig, gael eu harchwilio'n llawn. Byddai angen i hynny hefyd roi ystyriaeth i bwerau benthyca Llywodraeth Cymru, fel y'u rhagwelwyd gan gomisiwn Silk. Mae'r rhain yn faterion cymhleth, mewn gwirionedd, ac nid materion syml o egwyddor. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iddynt gael eu harchwilio'n llawn drwy broses ddeddfwriaethol gyflawn. Felly er bod yr egwyddor yn ddeniadol, rhaid imi ofyn i Aelodau beidio â chefnogi'r gwelliant brynhawn heddiw.

18:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Paul Davies to reply.

Galwaf ar Paul Davies i ymateb.

18:11

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am disappointed that the Minister and, indeed, others have decided not to take this opportunity to grant borrowing powers to local health boards, particularly given their substantial budgets, as just outlined by the Minister. I think that this legislation is a perfect vehicle to grant local health boards borrowing powers. As Peter Black said, we need to grasp this opportunity now. It is more important than ever that local health boards have a variety of tools at their disposal to help manage their finances. I appreciate that the Minister may look at introducing legislation on borrowing in the future, but clearly that is a number of years away. Local health boards require all of the tools at their disposal now to deal with the financial challenges ahead. I therefore urge the Minister and indeed others to reconsider their positions and support this amendment.

Rwy'n siomedig bod y Gweinidog ac, yn wir, eraill wedi penderfynu peidio â chymryd y cyfle hwn i roi pwerau benthyca i fyrddau iechyd lleol, yn enwedig o ystyried eu cyllidebau sylweddol, fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog. Credaf fod y ddeddfwriaeth hon yn gyfrwng perffaith i roi pwerau benthyca i fyrddau iechyd lleol. Fel y dywedodd Peter Black, mae angen i ni achub ar y cyfle hwn yn awr. Mae'n bwysicach nag erioed i amrywiaeth o arfau fod ar gael i fyrddau iechyd lleol i'w cynorthwyo i reoli eu harian. Rwy'n sylweddoli y gallai'r Gweinidog ystyried cyflwyno deddfwriaeth ar fenthyca yn y dyfodol, ond mae'n amlwg bod hynny nifer o flynyddoedd i ffwrdd. Mae ar fyrddau iechyd lleol angen yr holl arfau posibl yn awr i ddelio â'r heriau ariannol sydd o'n blaenau. Felly, rwy'n annog y Gweinidog ac yn wir eraill i ailystyried eu safbwynt a chefnogi'r gwelliant hwn.

18:12

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 6 be agreed to. Does any Member object? There is objection; therefore we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad; felly fe gawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6.

Result of the vote on amendment 6.

*Gwrthodwyd gwelliant 6: O blaid 18, Yn erbyn 28, Ymatal 9.*

*Amendment 6 not agreed: For 18, Against 28, Abstain 9.*

18:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Paul Davies to move amendment 7.

Galwaf ar Paul Davies i gynnig gwelliant 7.

18:13

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 7 yn fy enw i, gyda chefnogaeth Peter Black.

I move amendment 7 in my name, supported by Peter Black.

18:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 7 is not agreed, amendment 8 will fall. The question is that amendment 7 be agreed to. Does any Member object? There is objection; therefore we will have an electronic vote.

Os nad yw gwelliant 7 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 8 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly fe gawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7.

Result of the vote on amendment 7.

*Gwrthodwyd gwelliant 7: O blaid 27, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment 7 not agreed: For 27, Against 28, Abstain 0.*

*Methodd gwelliant 8.*

*Amendment 8 fell.*

18:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the NHS Finance (Wales) Bill. I declare that all sections of the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

Rydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o'r Bil Cyllid y GIG (Cymru). Rwy'n datgan y bernir bod pob adran o'r Bil wedi cael eu cytuno. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

# Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Cyllid y GIG (Cymru)

# Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the NHS Finance (Wales) Bill

Cynnig

Motion

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.47, yn cymeradwyo'r Bil Cyllid y GIG (Cymru).

The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.47, approves the NHS Finance (Wales) Bill.

18:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford, the Member in charge of the Bill, to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur, i gynnig y cynnig.

18:14 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Rwy'n cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymeradwyo Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru). Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Bil hwn. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i roi'r Bil hwn ar y llwybr carlam oherwydd bod brys mawr amdano, ac mae amryw bwyllgorau'r Cynulliad wedi ystyried prif ddarpariaeth y Bil cyn iddo gael ei gyflwyno. Drwy gydol y broses o basio, mae llawer o drafodaeth wedi bod ynghylch y Bil a hoffwn ddiolch i Aelodau'r Cynulliad o bob rhan o'r Siambr am eu gwaith adeiladol.

I propose that the National Assembly for Wales approves the NHS Finance (Wales) Bill. I thank everyone who has contributed to developing this Bill. The Business Committee has agreed to put this Bill on the fast track because it is urgent, and a variety of Assembly committees have considered the main provisions of the Bill before it was introduced. Throughout the process of passing there has been a lot of discussion about the Bill and I wish to thank the Assembly Members from all parts of the Chamber for their constructive work.

As a result of that work, I believe that the Bill has been strengthened at both Stages 2 and 3 of the scrutiny process.

O ganlyniad i'r gwaith hwnnw, rwy'n credu bod y Bil wedi cael ei gryfhau yng Nghyfnod 2 a 3 y broses graffu.

It is important for me to put on record just once again that, while this Bill will provide local health boards with greater flexibility, it does not provide any extra money. The Welsh Government will be scrutinising, reviewing and approving the plans of local health boards, and my department will still need to ensure that resources are available each year to cover planned expenditure, including cover for any flexibility and tolerance this Bill will bring. The resources available will set the extent of financial flexibility that can be afforded over a rolling three-year period. This Bill, and the planning framework that underpins it, will provide a longer planning horizon, rather than always being focused on the next 12 months. It will enable local health boards to deliver the benefits they have told us they expect to realise, such as better integrated service, workforce and financial planning, through aligning the timing of resource requirements with service change and service transfer timescales.

Mae'n bwysig imi gofnodi un waith eto y bydd y Bil hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i fyrddau iechyd lleol, ond nad yw'n darparu unrhyw arian ychwanegol. Bydd Llywodraeth Cymru yn craffu ar gynlluniau byrddau iechyd lleol, yn eu hadolygu ac yn eu cymeradwyo, a bydd angen o hyd i'm hadran i sicrhau bod adnoddau ar gael bob blwyddyn i dalu am wariant a gynlluniwyd, gan gynnwys unrhyw hyblygrwydd a goddefiant a ddaw gyda'r Bil hwn. Bydd yr adnoddau sydd ar gael yn pennu graddfa'r hyblygrwydd ariannol y gellir ei fforddio dros gyfnod o dair blynedd dreigl. Bydd y Bil hwn, a'r fframwaith cynllunio sy'n sail iddo, yn darparu gorwel cynllunio hwy, yn hytrach na gorfod canolbwyntio bob amser ar y 12 mis nesaf. Bydd yn galluogi byrddau iechyd lleol i ddarparu'r manteision y maent wedi dweud wrthym eu bod yn disgwyl eu gwireddu, megis proses gynllunio fwy integredig ar gyfer gwasanaethau, y gweithlu ac arian, trwy sicrhau bod amseriad gofynion o ran adnoddau yn cyd-fynd ag amserlenni newid a throsglwyddo gwasanaethau.

The Bill will enable better decision making by local health boards, enabling them to move away from the short-termism that is encouraged by the current system. It will produce better alignment between the financial and the planning cycles, which will itself help to provide sustainable services and financial sustainability where planning implementation is longer than the current annual financial cycle. However, as we have always said, the Bill does not provide extra money. Instead, through new planning and approval mechanisms, it will make sure that budgets are used to best effect. I look forward to reporting back to the Assembly on the operation of the new duty that this Bill brings and how local health boards have benefited from the flexibility it affords. This has been a short and focused piece of legislation, but it is one that I believe will punch well above its weight in promoting and securing improvement in the Welsh NHS.

Bydd y Bil yn galluogi byrddau iechyd lleol i wneud penderfyniadau gwell, gan eu galluogi i roi'r gorau i bwysleisio ar y tymor byr, fel y mae'r system bresennol yn ei annog. Bydd yn sicrhau bod y cylchoedd ariannol a chynllunio yn cyd-fynd yn well â'i gilydd, a hynny ynddo'i hun yn helpu i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a chynaliadwyedd ariannol lle y gwneir cynlluniau dros gyfnod hirach na'r cylch ariannol blynyddol presennol. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi dweud erioed, nid yw'r Bil yn darparu arian ychwanegol. Yn lle hynny, trwy fecanweithiau cynllunio a chymeradwyo newydd, bydd yn gwneud yn siŵr bod cyllidebau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau. Edrychaf ymlaen at gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar weithredu'r ddyletswydd newydd a ddaw gyda'r Bil hwn a sut y mae byrddau iechyd lleol wedi elwa ar yr hyblygrwydd y mae'n ei roi. Mae hwn wedi bod yn ddarn byr o ddeddfwriaeth â phwyslais penodol, ond mae'n un a fydd yn cyflawni llawer, rwy'n credu, o ran hyrwyddo a sicrhau gwelliant yn y GIG yng Nghymru.

Diolch i bob un am ei gefnogaeth; rwy'n gofyn i chi bleidleisio o blaid y Bil a'i basio ar Gyfnod 4. Diolch.

My thanks to everyone for their support; I ask that you vote for the Bill, to pass it at Stage 4. Thank you.

18:17

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to have worked with other parties on a cross-party basis in relation to this Bill. Ultimately, what we all want to achieve from this piece of legislation is to ensure that local health boards have the right degree of financial flexibility as they go forward. Throughout this process, we have been focusing on three key areas: the introduction of tolerance limits, granting local health boards the power to borrow, and ensuring that there are key checks and balances as part of this legislation. While I am disappointed that some of our specific amendments have not been accepted, I am pleased that the Government has brought forward its own amendments on tolerance limits, and that our general argument has been accepted. I also accept that there are clearer checks and balances in this legislation now, even if they do not go as far as I would have liked. In the interests of transparency and accountability, it would have been useful to have had something concrete on the face of the Bill with regards to reviewing the legislation, but we are where we are.

Rwy'n falch o fod wedi gweithio gyda phleidiau eraill ar sail draws-bleidiol mewn cysylltiad â'r Bil hwn. Yn y pen draw, yr hyn yr ydym i gyd am ei gyflawni trwy gyfrwng y darn hwn o ddeddfwriaeth yw sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn cael y radd gywir o hyblygrwydd ariannol wrth symud ymlaen. Trwy gydol y broses hon, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: cyflwyno terfynau goddefiant, rhoi'r pŵer i fyrddau iechyd lleol fenthyca, a sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn cynnwys dulliau o archwilio a chloriannu. Er fy mod yn siomedig nad yw rhai o'n gwelliannau penodol wedi cael eu derbyn, rwy'n falch bod y Llywodraeth wedi cyflwyno ei gwelliannau ei hun ar derfynau goddefiant, a bod ein dadl gyffredinol wedi cael ei derbyn. Rwyf hefyd yn derbyn bod y ddeddfwriaeth hon yn awr yn cynnwys dulliau mwy eglur o achwilio a chloriannu, hyd yn oed os nad ydynt yn mynd mor bell ag y byddwn wedi hoffi. Er budd tryloywder ac atebolrwydd, byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael rhywbeth penodol ar wyneb y Bil o ran adolygu'r ddeddfwriaeth, ond yr ydym ble'r ydym.

I am also pleased that we have had the opportunity to test the waters in relation to borrowing powers for local health boards. Given that the Minister has accepted this idea in principle, I look forward to future legislation in this area. I am therefore pleased to have worked with other parties to formulate the specifics of this Bill, and I hope that this Bill brings the benefits to the NHS that we all want to see, namely to enable local health boards to manage their resources more sensibly and sustainably. In the circumstances, we on the side of the Chamber will be supporting the Bill at Stage 4. Thank you.

Rwyf hefyd yn falch ein bod wedi cael y cyfle i brofi'r dyfroedd o safbwynt pwerau benthyca i fyrddau iechyd lleol. O ystyried bod y Gweinidog wedi derbyn y syniad hwn mewn egwyddor, edrychaf ymlaen at weld deddfwriaeth yn y maes hwn yn y dyfodol. Felly, rwy'n falch o fod wedi gweithio gyda phleidiau eraill i lunio manylion y Bil hwn, ac rwy'n gobeithio y bydd y Bil hwn yn dod â'r manteision i'r GIG yr ydym i gyd am eu gweld, sef galluogi byrddau iechyd lleol i reoli eu hadnoddau mewn modd mwy synhwyrol a chynaliadwy. O dan yr amgylchiadau, byddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cefnogi'r Bil yng Nghyfnod 4. Diolch.

18:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you want the final word, Minister?

A ydych chi eisiau'r gair olaf, Weinidog?

18:19

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for that indication of support.

Rwy'n ddiolchgar am yr arwydd o gefnogaeth.

18:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that the National Health Service Finance (Wales) Bill be passed. Does any Member object? There is no objection. Therefore, the Bill is agreed to in accordance with Standing Order 26.47.

Y cwestiwn yw a ddylai Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) gael ei basio. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r Bil yn cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We shall now move to voting time. We are going to vote on the debate on the general principles of the Education (Wales) Bill. Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Byddwn yn awr yn symud at y cyfnod pleidleisio. Rydym yn mynd i bleidleisio ar y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg (Cymru). Cyn imi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5376.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5376.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5376.

Result of the vote on motion NDM5376.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 29, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 29, Against 28, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio o blaid y cynnig.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting for the motion.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5377.

Result of the vote on motion NDM5377.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 29, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 29, Against 28, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio o blaid y cynnig.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his vote by voting for the motion.*

18:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:22.*

*The meeting ended at 18:22.*